Cadeirydd

Y Canllawiau Golygyddol yw un o’r dogfennau pwysicaf y mae’r BBC yn eu cyhoeddi.

Rydym yn gwybod bod y cyhoedd, fel sy’n briodol, yn disgwyl y safonau uchaf gan y BBC ac mae’r Canllawiau hyn yn nodi’r safonau a ddisgwylir gan bawb sy’n ymwneud â gwneud rhaglenni a chynnwys arall ar gyfer y BBC.

Mae’r cyhoedd yn disgwyl i’r wybodaeth a dderbyniant gan y BBC fod yn awdurdodol, felly mae’r Canllawiau’n rhoi llawer o bwyslais ar safonau tegwch, cywirdeb ac amhleidioldeb. Heb y rhain, ni ellir cyflawni rôl allweddol y BBC o gefnogi democratiaeth sy’n seiliedig ar wybodaeth.

Mae’r cyhoedd hefyd yn disgwyl safonau uchel gan allbwn adloniant y BBC yn ei wahanol ffurfiau. Rhaid taro cydbwysedd yma. Ar yr un llaw mae gan y BBC gyfrifoldeb dros amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed, osgoi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau, a diogelu lles plant a phobl ifanc. Ar y llaw arall, mae gan y BBC hawl i ddarlledu gwaith heriol ac arloesol sy’n profi rhagdybiaethau ac yn ymestyn gorwelion.

Mae’r rhain yn bethau anodd i’w cael yn iawn. Ond pan fydd y BBC yn eu cael yn iawn, mae’n ennill rhywbeth pwysig: ymddiriedaeth y cyhoedd.

Y maen prawf yw allbwn nodedig o ansawdd uchel, beth bynnag fo’r gwasanaeth, beth bynnag fo’r genre, pwy bynnag fo’r gynulleidfa. Mae Ymddiriedolaeth y BBC am i’r BBC fod yn safon aur ym mhopeth a wneir ganddo, boed hynny’n darparu gwybodaeth, addysg neu adloniant. Bydd y Canllawiau hyn yn cynorthwyo’r BBC i gyrraedd y nod hwn, ac maent i bawb sy’n comisiynu neu'n cynhyrchu rhaglenni neu gynnwys arall ar gyfer y BBC.

Sir Michael Lyons
Cadeirydd y BBC

## Y Prif Gyfarwyddwr

Mewn byd delfrydol, dim ond un frawddeg fyddai yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC: defnyddiwch eich doethineb.

Ni all unrhyw reolau na chanllawiau fyth ddisodli’r angen i gynhyrchwyr, golygyddion a rheolwyr i ddefnyddio'r doethineb sy'n deillio o brofiad, synnwyr cyffredin a chyfres glir o werthoedd golygyddol a moesegol pan fyddant yn wynebu heriau golygyddol anodd.

Yr hyn sy’n gwneud y Canllawiau mor werthfawr yw mai dyma’n union sydd yma – blynyddoedd o brofiad, synnwyr cyffredin a gwerthoedd a ddatblygwyd gan ymarferwyr y BBC dros nifer o flynyddoedd – wedi’u distyllu yn y Canllawiau hyn. Nid ydynt yn haniaethol nac yn ddamcaniaethol, ond yn hytrach yn seiliedig ar achosion real a’r gwersi a ddysgwyd o wir lwyddiannau a gwir fethiannau. Felly, mae’r Canllawiau yma i’ch cynorthwyo chi pan fyddwch yn barnu drosoch eich hun, ac maent hefyd yn gorfodi golygyddion a rheolwyr i gefnogi. Weithiau byddant yn dweud wrthych am gyfeirio at rywun uwch, ond ni ddylech fyth fod ofn gofyn am gyngor gan rywun.

Mae technoleg newydd, cyfryngau newydd a galwadau newydd ar y BBC yn golygu bod mwy o wybodaeth yn y Canllawiau hyn nag oedd yn yr argraffiad diwethaf. Maent wedi cael eu hail-feddwl a'u had-drefnu, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o rai methiannau golygyddol difrifol iawn – gyda chystadlaethau, ymyrraeth, camarwain ein cynulleidfaoedd. Maent yn nodi egwyddorion clir y dylai ein holl gynnwys lynu atynt, a set o arferion. Mae rhai o’r rhain yn orfodol hefyd, ond mae nifer yn gynghorol – yn syml, dyma arferion gorau gwneuthurwyr rhaglenni dros y blynyddoedd. Byddant o gymorth i chi greu’r cynnwys gorau posibl, i’r safonau uchaf, wrth ddangos y creadigrwydd a’r arloesedd sy’n anadl einioes y BBC.

Wrth ddarllen y Canllawiau, dylai meddwl am yr hyn sydd ganddynt i’w ddweud ac adlewyrchu eu gwerthoedd yn eich gwaith, sicrhau ei fod o fewn fframwaith rheoleiddio’r BBC. Bydd hefyd yn eich cynorthwyo i wneud cynnwys y BBC yn rhywbeth y gallwn oll fod yn falch ohono, gan barhau i ddifyrru, synnu a rhoi gwybodaeth i’n cynulleidfaoedd.

Mark Thompson
Y Prif Gyfarwyddwr

# ADRAN 1: GWERTHOEDD GOLYGYDDOL Y BBC

**1.1 Cyflwyniad**
**1.2 Gwerthoedd Golygyddol**
**1.3 Siarter a Chytundeb y BBC**

## 1.1 CYFLWYNIAD

Mae cynulleidfaoedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu allbwn i'n cynulleidfaoedd sy'n wreiddiol, o ansawdd uchel ac sydd, ar adegau, yn heriol. Creadigrwydd yw asgwrn cefn ein sefydliad.

Yn yr un modd, rhaid i ni roi cynnwys i'n cynulleidfaoedd sy'n cyrraedd y safonau golygyddol a moesegol uchaf. Mae eu hymddiriedaeth yn dibynnu ar hynny.

Rhaid i ni felly gydbwyso ein rhagdybiaeth o ryddid mynegiant â'n cyfrifoldebau, er enghraifft i barchu preifatrwydd, i fod yn deg, i osgoi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau ac i amddiffyn ein cynulleidfaoedd yn briodol rhag niwed[1].

Ceisiwn gynnal Gwerthoedd Golygyddol y BBC ym mhopeth a wnawn. Maent yn ymgorffori ein rhyddid a'n cyfrifoldebau ac, yn yr un modd â'r Canllawiau Golygyddol, maent yn berthnasol i'n holl gynnwys, boed hwnnw'n cael ei wneud gan y BBC ei hun neu gan gwmni annibynnol sy'n gweithio i'r BBC a boed yn cael ei wneud ar gyfer y radio, teledu, ar-lein, dyfeisiau symudol, gwasanaethau rhyngweithiol neu ddeunyddiau a argreffir. Yr hyn sy'n dilyn yw gofynion uchelgeisiol, ond maent yn hanfodol i bopeth a wnawn.

## 1.2 GWERTHOEDD GOLYGYDDOL

### 1.2.1 Ymddiriedaeth

Ymddiriedaeth yw sylfaen y BBC: rydym ni'n annibynnol, yn amhleidiol ac yn onest. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac amhleidioldeb teg ac rydym yn ymdrechu i beidio â chamarwain ein cynulleidfaoedd yn sylweddol nac yn fwriadol.

### 1.2.2 Y Gwir a Chywirdeb

Byddwn yn ceisio canfod y gwir am yr hyn sydd wedi digwydd ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni cywirdeb teg yn ein holl allbwn. Mae cywirdeb yn golygu mwy na dim ond cael y ffeithiau'n iawn; pan fydd angen, byddwn yn pwyso ac yn mesur ffeithiau a gwybodaeth berthnasol er mwyn cyrraedd y gwir. Bydd ein hallbwn, fel sy'n briodol i'w bwnc a'i natur, yn dod o ffynonellau da, yn seiliedig ar dystiolaeth

[1] Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cydnabod yr hawl i ryddid mynegiant sy'n cynnwys hawl cynulleidfa i gael deunyddiau creadigol, gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth, yn amodol ar gyfyngiadau mewn cyfraith. Mae hefyd yn cydnabod yr hawl i gael bywyd preifat a theuluol a rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd.

gadarn, wedi'i brofi'n drwyadl ac wedi'i gyflwyno mewn iaith glir a chywir. Byddwn yn ymdrechu i fod yn onest ac yn agored am yr hyn nad ydym yn ei wybod ac yn osgoi dyfalu di-sail.

### 1.2.3 Amhleidioldeb

Mae amhleidioldeb wrth graidd ymrwymiad y BBC i'w gynulleidfaoedd. Byddwn yn bod yn amhleidiol ym mhob pwnc a byddwn yn adlewyrchu ystod ac amrywiaeth barn ar draws ein hallbwn yn gyffredinol, dros gyfnod priodol, er mwyn sicrhau na fydd dim barn sylweddol yn cael ei anwybyddu na'i dangynrychioli. Byddwn yn deg ac yn cadw meddwl agored wrth archwilio tystiolaeth ac wrth bwyso a mesur ffeithiau o bwys.

### 1.2.4 Didwylledd ac Annibyniaeth Golygyddol

Mae'r BBC yn annibynnol ar fuddiannau a threfniadau allanol a allai danseilio ein didwylledd golygyddol. Dylai ein cynulleidfaoedd fod yn ffyddiog na ddylanwadir ar ein penderfyniadau gan fuddiannau allanol, pwysau gwleidyddol na masnachol nac unrhyw fuddiannau personol.

### 1.2.5 Niwed a Thramgwydd

Ein nod yw adlewyrchu'r byd fel y mae, gan gynnwys pob agwedd ar brofiad dynol a gwirionedd y byd naturiol. Ond rydym yn cydbwyso ein hawl i ddarlledu cynnwys arloesol a heriol â'n cyfrifoldeb i amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed ac i osgoi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau. Byddwn yn sensitif i safonau a dderbynnir yn gyffredinol ac yn glynu wrthynt, yn ogystal â disgwyliadau ein cynulleidfaoedd o'n cynnwys, yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant.

### 1.2.6 Gwasanaethu Budd y Cyhoedd

Byddwn yn ceisio adrodd straeon sydd o bwys i'n cynulleidfaoedd. Byddwn yn drwyadl wrth ddod o hyd i wirionedd y stori ac yn wybodus pan fyddwn yn ei hegluro. Bydd ein harbenigedd arbenigol yn dod ag awdurdod a dadansoddiad i'r byd cymhleth rydym yn byw ynddo. Byddwn yn gofyn cwestiynau dyrys i'r rheini sy'n dal swyddi cyhoeddus ac eraill sy'n atebol, a byddwn yn darparu fforwm cynhwysfawr ar gyfer dadl gyhoeddus.

### 1.2.7 Tegwch

Bydd ein hallbwn yn seiliedig ar fod yn deg, yn agored, yn onest ac yn uniongyrchol. Bydd cyfranwyr a chynulleidfaoedd yn cael eu trin â pharch.

### 1.2.8 Preifatrwydd

Byddwn yn parchu preifatrwydd ac ni fyddwn yn tresmasu arno heb reswm da, ni waeth lle yn y byd rydym yn gweithio. Ni fydd ymddygiad, gwybodaeth, gohebiaeth na sgyrsiau preifat yn cael eu dwyn i sylw'r cyhoedd oni bai fod budd y cyhoedd yn drech na'r disgwyliad o breifatrwydd.

### 1.2.9 Plant

Byddwn bob amser yn ceisio diogelu lles plant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at ein cynnwys ac sydd yn ein cynnwys, ni waeth lle yn y byd rydym yn gweithio. Byddwn yn cadw eu hawl i ddweud eu dweud a chymryd rhan, ar yr un pryd â sicrhau bod eu hurddas a'u lles corfforol ac emosiynol yn cael ei amddiffyn wrth wneud a darlledu ein hallbwn. Bydd cynnwys a allai fod yn anaddas i blant yn cael ei ddangos ar adegau priodol.

### 1.2.10 Tryloywder

Byddwn yn dryloyw am natur a tharddiad y cynnwys rydym yn ei gynnig ar-lein. Pan fydd yn briodol, byddwn yn nodi pwy sydd wedi'i greu a byddwn yn defnyddio labeli i helpu defnyddwyr ar-lein i wneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd y cynnwys iddynt eu hunain ac i'w plant.

### 1.2.11 Atebolrwydd

Rydym yn atebol i'n cynulleidfaoedd a byddwn yn delio â nhw'n deg ac yn agored. Mae eu hymddiriedaeth barhaus yn y BBC yn rhan hanfodol o'n perthynas â nhw. Byddwn yn agored drwy gydnabod camgymeriadau pan gânt eu gwneud a byddwn yn hybu diwylliant o barodrwydd i ddysgu o gamgymeriadau.

## 1.3 SIARTER A CHYTUNDEB Y BBC

1.3.1 Mae Gwerthoedd Golygyddol y BBC a'r Canllawiau Golygyddol wedi'u gwreiddio yn y Siarter Brenhinol a'r Cytundeb.

Mae'r Siarter Brenhinol yn gwarantu annibyniaeth olygyddol y BBC ac yn nodi ei Ddibenion Cyhoeddus[2]. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil
- hyrwyddo addysg a dysgu
- ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
- cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
- dod â'r DU at sylw'r byd a'r byd at sylw'r DU
- wrth hyrwyddo ei ddibenion eraill, helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn elwa ar y technolegau a'r gwasanaethau cyfathrebu sy'n datblygu ac, yn ogystal, cymryd rôl arweiniol yn y broses o newid i deledu digidol.

1.3.2 Mae'r Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC yn nodi y dylem wneud popeth y gallwn ei wneud i "*sicrhau bod pynciau dadleuol yn cael eu trin â chywirdeb ac*

[2] Adran 4, y Siarter Brenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Medi 2006

*amhleidioldeb teg*"[3] yn ein newyddion a'n hallbwn arall sy'n delio â materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus neu ddadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol. Dywed hefyd na chaiff ein hallbwn fynegi barn y BBC ar faterion cyfoes na materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus, ac eithrio darlledu neu ddarparu gwasanaethau ar-lein. Mae adrannau Cywirdeb, Amhleidioldeb a Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau'r Canllawiau Golygyddol yn cynnwys cod Ymddiriedolaeth y BBC fel sy'n ofynnol dan Baragraff 44 (5) y Cytundeb, sy'n rhoi arweiniad ynghylch y rheolau sydd i'w dilyn yng nghyswllt Paragraffau 44 (1) i 44 (4) y Cytundeb.

1.3.3 Ar ben hynny, mae'r Cytundeb yn gwahardd unrhyw un o wasanaethau'r BBC a gyllidir gan ffi'r drwydded neu gymorth grant rhag cynnwys unrhyw hysbysebion na rhaglenni a noddir. Er mwyn amddiffyn didwylledd ac annibyniaeth golygyddol, mae'r BBC wedi llunio ei ganllawiau ei hun ar safonau ar gyfer hysbysebu a nawdd ar gyfer ei wasanaethau teledu masnachol a'i wasanaethau ar-lein.

[3] Paragraff 44 (1), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

# ADRAN 2: DEFNYDDIO'R CANLLAWIAU

**2.1 Cyflwyniad**
**2.2 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**
**2.3 Egwyddorion ac Arferion**
**2.4 Cyfiawnhad Golygyddol**
**2.5 Arweiniad**
**2.6 Ffynonellau Eraill o Gyngor**

## 2.1 CYFLWYNIAD

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn berthnasol i'n holl gynnwys ni waeth pwy sy'n ei greu neu'n ei wneud a lle bynnag a sut bynnag y bydd yn cael ei dderbyn. Maent yn rhoi'r safonau a ddisgwylir gan bawb sy'n gwneud neu'n cyflwyno allbwn y BBC. Byddant yn helpu unrhyw un, yn fewnol, yn annibynnol, yn wasanaeth cyhoeddus neu fasnachol, i ddelio â materion golygyddol anodd, i ddiwallu disgwyliadau'r gynulleidfa ac i gynhyrchu cynnwys gwahanol a heriol i'r safonau moesegol a golygyddol uchaf.

Yn ogystal â chynrychioli gwerthoedd a safonau'r BBC, mae'r Canllawiau Golygyddol yn adlewyrchu darpariaethau perthnasol Cod Darlledu Ofcom[1]. Bydd cynnwys neu allbwn (caiff y naill derm ei gyfnewid am y llall drwy gydol y ddogfen) sy'n diwallu'r safonau yn y Canllawiau hefyd yn diwallu'r gofynion rheoliadol drwy gyflawni proses cydymffurfio orfodol y BBC.

Caiff y Canllawiau eu comisiynu a'u cymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC. Cânt eu cyhoeddi, maent ar gael i'r cyhoedd, ac fe'u defnyddir fel sylfaen ar gyfer ystyried cwynon am allbwn y BBC. Maent yn rhan o'r hyn sy'n gwneud y BBC yn wahanol.

**Rhaid rhoi cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gynnig i gamu'r tu allan i'r Canllawiau Golygyddol. Rhaid ei drafod a chytuno ar hynny ymlaen llaw ag uwch swyddog golygyddol neu â'r golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cyrff annibynnol. Rhaid hefyd ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## 2.2 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

### *Cyfrifoldeb Golygyddol*

2.2.1 Mae'r cyfrifoldeb golygyddol yn y BBC yn disgyn ar ysgwyddau'r gadwyn rheoli olygyddol o gynhyrchydd y rhaglen neu'r cynnwys, boed hynny'n fewnol neu'n annibynnol, drwodd i'r cyfarwyddwr adrannol, ac i Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, sef y prif olygydd.

### *Cynhyrchwyr Cynnwys a'u Rheolwyr*

[1] Gweler Adran 19 Atebolrwydd: 19.3 ac Atodiad 1: Cod Darlledu Ofcom

2.2.2 Mae gwybodaeth am y Canllawiau yn sgìl broffesiynol hanfodol, ac mae’n ofynnol dan gontract i bawb sy’n gwneud cynnwys y BBC fod yn gyfarwydd â’r Canllawiau a glynu wrthynt.

2.2.3 Wrth ddefnyddio’r Canllawiau, disgwylir i gynhyrchwyr cynnwys unigol wneud y penderfyniadau angenrheidiol mewn sawl maes, ond mae’n rhaid ystyried rhai materion yn ofalus ar lefel uwch. Mae’r Canllawiau felly’n cynghori, ac ambell waith yn mynnu, y cyfeirir materion at uwch swyddogion golygyddol, Polisi Golygyddol neu arbenigwyr mewn rhannau eraill o’r BBC megis Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

2.2.4 Rhaid i olygyddion a rheolwyr fod yn barod i drafod y meysydd sy’n destun pryder ac yn barod i gynnig arweiniad. Rhaid iddynt gefnogi cynhyrchwyr a staff eraill wrth reoli eu cynnwys yn olygyddol, gan gynnwys goruchwylio talent ar yr awyr yn effeithiol.

***Cyfeirio***

2.2.5 Mae cyfeirio wrth galon proses olygyddol y BBC ac yn rhoi nerth iddo. Ni ddylai neb sy’n ymwneud â gwneud na chyflwyno ein hallbwn oedi ennyd cyn cyfeirio cyfyng gyngor golygyddol.

Po bwysicaf neu ddadleuol yw’r mater, yr uchaf y dylid cyfeirio. Chi sy’n gyfrifol am wybod pwy y dylech chi gyfeirio atynt yn eich Adran.

2.2.6 Mae’r Canllawiau Golygyddol yn rhoi nifer o Gyfeiriadau Gorfodol. Gall y rhain fod i uwch swyddogion golygyddol yn adran yr allbwn, Polisi Golygyddol neu, ar adegau, rhannau eraill o’r BBC.

Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu’r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o’r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.

Caiff y Cyfeiriadau Gorfodol eu crynhoi ar ddechrau pob adran yn y Canllawiau. Fodd bynnag, rhaid eu darllen yng nghyd-destun yr Arferion perthnasol a groesgyfeirir er mwyn eu deall yn llawn.

2.2.7 Yn y Gwledydd ac yn Rhanbarthau Lloegr, rhaid rhoi gwybod i’r cyfarwyddwr neu’r rheolydd perthnasol am unrhyw fater sy’n Gyfeiriad Gorfodol i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

2.2.8 Weithiau, bydd y Canllawiau Golygyddol yn awgrymu neu’n gofyn am gyfeirio at adnodd mewnol y BBC na all cynhyrchwyr annibynnol gael ato. Mewn amgylchiadau o’r fath, fel rheol dylai’r rhai annibynnol gyfeirio at y golygydd sy’n comisiynu.

2.2.9 Os bydd safonau golygyddol yn y Canllawiau yn cael eu torri’n sylweddol, megis digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld mewn darllediad byw, dylid cyfeirio hyn yn ddiymdroi at uwch swyddog golygyddol priodol.

***Polisi Golygyddol***

2.2.10 Mae’r tîm Polisi Golygyddol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol, yn rhoi cyngor ar sut mae gweithio o fewn y Canllawiau ar bob cam o’r broses cynhyrchu ar gyfer pob math o gynnwys. Po cyntaf y caiff y cynnwys a allai fod yn ddadleuol ei gyfeirio, y gorau. Mae cyngor ar gael 24 awr y dydd.

Mae Polisi Golygyddol hefyd yn gyfrifol am ysgrifennu’r Canllawiau Golygyddol hyn, ac arweiniad arall sydd wedi’i ddylunio i sicrhau bod cynnwys y BBC yn cael ei wneud yn ôl y safonau golygyddol uchaf. Yn ogystal â’r Cyfeiriadau a nodir ym mhob adran, fel rheol dylid ymgynghori â Pholisi Golygyddol ynghylch ymholiadau am sut mae dehongli neu ddefnyddio’r Canllawiau Golygyddol.

***Cydymffurfio Golygyddol***

2.2.11 Mae cyfrifoldeb am gydymffurfio yn y BBC yn ogystal â’r cyfrifoldeb golygyddol yn disgyn ar ysgwyddau timau allbwn. Mae’r Canllawiau Golygyddol, cyfeiriadau a chyngor gan Bolisi Golygyddol yn gallu cyfrannu at y penderfyniadau sy’n hanfodol i gydymffurfiad golygyddol allbwn y BBC. Efallai y bydd cyngor cyfreithiol hefyd yn angenrheidiol.

(Gweler Adran 2 Defnyddio’r Canllawiau: 2.6.1 - 2.6.3)

Mae’n ofyniad hanfodol o’r broses cydymffurfio gorfodol ei bod yn rhaid i’r cynhyrchydd ac uwch swyddog golygyddol wylio neu wrando ar bob cynnwys sydd wedi’i recordio ymlaen llaw yn llawn cyn darlledu. **Ni cheir darlledu rhaglen sydd wedi’i recordio ymlaen llawn heb lenwi ffurflen cydymffurfio, neu gyfatebol. Dim ond nifer penodol o eithriadau mae modd eu caniatáu, a rhaid i’r cyfarwyddwr adrannol perthnasol gytuno ar hynny ymlaen llaw.**

Mae cyngor ar y broses cydymffurfio ar gael gan benaethiaid Safonau Golygyddol a/neu reolwyr cydymffurfio ym mhob adran allbwn.

## 2.3 EGWYDDORION AC ARFERION

2.3.1 Yr Egwyddorion yw’r safonau y mae’n rhaid i holl allbwn y BBC eu diwallu, ni waeth pwy sy’n ei wneud na lle yn y byd mae’n cael ei ddarlledu. (Sylwer bod y term ‘darlledu’ yn cael ei ddefnyddio drwy’r Canllawiau i gyfeirio at gyhoeddi cynnwys mewn unrhyw ffordd ac ar unrhyw lwyfan – gan gynnwys teledu, radio, ar-lein, mewn print, neu unrhyw ddull darparu arall.)

Mae’r Arferion, sy’n dilyn yr Egwyddorion ym mhob adran, yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethau o wneuthurwyr rhaglenni; maent yn fframwaith ar gyfer y penderfyniadau golygyddol y mae eu hangen wrth wneud ein hallbwn.

Mae’r Arferion yn helpu i ddiwallu’r gwerthoedd golygyddol perthnasol a’r Egwyddorion. Mae rhai o’r Arferion yn orfodol i sicrhau bod y BBC yn diwallu ei ofynion cyfreithiol a rheoliadol. Mae eraill yn gynghorol yn hytrach na gorfodol. Ym mhob amgylchiad arferol, dylid dilyn y rhain hefyd.

Gall amgylchiadau godi pan fyddai’n bosibl cyfiawnhau peidio â dilyn arfer cynghorol, ac efallai na fyddai’n golygu torri Egwyddor berthnasol. Dylai unrhyw un sy’n bwriadu

peidio â dilyn Arfer cynghorol geisio cyngor ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

## 2.4 CYFIAWNHAD GOLYGYDDOL

2.4.1 Mae cysyniad cyfiawnhad golygyddol i'w weld drwy'r Canllawiau Golygyddol ac mae'n ganolog i ddefnyddio ein gwerthoedd a'n safonau.

Mae'n benderfyniad ar amgylchiadau penodol pob achos, gan gydbwyso dibenion golygyddol ein hallbwn neu ein gweithredoedd â'u heffaith ar ein cynulleidfaoedd a phobl yn ein hallbwn (neu'r rhai agosaf atynt, pan fo hynny'n berthnasol).

## 2.5 ARWEINIAD

2.5.1 Ategir y Canllawiau Golygyddol gan ragor o Arweiniad, a ysgrifennwyd gan Bolisi Golygyddol yn ôl y galw a chânt eu cyhoeddi ar wefan Canllawiau Golygyddol y BBC. Mae'r Arweiniad yn cynnwys eglurhad pellach o'r themâu a'r polisïau yn y Canllawiau ac mae'n cynnig cyngor ymarferol ar eu defnyddio ac ar amrywiaeth o faterion cyffredin.

Pan roedd rhagor o Arweiniad ar gael adeg cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Canllawiau Golygyddol, cyfeirir ato ochr yn ochr â'r Arferion perthnasol. Fodd bynnag, caiff Arweiniad newydd ei gyhoeddi a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae cylchlythyr rheolaidd Polisi Golygyddol yn hysbysu'r rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC pan fydd arweiniad wedi cael ei gyhoeddi neu ei ddiwygio. Mae modd tanysgrifio i'r cylchlythyr ar wefan y Canllawiau Golygyddol.

## 2.6 FFYNONELLAU ERAILL O GYNGOR

***Cyfreithwyr y BBC***

2.6.1 Mae darlledu yn destun nifer o gyfreithiau gwahanol yn amrywio o ddifenwi a dirmyg i anlladrwydd, preifatrwydd, anogaeth ac iechyd a diogelwch. Gall problemau cyfreithiol godi nid yn unig oherwydd yr hyn rydym yn ei ddarlledu ond oherwydd sut rydym yn creu ein cynnwys, felly dylid ceisio cyngor cyfreithiol priodol mewn da bryd. Dylai'r rheini sy'n gwneud cynnwys yn fewnol droi at yr adran Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn uniongyrchol.

Gall cynhyrchwyr annibynnol gyfeirio cwestiynau cyfreithiol drwy eu golygydd comisiynu (a fydd yn eu trafod â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni) ond ni ddylent oedi cyn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Ceir rhai meysydd lle mae hyn yn hanfodol.

Mae gan y BBC Brif Dwrnai ar wahân yn yr Alban sy'n gallu cynghori ar faterion sy'n ymwneud â chyfreithiau'r Alban.

2.6.2 Wrth ystyried y materion a godir gan y Canllawiau Golygyddol, mae'n aml yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng y gyfraith ar un llaw a rheoliadau darlledu a moeseg y BBC ar y llaw arall. Efallai y cyfyd adegau pan fydd cynnwys yn ddigon diogel yn gyfreithiol i'w ddarlledu ond mae'n dal yn peri risgiau rheoliadol neu o ran enw da'r BBC, megis pan fydd plant dan sylw neu pan fydd materion sy'n ymwneud â

phreifatrwydd yn codi. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y BBC yn ceisio ymddwyn yn foesegol. Felly er bod cyfreithwyr yn gallu cynnig cyngor cyfreithiol, penderfyniad golygyddol yw'r penderfyniad terfynol.

**2.6.3 Rhaid cyfeirio unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen er gwaethaf cyngor cyfreithiol at y lefel golygyddol uchaf yn yr adran berthnasol a Chyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith)

***Gwledydd a Rhanbarthau***

2.6.4 Ceir strwythurau a diwylliannau gwleidyddol gwahanol yn y DU, a materion sensitif gwahanol mewn gwledydd a rhanbarthau gwahanol, a dylem barchu ac adlewyrchu'r rhain. Ceir gwahaniaethau ym mhwerau Senedd y DU yn San Steffan, Senedd yr Alban a chynulliadau Cymru a Gogledd Iwerddon. Ceir hefyd gwahaniaethau sylweddol yn systemau cyfreithiol y gwledydd, yn ogystal ag o ran darparu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.1)

2.6.5 Dylai unrhyw gynhyrchwyr cynnwys sy'n bwriadu cynhyrchu rhaglenni am Ogledd Iwerddon neu brosiectau sylweddol sy'n ymwneud â Gweriniaeth Iwerddon drafod eu cynigion â Chyfarwyddwr Gogledd Iwerddon ar gam cynnar. Yn yr un modd, dylai cynhyrchwyr cynnwys y tu allan i Gymru a'r Alban roi gwybod i gyfarwyddwr y wlad berthnasol ar bapur am eu cynlluniau i gynhyrchu deunyddiau rhaglen sy'n delio'n sylweddol â materion neu themâu sy'n ymwneud â'r wlad honno, neu sy'n seiliedig yn y wlad honno.

***Arbenigwyr Eraill***

2.6.6 Mae gan y BBC arbenigwyr mewn nifer o bynciau a allai helpu'r rheini sy'n gwneud cynnwys i'r BBC gyflawni'r safonau golygyddol uchaf. Mae arbenigwyr o'r fath yn cynnwys gwasanaethau iaith y World Service, y golygyddion arbenigol mewn Casglu Newyddion, yr Uned Ymchwil Wleidyddol, yr Adran Crefydd a Moeseg, yr Adran Wyddoniaeth a'r Uned Hanes Naturiol, ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

***Canllawiau Masnachu Teg y BBC***

2.6.7 Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn ymwneud â materion golygyddol ac unrhyw gyfeiriadau a wneir at sefydliadau a chynnyrch masnachol yn ein cynnwys. Mae cyngor ar weithgareddau masnachol y BBC ac ymelwa'n fasnachol ar frand y BBC, gan gynnwys ei ddefnyddio ar y cyd â thrydydd partïon, ar gael yng Nghanllawiau Masnachu Teg y BBC. Maent yn edrych ar gwestiynau megis pa mor dderbyniol yw mentrau masnachol y BBC a sut y dylid eu cynnal, defnyddio brand y BBC, gweithgareddau hyrwyddo oddi ar y sgrin a masnachu yn deg.

***Diogelwch y BBC***

2.6.8 Mae Diogelwch y BBC yn cynghori ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd galwedigaethol, diogelwch, diogeledd a materion amgylcheddol sy'n effeithio ar y BBC. Mae gan Diogelwch y BBC arbenigwyr ar alwad 24 awr y dydd ar gyfer ymholiadau gweithredol brys ac i ymateb i argyfyngau.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.22)

# ADRAN 3: CYWIRDEB

**3.1 Cyflwyniad**
**3.2 Egwyddorion**
**3.3 Cyfeirio Gorfodol**
**3.4 Arferion**
**Casglu Deunyddiau**
**Dod o hyd i Gyfranwyr**
**Cadw Nodiadau**
**Osgoi Camarwain Cynulleidfaoedd**
**Rheoli Cynnwys Ar-lein**
**Gwirio Rhaglenni**
**Cywiro Camgymeriadau**

## 3.1 CYFLWYNIAD

Mae’r BBC wedi ymrwymo i gyflawni cywirdeb teg. Mae’r ymrwymiad hwn yn hollbwysig i’n henw da ac ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, sy’n sylfaen i’r BBC. Mae hefyd yn ofyniad o dan y Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC[1].

Mae’r term ‘teg’ yn golygu ei bod yn rhaid i’r cywirdeb fod yn ddigonol ac yn briodol i’r allbwn, gan ystyried pwnc a natur y cynnwys, disgwyliadau tebygol y gynulleidfa ac unrhyw gyfeirio a all ddylanwadu ar y disgwyliadau hynny.

Felly, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gael cywirdeb teg yn ein holl allbwn, er gall eu cynnwys amrywio. Fel rheol ni fydd y cywirdeb teg sy’n ofynnol ar gyfer drama, adloniant a chomedi er enghraifft, yr un fath â hwnnw sy’n ofynnol ar gyfer cynnwys ffeithiol. Efallai y bydd y gofynion hyd yn oed yn amrywio mewn genre, felly efallai fod y cywirdeb teg sy’n ofynnol mewn cynnwys ffeithiol yn wahanol yn dibynnu ar beth ydyw, er enghraifft, adloniant ffeithiol, rhaglen ddogfen hanesyddol, materion cyfoes neu’r newyddion.

Mae cywirdeb yn golygu mwy na dim ond cael y ffeithiau’n iawn. Os bydd mater yn ddadleuol, efallai y bydd angen ystyried safbwyntiau perthnasol yn ogystal â ffeithiau. Pan fydd angen, dylid hefyd pwyso a mesur yr holl ffeithiau a gwybodaeth perthnasol i gyrraedd y gwir.

Pan fydd yn briodol i’r allbwn, dylem:

- gasglu deunyddiau drwy ddefnyddio ffynonellau uniongyrchol pan fydd hynny’n bosibl
- gwirio a chroes wirio ffeithiau
- dilysu dilysrwydd tystiolaeth ddogfennol a deunyddiau digidol
- cadarnhau hawliadau a honiadau a wneir gan gyfranwyr pan fydd hynny’n bosibl.

Ym maes newyddion a materion cyfoes, mae cyflawni cywirdeb teg yn bwysicach na chyflymder.

[1] Paragraff 44 (1) *Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006*

## 3.2 EGWYDDORION

3.2.1 Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau'r cywirdeb teg yn ein holl allbwn.

3.2.2 Rhaid i holl gynnyrch y BBC, fel sy'n briodol i'w bwnc a'i natur, ddod o ffynonellau da, bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, wedi'i brofi'n drwyadl ac wedi'i gyflwyno mewn iaith glir a chywir. Dylem fod yn onest ac yn agored am yr hyn nad ydym yn ei wybod ac osgoi dyfalu di-sail. Fel rheol, dylid priodoli hawliadau, honiadau, ffeithiau perthnasol a chynnwys arall nad oes modd ei gadarnhau.

3.2.3 Rhaid i'r BBC beidio â chamarwain ei gynulleidfaoedd yn sylweddol ac yn fwriadol. Ni ddylem ystumio ffeithiau hysbys, cyflwyno deunyddiau a ddyfeisiwyd fel ffeithiau na thanseilio ymddiriedaeth ein cynulleidfaoedd yn ein cynnwys.

3.2.4 Fel rheol dylem gydnabod gwallau ffeithiol difrifol a'u cywiro'n gyflym, yn glir ac yn briodol.

## 3.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

3.3.1 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddibynnu ar un ffynhonnell nas enwyd sy'n gwneud honiad difrifol neu sicrhau y bydd cyfrannwr pwysig yn aros yn ddienw at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 3.4.13)

### *Cyfeirio Arall*

3.3.2 Rhaid cyfeirio geiriad arfaethedig pob apêl ysgrifenedig ar gyfer cyfranwyr, gan gynnwys y rheini ar gyfer rhaglenni adloniant, at y cynrychiolydd adrannol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 3.4.9)

3.3.3 Rhaid hefyd cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio adnodd ar y rhyngrwyd (megis ystafell sgwrsio, bwrdd negeseuon neu grŵp rhwydweithio cymdeithasol) i ddod o hyd i gyfranwyr at y cynrychiolydd adrannol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 3.4.9)

## 3.4 ARFERION

## Casglu Deunyddiau

3.4.1 Dylem geisio bod yn dystion i ddigwyddiadau a chasglu gwybodaeth uniongyrchol. Pan na fydd hyn yn bosibl, dylem siarad â ffynonellau uniongyrchol ac, yn ôl yr angen, cadarnhau

eu tystiolaeth. Dylem fod yn amharod i ddibynnu ar un ffynhonnell. Os ydym yn dibynnu ar un ffynhonnell, mae ffynhonnell a enwir ar y record bob amser yn well.

Dylem gofnodi ein cyfweliadau ymchwil gyda ffynonellau pan fydd hynny'n bosibl. Mewn amgylchiadau pan allai recordio lesteirio'r ffynhonnell, dylid cadw nodiadau llawn, ar y pryd os yw'n bosibl neu, os nad, cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.10)

3.4.2 Yn ein holl gynnwys rhaid i ni wirio a dilysu gwybodaeth, ffeithiau a dogfennau, pan fydd galw er mwyn sicrhau cywirdeb teg. Os nad ydym wedi gallu dilysu deunyddiau'n ddigonol, dylem ddweud hynny a phriodoli'r wybodaeth.

3.4.4 Ceir ystyriaethau ar wahân ar gyfer cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Ni ddylem dybio'n awtomatig bod y deunydd yn gywir a dylem gymryd camau rhesymol i geisio dilysu'r deunydd yn ôl sut y caiff ei ddefnyddio ac, os oes angen, er mwyn cyflawni cywirdeb teg. Rhaid i ni fod yn ofalus iawn o ran sut rydym yn defnyddio unrhyw ddeunydd rydym yn amau sydd wedi cael ei gyflenwi gan aelod o grŵp lobïo neu sefydliad â budd personol yn y stori, yn hytrach na thyst heb fudd.

Dylem graffu yn ofalus ac, os oes angen er mwyn cyflawni cywirdeb teg, dylem gadarnhau cyfrifon llygaid dystion a gyflwynir dros yr e-bost cyn eu defnyddio, er enghraifft drwy siarad â llygaid dystion dros y ffôn.

Dylem sicrhau bod cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn dangos yn glir mai dyna ydyw.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cyfraniad Defnyddwyr mewn Allbwn Newyddion)

3.4.4 Mae eisiau gofal penodol wrth ymchwilio ar y rhyngrwyd neu wrth ddefnyddio deunyddiau o wefannau. Efallai na fydd ffynonellau gwybodaeth ar y we sydd fel rheol yn ddibynadwy, bob amser yn gywir. Dylem hefyd fod yn effro i bosibilrwydd gwefannau ffug; efallai na fydd y deunyddiau sy'n darbwyllo fwyaf ar y we yn ddeunyddiau cywir. Efallai fod angen gwirio pwy sy'n rhedeg y wefan neu gadarnhau ag unigolyn neu sefydliad bod y deunyddiau yn rhai go iawn.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Ymchwil ar y we)

***Deunyddiau gan Drydydd Parti***

3.4.5 Mae angen trin deunyddiau gan drydydd parti yn ofalus, gan ystyried enw da'r ffynhonnell.

Fel rheol, byddwn ond yn dibynnu ar adroddiad asiantaeth os gall un o ohebwyr y BBC ei gadarnhau neu os caiff ei briodoli i asiantaeth newyddion gymeradwy.

Dim ond os yw'r deunyddiau'n gredadwy ac yn ddibynadwy y dylem ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau eraill gan drydydd parti. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau tywydd, gwybodaeth am y marchnadoedd ariannol a siartiau cerddoriaeth. Mae arnom angen sicrhau bod unrhyw gydnabyddiaeth a roddir ar gyfer defnyddio deunyddiau trydydd parti yn unol â chanllawiau cydnabyddiaeth y BBC.

3.4.6 Dim ond os oes cyfiawnhad golygyddol amlwg y dylem ddarlledu deunyddiau gan drydydd parti a allai fod â budd personol neu broffesiynol yn y pwnc. Dylid labelu'r deunydd.

Mae hyn yn cynnwys deunyddiau gan y gwasanaethau brys, elusennau a grwpiau amgylcheddol.

Dylem fod yn amharod i ddefnyddio datganiadau newyddion fideo a sain neu ddeunyddiau tebyg eraill. Nid ydym fel rheol yn defnyddio unrhyw ddyfyniadau o'r fath bethau os gallwn gasglu'r deunyddiau ein hunain. Rhaid ystyried arwyddocâd golygyddol y deunyddiau, yn hytrach na dim ond yr effaith, cyn eu defnyddio. Os oes modd cyfiawnhau eu defnyddio'n olygyddol, rhaid i ni egluro'r amgylchiadau a labelu'r ffynhonnell yn glir yn ein hallbwn.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Datganiadau Newyddion Fideo a Sain)

## Dod o hyd i Gyfranwyr

3.4.7 Dylem gynnal archwiliadau i ganfod pa mor gredadwy yw ein cyfranwyr ac osgoi cael ein "twyllo". Dylai natur yr archwiliadau hyn fod yn briodol i natur ac arwyddocâd eu cyfraniad, y cynnwys a'r genre.

Dylem ystyried a yw hi'n briodol cynnal archwiliadau manylach am bobl sy'n brif destun yr allbwn neu sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr allbwn. Gall hyn gynnwys sicrhau eu bod yn cael cyfweliad, ac os oes angen, eu gwirio gan fwy nag un aelod o'r tîm cynhyrchu drwy ddefnyddio cyfuniad o'r canlynol:

- tystiolaeth ddogfennol i ddilysu pwy ydynt a'u stori
- cadarnhad gan bobl ac eithrio'r rheini a awgrymir gan y cyfrannwr
- hunan-ddatganiad o wybodaeth bersonol a allai roi enw da'r BBC yn y fantol, er enghraifft, euogfarnau troseddol neu ymlyniad gwleidyddol.

Gellir hefyd ystyried gofyn i rai cyfranwyr gytuno ar archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol.

(Gweler Adran 6, Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1)

3.4.8 Ni ddylem ddefnyddio asiantaethau sy'n delio ag actorion a pherfformwyr i ddod o hyd i bobl i siarad am faterion sydd y tu allan i'w proffesiwn neu eu profiad penodol. Gall fod yn ddefnyddiol cysylltu ag asiantaethau newyddion neu arbenigol eraill ond rhaid cynnal pob archwiliad priodol ar unrhyw wybodaeth neu gysylltiadau maent yn eu cyflenwi.

### *Apelio am Gyfranwyr*

3.4.9 Dim ond pan fydd dulliau ymchwil priodol eraill wedi cael eu defnyddio'n llawn heb lwyddiant y dylem apelio am gyfranwyr ar gyfer rhaglenni ffeithiol ac adloniant ffeithiol. Pan fyddwn yn defnyddio hysbysebion neu'n gwneud apeliadau mewn rhaglenni, rhaid i ni eu geirio'n ofalus er mwyn osgoi rhoi enw da'r BBC yn y fantol.

Mae risgiau ynghlwm wrth hysbysebu am gyfranwyr, boed hynny drwy ddefnyddio posteri neu hysbysebion personol mewn papurau newydd, cyhoeddiadau arbenigol neu'r rhyngrwyd. Mae'r bobl sy'n ateb yn dewis eu hunain ac efallai eu bod yn ceisio ymddangos yn rheolaidd fel "gwesteion cyfresol". Dylid cynnal archwiliadau priodol i sicrhau na ddefnyddir ymgeiswyr anaddas neu anonest.

Ni ddylem ddefnyddio gwefannau trydydd parti sy'n helpu pobl mae arnynt eisiau ymddangos yn y cyfryngau, ac eithrio wrth chwilio am gystadleuwyr neu gynulleidfaoedd ar gyfer

rhaglenni adloniant. Hyd yn oed wedyn, dylid cynnal yr holl archwiliadau priodol i sicrhau na ddefnyddir cyfranwyr anaddas neu anonest.

**Rhaid cyfeirio geiriad arfaethedig pob apêl ysgrifenedig, gan gynnwys y rheini ar gyfer rhaglenni adloniant, at y cynrychiolydd adrannol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

**Rhaid hefyd cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio adnodd ar y rhyngrwyd (megis ystafell sgwrsio, bwrdd negeseuon neu grŵp rhwydweithio cymdeithasol) i ddod o hyd i gyfranwyr at y cynrychiolydd adrannol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

Wrth bostio ar wefannau i ddod o hyd i gyfranwyr neu ddeunydd ymchwil, dylid datgan fel rheol ein bod yn gweithio i'r BBC a, phan ddarperir manylion e-bost, defnyddio cyfeiriad y BBC.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.17)

## Cadw nodiadau

3.4.10 Rhaid i ni gadw cofnodion cywir, dibynadwy a, phan fydd hynny'n bosibl, cyfoes o'r holl ymchwil arwyddocaol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Rhaid i ni gadw cofnodion o ymchwil gan gynnwys gohebiaeth ysgrifenedig ac electronig, nodiadau cefndir a dogfennau. Dylid eu cadw mewn modd sy'n golygu bod modd eu gwirio eto, yn enwedig ar y cam sgriptio, a chan aelod arall o'r tîm os oes angen.

Pan fyddwn yn darlledu honiadau difrifol a wneir gan ffynhonnell ddienw, rhaid cadw nodiadau amserol llawn o'r cyfweliadau, y sgyrsiau a'r wybodaeth sy'n rhoi'r sail dros y stori.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.1, Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.22 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12)

## Osgoi Camarwain Cynulleidfaoedd

3.4.11 Rhaid i'n cynnwys beidio â chamarwain ein cynulleidfaoedd yn sylweddol nac yn fwriadol. Efallai y bydd angen i ni egluro natur peth cynnwys drwy ddefnyddio labeli (er enghraifft, ar lafar, gyda thestun neu gyda chiwiau gweledol neu sain) er mwyn osgoi bod yn gamarweiniol.

### *Ffynonellau*

3.4.12 Dylem fel rheol nodi ffynonellau gwybodaeth a chyfranwyr sylweddol ar yr awyr ac ar-lein, a rhoi eu manylion, er mwyn i'n cynulleidfaoedd allu barnu eu statws.

3.4.13 Wrth ddyfynnu ffynhonnell ddienw, yn enwedig ffynhonnell sy'n gwneud honiadau difrifol, rhaid i ni gymryd pob cam priodol i sicrhau na chaiff eu manylion adnabod eu datgelu. Fodd bynnag, dylem roi'r wybodaeth y cawn ei rhoi i'r gynulleidfa i'r gynulleidfa a hynny mewn ffordd nad yw'n camarwain yn sylweddol ynghylch statws y ffynhonnell.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12)

Pryd bynnag y bydd stori sy'n tarddu gan y BBC yn cynnwys ffynhonnell ddienw, mae gan y golygydd perthnasol yr hawl i gael gwybod pwy ydynt. Mewn achosion sy'n cynnwys

honiadau difrifol, dylem wrthsefyll unrhyw ymgais gan ffynhonnell ddienw i atal eu manylion adnabod rhag cael eu datgelu i un o uwch olygyddion y BBC. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r newyddiadurwr egluro na cheir darlledu'r wybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddibynnu ar un ffynhonnell nas enwyd sy'n gwneud honiad difrifol neu sicrhau na ddatgelir manylion cyfrannwr pwysig, at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.** Bydd angen i ni ystyried:

- a yw'r stori o fudd sylweddol i'r cyhoedd[2]
- a yw'r ffynhonnell yn un y gellir ei chredu a dibynnu arni a'i bod mewn sefyllfa i fod â digon o wybodaeth am y digwyddiadau dan sylw
- unrhyw faterion cyfreithiol

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith)

- pryderon diogelwch, er enghraifft ar gyfer datgelwyr camarfer
- a geisiwyd ymateb i honiadau difrifol gan y bobl neu'r sefydliadau dan sylw

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.27)

- materion sensitif a phersonol
- a wnaed yr honiad difrifol neu a gafodd ei gadarnhau "oddi ar gofnod"

3.4.14 Dylem fod yn ofalus wrth sgriptio adroddiadau am honiadau a wneir gan ffynhonnell ddienw er mwyn egluro:

- natur yr honiad
- bod yr honiad yn cael ei wneud gan ffynhonnell ddienw ac nid y BBC.

Dylem ystyried a yw hi'n briodol rhoi gwybod i'r gynulleidfa pan nad yw'r honiadau wedi cael eu cadarnhau'n annibynnol.

Fel rheol ni ddylem ddefnyddio cyfweliadau dwyffordd byw heb eu sgriptio i adrodd am honiadau. Y golygydd sydd i benderfynu a ydynt yn ffordd briodol o ddatgelu stori ai peidio. Pan fydd cydweithwyr yn y BBC yn mynd ar drywydd stori, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn deall dan ba delerau y mae'r honiadau i'w hadrodd a gwneud hynny'n gywir.

### *Dolenni Ar-lein i Wefannau Trydydd Parti*

3.4.15 Fel rheol dylai dolenni o BBC Ar-lein i wefannau trydydd parti arwain at safleoedd sy'n ffeithiol gywir. Gallwn greu dolenni at safleoedd allanol sy'n rhoi safbwyntiau penodol unigolyn neu sefydliad sy'n bwysig i stori newyddion cyfoes ac mewn achosion o'r fath efallai na fyddwn yn gallu gwarantu eu cywirdeb ffeithiol. Ond ni ddylem gefnogi negeseuon, gwybodaeth na deunyddiau hyrwyddo ar safleoedd trydydd parti.

[2] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.19 - 14.4.20)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Dolenni a Chrynodebau)

***Technegau Cynhyrchu***

3.4.16 Prin iawn yw'r rhaglenni sy'n cael eu recordio nad ydynt yn ennyn rhai ymyriadau gan y tîm cynhyrchu, ond ceir rhai technegau cynhyrchu derbyniol ac annerbyniol. Dylid ystyried bwriad ac effaith unrhyw ymyriad. Fel rheol mae'n dderbyniol defnyddio technegau sy'n gwella cynnwys mewn ffordd syml ac uniongyrchol, er enghraifft drwy wella eglurder a llif neu drwy wneud y cynnwys yn fwy difyr. Gall hyn gynnwys sgiliau crefft megis rhai lluniau rhyngdoriad, lluniau gosod i sefydlu'r rheini sy'n cael eu cyfweld a gofyn i'r cyfranwyr ailadrodd gweithredoedd di-nod neu gyflawni gweithgarwch beunyddiol. Fel rheol mae'n annerbyniol defnyddio technegau cynhyrchu sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol am wirionedd y naratif neu'r digwyddiadau.

Ar gyfer newyddion a chynnwys ffeithiol, oni bai fod y gynulleidfa'n cael arwydd clir o hynny neu oni fydd golygfeydd yn cael eu hail-greu, ni ddylem fel rheol:

- lwyfannu nac ail-lwyfannu gweithredoedd na digwyddiadau sydd o bwys i ddatblygiad y weithred neu'r naratif

- rhyngdorri lluniau a dilyniannau i awgrymu eu bod yn digwydd ar yr un pryd, os yw cyfosodiad terfynol y deunydd yn arwain at roi camargraff o'r digwyddiadau.

Ni cheir byth defnyddio sylwebaeth na golygu i roi camargraff sylweddol i'r gynulleidfa o ddigwyddiadau neu gyfraniad.

3.4.12 Dylem sicrhau na fydd unrhyw waith creu digidol neu drin deunyddiau'n ddigidol, gan gynnwys defnyddio CGI neu dechnegau cynhyrchu eraill i greu golygfeydd neu gymeriadau, yn rhoi camargraff o ystyr digwyddiadau, yn newid effaith deunydd go iawn nac yn camarwain ein cynulleidfaoedd yn sylweddol. Dylem hefyd fod yn ymwybodol bod addasu ffotograffau, fideos a dogfennau'n ddigidol wedi cael ei ddefnyddio i dwyllo darlledwyr.

***Ail-greu***

3.4.18 Mewn rhaglenni ffeithiol, ni ddylai ail-greu orddramateiddio mewn ffordd sy'n camarwain nac yn cyffroi. Mae ail-greu yn golygu pan fydd digwyddiadau'n cael eu hail-lwyfannu'n eithaf eglur. Fel rheol dylai'r rhain fod yn seiliedig ar gorff sylweddol o dystiolaeth mae modd ei dilysu. Dylid hefyd datgan mai ail-greu'r sefyllfa a wneir, er enghraifft drwy ddefnyddio labeli llafar neu weledol neu giwiau gweledol neu sain, megis eu dangos yn araf neu raddio. Dylai fod yn amlwg i'r gynulleidfa lle mae'r ail-greu yn dechrau ac yn gorffen.

Ni ddylai rhaglenni newyddion ail-greu digwyddiadau cyfredol fel rheol, oherwydd bod perygl y gallai hynny ddrysu'r gynulleidfa. Ond ceir adrodd ar olygfeydd a fydd wedi cael eu hail-greu gan eraill.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.13 - 8.4.14)

***Drama sy'n seiliedig ar ffeithiau***

3.4.19 Pan fydd drama yn portreadu pobl neu ddigwyddiadau go iawn, mae'n anochel y gallai gwireddu rhai elfennau dramatig yn greadigol, megis y cymeriadu, y ddeialog a'r awyrgylch, fod yn ffugiol. Fodd bynnag, dylai'r portreadu fod yn seiliedig ar gorff sylweddol o dystiolaeth a ddaw o ffynonellau da, pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol a dylem sicrhau nad yw hyn yn ystumio'r ffeithiau hysbys yn ormodol, gan gynnwys cronoleg. Mae'n bwysig egluro sail ffeithiol y ddrama (neu ddefnyddio trwydded ddramatig) gyda chyfeiriadau clir.

Yn aml bydd sensitifrwydd fwyaf amlwg pan mai diben canolog drama fydd portreadu pobl fyw, pobl â pherthnasau agos sy'n byw neu ddigwyddiadau diweddar. Dylid bod yn ofalus iawn er mwyn sicrhau cywirdeb teg.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.29 - 6.4.30
ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.7)

### ***Deunyddiau Archif***

3.4.20 Ni ddylid defnyddio deunyddiau archif mewn ffordd sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol am sefyllfa, am ddigwyddiadau neu am yr hyn a ddarlunnir. Efallai y bydd angen labelu.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.3 - 13.4.5)

### ***Adrodd am Ystadegau a Risg***

3.4.21 Dylem adrodd ar ystadegau a risgiau yn eu cyd-destun ac osgoi poeni'r gynulleidfa'n ormodol, yn enwedig ynghylch iechyd neu droseddau. Gall hyn olygu rhoi patrymau, gan fod yn ofalus na roddir gormod o bwysau annheilwng ar ffigurau. Os adroddir am newid, dylid ystyried egluro'r ffigur gwaelodlin. Er enghraifft, bydd dyblu problem nad yw ond yn effeithio ar un unigolyn o bob dwy filiwn yn dal ond yn effeithio ar un unigolyn o bob miliwn. Fel rheol bydd hi'n briodol adrodd ar ffynhonnell y ffigurau, ac ambell waith y cyfwng gwallau, er mwyn galluogi pobl i benderfynu ar eu harwyddocâd.

Dylem ystyried effaith emosiynol lluniau a thystiolaeth bersonol ar ganfyddiadau o risg pan na chânt eu cefnogi gan gydbwysedd dadl. Os bydd safbwynt cyfrannwr yn groes i safbwynt y mwyafrif, gall gofynion cywirdeb teg ac amhleidioldeb teg olygu ei bod yn rhaid i ni egluro hyn.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.31 - 10.4.41)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Adrodd am Risg)

## Rheoli Cynnwys Ar-lein

3.4.22 Adeg postio cynnwys y BBC ar-lein, dylai'r adran sy'n gyfrifol am ei greu benderfynu ar strategaeth gydlynol ar gyfer ei reoli dros amser. Dylid ystyried pa mor aml mae angen diweddaru tudalennau neu sut y dylid eu trin os na chânt eu diweddaru.

3.4.23 Rhaid diweddaru tudalennau newyddion ac unrhyw gynnwys sy'n hysbysebu ei fod yn gyfoes, neu pan fyddai'n rhesymol i ddefnyddwyr ddisgwyl i'r cynnwys fod yn gyfoes. Mae cynnwys sy'n ymddangos i fod yn gyfoes ond sydd, mewn gwirionedd, yn amlwg yn hen yn gallu tanseilio enw da'r BBC am safonau golygyddol uchel. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd data o ddeunyddiau a gesglir dros amser.

Er mwyn osgoi camarwain defnyddwyr yn sylweddol, dylai fod yn glir fel rheol pryd y cyhoeddwyd y cynnwys dan sylw yn gyntaf a, phan fydd yn berthnasol, pryd iddo gael ei ddiweddaru'n sylweddol ddiwethaf.

Er enghraifft, efallai y bydd stamp dyddiad ar dudalennau o'r adeg cyhoeddi a/neu gellir eu labelu fel tudalennau wedi'u harchifo (ee drwy roi baner amlwg ar frig y dudalen sy'n datgan nad yw'r dudalen yn cael ei diweddaru mwyach).

Pan fydd eitem cynnwys yn cael ei newid yn sylweddol, dylid rhoi gwybod i'r defnyddiwr am y newid fel rheol oni bai, er enghraifft, fod rhesymau cyfreithiol neu olygyddol dros beidio â gwneud hynny.

3.4.24 Oni bai fod cynnwys ar gael yn benodol am gyfnod cyfyngedig yn unig, tybir y bydd deunyddiau a gyhoeddir ar-lein yn rhan o archif y bydd modd cael gafael arni'n barhaol ac na fydd fel rheol yn cael ei thynnu.

Ar gyfer straeon newyddion, bwriedir i'r archif fod yn gofnod parhaol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ar nifer cyfyngedig o achlysuron gallwn benderfynu peidio ag ychwanegu dolen at dudalen newyddion benodol yn yr archif. Ar adegau prin iawn, efallai y byddwn yn tynnu tudalen. Gall amgylchiadau eithriadol o'r fath gynnwys rhesymau cyfreithiol, risgiau i ddiogelwch personol, neu dorri safonau golygyddol yn ddifrifol a thynnu'r deunydd yw'r unig ffordd o gywiro hynny. Dylid cyfeirio unrhyw gynnig i dynnu tudalen newyddion ar-lein o'r archif at y Golygydd Newyddion Ar-lein, a allai ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

Mewn meysydd eraill, o bryd i'w gilydd efallai y bydd yn rhaid i ni dynnu cynnwys clywedol, adran o raglen benodol, neu mewn amgylchiadau eithriadol, rhaglen gyfan. Gall hyn fod oherwydd diogelwch personol, preifatrwydd, tegwch, rhesymau cyfreithiol neu dorri'r safonau golygyddol yn ddifrifol. Fodd bynnag, dim ond gyda chymeradwyaeth yr uwch swyddog golygyddol perthnasol y dylid gwneud hynny.

Dylid rhoi mecanwaith priodol ar waith, gan gynnwys system cyfeirio, er mwyn tynnu neu ddirymu cynnwys ar-lein y BBC, boed hynny yn destun, yn ddeunydd clywedol, ffurf fer neu hir, ac a gyhoeddir ar un o wefannau'r BBC neu sydd wedi'i syndicetio yn rhywle arall.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Tynnu Deunyddiau Ar-lein i lawr)

## Gwirio Rhaglenni

3.4.25 Rhaid i ni wirio rhaglenni sydd wedi'u recordio cryn amser cyn eu darlledu er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddigwyddiadau wedi effeithio ar y cynnwys, megis marwolaeth hysbys un o'r cyfranwyr, cyhuddo troseddwr neu newidiadau o bwys i fywyd. Mewn rhai achosion bydd angen rhoi cyhoeddiad ar yr awyr, mewn amgylchiadau eraill gellir addasu neu ddileu rhywfaint o'r deunydd.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.3)

## Cywiro Camgymeriadau

3.2.26 Fel rheol dylem gydnabod gwallau ffeithiol difrifol a chywiro camgymeriadau o’r fath yn gyflym, yn glir ac yn briodol. Gall peidio â bod yn gywir arwain at gŵyn ynghylch annhegwch. Un ffordd effeithiol o gywiro camgymeriad yw dweud beth oedd o’i le a chywiro hynny. Os ydym wedi darlledu gwall difenwol, dylid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Tynnu Deunyddiau Ar-lein i Lawr)

# ADRAN 4: AMHLEIDIOLDEB

**4.1 Cyflwyniad**
**4.2 Egwyddorion**
**4.3 Cyfeirio Gorfodol**
**4.4 Arferion**
**Ehangder ac Amrywiaeth Barn**
**Pynciau Dadleuol**
**Allbwn Newyddion, Materion Cyfoes a Ffeithiol**
**Drama, Adloniant a Diwylliant**
**Sylwadau Dadleuol a Thramgwydd Posibl**
**Consensws, Ymgyrchoedd a Chraffu**
**Etholiadau a Refferenda**
**Amhleidioldeb mewn Cyfres a Dros Amser**
**Cynnwys Barn Bersonol**

## 4.1 CYFLWYNIAD

Mae amhleidioldeb wrth galon gwasanaeth cyhoeddus ac mae wrth graidd ymrwymiad y BBC i'w gynulleidfaoedd. Mae'n berthnasol i'n holl allbwn a gwasanaethau – teledu, radio, ar-lein ac yn ein gwasanaethau rhyngwladol a chylchgronau masnachol. Rhaid i ni fod yn gynhwysol, gan ystyried y persbectif eang a sicrhau bod bodolaeth amrywiaeth o safbwyntiau'n cael ei hadlewyrchu'n briodol.

Mae'r Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC yn gofyn i ni wneud popeth y gallwn ei wneud i sicrhau bod pynciau dadleuol yn cael eu trin ag amhleidioldeb teg yn ein newyddion a'n hallbwn arall sy'n delio â materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus neu ddadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol[1]. Ond rydym ni'n mynd ymhellach na hynny, gan fod yn amhleidiol ym mhob pwnc. Fodd bynnag, bydd ei ofynion yn amrywio.

Mae'r term 'teg' yn golygu ei bod yn rhaid i'r amhleidioldeb fod yn ddigonol ac yn briodol i'r allbwn, gan ystyried pwnc a natur y cynnwys, disgwyliadau tebygol y gynulleidfa ac unrhyw gyfeiriadau a all ddylanwadu ar y disgwyliadau hynny.

Mae amhleidioldeb teg yn aml yn golygu mwy na dim ond cael 'cydbwysedd' rhwng safbwyntiau croes. Yn yr un modd, nid yw'n gofyn bod yn gwbl niwtral ar bob mater neu osgoi egwyddorion democrataidd sylfaenol.

Mae Cytundeb y BBC yn gwahardd ein hallbwn rhag mynegi barn y BBC ar faterion cyfoes na materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus, ac eithrio darlledu neu ddarparu gwasanaethau ar-lein[2].

Gall gweithgareddau allanol staff, cyflwynwyr ac eraill sy'n cyfrannu at ein hallbwn hefyd effeithio ar enw da'r BBC yng nghyswllt amhleidioldeb. O ganlyniad, dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran 15: Gwrthdaro rhwng Buddiannau.

[1] Paragraff 44 (1), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

[2] Paragraff 44 (3) a Pharagraff 44 (4), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

## 4.2 EGWYDDORION

4.2.1 Rhaid i ni wneud popeth y gallwn ei wneud i sicrhau bod 'pynciau dadleuol'[3] yn cael eu trin ag amhleidioldeb teg.

4.2.2 Rhaid trin newyddion ar unrhyw ffurf ag amhleidioldeb teg, gan roi sylw teg i ddigwyddiadau, barn a phrif feysydd dadl.

4.2.3 Rydym yn ceisio darparu ystod eang o bynciau a safbwyntiau dros gyfnod amser priodol yn ein hallbwn yn gyffredinol.

4.2.4. Rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau ar draws ein hallbwn yn gyffredinol, dros gyfnod priodol, er mwyn sicrhau na fydd dim barn sylweddol yn cael ei hanwybyddu na'i thangynrychioli.

4.2.5 Rydym yn ymarfer ein rhyddid golygyddol i gynhyrchu cynnwys am unrhyw bwnc, ar unrhyw bwynt ar sbectrwm dadl, gyhyd â bod rhesymau golygyddol da dros wneud hynny.

## 4.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at Bolisi Golygyddol*

4.3.1 Os bydd un o adrannau'r llywodraeth yn gofyn i ni drosglwyddo negeseuon swyddogol neu ffilmiau gwybodaeth sy'n cynnwys rhywfaint o bolisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler 4.4.11)

4.3.2 Rhaid cyfeirio unrhyw un o fentrau gwasanaeth cyhoeddus BBC sy'n cynnwys unrhyw elfen o godi arian at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 4.4.22)

4.3.3 Os oes unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i fod yn westai, ar raglen neu ran o gynnwys, pan na wneir hynny'n rheolaidd, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler 4.4.27)

[3] Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6

# ARFERION

## Ehangder ac Amrywiaeth Barn

4.4.1 Ar draws ein hallbwn drwyddo draw, rhaid i ni fod yn gynhwysol gan adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth barn. Rhaid i ni fod yn deg a chadw meddwl agored wrth archwilio'r dystiolaeth ac wrth bwyso a mesur ffeithiau o bwys. Rhaid i ni roi sylw teg i agweddau lu ac amrywiol dadl.

Gall ehangder ac amrywiaeth barn alw am fwy nag ystod wleidyddol a diwylliannol, ond, ar adegau, gall alw am adlewyrchu'r amrywiadau rhwng trefol a gwledig, hŷn ac iau, tlotach a chyfoethocach, yr arloesol a'r status quo, ayb. Gall olygu archwilio safbwyntiau mewn cymunedau gwahanol, grwpiau diddordeb gwahanol ac ardaloedd daearyddol gwahanol.

### *Sylw Teg*

4.4.2 Nid yw amhleidioldeb yn mynnu o reidrwydd bod yr ystod o safbwyntiau neu farn yn cael ei chynnwys yn gyfartal yn ein hallbwn drwyddo draw, nac mewn un rhaglen, tudalen we neu eitem. Yn hytrach, dylem geisio cyflawni 'sylw teg'. Er enghraifft, ni ddylid o reidrwydd rhoi'r un sylw i safbwyntiau'r lleiafrif â'r consensws cyffredinol.

Serch hynny, gall hepgor safbwynt pwysig, mewn cyd-destun penodol, roi canfyddiadau o amhleidioldeb y BBC yn y fantol. Dylai penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnwys ynteu hepgor safbwyntiau fod yn rhesymol a dylid eu gwneud yn ofalus. Dylid defnyddio barn golygyddol a ddefnyddir yn gyson dros ystod briodol o allbwn.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.18)

### *Adrodd am y DU*

4.4.3 Dylem hefyd ystyried diwylliannau a strwythurau gwleidyddol gwahanol rannau o'r DU, er enghraifft, wrth sicrhau bod prif feysydd gwahanol ddadl yn un neu fwy o'r gwledydd yn cael sylw ac amlygrwydd teg mewn allbwn ar gyfer y DU i gyd.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.1)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Adrodd am y DU)

### *Amhleidioldeb a Chynulleidfaoedd*

4.4.4. Mae gwrando ar gynulleidfaoedd ac ymgysylltu â nhw yn ganolog i allbwn y BBC, o raglenni radio sy'n rhoi cyfle i wrandawyr ffonio'r rhaglen, i gynnwys ar-lein sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Ond ni ddylid rhoi mwy o bwys i ymatebion na'r hyn y maent yn ei haeddu a dylem ochel rhag camddehongli pwys cymharol safbwyntiau a fynegir. Dylem hefyd fod yn barod i graffu ar safbwyntiau'r gynulleidfa'n briodol a sicrhau nad yw'r ddadl yn ymddangos ei bod ar gau i aelodau'r gynulleidfa sy'n cefnogi barn leiafrifol pan nad ydynt eisoes wedi cysylltu.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cyfraniad Defnyddwyr mewn Allbwn Newyddion)

## Pynciau Dadleuol

4.4.5 Rhaid i ni fod yn amhleidiol ym mhob pwnc. Fodd bynnag, mae gofynion penodol ar gyfer 'pynciau dadleuol', pryd bynnag y byddant yn ymddangos mewn unrhyw allbwn, gan gynnwys drama, adloniant a chwaraeon.

Gall 'pwnc dadleuol' fod yn fater o bolisi cyhoeddus neu ddadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol. Gall hefyd fod yn destun dadlau crefyddol, gwyddonol, ariannol, diwylliannol, moesegol a materion eraill yn gyfan gwbl.

4.4.6 Wrth bennu a yw pynciau yn ddadleuol ai peidio, dylem ystyried:

- lefel y gynnen a'r ddadl gyhoeddus a gwleidyddol
- pa mor gyfoes yw'r pynciau
- sensitifrwydd o ran credoau a diwylliant cynulleidfaoedd perthnasol
- a yw'r pynciau yn destun dadl ddwys neu o bwys mewn gwlad, rhanbarth neu ardal benodol sy'n debygol o gynnwys o leiaf rhan arwyddocaol o'r gynulleidfa
- safbwynt rhesymol ynghylch a yw'r pynciau yn ddifrifol
- y gwahaniaeth rhwng materion sy'n seiliedig ar ffeithiau a'r rheini sy'n fater o farn.

Mae cyngor ar gael gan y Polisi Golygyddol ynghylch a yw pwnc yn 'ddadleuol' ai peidio.

4.4.7 Wrth ddelio â 'phynciau dadleuol', rhaid i ni sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau a phersbectifau sylweddol yn cael digon o sylw ac amlygrwydd, yn enwedig pan fydd y ddadl yn fyw.  Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng barn a ffeithiau.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.2)

4.4.8 Fel arfer bydd amhleidioldeb teg yn caniatáu i raglenni ac allbwn arall archwilio neu adrodd am agwedd benodol ar fater neu roi cyfle i fynegi un safbwynt. Wrth ddelio â 'phynciau dadleuol', dylid cyfeirio'n glir at y rhain, gan gydnabod bod ystod o safbwyntiau'n bodoli a phwysau'r safbwyntiau hynny, ac ni ddylid eu cam-gynrychioli.

Dylid ystyried cyfnod amser priodol ar gyfer adlewyrchu safbwyntiau eraill ac a oes angen eu cynnwys mewn allbwn cysylltiedig neu allbwn wedi'i gyfeirio ai peidio.

Os bydd allbwn o'r fath yn cynnwys honiadau difrifol, efallai ei bod yn rhaid rhoi hawl i ymateb, naill ai fel rhan o'r un allbwn, neu ar ffurf arall gysylltiedig sydd wedi'i labelu'n glir.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.25 – 4.4.28 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.28)

4.4.9 Hefyd, rhaid i ni fod yn ofalus a sicrhau amhleidioldeb teg pan fydd 'pwnc dadleuol' o bosibl yn cael ei ystyried yn brif fater[4]. Mae ‘prif faterion’ fel arfer yn golygu materion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus neu ddadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol sydd o bwys cenedlaethol neu ryngwladol, neu sydd o bwys tebyg mewn ardal lai. Wrth ddelio â ‘phrif faterion’, neu pan fydd y materion dan sylw yn ddadleuol iawn a/neu pan ddisgwylir adeg o bwys yn y ddadl, fel rheol bydd angen sicrhau y caiff ystod digon eang o safbwyntiau eu hadlewyrchu mewn ‘cyfres o raglenni’[5] a fydd wedi’u cysylltu’n glir, un rhaglen neu hyd yn oed un eitem weithiau.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.25 - 4.4.28)

### *Pynciau Dadleuol a Dolenni*

4.4.10 Pan fydd safleoedd ar-lein y BBC sy’n trafod ‘pynciau dadleuol' yn cynnig dolenni i safleoedd allanol, dylem sicrhau bod yr wybodaeth ar y safleoedd allanol hynny, o’u hystyried gyda’i gilydd, yn cynrychioli ystod resymol o safbwyntiau ar y pwnc. Fel rheol dylem geisio sicrhau nad yw’r safleoedd allanol yn rhoi sail gref dros achosi pryder bod hyn yn torri’r gyfraith na Chanllawiau Golygyddol y BBC ar niwed a thramgwydd.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol 14.4.19 – 14.4.20)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Dolenni a Chrynodebau)

### *Gwybodaeth y Llywodraeth*

**4.4.11 Os bydd un o adrannau’r llywodraeth yn gofyn i ni drosglwyddo negeseuon swyddogol neu ffilmiau gwybodaeth sy’n cynnwys rhywfaint o bolisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.**

## *Allbwn Newyddion, Materion Cyfoes a Ffeithiol*

4.4.12 Rhaid trin newyddion ar unrhyw ffurf ag amhleidioldeb teg, gan roi sylw teg i ddigwyddiadau, barn a phrif feysydd dadl. Rhaid i ymagwedd a thôn straeon newyddion adlewyrchu ein gwerthoedd golygyddol bob amser, gan gynnwys ein hymrwymiad i fod yn amhleidiol.

4.4.13 Cyflwynwyr, newyddiadurwyr a gohebwyr yw wyneb a llais cyhoeddus y BBC – gallant ddylanwadu’n fawr ar ganfyddiadau ynghylch a ydym wedi sicrhau amhleidioldeb teg. Ni ddylai ein cynulleidfaoedd allu canfod rhagfarnau personol ein newyddiadurwyr a’n cyflwynwyr newyddion a materion cyfoes ar faterion polisi cyhoeddus, dadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol, na ‘phynciau dadleuol’ mewn unrhyw faes arall drwy allbwn y BBC. Gallant roi barn broffesiynol sydd wedi’i gwreiddio mewn tystiolaeth, ond ni chânt fynegi safbwyntiau personol ar faterion o’r fath mewn allbwn y BBC, gan gynnwys ar-lein.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.29 ac Adran 15 Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

---

[4] Paragraff 44 (6), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

4.4.14 Ni ddylem dybio yn awtomatig bod cyfranwyr o sefydliadau eraill (megis academyddion, newyddiadurwyr, ymchwilwyr a chynrychiolwyr elusennau) yn ddiduedd, ac efallai y bydd angen i ni egluro i'r gynulleidfa pan fydd cyfranwyr yn gysylltiedig â safbwynt penodol, os nad yw hyn yn amlwg o'u cyfraniad neu o gyd-destun eu cyfraniad.

***Pan mai Cynnwys y BBC neu'r BBC yw'r Stori***

4.4.15 Rhaid i'n hadroddiadau fod yn ddiduedd, yn gywir ac yn deg wrth ddelio â phynciau dadleuol ynghylch y BBC. Mae arnom angen sicrhau na chaiff amhleidioldeb y BBC ei gwestiynu ac nad yw cyflwynwyr na newyddiadurwyr yn agored i wrthdaro posibl rhwng buddiannau. Bydd yn amhriodol cyfeirio at y BBC fel "ni" a'r cynnwys fel "ein". Dylid hefyd cael gwahaniaeth olygyddol glir rhwng y rheini sy'n adrodd y stori a'r rheini sy'n gyfrifol am gyflwyno achos y BBC.

## Drama, Adloniant a Diwylliant

4.4.16 Mae'r gynulleidfa yn disgwyl i artistiaid, i ysgrifenwyr ac i ddiddanwyr allu defnyddio mynegiant unigol mewn drama, adloniant a diwylliant. Mae'r BBC wedi ymrwymo i'w gynnig. Pan fydd hyn yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus, dadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol, neu 'bynciau dadleuol' eraill, fel rheol dylai gwasanaethau geisio adlewyrchu amrywiaeth eang o'r safbwyntiau sydd ar gael dros amser. Dylid ystyried cyfnod amser priodol ar gyfer adlewyrchu'r safbwyntiau eraill hynny ac a oes angen eu cynnwys mewn allbwn cysylltiedig neu allbwn wedi'i gyfeirio ai peidio, gan ystyried natur y dadlau a'r pwnc dan sylw.

4.4.17 Pan fydd barn am 'bynciau dadleuol' yn ganolog i ddiben drama, rhaid gwneud hyn yn glir i'n cynulleidfa. Rhaid i'w rhagoriaeth a'i mewnwelediadau gyfiawnhau'r llwyfan a gynigir. Efallai ei bod yn briodol cynnig safbwyntiau gwahanol mewn allbwn cysylltiedig arall a fydd wedi'i gyfeirio. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.25 - 4.4.28, Adran 3 Cywirdeb: 3.4.19 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.29 - 6.4.30)

## Sylwadau Dadleuol a Thramgwydd Posibl

4.4.18 Os byd cyfranwyr yn mynegi safbwyntiau dadleuol, naill ai drwy gyfweliad neu ddulliau eraill, rhaid eu profi'n drwyadl ar yr un pryd â rhoi cyfle teg iddynt amlinellu eu hymateb llawn i'r cwestiynau. Dylid rhoi lle priodol i safbwyntiau lleiafrifol yn ein hallbwn; nid yw'r BBC am lethu trafodaeth.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.2)

O ganlyniad, ambell waith bydd angen i ni adrodd am bobl neu gyfweld â phobl y gallai eu safbwyntiau achosi tramgwydd difrifol i nifer yn ein cynulleidfaoedd. Ar adegau o'r fath, dylid cyfeirio at uwch swyddog golygyddol a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol. Rhaid pwyso'r potensial i achosi tramgwydd yn erbyn budd y

cyhoedd[5] ac unrhyw berygl i amhleidioldeb y BBC. Dylai'r sylw gydnabod posibilrwydd achosi tramgwydd, a bod yn ddigon cadarn, ond dylai hefyd fod yn deg ac yn bwyllog.

Os bydd staff a chyflwynwyr yn mynegi tramgwydd neu ddig personol yn gyhoeddus gall hyn roi amhleidioldeb y BBC yn y fantol.

## Consensws, Ymgyrchoedd a Chraffu

### *Consensws*

4.4.19 Efallai fod rhai materion nad ydynt yn ymddangos i fod yn rhai dadleuol, ac ymddengys eu bod yn cael eu cefnogi gan gonsensws barn eang os nad unfrydol. Serch hynny, efallai eu bod yn peri risg sylweddol i amhleidioldeb y BBC. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylem barhau i adrodd lle ceir consensws a rhoi sylw teg iddo. Fodd bynnag, er efallai nad yw'n angenrheidiol nac yn briodol chwilio am leisiau'r gwrthwynebwyr, yn ein hadroddiadau, dylem ochel rhag y demtasiwn i ddefnyddio iaith a thôn sy'n ymddangos i dderbyn y consensws neu'r farn gyffredin fel ffaith neu rywbeth cwbl amlwg.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.29)

Rhaid i ni herio ein tybiaethau a'n profiadau ein hunain a'r rheini sydd efallai'n cael eu coleddu'n gyffredinol gan rannau o'n cynulleidfa. Dylai allbwn y BBC osgoi atgyfnerthu cyffredinoliadau heb dystiolaeth berthnasol, yn enwedig wrth eu defnyddio gydag amgylchiadau penodol. Gallai hyn ddigwydd ym meysydd gwleidyddiaeth, hil, elusennau, gwyddoniaeth, technoleg, meddyginiaeth neu feysydd eraill. Gall y rhain beri rhai o'r sialensiau mwyaf dyrys i honni nad yw'r BBC yn coleddu ei farn ei hun. Dylid bod yn ofalus a thrin meysydd o gonsensws amlwg yn ddigon cadarn. Pan fydd angen, ymgynghorwch â Pholisi Golygyddol.

### *Ymgyrchoedd*

4.4.20 Yn yr un modd, rhaid i'r BBC aros yn annibynnol ac ar wahân i fentrau'r llywodraeth, ymgyrchwyr, elusennau a'u hagendâu, ni waeth pa mor deilwng yw'r achos i bob golwg nac i ba raddau y derbynnir eu neges na pha mor annadleuol ydyw.

4.4.21 Bydd angen meddwl yn ofalus i sicrhau bod canfyddiadau o amhleidioldeb y BBC yn cael eu cynnal pan fydd cynnwys wedi'i drefnu'n gyfoes ac yn cyd-daro ag ymgyrch trydydd parti. Mae'n ddoeth cysylltu â Pholisi Golygyddol.

### *Gweithredu Cymdeithasol*

4.4.22 Gall gweithredu cymdeithasol fod yn rhan bwysig o wasanaeth cyhoeddus y BBC. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod y BBC yn pennu ei agenda gweithredu cymdeithasol ei hun a'i fod yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun.

[5] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

- Rhaid i ni sicrhau nad yw ein hallbwn yn cofleidio agenda unrhyw grwpiau ymgyrchu penodol a'n bod yn trin grwpiau yn wrthrychol ac nad ydynt yn ffafrio un ar draul y llall
- Os bydd ein rhaglenni gweithredu cymdeithasol neu ein hymgyrchoedd yn cyd-daro ag un o ymgyrchoedd neu fentrau lobïo'r llywodraeth, mae'n bwysig ein bod yn cadw pellter hyd braich
- Rhaid i ni beidio â lobïo ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus wrth godi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol pwysig
- Rhaid i adroddiadau newyddion am ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol y BBC fod yn ddigon amhleidiol.

**Rhaid cyfeirio unrhyw un o fentrau gwasanaeth cyhoeddus BBC sy'n cynnwys unrhyw elfen o godi arian at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol)

***Craffu***

4.4.23 Dylem sicrhau nad yw craffu priodol wedi'i gyfyngu i'r rheini sydd mewn llywodraeth neu sydd â phŵer a chyfrifoldeb, ond ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio gyda'r rheini sy'n eu gwrthwynebu, ymgyrchoedd, lobïwyr, grwpiau'r wrthblaid ac eraill, gan gynnwys safbwyntiau a fynegir yn rhyngweithiol gan y gynulleidfa.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.4)

## Etholiadau a Refferenda

4.4.24 Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol yn ystod ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau a refferenda ac, mewn rhai achosion, bydd y cyfnod cyn ymgyrchoedd yn golygu mwy o sensitifrwydd wrth ystyried amhleidioldeb ym mhob genre allbwn. Bydd y Prif Gynghorydd Gwleidyddol yn cyhoeddi cyngor penodol ac, ar gyfer y DU, yn cyhoeddi Canllawiau ar wahân ar gyfer pob cyfnod ymgyrchu.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.16 - 10.4.22)

## Amhleidioldeb mewn Cyfres a Dros Amser

4.4.25 Wrth sicrhau amhleidioldeb teg, gellir ystyried 'cyfres o raglenni' fel cyfanwaith[6].

Mae'r term 'cyfres o raglenni' yn berthnasol i'r canlynol:

- *Cynnwys sy'n delio â'r un materion neu faterion cysylltiedig, mewn cyfnod priodol, ac sydd wedi'u cysylltu'n glir.*

[6] Paragraff 44 (2), Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

Gall hyn gynnwys maes gyda theitl cyffredin; gwahanol fathau o raglenni cysylltiedig (megis drama a ddilynir gan ddadl); tymor o raglenni wedi'u labelu'n glir neu eitemau ar yr un pwnc neu bynciau tebyg; neu gyfres o dudalennau gwe sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Mae angen i raglenni, eitemau neu dudalennau gwe sicrhau amhleidioldeb teg ar draws y gyfres, a dylai cynnwys ar-lein gynnwys dolenni neu gyfeiriadau at elfennau eraill ar-lein.

Dylid cynllunio'r bwriad i gyflawni amhleidioldeb teg yn y ffordd hon ymlaen llaw. Yng nghyswllt rhaglenni, dylid cyhoeddi dyddiadau ac amseroedd y rhaglenni eraill yn y gyfres ar yr un pryd â'r rhaglen berthnasol gyntaf. Os nad yw hynny'n ymarferol, dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o raglenni eraill y gyfres mewn ffyrdd eraill.

- *Rhaglenni sy'n delio â materion tra gwahanol o un rhifyn i'r llall, ond sydd hefyd yn amlwg wedi'u cysylltu gydag un teitl a chylch gwaith penodol.*

  Mewn meysydd, fel rheol dylid cyflawni amhleidioldeb teg mewn rhaglenni unigol, neu ar draws nifer penodol o raglenni sydd yn amlwg wedi'u cysylltu'n olygyddol. Fodd bynnag, dros gyfres gyfan neu dros amser bydd hefyd angen i'r meysydd hyn ddangos amhleidioldeb teg, er enghraifft drwy ddefnyddio barn olygyddol yn gyson.

4.4.26 Yng nghyswllt allbwn parhaus neu allbwn sy'n rhedeg am gyfnod hir (megis rhaglenni cylchgrawn dyddiol cyffredinol, y Sianel Newyddion, Ar-lein ac ati) gellir cyflawni amhleidioldeb teg dros amser drwy ddefnyddio barn olygyddol yn gyson mewn meysydd pwnc perthnasol. Er enghraifft, fel rheol nid oes yn rhaid cydbwyso ymddangosiad gwleidydd neu gyfrannwr arall â safbwyntiau pleidiol bob tro gyda rhywun sydd â barn i'r gwrthwyneb, er ei bod yn angenrheidiol weithiau cynnig hawl i ymateb.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.27)

Fodd bynnag, dylai golygyddion allbwn parhaus neu sy'n rhedeg am gyfnod hir sicrhau:

- ei fod yn adlewyrchu ystod eang o unigolion a safbwyntiau, gan gynnwys pob prif elfen dadl
- bod safbwyntiau gwahanol yn cael y sylw dyledus a'u trin yn deg o ran amlygrwydd, triniaeth ac amser y dydd
- bod cyfnod amser priodol ar gyfer asesu bod amhleidioldeb teg wedi cael ei gyflawni.  Mae angen gofal arbennig cyn etholiadau (gweler isod).

Wrth ddelio â 'phrif faterion', fel rheol nid oes modd cyflawni amhleidioldeb teg dros amser na drwy ddarparu ystod o safbwyntiau sydd ar gael ar draws ein gwasanaethau ar-lein.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.2 a 4.4.5 - 4.4.10)

4.4.27 Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o allbwn sy'n trafod meysydd nad ydynt fel rheol yn ddadleuol (megis hoff gerddoriaeth neu lyfrau, ymlyniadau chwaraeon neu fywgraffiad personol) o bryd i'w gilydd yn cynnwys cyfranwyr neu gyflwynwyr sy'n adnabyddus am ddangos tuedd, er enghraifft gwleidyddion, ymgyrchwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â safbwyntiau penodol. Ar yr achlysuron hyn, dylid cyflawni ehangder ac amrywiaeth priodol dros amser drwy ddefnyddio barn olygyddol yn gyson a allai olygu sicrhau, er enghraifft, bod cynnwys a allai fod yn ffafriol yn cynnwys unigolion eraill â safbwyntiau gwahanol. Bydd y cyfnod amser priodol ar gyfer cyflawni'r ehangder a'r amrywiaeth angenrheidiol yn amrywio yn ôl y cyd-destun, ond fel rheol ni fydd yn hwy na chyfres o raglenni neu flwyddyn. Ceir ystyriaethau gwahanol yn ystod y cyfnodau cyn etholiadau (gweler isod).

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.3 - 10.4.8)

**Os oes unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i fod yn westai, ar raglen neu ran o gynnwys, pan na wneir hynny'n rheolaidd, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.**

Ym mhob achos pan mai'r nod yw cyflawni amhleidioldeb teg ynghylch gwleidyddiaeth neu bolisi cyhoeddus dros gyfres neu dros amser, rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i'r cyfnodau cyn etholiadau a refferenda. Mae cyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.16 - 10.4.22)

4.4.28 Yn achlysurol, bydd rhaglen arall nad yw'n rhan o gyfres neu allbwn sy'n rhedeg yn barhaus neu am gyfnod hir, yn cynnwys barn am 'bwnc dadleuol' ac yn parhau i fodloni gofynion amhleidioldeb teg ar gyfer y rhaglen unigol neu'r cynnwys hwnnw. Ar achlysuron o'r fath, dylid cyfeirio at y rheolydd allbwn perthnasol, er mwyn medru ystyried amhleidioldeb teg ar draws y gwasanaeth perthnasol os yw hynny'n angenrheidiol.

## Cynnwys Barn Bersonol

4.4.29 Mae gan y BBC draddodiad o ganiatáu i ystod eang o unigolion, grwpiau neu sefydliadau gynnig barn neu safbwynt personol, fynegi cred, neu gyfleu dadl ddadleuol yn ei allbwn. Gall hyn amrywio o fynegi safbwyntiau pleidiol iawn gan ymgyrchydd, i farn arbenigwr neu weithiwr proffesiynol gan gynnwys academydd neu wyddonydd, i sylwadau a fynegir drwy gyfraniadau gan ein cynulleidfaoedd. Gall y rhain i gyd ychwanegu at ddealltwriaeth a dadl gyhoeddus, yn enwedig pan fydd yn galluogi ein cynulleidfa i glywed safbwyntiau ffres a gwreiddiol ar faterion cyfarwydd.

Rhaid rhoi gwybod i'r cynulleidfaoedd ymlaen llaw am gynnwys safbwyntiau personol o'r fath.

4.4.30 Ar ben hynny, pan fydd gwefannau a rhaglenni safbwyntiau personol (er enghraifft blogiau) yn trafod 'materion dadleuol', yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus neu ddadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol eraill, dylem:

- barchu cywirdeb ffeithiol

- cynrychioli safbwyntiau gwahanol yn deg pan gânt eu cynnwys
- rhoi cyfle i ymateb pan fydd hynny'n briodol, er enghraifft mewn rhaglen drafod a fydd wedi'i threfnu ymlaen llaw

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.27)

- sicrhau bod ystod digon eang o farn a safbwyntiau yn cael ei chynnwys mewn allbwn sy'n debyg o ran math a phwysau ac mewn cyfnod amser priodol.

4.4.31 Gall staff y BBC a chyflwynwyr neu newyddiadurwyr rheolaidd y BBC sy'n gysylltiedig ag allbwn sy'n ymwneud â newyddion neu bolisi cyhoeddus gynnig barn broffesiynol sydd wedi'i gwreiddio mewn tystiolaeth. Fodd bynnag, fel rheol nid yw'n briodol iddynt gyflwyno nac ysgrifennu rhaglenni a chynnwys barn bersonol ar bolisïau cyhoeddus, ar faterion sy'n ymwneud â dadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.12 - 4.4.15)

# ADRAN 5: NIWED A THRAMGWYDD

**5.1 Cyflwyniad**
**5.2 Egwyddorion**
**5.3 Cyfeirio Gorfodol**
**5.4 Arferion**
**Disgwyliadau'r Gynulleidfa**
**Gwybodaeth am Gynnwys**
**Y Trothwy ac Amserlennu ar gyfer Teledu, Radio ac Ar-lein**
**Allbwn Byw**
**Iaith**
**Trais**
**Brawychu a Sarhau**
**Noethni**
**Rhyw**
**Portread**
**Alcohol, Ysmygu, Camddefnyddio Sylweddau a Chyffuriau Anghyfreithlon**
**Hunanladdiad, Ymgais ar Hunanladdiad, Hunan-niweidio ac Anhwylderau Bwyta**
**Ymddygiad Dynwaredol**
**Digwyddiadau Trasig**
**Hypnotiaeth, Bwrw Allan, yr Ocwlt a'r Paranormal**
**Delweddau sy'n Fflachio, Strobio a Dangos Delweddau am Gyfnodau Byr Iawn**
**Rhaglenni a Brynir**

## 5.1 CYFLWYNIAD

Nod y BBC yw adlewyrchu'r byd fel y mae, gan gynnwys pob agwedd ar brofiad dynol a gwirionedd y byd naturiol. Wrth wneud hynny, rydym yn cydbwyso ein hawl i ddarlledu cynnwys arloesol a heriol, sy'n briodol i bob un o'n gwasanaethau, â'n cyfrifoldeb i amddiffyn pobl agored i niwed ac osgoi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau.

Mae cymryd risgiau mewn modd creadigol yn rhan hollbwysig o genhadaeth y BBC. Fodd bynnag, yn ein holl allbwn, po fwyaf yw'r risg, y mwyaf yw'r meddwl y gofal a'r cynllunio y mae ei angen i sicrhau bod cynnwys creadigol yn dwyn ffrwyth. Rhaid i ni fod yn sensitif i safonau a dderbynnir yn gyffredinol a glynu wrthynt, yn ogystal â disgwyliadau ein cynulleidfaoedd o'n cynnwys, yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant. Bydd disgwyliadau'r gynulleidfa o'n cynnwys fel rheol yn amrywio yn ôl y gwasanaeth y mae'n ymddangos arno.

Pan fydd ein cynnwys yn cynnwys deunyddiau heriol allai dramgwyddo rhai o'n cynulleidfa, rhaid i ni bob amser allu dangos diben golygyddol amlwg, gan ystyried safonau a dderbynnir yn gyffredinol, a sicrhau ei fod wedi'i gyfeirio'n glir. Gall deunyddiau heriol o'r fath gynnwys iaith gref, trais, rhyw, trais rhywiol, sarhad, trallod, tresmasu ar urddas pobl a thriniaeth neu iaith sy'n camwahaniaethu, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hyn.

***Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol***

Mae'r Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC yn mynnu ein bod yn defnyddio "*safonau a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn sicrhau amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed*"[1]. Bydd 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol' yn esblygu dros amser a bydd ymchwil berthnasol yn cyfrannu atynt. Mae defnyddio 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol' yn fater o farn, gan ystyried y cynnwys, cyd-destun y cynnwys hwnnw a chyfiawnhad golygyddol.

(Gweler Adran 2 Defnyddio'r Canllawiau: 2.4)

***Cyd-destun***

Mae cyd-destun yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- y deunyddiau golygyddol sydd o'i amgylch
- y gwasanaeth mae'r cynnwys ar gael arno
- yr amser mae ar gael
- rhaglenni neu gynnwys arall sydd ar gael o amgylch y rhaglen neu'r cynnwys dan sylw
- maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl a disgwyliad tebygol y gynulleidfa
- y niwed neu'r tramgwydd y mae'n debygol a achosir wrth gynnwys y cynnwys penodol mewn allbwn yn gyffredinol, neu mewn allbwn o natur neu ddisgrifiad penodol
- y graddau y gellir dod â natur y cynnwys i sylw i'r darpar gynulleidfa, er enghraifft drwy roi cyfeiriadau a gwybodaeth am gynnwys
- effaith y cynnwys ar gynulleidfaoedd a allai ddod ar ei draws yn anfwriadol.

Wrth wneud ein penderfyniadau, ni roddir yr un pwysau i'r ffactorau hyn o reidrwydd.

Ar gyfer cyfres newydd ar deledu a radio (neu pan fydd cyfres yn newid sianel) lle gallai'r cynnwys godi materion sy'n ymwneud â safonau a dderbynnir yn gyffredinol, fel rheol dylid cael trafodaeth yn gynnar yn y broses cynhyrchu gyda'r gweithredwr comisiynu a'r tîm cynhyrchu, gan gynnwys cyflwynwyr a pherfformwyr, i sefydlu paramedrau a thôn a chynnwys sy'n briodol i'r llwyfan, i'r cyd-destun ac i'r slot. Os oes disgwyliadau o gynnwys ac iaith gref ynghlwm wrth gyfres sy'n dychwelyd, dylid cynnal trafodaeth debyg cyn dechrau pob cyfres a ddarlledir.

Dylai'r rheini sy'n cynllunio cynnwys ar-lein hefyd ystyried a fydd unrhyw faterion yn ymwneud â safonau a dderbynnir yn gyffredinol a phennu, yn gynnar yn y broses, a yw'r cynnwys yn debygol o apelio at gyfran fawr o blant neu bobl iau a dewis deunyddiau'n briodol.

[1] Paragraff 46 (2) Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

At ddibenion y Canllawiau Golygyddol ac oni nodir yn wahanol, mae plentyn yn golygu rhywun dan 15 oed. Pobl 15, 16 ac 17[2] oed yw pobl ifanc. Dylid nodi nad yw'r rhain yn ddiffiniadau cyfreithiol.

(Gweler Atodiad 1: Cod Darlledu Ofcom)

## 5.2 EGWYDDORION

5.2.1 Rhaid i'r BBC ddefnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn rhoi digon o amddiffyniad i aelodau o'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau a all achosi tramgwydd neu niwed.

5.2.2 Rhaid i ni beidio â darlledu deunyddiau a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant a phobl ifanc.

5.2.3 Rhaid i ni lynu wrth y trothwy 9pm ar y teledu i sicrhau bod deunyddiau a allai fod yn anaddas i blant yn cael eu hamserlennu'n briodol.

5.2.4 Rhaid i ni gydbwyso ein cyfrifoldeb i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cynnwys anaddas â'u hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid i gael gwybodaeth.

5.2.5 Rhaid i ni sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael gwybodaeth glir i bennu a yw cynnwys yn addas iddynt eu hunain neu i'w plant.

5.2.6 Rhaid gallu cyfiawnhau defnyddio iaith gref yn olygyddol a dylid rhoi cyfeiriadau priodol i sicrhau ei bod yn diwallu disgwyliadau cynulleidfaoedd, ble bynnag y bydd yn ymddangos.

## 5.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

5.3.1 Rhaid i raglenni a ddarlledir ar y teledu rhwng 5.30am a 9pm fod yn addas ar gyfer cynulleidfa gyffredinol gan gynnwys plant. Gall rhaglenni hwyrach cyn y trothwy fod yn anaddas i'r plant ieuengaf neu i blant eu gwylio heb rywun hŷn. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 5.4.7)

5.3.2 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio'r iaith gryfaf (cont, ffwciwr, ffwc neu eiriau sy'n deillio o hynny) at y rheolydd allbwn perthnasol a rhaid i'r rheolydd gymeradwyo hynny. Gellir ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol hefyd.

(Gweler 5.4.23)

5.3.3 Bydd yn rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir ar yr adegau prin y byddwn yn darlledu golygfeydd graffig o ymladd teirw, ymladd ceiliogod a gweithgareddau tebyg

[2] Mae'r diffiniadau hyn yn adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom (Adran Un: Amddiffyn *Ystyr "Plant"* y rheini dan ddeunaw) sy'n dosbarthu "Plant" fel "pobl dan bymtheg oed".

eraill, hyd yn oed os cânt eu recordio mewn gwledydd lle mae hynny'n gyfreithiol. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 5.4.31)

5.3.4 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddarlledu golygfa o grogi, portreadu hunanladdiad, ymgais ar hunanladdiad neu hunan-niweidio at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Dylid hefyd cyfeirio at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.45)

5.3.5 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddangos hypnosis at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 5.4.54)

5.3.6 Rhaid i'r rheolydd allbwn perthnasol gymeradwyo unrhyw gynnig i gynnwys delweddau sy'n fflachio neu ddilyniannau strobio mewn rhaglenni wedi'u recordio sy'n methu'r archwiliadau technegol Adolygu Trosglwyddo.

(Gweler 5.4.57)

5.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnwys a allai ddefnyddio technegau sy'n ymelwa ar bosibilrwydd cyfleu neges i wylwyr neu i wrandawyr, neu a allai ddylanwadu ar eu meddwl, heb iddynt fod yn ymwybodol neu'n gwbl ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd (er enghraifft drwy ddefnyddio delweddau am gyfnodau byr iawn) at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

(Gweler 5.4.58)

## 5.4 ARFERION

### Disgwyliadau'r Gynulleidfa

5.4.1 Dylem farnu addasrwydd cynnwys ar gyfer ein cynulleidfaoedd, gan gynnwys plant, yng nghyswllt disgwyliadau'r gynulleidfa debygol, gan ystyried pa adeg o'r dydd y bydd ar gael, natur y gwasanaeth a natur y cynnwys.

Gall y cwestiynau canlynol helpu i bennu a fydd cynnwys o fewn disgwyliadau'r gynulleidfa:

- Beth yw cyfansoddiad tebygol y gynulleidfa, gan gynnwys nifer ac ystod oed tebygol y plant yn y gynulleidfa, gan ystyried amser ysgol, penwythnosau a gwyliau? (Dylem gofio bod gwyliau'r ysgol yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU.)

- A yw'r dalent, y slot, y teitl, y genre neu'r gwasanaeth yn gysylltiedig â disgwyliadau sydd eisoes yn bodoli y gallai'r cynnwys eu herio?

- A gyfeiriwyd yn glir at unrhyw gynnwys anodd neu heriol?

- A oes unrhyw sensitifrwydd arbennig o amgylch y slot, er enghraifft gwyliau crefyddol neu ben blwyddi digwyddiadau o bwys?

- Beth yw'r "gynulleidfa a ddaw drwodd" debygol (hynny yw, beth yw natur y cynnwys sydd o'i flaen a pha fath o gynulleidfa y mae'n debygol o'i denu)?

## Gwybodaeth am Gynnwys

5.4.2 Rhaid i ni gyfeirio'n glir at gynnwys heriol ar ein holl wasanaethau drwy ddefnyddio amserlennu priodol a gwybodaeth am gynnwys sy'n glir, yn gyson ac yn ffeithiol, naill ai fesul un neu drwy ddefnyddio cyfuniad. Mae hyn yn sicrhau bod gan ein cynulleidfaoedd ddisgwyliad priodol o'n cynnwys a chyfle i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch yr hyn maent yn ei weld ac yn ei glywed.

5.4.3 Pan fydd yn berthnasol, dylem ddarparu gwybodaeth glir am gynnwys rhaglenni cyn y trothwy, rhaglenni sy'n dechrau cyn y trothwy ac sy'n mynd y tu hwnt iddo, a rhaglenni ar ôl y trothwy (os yw'n briodol).

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.6 - 5.4.11)

Pan fydd hynny'n briodol dylid labelu cynnwys ar-alw a allai fod ar ôl y trothwy ar y teledu.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.15 - 5.4.17)

Ar y radio, dylem ddarparu gwybodaeth am gynnwys pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn ein cynulleidfa ni neu pan allai'r cynnwys fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau arferol y gynulleidfa.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.12 - 5.4.14)

Gall gwybodaeth am gynnwys heriol neu annisgwyl gynnwys cyhoeddiadau ar yr awyr ac ar-lein, labeli cynnwys, canllawiau rhaglenni electronig, clipiau rhagflas, cyhoeddiadau, Ceefax, datganiadau i'r wasg a chyhoeddusrwydd arall.

### *Labelu Cynnwys Ar-alw*

5.4.4 Pan fyddwn yn darparu cynnwys sain neu weledol ar-alw ar lwyfannau'r BBC, a phan fydd hynny'n briodol, rhaid i ni ddarparu gwybodaeth er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall ei gyd-destun a gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch ei addasrwydd, iddynt eu hunain ac i blant, cyn iddynt gael gafael arno.

5.4.5 Efallai y bydd angen labelu cynnwys cryfach neu fwy heriol dan y system 'G for Guidance'. Mae hyn yn rhoi:

- Eicon 'G for Guidance' y BBC sy'n dangos bod arweiniad am y cynnwys ar gael i'r defnyddiwr

- system o labeli cynnwys i ddisgrifio cynnwys cryf neu heriol

- system PIN/cyfrinair er mwyn i rieni allu rhwystro mynediad at ddeunyddiau sy'n fwy heriol ac sydd â label cynnwys.

## Y Trothwy ac Amserlennu ar gyfer Teledu, Radio ac Ar-lein

### *Amserlennu ar y Teledu a'r Trothwy*

5.4.6 Mae angen i benderfyniadau amserlennu teledu gydbwyso amddiffyn pobl ifanc ac yn enwedig plant â hawliau pob gwyliwr, gan gynnwys y rheini heb blant, i gael ystod eang o ddeunydd pwnc drwy gydol y dydd. Rhaid iddynt hefyd gael eu barnu yn ôl gofynion y trothwy.

Bydd y trothwy teledu 9pm yn cael ei ddefnyddio gan ddarlledwyr i wahaniaethu rhwng rhaglenni a fwriedir yn bennaf ar gyfer cynulleidfa gyffredinol a'r rhaglenni hynny a fwriedir ar gyfer cynulleidfa o oedolion. Fodd bynnag, mae rhieni a gofalwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb o asesu a yw cynnwys rhaglen yn addas i'w plant, ar sail eu disgwyliadau o'r cynnwys hwnnw.

Mae'r trothwy 9pm yn arwydd o ddechrau'r newid at ddeunyddiau ar gyfer oedolion, ond ni ddylai'r newid fod yn sydyn. Dylai'r rheini sy'n gwneud rhaglenni ac yn trefnu'r amserlen hefyd ystyried natur y sianel a disgwyliadau'r gwylwyr. Dylai'r deunyddiau cryfaf ymddangos yn nes ymlaen yn yr amserlen. Os nad oes modd osgoi newidiadau sydyn mewn tôn, dylid cyfeirio'n glir at hynny, er enghraifft, drwy roi gwybodaeth glir am olygfeydd o natur rywiol, trais neu ddefnyddio iaith gref.

5.4.7 **Rhaid i raglenni a ddarlledir rhwng 5.30am a 9pm fod yn addas ar gyfer cynulleidfa gyffredinol gan gynnwys plant. Po gynharaf y mae rhaglen yn ymddangos min nos, y mwyaf addas y dylai fod i blant ei gwylio heb unigolyn hŷn. Gall rhaglenni hwyrach cyn y trothwy fod yn anaddas i'r plant ieuengaf neu i blant eu gwylio heb rywun hŷn.**

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y ceir anghofio'r arfer hwn, ac wedyn dylid rhoi gwybodaeth glir am y cynnwys. Gall eithriadau gynnwys delweddau a allai beri trallod i rai plant mewn rhaglenni hanes naturiol neu eitemau mewn bwletinau newyddion cyn y trothwy, ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

5.4.8 Fel rheol dylai rhaglenni a ddarlledir bob ochr i'r trothwy, hynny yw sy'n dechrau cyn 9pm ac sy'n gorffen ar ôl 9pm, gydymffurfio â gofynion rhaglen cyn y trothwy.

5.4.9 Fel rheol dylai rhaglenni gael eu comisiynu'n glir ar gyfer eu darlledu ar sianel benodol a hynny cyn neu ar ôl y trothwy, er mwyn gallu gwneud y penderfyniadau gofalus angenrheidiol ynghylch addasrwydd y cynnwys sydd i'w wneud yn ystod y broses cynhyrchu. Os bydd newidiadau i sianeli neu i slotiau darlledu y cytunwyd arnynt yn wreiddiol, yn enwedig unrhyw gynnig i ddarlledu rhaglen cyn yn hytrach nag ar ôl y trothwy, gall hynny olygu bod angen ail olygu'r rhaglen yn sylweddol i sicrhau bod rhaglen yn cydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol hyn o ran niwed a thramgwydd, yn enwedig yng nghyswllt iaith gref a'r dôn gyffredinol.

Dylai rheolwyr, comisiynwyr a thimau cynhyrchu fod yn ymwybodol bod disgwyliadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ymhlith cynulleidfaoedd yn aml ynghlwm wrth sianeli a slotiau darlledu penodol, boed hynny cyn neu ar ôl y trothwy. Mae'n ddoeth felly pennu slotiau rhaglenni cyn gynted ag sy'n bosibl yn y broses cynhyrchu.

5.4.10 Rhaid i gynnwys rhyngweithiol a ddarlledir ar deledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC lynu wrth y trothwy a bod yn briodol i gynulleidfa unrhyw raglen gysylltiedig. Dylai cynnwys rhyngweithiol a ddarlledir ar y teledu ac sy'n gysylltiedig â rhaglenni cyn y trothwy bob amser gydymffurfio â chynnwys cyn y trothwy.

***Newyddion Teledu***

5.4.11 Mae natur newyddion yn golygu nad yw hi bob amser yn bosibl osgoi dangos deunyddiau a allai achosi trallod i rai aelodau o'n cynulleidfaoedd cyn y trothwy. Fel rheol ni fydd ein sianeli newyddion rhyngwladol yn gweithredu polisi trothwy oherwydd bod y newyddion yn cael ei ddangos yn fyw ar draws cylchfaoedd amser gwahanol ym mhedwar ban byd. Pryd bynnag y bydd hynny'n briodol, dylem geisio darparu gwybodaeth glir ac amserol am gynnwys i gyfeirio at unrhyw ddelweddau anodd, yn enwedig y rheini a allai beri trallod i blant.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trais yn y Newyddion ac Allbwn Materion Cyfoes ac Allbwn Byw)

***Amserlennu ar y Radio***

5.4.12 Nid oes gan radio drothwy. Dylai ein penderfyniadau amserlennu fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa o bob gwasanaeth radio ac ar ein gwybodaeth am yr adegau y mae plant yn debygol iawn o fod yn ein cynulleidfa ni. Rhaid i ni fod yn ofalus iawn pan allai cenedlaethau gwahanol fod yn gwrando gyda'i gilydd. Fel rheol mae hyn yn berthnasol yn ystod y siwrnai i'r ysgol yn y bore ac adref yn ystod y prynhawn, neu yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylid cyfeirio'n glir at unrhyw ddeunyddiau annisgwyl neu heriol er mwyn osgoi achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau.

5.4.13 Fel rheol dylem chwarae fersiynau a olygwyd o gerddoriaeth a fyddai fel arall yn cynnwys deunydd anaddas, gan gynnwys iaith gref neu gynnwys treisgar, ar gyfer cynulleidfaoedd prif ffrwd yn ystod y dydd. Min nos ac yn ystod rhaglenni cerddoriaeth arbenigol, gellir cyfiawnhau'r fersiwn wreiddiol yn olygyddol, ond dylai fod o fewn disgwyliadau'r gynulleidfa ar gyfer y rhaglen ac, os oes angen, dylem gymryd camau i gyflawni hyn (er enghraifft cyfeirio a rhoi gwybodaeth am gynnwys).

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.20 - 5.4.26)

5.4.14 Dylem ystyried defnyddio cyhoeddiadau ar yr awyr i roi gwybod i wrandawyr am raglenni sy'n cynnwys deunydd anodd neu ddadleuol, a fyddai fel arall yn annisgwyl, ar ein gwasanaethau lleferydd megis Radio 4, Radio 5 Live, y World Service a gorsafoedd cenedlaethol a lleol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn bennaf ar gyfer oedolion ac mae eu cynulleidfaoedd yn disgwyl clywed ystod lawn o faterion a digwyddiadau'n cael eu harchwilio drwy gydol yr amserlen.

***Ar-lein***

5.4.15 Nid oes dim sy'n cyfateb yn union i'r trothwy ar-lein.

Rhaid i unrhyw gynnwys sydd ar gael ar unwaith ar Hafan y BBC fod yn addas ar gyfer cynulleidfa gyffredinol, gan gynnwys plant. Fel rheol dylai unrhyw gynnwys sydd ar gael ar unwaith drwy glicio unwaith ar yr Hafan fod yn addas ar gyfer cynulleidfa gyffredinol, gan gynnwys plant.

Fel arall, dylai natur y cynnwys rydym yn ei ddarparu fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa o'r gwasanaeth ar-lein penodol ac ar ein gwybodaeth am pryd y mae'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant. Mae hyn yr un mor berthnasol i gynnwys rydym yn ei greu ein hunain, cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, deunyddiau a geir o wefannau trydydd parti a dolenni i wefannau trydydd parti.

Dylid labelu cynnwys annisgwyl neu heriol, yn enwedig cynnwys a allai fod yn anaddas i blant, er mwyn osgoi achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau. Dylai labeli cynnwys fod yn glir ac yn ffeithiol, ond dim yn datgan popeth yn amhriodol. Dylem fod yn ofalus am yr effaith ar ddefnyddwyr petaent yn dod ar draws cynnwys heriol drwy ddilyn dolenni ar safleoedd trydydd parti sy'n osgoi Hafan y BBC neu dudalennau sy'n rhoi cyd-destun.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.4 - 5.4.5)

5.4.16 Dylem fod yn ymwybodol y gall y llwyfan y mae'r cynnwys yn ymddangos arno ddylanwadu ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa. Fodd bynnag, rhaid i gynnwys ar-lein sy'n gysylltiedig ag unrhyw raglen radio neu deledu fod yn briodol i'r rhaglen a'i chynulleidfa debygol, ni waeth a yw'r cynnwys yn cael ei greu gan y BBC neu ddefnyddwyr.

Ar ben hynny, gall disgwyliadau cynnwys a gynhyrchir ar y we gan ddefnyddwyr fod yn wahanol os bydd yr un deunydd yn ymddangos ar deledu neu ar radio.

5.4.17 Wrth greu dolenni o un o safleoedd y BBC i wefan trydydd parti, rhaid i ni wirio cynnwys y safle trydydd parti cyn creu'r ddolen. Ni ddylem greu dolen i safle allanol os yw'n gwbl amhriodol i ni argymell ymweld â'r safle hwnnw. Efallai ei bod yn briodol cynnwys ymwadiad, a gwybodaeth ychwanegol, os yw'r dolenni'n arwain at ddeunyddiau dadleuol.

Dylai tudalennau gwe'r BBC sydd wedi'u dylunio ar gyfer plant ond gynnwys dolenni at dudalennau trydydd parti sydd â chynnwys addas ar gyfer cynulleidfa gyffredinol.

Ni ddylem greu dolen o wefan BBC sy'n gysylltiedig â rhaglen radio neu deledu a anelir at blant i safle arall y mae ei raglen gysylltiedig yn cynnwys deunyddiau sy'n anaddas i blant.

Dylai golygyddion gweithredol rhyngweithiol adolygu addasrwydd cynnal dolenni fel sy'n briodol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.19 - 14.4.20 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.27 - 7.4.29)

### *Amserlennu Clipiau Rhagflas Rhaglenni*

5.4.18 Rhaid bod yn ofalus wrth amserlennu clipiau rhagflas ar gyfer rhaglenni radio a theledu sy'n anaddas i gynulleidfa gyffredinol gan gynnwys plant.

Os darlledir clipiau rhagflas cyn neu ar ôl rhaglenni a dargedir at blant neu ar adegau y mae hi'n debygol iawn y bydd plant yn gwylio, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at nifer fawr o blant, rhaid i'r hysbysebion hynny fod yn addas i'r gynulleidfa honno.

Rhaid i glipiau rhagflas ar gyfer rhaglenni a ddarlledir ar ôl y trothwy fod yn briodol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol gan gynnwys plant os dangosir yr hysbyseb cyn y trothwy.

## Allbwn Byw

5.4.19 Mae arnom angen asesu'r risgiau wrth ddarlledu allbwn byw a chymryd unrhyw gamau priodol i'w lliniaru. Os cyfyd problemau mewn allbwn byw, dylid delio â nhw yn ddiymdroi ac yn sensitif.

(Gweler y Nodiadau Canllaw ar-lein Allbwn Byw)

## Iaith

5.4.20 Mae effaith iaith gref yn dibynnu ar y geiriau a ddewisir, y sawl sy'n eu dweud a'r cyd-destun. Gall geiriau gwahanol achosi tramgwydd i raddau gwahanol mewn cymunedau gwahanol yn ogystal â mewn rhannau gwahanol o'r byd. Gall oed, rhyw, addysg, cyflogaeth, ffydd a chenedligrwydd unigolyn a lle maent yn byw i gyd effeithio ar a achosir tramgwydd iddynt ai peidio.

Fodd bynnag, rhaid gallu cyfiawnhau defnyddio iaith gref yn olygyddol a dylid cyfeirio yn briodol i sicrhau ei bod yn diwallu disgwyliadau cynulleidfaoedd, ble bynnag y bydd yn ymddangos.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.1 Cyd-destun a 5.4.2 – 5.4.3)

Mae iaith gref yn fwyaf tebygol o achosi tramgwydd pan gaiff ei defnyddio heb reswm a heb ddiben golygyddol, a phan fydd yn cynnwys:

- rhegfeydd rhywiol
- termau o sarhad hiliol neu ethnig
- termau o sarhad rhywiol neu rywiaethol neu sarhad sy'n cyfeirio at rywioldeb
- termau difrïol sy'n ymwneud â salwch neu anabledd
- defnyddio enwau sanctaidd neu eiriau crefyddol yn achlysurol neu yn ddirmygus ac yn enwedig wrth eu cyfuno ag iaith gref arall.

5.4.21 Dylai rheolyddion allbwn a chynhyrchwyr rhaglenni a chynnwys sicrhau bod iaith gref, yn enwedig yr iaith gryfaf, yn cael ei hystyried yn ofalus a'i chyfeirio'n briodol, er mwyn sicrhau bod modd ei chyfiawnhau'n olygyddol, cyn ei chynnwys yn ein hallbwn.

Mae cyd-destun a thôn yn allweddol wrth bennu a fydd iaith gref yn dderbyniol neu yn achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau. Dylem ystyried y canlynol:

- Pa iaith a ddefnyddiwyd, pwy a'i defnyddiodd, at bwy y'i cyfeiriwyd a pham y cafodd ei defnyddio.

- Sut cafodd ei ddweud. Oedd y tôn yn flin neu'n ymosodol ynteu'n swynol ac yn ddoniol? Mae'r un termau'n gallu achosi mwy neu lai o dramgwydd yn ôl y tôn a ddefnyddir a chymeriad neu bersonoliaeth y sawl sy'n defnyddio'r termau.

- Lleoliad y cynnwys yn yr amserlenni teledu a radio neu ar-lein

- Mae ansawdd deunyddiau heriol, sy'n cynnwys iaith gref, yn ffactor o bwys wrth bennu pa mor dderbyniol neu annerbyniol ydyw i gynulleidfaoedd. Gall iaith gref fod yn dderbyniol pan fydd yn ddilys neu'n cael ei defnyddio at ddiben neu effaith glir mewn rhaglen, ond nid yw cynulleidfaoedd yn hoffi defnydd diofal heb ddim diben golygyddol.

5.4.22 Rhaid i ni beidio â chynnwys yr iaith gryfaf cyn y trothwy, nac ar y radio pan fydd hi'n debygol iawn y bydd plant yn ein cynulleidfa, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant.

5.4.23 Rhaid i ni wneud penderfyniadau gofalus am ddefnyddio'r iaith gryfaf ar ôl y trothwy hefyd a sicrhau y cyfeirir at hynny'n glir. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio'r iaith gryfaf (cont, ffwciwr, ffwc neu eiriau sy'n deillio o hynny) at y rheolydd allbwn perthnasol a rhaid i'r rheolydd gymeradwyo hynny.** Gellir ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol hefyd.

5.4.24 Rhaid i ni beidio â chynnwys iaith gref cyn y trothwy, nac ar y radio pan fydd hi'n debygol iawn y bydd plant yn ein cynulleidfa, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant, ond bai bod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Hyd yn oed wedyn, rhaid osgoi defnydd rheolaidd.

5.4.25 Ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, rhaid i ni beidio â chynnwys iaith gref sarhaus mewn

- rhaglenni na gwefannau i blant cyn oed ysgol (ar gyfer plant pedair blwydd oed ac iau)

- rhaglenni neu wefannau sydd wedi'u gwneud i blant iau.

***Bipian Iaith Gref***

5.4.26 At ei gilydd, pan fydd iaith gref yn annatod i'r cynnwys, ac mae cwestiynau perthnasol ynghylch y slot darlledu a'r sianel wedi cael eu datrys, ni ddylid ei chuddio. Pan fydd modd cyfiawnhau adran o gynnwys yn olygyddol, ond nid yw'r slot, y sianel na'r cyd-destun yn briodol ar gyfer iaith gref, efallai y bydd angen golygu neu fipio iaith, hyd yn oed ar ôl y trothwy.

Rhaid i iaith sydd wedi'i bipio ar gyfer cynnwys cyn y trothwy gael ei chelu'n llwyr, gan sicrhau nad yw'r geiriau sy'n cael eu bipian yn amlwg drwy edrych ar symudiadau'r geg.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Iaith)

## Trais

5.4.27 Gall portreadu trais go iawn a thrais ffugiol godi ofn a thrallod ar ein cynulleidfaoedd, yn enwedig plant. Dylem wneud penderfyniadau gofalus iawn pan fyddwn yn bwriadu cynnwys trais yn ein hallbwn, ceir mwy a mwy o bryder ymysg y cyhoedd am drais mewn cymdeithas yn gyffredinol ac fel sy'n cael ei bortreadu yn y cyfryngau, mewn cynnwys ffeithiol a ffugiol.

Dylid ystyried y cyfiawnhad golygyddol dros ddangos unrhyw drais, ac fel rheol dylid cyfeirio'n glir at gynnwys treisgar. Pan fydd trais go iawn, neu ganlyniadau hynny, yn cael ei ddangos ar deledu neu pan adroddir amdano ar y radio ac ar-lein, mae arnom angen cael cydbwysedd rhwng gofynion bod yn gywir a pheryglon dadsensiteiddio neu drallod nad oes modd ei gyfiawnhau. Prin iawn yw'r amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau darlledu adeg marwolaeth.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 – 7.4.42 ac Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau)

Mae angen i'n penderfyniadau golygyddol ystyried nifer o ffactorau sydd, ar y cyd, yn gallu cynyddu effaith trais, mewn cynnwys ffeithiol a ffuglen:

- trais sy'n debyg i'r hyn a geir mewn sefyllfaoedd go iawn ac sydd hefyd yn gallu adlewyrchu profiadau personol, er enghraifft, trais yn y cartref, ymladd mewn tafarndai, hwliganiaeth pêl droed, cythraul gyrru a mygio
- trais mewn mannau a ystyrir fel rheol yn ddiogel megis cartref y teulu ac ysbytai
- dulliau anarferol neu sadistaidd o achosi poen, niwed neu farwolaeth
- digwyddiadau lle mae'r dioddefwyr yn fenywod, yn blant ac yn bobl agored i niwed
- trais heb ddangos yr effaith ar y dioddefwr na'r canlyniadau i'r drwgweithredwr
- trais rhywiol
- trais geiriol a thôn, yn enwedig pan fydd yn cynnwys defnyddio'r iaith gryfaf a thermau sy'n camwahaniaethu neu'n sy'n ddifrïol yn rhywiol
- hunanladdiad, ymgais ar hunanladdiad neu hunan-niweidio
- darlledu adwaith pobl eraill i drais, yn enwedig plant
- technegau ôl-gynhyrchu megis cerddoriaeth atmosfferig, symud y lluniau'n araf, lluniau agos ac effeithiau sain
- bygythiad parhaus neu dôn dywyll didostur.

5.4.28 Dylem ofalu ein bod yn sicrhau bod rhaglenni unigol, neu raglenni a gymerir gyda'i gilydd ar draws yr amserlen, yn osgoi cynnwys deunyddiau sy'n caniatáu neu'n hudoli trais, ymddygiad peryglus neu wrthgymdeithasol difrifol, neu ddeunyddiau sy'n debygol o annog eraill i gopïo ymddygiad o'r fath, oni bai fod modd cyfiawnhau hynny'n olygyddol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trais yn y Newyddion ac Allbwn Materion Cyfoes a Thrais mewn Drama)

***Trais ac Amddiffyn Plant***

5.4.29 Os caiff trais a'i ganlyniadau a disgrifiadau o drais eu darlledu mewn rhaglenni cyn y trothwy, neu ar y radio a hithau'n debygol y bydd plant yn ein cynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at nifer fawr o blant, rhaid i hynny fod yn briodol i'r gynulleidfa debygol a dylid gallu cyfiawnhau hynny'n olygyddol.

5.4.30 Rhaid i ni sicrhau na fydd sarhad geiriol na thrais corfforol y byddai'n hawdd i blant ei ddynwared mewn modd niweidiol neu beryglus yn cael ei ddarlledu mewn rhaglenni cyn y trothwy neu ar y radio pan fydd plant yn debygol o fod yn ein cynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at nifer fawr o blant, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros wneud hynny.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.48 - 5.4.52)

***Trais yn erbyn Anifeiliaid***

5.4.31 Mae delweddau neu olygfeydd sy'n dangos trais pobl yn erbyn anifeiliaid yn aml yn gallu achosi trallod i gynulleidfaoedd, yn enwedig plant. Os yw'r golygfeydd yn rhai graffig ond rydym yn gwybod na achoswyd niwed i'r anifail, dylem ystyried dweud hynny mewn capsiwn neu gyhoeddiad ar yr awyr neu ar-lein.

**Bydd yn rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir ar yr adegau prin y byddwn yn darlledu golygfeydd graffig o ymladd teirw, ymladd ceiliogod a gweithgareddau tebyg eraill, hyd yn oed os cânt eu recordio mewn gwledydd lle mae hynny'n gyfreithiol. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3 - 8.4.5)

## Brawychu a Sarhau

5.4.32 Rhaid i gynnwys y BBC barchu urddas pobl. Mae brawychu, sarhau, ymyrraeth, ymosodedd a sylwadau difrïol i gyd yn agweddau ar ymddygiad pobl y gellir eu trafod neu eu cynnwys yn allbwn y BBC. Gall peth cynnwys fod yn greulon, ond ni ddylid dathlu sylwadau sy'n rhy frawychus, sarhaus, ymwthiol, ymosodol na difrïol tuag at bobl go iawn (yn hytrach na chymeriadau ffuglennol neu ffigurau hanesyddol) at ddibenion adloniant. Dylid gofalu bod sylwadau o'r fath a'u tôn yn gymesur i'w targed.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.24)

## Noethni

5.4.33 Rhaid i'r cyd-destun gyfiawnhau noethni cyn y trothwy, mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant, neu awgrymiadau o noethi ar y radio pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn ein cynulleidfa. Gall noethi, boed hwnnw i'w weld neu'n cael ei awgrymu, achosi tramgwydd a rhaid bod yn ofalus mewn cynnwys cyn y trothwy, yn enwedig mewn deunyddiau hyrwyddo nad yw'n cynnwys gwybodaeth am y cynnwys.

## Rhyw

5.4.34 Yn holl allbwn y BBC os bydd rhyw yn cael ei bortreadu neu os bydd materion rhywiol yn cael eu harchwilio, dylid gallu cyfiawnhau hynny'n olygyddol a dylid ei drin yn sensitif.

Mewn cynnwys ar ôl y trothwy, rhaid i ni allu cyfiawnhau portreadu rhyw yn agored ac yn realistig ac archwilio themâu a materion a allai beri tramgwydd i rai pobl.

5.4.35 Mae portreadu rhyw yn eglur rhwng pobl ifanc dan 16 ac oedolion yn anghyfreithlon a rhaid peidio â darlunio hynny ar unrhyw adeg ar yr un o'n gwasanaethau.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9.6)

5.4.36 Rhaid gallu rhoi cyfiawnhad golygyddol dros drafod a phortreadu ymddygiad rhywiol mewn rhaglenni a ddarlledir cyn y trothwy neu ar y radio a hithau'n debygol y bydd plant yn debygol o fod yn ein cynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant. Rhaid iddo hefyd fod yn briodol i'r gynulleidfa debygol ac yn aneglur. Gall fod yn rhaid rhoi gwybodaeth glir am y cynnwys.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.2 - 5.4.3)

Rhaid i ni beidio â phortreadu na chynrychioli cyfathrach rywiol heb ddiben addysgol difrifol mewn rhaglenni a ddarlledir cyn y trothwy, nac ar y radio pan fydd hi'n debygol iawn y bydd plant yn ein cynulleidfa, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant.

5.4.37 Dylem ystyried a oes eisiau deunyddiau cefnogi pan fyddwn yn annog cynulleidfaoedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, i drafod eu problemau yn ein cynnwys. Gallai hyn gynnwys cyfeiriadau ystod o wefannau perthnasol neu rifau ffôn llinellau cymorth awdurdodol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.34 – 14.4.37 ac Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.21)

## Portread

5.4.38 Ein nod yw adlewyrchu pobl a diwylliannau holl bobl y Deyrnas Unedig yn llawn ac yn deg yn ein gwasanaethau. Gall cynnwys adlewyrchu rhagfarn ac anfantais sy'n bodoli mewn cymunedau ledled y byd ond ni ddylem ei barhau. Mewn rhai amgylchiadau, gall cyfeiriadau at anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd, hil, ac ati fod yn berthnasol i'r portread. Fodd bynnag, dylem osgoi tybiaethau ystrydebol diofal neu a allai achosi tramgwydd a dim ond pan fydd modd cyfiawnhau hynny'n olygyddol y dylid disgrifio pobl mewn termau o'r fath.

5.4.39 Pan fydd hynny o fewn disgwyliadau'r gynulleidfa, gallwn gynnwys portread neu ystrydeb sydd wedi cael ei chwyddo at ddibenion comig, ond rhaid i ni fod yn ymwybodol y gall ystrydebau achlysurol neu ddibwrpas beri tramgwydd i gynulleidfaoedd.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Portread)

## Alcohol, Ysmygu, Camddefnyddio Sylweddau a Chyffuriau Anghyfreithlon

5.4.40 Rhaid i ni gydbwyso'r angen i adlewyrchu'r ystod o agweddau ac ymddygiad cyhoeddus yn realistig, â pherygl posibilrwydd annog ymddygiad niweidiol neu anghyfreithlon, yn enwedig ymhlith plant.

5.4.41 Defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau, ysmygu, camddefnyddio sylweddau a chamddefnyddio alcohol:

- ni ddylai'r rhain fod mewn cynnwys sydd wedi'i wneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros wneud hynny
- yn gyffredinol dylid eu hosgoi a rhaid peidio â'u caniatáu, eu hannog na'u hudoli mewn unrhyw raglenni a ddarlledir cyn y trothwy nac ar y radio pan fydd hi'n debygol iawn y bydd plant yn ein cynulleidfa, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny
- rhaid peidio â chaniatáu, annog na hudoli'r rhain mewn unrhyw gynnwys arall sy'n debygol o gael ei weld, ei glywed neu ei ddefnyddio gan lawer o blant a phobl ifanc, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny.

5.4.42 Dylem hefyd:

- sicrhau nad yw cyfranwyr at raglenni megis dadleuon stiwdio neu raglenni sgwrsio yn ysmygu[3]
- delio â phob agwedd ar ddefnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon, camddefnyddio sylweddau a chyffuriau, ysmygu a chamddefnyddio alcohol â chywirdeb teg.« Er mwyn cyflawni cywirdeb teg, dylai hyn gynnwys, er enghraifft, goblygiadau iechyd ac agweddau gwrthgymdeithasol defnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon ac yfed yn drwm mewn pyliau
- sicrhau bod y cyd-destun cyfreithiol a chymdeithasol a roddwn yn glir
- osgoi datgelu manylion eglur sut i ddefnyddio cyffuriau yn anghyfreithlon neu gamddefnyddio sylweddau, oni bai fod modd cyfiawnhau hynny'n glir yn olygyddol.

5.4.43 Pan fydd deunyddiau o'r archif yn cynnwys deunyddiau nad ydynt yn adlewyrchu safonau neu agweddau cyfredol at ysmygu, alcohol, camddefnyddio sylweddau neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, gall y cyd-destun hanesyddol a didwylledd y cynnwys roi digon o gyfiawnhad golygyddol. Fodd bynnag, dylai'r

---

[3] Mae ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig neu sylweddol gaeedig a gweithleoedd hefyd yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig bellach.

cynnwys fod wedi'i amserlennu'n briodol a, lle bo angen, ei gyfeirio a dylai fod yn glir i'r gynulleidfa nad yw'n gyfoes.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.2 – 5.4.5 ac Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.13 - 13.4.15)

## Hunanladdiad, Ymgais ar Hunanladdiad, Hunan-niweidio ac Anhwylderau Bwyta

5.4.44 Dylid portreadu hunanladdiad, ymgais ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn sensitif iawn, boed hynny mewn dramâu neu raglenni ffeithiol. Gall adroddiadau ffeithiol am hunanladdiad, ymgais ar hunanladdiad a hunan-niweidio a phortreadu hynny mewn ffuglen wneud i gamau o'r fath ymddangos yn bosibl, a hyd yn oed yn briodol, i bobl agored i niwed.

5.4.45 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddarlledu golygfa o grogi, portreadu hunanladdiad, ymgais ar hunanladdiad neu hunan-niweidio at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.** Dylid hefyd cyfeirio at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

Rhaid gochel rhag disgrifio neu ddangos dulliau hunan-niweidio neu hunanladdiad mewn manylder, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol clir dros wneud hynny.

5.4.46 Mae defnyddio iaith mewn ffordd sensitif yn bwysig hefyd. Cafodd hunanladdiad ei ddad-droseddoli yn 1961, ac ers hynny mae defnyddio'r term "cyflawni" hunanladdiad yn gallu peri tramgwydd i rai pobl. Mae "cymryd eich bywyd eich hun" neu "lladd eich hun" yn dermau gwell. Dylem ystyried a ddylid darparu llinell gymorth neu ddeunyddiau cefnogi pan fydd allbwn yn delio â materion o'r fath, neu a ddylid cynnwys dolen at ddeunyddiau o'r fath. Fel rheol gall gwneuthurwyr rhaglenni a chynhyrchwyr cynnwys eraill ymgynghori â'r Samariaid am bortreadu hunanladdiad ac maent wedi cyhoeddi eu harweiniad eu hunain i ddarlledwyr.

5.4.47 Rhaid bod yn ofalus wrth bortreadu cyflyrau megis anorecsia neu bwlimia mewn cynnwys ffeithiol neu ffuglen. Dylem fod yn ymwybodol y gall pobl agored i niwed, yn enwedig pobl ifanc, ddynwared neu efelychu ymddygiad a thechnegau a ddangosir. Dylid gofalu bod cynnwys yn gyfrifol ac yn briodol i'r gynulleidfa debygol. Dylid darparu llinellau cymorth neu ddeunyddiau cefnogi pan fydd angen, neu dylid darparu dolenni i ddeunyddiau o'r fath.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.34 – 14.4.37 ac Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.21)

## Ymddygiad Dynwaredol

### *Plant a Dynwared Peryglus*

5.4.48 Mae'r hyn mae plant yn ei weld, yn ei glywed ac yn ei ddarllen yn gallu dylanwadu arnynt. Os yw ymddygiad yn debygol o gael ei ddynwared yn rhwydd gan blant mewn modd sy'n beryglus rhaid peidio â'i ddarlledu cyn y trothwy nac ar y radio pan fydd hi'n debygol iawn y bydd plant yn ein cynulleidfa, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant.

5.4.49 Rhaid gwneud penderfyniadau gofalus iawn am gynnwys a allai arwain at ddynwared peryglus, yn enwedig pan fydd hynny'n cynnwys defnyddio gwrthrychau yn y cartref (megis cyllyll, morthwylion a sisyrnau) mewn gweithredoedd treisgar. Ni ddylid rhoi cynnwys o'r fath mewn allbwn sydd wedi'i wneud yn bennaf ar gyfer plant oni bai fod cyfiawnhad golygyddol cryf dros wneud hynny. Dylai rhaglenni ffeithiol sydd wedi'u creu ar gyfer plant sicrhau eu bod yn gofalu nad ydynt yn annog dynwared technegau, arbrofion ac yn y blaen.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.29 - 5.4.30)

5.4.50 Pan fydd gweithgareddau peryglus megis dringo creigiau, eira fyrddio neu rafftio ar ddŵr gwyllt yn cael eu dangos mewn cynnwys ffeithiol naill ai cyn y trothwy, neu ar y radio a hithau'n debygol y bydd plant yn ein cynulleidfa, neu mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at nifer fawr o blant, rhaid i ni roi rhybuddion am beryglon dynwared heb oruchwyliaeth arbenigwyr a sicrhau bod yr offer diogelwch angenrheidiol bob amser yn amlwg. Pan fydd yn berthnasol ac oni bai nad oes rheswm golygyddol clir dros beidio â gwneud hynny, fel rheol dylid dangos y gweithdrefnau diogelwch cywir wrth ddangos y math hwn o weithgareddau mewn drama a rhaglenni adloniant cyn y trothwy, neu gynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at nifer o blant.

### *Diogelwch*

5.4.51 Fel rheol dylem ddilyn y gyfraith, yn y DU ac mewn gwledydd eraill, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol clir dros beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyflwynwyr, actorion a chyfranwyr sy'n gyrru yn defnyddio gwregysau diogelwch, yn gosod seddi ceir plant yn gywir ac yn defnyddio helmedau a'r offer ffonau symudol cywir.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.3.1)

5.4.52 Dylem bob amser ddangos defnyddio offer diogelwch gyda synnwyr cyffredin pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol amlwg dros beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer amddiffyn llygaid ar gyfer gweithgareddau DIY ac offer pen a dillad sy'n eich amddiffyn ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn enwedig y rheini sy'n boblogaidd ymysg plant megis beicio, sglefr fyrddio a chwaraeon dŵr.

## Digwyddiadau Trasig

5.4.53 Gall canlyniadau digwyddiad trasig olygu ei bod yn rhaid newid amserlen teledu a radio neu newid tudalennau gwe neu eu tynnu ar achlysuron. Dylem adolygu ein hallbwn yn gyson i ganfod unrhyw beth a allai achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau yng ngoleuni digwyddiadau fel y bernir yn ôl safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Mae pen blwyddi digwyddiadau trasig, megis damweiniau rheilffordd, ffrwydradau neu gipio plant, hefyd yn galw am yr un sensitifrwydd i bosibilrwydd achosi tramgwydd.

## Hypnotiaeth, Bwrw Allan, yr Ocwlt a'r Paranormal

### *Hypnotiaeth*

5.4.54 Mae Deddf Hypnotiaeth 1952 yn mynnu ei bod yn rhaid trwyddedu unrhyw dro y defnyddir hypnotiaeth at ddibenion adloniant cyhoeddus. Mae'n gwahardd defnyddio hypnotiaeth ar bobl dan 18 oed ac mae'n berthnasol i unrhyw hypnotiaeth a ddarlledir mewn adloniant sy'n agored i'r cyhoedd neu mewn cysylltiad â hynny.

Er nad oes gennym dystiolaeth bod defnyddio hypnotiaeth yn ein hallbwn yn gallu achosi niwed neu niwed posibl, dylem gymryd camau i leihau unrhyw risg o achosi hypnotiaeth a/neu adweithiau niweidiol mewn gwylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein a fyddai'n ymateb i hynny. Yn benodol, rhaid i hypnotydd beidio â darlledu ei (h)araith lafar yn llawn ac ni ddylid ei (d)dangos yn perfformio yn syth i'r camera. Dylid bod yn ofalus wrth drin gweithredoedd hypnotiaeth mewn rhaglenni adloniant, yn enwedig y rheini sydd wedi'u cynllunio i wawdio rhywun. Gallant fod yn niweidiol a pheri tramgwydd i'n cynulleidfa.

Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddangos hypnosis at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

***Bwrw Allan, yr Ocwlt a'r Paranormal***

5.4.55 Rhaid i ni weithredu mewn modd cyfrifol pan fyddwn yn cynnwys deunydd sy'n edrych ar unrhyw agwedd ar fwrw allan, yr ocwlt, y paranormal, dewiniaeth neu unrhyw arferion cysylltiedig.

Rhaid peidio â dangos arddangosiadau sy'n honni eu bod yn wir cyn y trothwy neu ar y radio a hithau'n debygol y bydd plant yn ein cynulleidfa nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant.

Rhaid peidio â darlledu arferion paranormal at ddibenion adloniant (heb gynnwys drama, ffilm neu gomedi) ar adegau y disgwylir y gallai nifer fawr o blant fod yn gwylio, neu yn debygol o fod yn ein cynulleidfa radio neu'n defnyddio ein cynnwys ar-lein.

5.4.56 Bob amser, dylid trin arddangosiadau o fwrw allan, yr ocwlt, y paranormal, dewiniaeth neu unrhyw arferion cysylltiedig mewn rhaglenni ffeithiol gyda gwrthrychedd sy'n briodol i'r allbwn. Mewn rhaglenni adloniant, rhaid eu labelu'n glir. Yn ein holl allbwn, rhaid i arddangosiadau o'r fath beidio â chynnwys cyngor am iechyd, cyllid, cyflogaeth na pherthnasau sy'n annog pobl i wneud penderfyniadau a allai newid eu bywyd.

## Delweddau sy'n Fflachio, Strobio a Dangos Delweddau am Gyfnodau Byr Iawn

***Delweddau sy'n Fflachio, Strobio ac Epilepsi Ffotosensitif***

5.4.57 Er mwyn lleihau'r risg i wylwyr sydd ag epilepsi ffotosensitif dylem ddilyn arweiniad Ofcom y cyfeirir ato yn Rheol 2.12 Cod Darlledu Ofcom. Ar achlysuron prin, efallai na fydd yn ymarferol resymol dilyn yr arweiniad hwn, er enghraifft pan na fydd modd osgoi cynnwys sy'n fflachio, megis mewn digwyddiad i'r wasg neu adroddiad newyddion byw nad oes modd ei addasu'n dechnegol. Mewn achosion o'r fath, pan fydd modd cyfiawnhau cynnwys o'r fath yn olygyddol, dylem roi rhybudd ar lafar ac, os yw'n briodol, mewn testun ar ddechrau'r rhaglen neu'r eitem.

Rhaid i'r rheolydd allbwn perthnasol gymeradwyo unrhyw gynnig i gynnwys delweddau sy'n fflachio neu ddilyniannau strobio mewn rhaglenni wedi'u recordio sy'n methu'r archwiliadau technegol Adolygu Trosglwyddo.

***Delweddau a Ddangosir am Gyfnodau Byr Iawn***

5.4.58 Rhaid i ni beidio â defnyddio unrhyw dechnegau sy'n ymelwa ar bosibilrwydd cyfleu neges i wylwyr neu i wrandawyr, neu ddylanwadu ar eu meddwl, heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n gwbl ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Gallai technegau o'r fath gynnwys dangos delweddau am gyfnodau byr iawn.

Os oes gan unrhyw un rheswm dros gredu y defnyddir techneg o'r fath yn eu cynnwys, rhaid iddynt gyfeirio hyn at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

## Rhaglenni a Brynir

5.4.59 Rhaid i raglenni a brynir gydymffurfio â'n Canllawiau Golygyddol ar Niwed a Thramgwydd. Dylem eu gwirio cyn eu darlledu i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn addas i'r gynulleidfa debygol. Dim ond canllaw yw dosbarthiad ffilm a dylid bod yn ofalus iawn gyda ffilmiau sydd â thystysgrif "18", na ddylid eu dangos ar unrhyw wasanaeth cyn 9pm.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.6 - 5.4.10)

5.4.60 Fel rheol ni ddylem ddarlledu ffilm na rhaglen y mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) wedi gwrthod rhoi tystysgrif iddynt. I gael rhagor o fanylion edrychwch ar Adran 1 Cod Darlledu Ofcom.

Fel rheol ni ddylem ddangos clipiau dangosol o ffilm na rhaglen y mae'r BBFC wedi gwrthod rhoi tystysgrif iddi heb gyfiawnhad golygyddol clir dros wneud hynny.

# ADRAN 6: TEGWCH, CYFRANWYR A CHYDSYNIAD

**6.1 Cyflwyniad**
**6.2 Egwyddorion**
**6.3 Cyfeirio Gorfodol**
**6.4 Arferion**
**Cyfranwyr a Chydsyniad Gwybodus**
**Bod yn ddienw**
**Cyfranwyr, Cytundebau Mynediad ac Annibyniaeth Golygyddol**
**Twyll**
**Brawychu a Sarhau**
**Hawl i Ymateb**
**Gwrthod Cymryd Rhan**
**Portreadu Pobl Go Iawn mewn Drama**
**Diogelwch a Lles Cyfranwyr**

## 6.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn ymdrechu i fod yn deg i bawb – yn deg i'r rheini sy'n destun ein hallbwn, yn deg i gyfranwyr ac yn deg i'n cynulleidfaoedd. Dylai cynnwys y BBC fod yn seiliedig ar barch a bod yn agored ac yn uniongyrchol. Mae gennym hefyd ddyletswydd dan God Darlledu Ofcom i "*osgoi trin unigolion neu sefydliadau mewn modd anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni*."[1]

Mae llawer o'r adran hon yn edrych ar broses recriwtio'r rheini sy'n cymryd rhan yn ein cynnwys neu sy'n ymwneud â'n cynnwys mewn ffordd arall, a dylid ei hystyried ochr yn ochr ag Adran 7: Preifatrwydd – Preifatrwydd a Chydsyniad.

Fodd bynnag, mae cyfeirio at bobl neu eu dangos yn anghywir yn gallu achosi annhegwch. Yn ogystal â bod yn berthnasol i allbwn ffeithiol (er enghraifft wrth gynrychioli safbwyntiau pobl eraill a gwybodaeth amdanynt), mae hefyd yn berthnasol i ddramâu sy'n portreadu pobl neu sefydliadau go iawn. O ganlyniad i hynny, dylid hefyd darllen yr adran hon o'r Canllawiau ar y cyd ag Adran 3: Cywirdeb.

## 6.2 EGWYDDORION

6.2.1 Byddwn yn agored, yn onest, yn uniongyrchol ac yn deg wrth ddelio â chyfranwyr a chynulleidfaoedd oni bai fod budd amlwg i'r cyhoedd o wneud fel arall, neu bydd angen i ni ystyried materion pwysig megis materion cyfreithiol, diogelwch neu gyfrinachedd.

6.2.2 Fel rheol dylid rhoi gwybodaeth briodol i unigolion am natur a chyd-destun eu cyfraniadau pan ofynnir iddynt gymryd rhan yng nghynnwys y BBC a rhoi eu cydsyniad, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen heb eu cydsyniad.

6.2.3 Pan fydd ein hallbwn yn cynnwys honiadau o ddrwgweithredu, camwedd neu analluu neu os yw'n rhoi beirniadaeth gref a niweidiol o unigolyn neu sefydliad, fel rheol dylai'r rheini sy'n cael eu beirniadu gael yr hawl i ymateb, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen heb wneud hynny.

[1] Rheol 7.1, Cod Darlledu Ofcom

## 6.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

6.3.1 Os bydd unrhyw gynnig i ddarlledu honiad difrifol sy'n deillio o'n newyddiaduraeth ein hunain heb roi cyfle i ymateb i'r rheini dan sylw, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.27)

6.3.2 Os bydd unigolyn go iawn yn cael ei bortreadu yn sylweddol mewn drama yn erbyn dymuniadau'r unigolyn dan sylw neu eu perthnasau agos sydd yn dal yn fyw, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.29)

### *Cyfeirio at Bolisi Golygyddol*

6.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at allbwn newyddion neu ffeithiol at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol, neu yn yr achosion mwyaf difrifol, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.17)

6.3.4 Os oes cynnig i greu gwefan sy'n ymddangos nad oes ganddo ddim cysylltiad â'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol a'r Polisi Golygyddol.

(Gweler 6.4.21)

### *Cyfeirio Arall*

**6.3.5 Os oes unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at ddibenion comedi ac adloniant, boed hwy'n ffigur cyhoeddus ai peidio, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol.**

(Gweler 6.4.20)

**6.3.6 Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio fisa twrist i osgoi cyfyngiadau fisa wrth weithio i'r BBC yn y wlad honno, neu unrhyw gynnig arall i fynd i mewn i wlad yn anghyfreithlon, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler 6.4.23)

6.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gytundeb mynediad, ffilmio neu recordio at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol, yn enwedig pan fydd y geiriau arfaethedig yn rhoi annibyniaeth golygyddol y BBC yn y fantol neu pan allai ildio rheolaeth olygyddol i gyfrannwr neu sefydliad sy'n cyfrannu.

(Gweler 6.4.15)

6.3.8 Os cyfyd unrhyw gais o ardaloedd allbwn y tu allan i Newyddion y BBC am gyfweliadau neu ymddangosiadau egsgliwsif gan aelodau'r Teulu Brenhinol, rhaid trafod y rhain â Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC.

(Gweler 6.4.15)

6.3.9 Rhaid i unrhyw un sy'n camu i mewn yn weithredol i lywio cwrs trafodaeth ar-lein at un o ddibenion y BBC, heb ddatgelu eu cysylltiad â'r BBC, fod yn gweithredu er budd y cyhoedd a rhaid cyfeirio at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Yn yr achosion mwyaf difrifol, rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 6.4.22)

## 6.4 ARFERION

### Cyfranwyr a Chydsyniad Gwybodus

6.4.1 Dylem drin ein cyfranwyr yn onest ac yn barchus. Fel rheol bydd ein hymrwymiad i degwch yn cael ei gyflawni drwy sicrhau bod pobl yn rhoi 'cydsyniad gwybodus' cyn iddynt gymryd rhan. Mae 'cydsyniad gwybodus' yn golygu bod y cyfranwyr yn gwybod yr hyn y mae arnynt angen ei wybod er mwyn gwneud penderfyniad rhesymedig i gymryd rhan yn ein cynnwys.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.7 - 3.4.8)

Cyn iddynt gymryd rhan, fel rheol dylai cyfranwyr wybod:

- pam y gofynnir iddynt gyfrannu at gynnwys y BBC a lle y bydd yn ymddangos gyntaf
- cyd-destun y cynnwys
- natur eu cyfraniad.

Po fwyaf y bydd eu cyfraniad, y mwyaf o fanylion y dylem eu darparu. Fodd bynnag, fel rheol dylem ddisgwyl egluro'r canlynol:

- Y math o gyfraniad y disgwylir iddynt ei wneud. Dylem wedyn ddweud wrthynt ymlaen llaw am yr ystod o safbwyntiau sy'n cael eu cynrychioli yn y cynnwys penodol maent yn cyfrannu ato a, phan fydd yn bosibl, enwau'r cyfranwyr tebygol eraill

- A fydd eu cyfraniad yn fyw ynteu wedi'i recordio a/neu ei olygu. Os caiff ei recordio, ni ddylem warantu y caiff ei ddarlledu
- Dim ond amlinelliad cyffredinol o feysydd y cwestiynau y gallwn ni ei roi oherwydd bydd cyfeiriad y cyfweliad yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn cael ei ddweud
- Bydd y cynnwys terfynol yn gynrychioliad teg ac onest o'r hyn maent yn ei ddweud ac yn ei wneud
- Gall cyfryngau eraill y BBC ddefnyddio eu cyfraniad gan gynnwys atgynhyrchu ac archifo ar-lein

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 - 13.4.12)

- Fel rheol ni fyddwn yn caniatáu rhagolwg o gynnwys y BBC. Fodd bynnag, pan fydd rhagolwg yn cael ei ystyried am resymau golygyddol, moesegol neu gyfreithiol, rhaid i ni fod yn glir ynghylch y termau y caiff ei gynnig. Mae'n well gwneud hyn yn ysgrifenedig ymlaen llaw fel rheol. Dylem egluro nad ydym yn ildio rheolaeth olygyddol ac y bydd unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad fel rheol ond yn berthnasol i gywiro gwallau ffeithiol y cytunwyd arnynt, pryderon rhesymol am les plant, diogelwch personol neu ddiogelwch y wlad

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.13 - 6.4.16)

- Eu hawliau a'u rhwymedigaethau nhw a rhai'r BBC dan y contract yng nghyswllt eu cyfraniad. Er enghraifft, rydym yn disgwyl i'r cyfranwyr fod yn onest, yn uniongyrchol ac yn gywir.

Ni ddylem roi ymrwymiad na allwn ei gadw i gyfrannwr. Gall gwefannau trydydd parti atgynhyrchu ein cynnwys yn fyd-eang heb ein gwybodaeth na'n cydsyniad, felly ni ellir gwarantu na fydd cyfraniad yn cael ei weld mewn gwledydd penodol.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cydsyniad Gwybodus)

6.4.2 Fel rheol ni ofynnir am gydsyniad pobl a fydd yn cael eu recordio yn cyflawni neu'n cyfaddef trosedd neu'n ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol neu'n cyfaddef iddynt wneud hynny. Byddem hefyd fel rheol yn datgelu pwy ydynt er bod rhai amgylchiadau pan fydd yn bwysig peidio â gwneud hynny.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Disgwyliadau Dilys yng nghyswllt Preifatrwydd ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.17 - 6.4.23)

6.4.3 Gall achlysuron godi pan fydd pobl yn cael eu trafod, y cyfeirir atynt neu byddant yn ymddangos mewn deunyddiau heb iddynt wybod hynny a heb eu cydsyniad. Efallai eu bod yn ffigurau cyhoeddus neu'n unigolion preifat a gall y deunyddiau gynnwys ffotograffau, fideo a gohebiaeth maent yn rhan ohono. Dylem fod yn deg ac yn gywir wrth bortreadu'r bobl hyn a, phan fydd yn briodol, parchu eu disgwyliadau dilys yng nghyswllt preifatrwydd.

(Gweler Adran 7: Preifatrwydd : 7.1 Disgwyliadau Dilys yng nghyswllt Preifatrwydd ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.7)

6.4.4 Fel rheol dylem ddweud wrth gyfranwyr os bydd newid mawr i raglen neu gynnwys arall wrth iddo ddatblygu a cyn ei ddarlledu, os gellir ystyried yn rhesymol y byddai'r newidiadau hynny wedi effeithio ar eu penderfyniad gwreiddiol i gymryd rhan, petaent yn gwybod hynny ar y pryd. Yn ôl yr amgylchiadau penodol, gallai newidiadau o'r fath gynnwys teitl rhaglen (er enghraifft, pan fydd hynny'n newid canfyddiad y gynulleidfa o gynnwys neu gyfranwyr y rhaglen), cyfranwyr pwysig eraill, newidiadau mawr i'r dyddiad darlledu neu gyhoeddi, neu unrhyw beth sy'n newid y cyd-destun y bydd y cyfraniad yn ymddangos ynddo'n sylweddol.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.9)

***Cael Cydsyniad***

6.4.5 Rydym yn cael cydsyniad gwybodus gan ein cyfranwyr mewn nifer o ffyrdd, gan ddibynnu ar amgylchiadau eu cyfraniad. Pryd bynnag y bydd yn ymarferol dylem gael cydsyniad ar ffurf sy'n rhoi prawf.

Mewn nifer o achosion bydd cyfranwyr yn rhoi eu cydsyniad dim ond drwy gytuno i gael eu recordio ar gyfer y radio neu'r teledu neu gyfrannu ar-lein. Er enghraifft, fel rheol bydd hyn yn berthnasol i'r rheini sy'n cael eu cyfweld ar fyr rybudd ar gyfer unrhyw un o'n gwasanaethau, gan gynnwys pobl yn y newyddion a phobl sy'n cymryd rhan mewn "vox pops". Yn amlwg nid yw'n ymarferol cael cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer cyfraniadau ar fyr rybudd, gan gynnwys y rheini ar gyfer radio lleol, newyddion parhaus a chyfryngau newyddion eraill.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd cyfranwyr yn rhoi eu cydsyniad ar lafar ar ddechrau prosiect ac mae eu cydsyniad parhaus yn ymhlyg drwy gydol eu cyfraniad wrth wneud y rhaglen.

(Gweler yr Arweiniad Ar-lein: Cydsyniad Gwybodus)

6.4.6 Fel rheol ni ddylem ddibynnu ar drydydd parti i gael cydsyniad gan oedolyn cyfrifol er gall fod yn gall cysylltu â darpar gyfrannwr drwy drydydd parti yn y lle cyntaf, er enghraifft wrth ddelio â phobl agored i niwed, pobl mewn profedigaeth neu mewn amgylchiadau sensitif eraill.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.41)

6.4.7 Ar gyfer cyfraniadau mwy, ambell waith gallwn ofyn i'r rheini sy'n cymryd rhan lofnodi contract sy'n ffurfioli telerau eu gwaith gyda ni, ac sy'n cynnwys datganiad o wybodaeth bersonol a allai roi enw da'r BBC yn y fantol, er enghraifft, euogfarnau troseddol, neu a allai gynnwys gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.7 - 3.4.8)

6.4.8 Efallai na fydd pobl ifanc nac oedolion agored i niwed bob amser mewn sefyllfa i roi cydsyniad gwybodus, er enghraifft, pobl ag anawsterau dysgu neu fathau o ddementia, pobl mewn profedigaeth, a phobl sy'n sâl neu'n derfynol wael. Mewn achosion o'r fath, fel rheol dylai rhywun dros 18 oed sy'n bennaf gyfrifol am ofalu amdanynt roi cydsyniad ar eu rhan, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen heb wneud hynny. Yn benodol, dylem osgoi gofyn i rywun na all roi eu

cydsyniad eu hunain am sylwadau ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn iawn heb gydsyniad oedolyn sydd â'r prif gyfrifoldeb dros eu gofal.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.12 - 9.4.23)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Argyfyngau Meddygol)

***Tynnu Cydsyniad yn ôl***

6.4.9 O bryd i'w gilydd bydd pobl sydd wedi cyfrannu at ein hallbwn o wirfodd yn ceisio tynnu eu cydsyniad yn ôl cyn darlledu. Yn gyffredinol, nid oes gan neb hawl i'n rhwystro ni rhag defnyddio eu cyfraniad mewn amgylchiadau o'r fath, ond dylem wrando'n astud ar unrhyw wrthwynebiadau rhesymol. Efallai y bydd eithriadau, er enghraifft pan fydd gennym ddyletswyddau dan gontract neu efallai pan fu newidiadau sylweddol i'r cyd-destun a ddefnyddir i ddangos eu cyfraniadau.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.4)

## **1.1** *Bod yn ddienw*

6.4.10 Ambell waith dim ond drwy ffynonellau neu gyfranwyr ar sail 'oddi ar gofnod' neu ddienw y bydd gwybodaeth y dylai'r cyhoedd wybod amdani ar gael.

Pan fyddwn yn caniatáu i gyfrannwr neu ffynhonnell aros yn ddienw fel amod o'u cyfraniad, rhaid i ni gytuno'n glir ar raddfa hynny. Efallai ei bod yn ddigon sicrhau nad yw'n hawdd i'r cyhoedd adnabod y cyfrannwr neu'r ffynhonnell, neu efallai fod arnynt eisiau sicrhau na fyddai eu teulu na'u ffrindiau agos yn gallu eu hadnabod. Dylem gadw nodiadau cywir o sgyrsiau â ffynonellau a chyfranwyr ynghylch aros yn ddienw. Recordio hynny yw'r dewis gorau pan fydd hynny'n bosibl.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.10)

6.4.11 Rhaid i ni sicrhau y gallwn anrhydeddu hynny pan fyddwn yn addo cadw rhywun yn ddienw, gan ystyried goblygiadau unrhyw orchymyn llys posibl a fyddai'n mynnu ein bod yn datgelu ein deunyddiau nad oeddem wedi'u darlledu. Pan fydd aros yn ddienw'n hanfodol, ni ddylai dogfen, ffeil gyfrifiadurol na chofnod arall ddatgelu pwy yw'r cyfrannwr neu'r ffynhonnell. Mae hyn yn cynnwys llyfrau nodiadau a gwaith papur gweinyddol yn ogystal â deunyddiau fideo a sain.

6.4.12 Efallai y bydd cuddio pwy yw rhywun yn effeithiol yn golygu mwy na dim ond cuddio'r wyneb. Efallai y bydd hefyd angen ystyried nodweddion amlwg eraill, gan gynnwys gwallt, dillad a llais. Pylu yn hytrach na phicselu yw'r ffordd orau o gyflawni hyn mewn lluniau, gan fod modd dadwneud hyn. Wrth guddio llais, mae defnyddio llais rhywun arall fel rheol yn well nag aflunio'r llais gwreiddiol yn dechnegol, gan fod modd dadwneud hyn, ond dylid dweud wrth gynulleidfaoedd beth maent yn ei glywed.

Er mwyn osgoi'r perygl o 'adnabod jig-so' (hynny yw, datgelu sawl darn o wybodaeth mewn geiriau neu ddelweddau y byddai modd eu rhoi at ei gilydd i ganfod pwy yw'r unigolyn), efallai y bydd angen i'n haddewid i gadw'r unigolyn yn ddienw gynnwys ystyried y ffordd y caiff cyfrannwr neu ffynhonnell ei ddisgrifio, cuddio platiau rhif, peidio â chynnwys rhai darnau o wybodaeth (boed y rheini'n cael eu llefaru gan y cyfrannwr neu gan eraill) a gofalu na ddatgelir lleoliad cartref cyfrannwr. Cofiwch

mewn rhai amgylchiadau y gall osgoi'r 'effaith jig-so' olygu ystyried gwybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd.

Efallai y bydd arnom angen cuddio pwy yw cyfranwyr rhyngwladol er mwyn diwallu ein dyletswyddau i gadw rhywun yn ddienw os gallai eu diogelwch fod yn y fantol. Gall gwefannau trydydd parti atgynhyrchu ein cynnwys yn fyd-eang heb i ni wybod hynny a heb ein cydsyniad.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Bod yn ddienw)

## Cyfranwyr, Cytundebau Mynediad ac Annibyniaeth Golygyddol

6.4.13 Ambell waith bydd cyfranwyr yn ceisio rhoi amodau arnom ni cyn cytuno i gymryd rhan. Rhaid i ni beidio ag ildio rheolaeth olygyddol. Rhaid i unrhyw gytundeb contract gyda chyfrannwr, eu hasiant, neu gwmni cynhyrchu ganiatáu i ni ofyn cwestiynau y byddai ein cynulleidfa'n disgwyl i ni eu gofyn ac adrodd stori deg a chywir.

Os bydd cyfrannwr yn gwrthod rhoi cyfweliad oni bai y cytunir yn gaeth ar y cwestiynau ymlaen llaw, neu os oes yn rhaid osgoi rhai pynciau, rhaid i ni ystyried a yw'n briodol bwrw ymlaen o gwbl. Os ydym yn penderfynu gwneud hynny, dylem egluro ar yr awyr amodau cynnal y cyfweliad.

***Cytundebau Mynediad a Ffurflenni Indemniad.***

6.4.14 Mae nifer o sefydliadau, gan amrywio o heddluoedd, sefydliadau milwrol a'r Aelwyd Brenhinol i ysbytai ac ysgolion a siopau adrannol a pharciau hamdden, yn mynnu bod y BBC yn cael cytundebau ysgrifenedig yn gyfnewid am ddarparu mynediad i'w heiddo neu eu staff. Gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o ffurfioli telerau rhoi'r cydsyniad ar gyfer mynediad neu gyfraniadau.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw telerau rhoi'r mynediad yn rhoi rheolaeth olygyddol y BBC yn y fantol nac yn tanseilio ein didwylledd golygyddol. Mae rheolaeth olygyddol yn mynnu bod y BBC, neu gwmnïau annibynnol sy'n gweithio i'r BBC, yn cadw'r hawl i recordio deunyddiau mor rhydd ag sy'n bosibl, yn ogystal â golygu yn gywir, yn ddiduedd ac yn deg. Os rhoddir amodau annerbyniol dylem dynnu'n ôl o'r prosiect.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cytundebau Mynediad a Ffurflenni Indemniad)

**6.4.15 Rhaid cyfeirio unrhyw gytundeb mynediad, ffilmio neu recordio at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol, yn enwedig pan fydd y geiriau arfaethedig yn rhoi annibyniaeth golygyddol y BBC yn y fantol neu pan allai ildio rheolaeth olygyddol i gyfrannwr neu i sefydliad sy'n cyfrannu.**

**Os cyfyd unrhyw gais o ardaloedd allbwn y tu allan i Newyddion y BBC am gyfweliadau neu ymddangosiadau egsliwsif gan aelodau'r Teulu Brenhinol, rhaid trafod y rhain â Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC.**

Pan fydd cytundebau mynediad yn berthnasol i feysydd eraill, gan gynnwys hawliau, ailddefnyddio a ffioedd cyfleusterau, dylid ymgynghori â Materion Cyfreithiol a Busnes.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 - 13.4.12)

6.4.16 Mae ffurflenni indemniad yn gytundebau cyfreithiol sy'n egluro pwy sy'n atebol os bydd rhywbeth yn mynd o chwith wrth i sefydliad ddarparu cyfleuster i'r BBC – naill ai wrth recordio neu o ganlyniad i'r darllediad. Gallant fod yn ddogfennau annibynnol neu yn gymal indemniad mewn Cytundeb Mynediad ehangach. Dylid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn cytuno ar gymal indemniad.

Mae'r BBC wedi cytuno ar ffurflen indemniad safonol gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae copïau ar gael ar ffurf electronig ar wefan Canllawiau Golygyddol y BBC. Os bydd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn rhoi ffurflenni indemniad i gynhyrchwyr cynnwys, dim ond os yw'r geiriau union yr un fath â'r ffurflen safonol y cânt eu llofnodi.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.37)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cytundebau Mynediad a Ffurflenni Indemniad)

## Twyll

### *Allbwn Newyddion a Ffeithiol*

6.4.17 Mewn allbwn newyddion a ffeithiol, lle ceir budd amlwg i'r cyhoedd[2], gall fod yn dderbyniol o bryd i'w gilydd i ni beidio â datgelu diben llawn yr allbwn i gyfrannwr. Dim ond os nad oedd modd cael y deunydd drwy unrhyw ddull arall y mae twyll o'r fath yn debygol o fod yn dderbyniol. Dylid defnyddio cyn lleied ag sy'n bosibl a dylai fod yn gymesur i'r pwnc.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at allbwn newyddion neu ffeithiol at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol, neu yn yr achosion mwyaf difrifol, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.15 - 8.4.19 ac 8.4.40 - 8.4.47)

### *Allbwn Comedi ac Adloniant*

6.4.18 Os bydd twyll yn cael ei ddefnyddio at ddibenion comedi neu adloniant, megis 'triciau' doniol, fel rheol dylid recordio'r deunydd ymlaen llaw a rhaid cael cydsyniad cyn darlledu gan unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r sefydliad a fydd yn amlwg yn yr allbwn. Os nad oes modd eu hadnabod yn yr allbwn, fel rheol ni fydd yn rhaid cael cydsyniad cyn darlledu oni bai fod y deunydd wedi cael ei recordio'n gyfrinachol neu os yw'n debygol o arwain at wawdio cyhoeddus neu drallod personol nad oes modd ei gyfiawnhau.

[2] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

Ni ddylid cynllunio'r twyll i sarhau a dylem ochel rhag achosi trallod neu embaras i'r rheini dan sylw. Efallai y bydd arnom angen ymgynghori â ffrindiau neu deulu i asesu'r risgiau cyn recordio.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.32 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.17 - 7.4.20)

6.4.19 Fel rheol ni fydd twyll at ddibenion comedi neu adloniant sy'n cynnwys ffigurau cyhoeddus yn galw am gydsyniad cyn darlledu oni bai fod y deunydd wedi cael ei recordio'n gyfrinachol neu os yw'n debygol o arwain at wawdio cyhoeddus neu drallod personol nad oes modd ei gyfiawnhau.

**6.4.20 Os oes unrhyw gynnig i dwyllo cyfrannwr at ddibenion comedi ac adloniant, boed hwy'n ffigur cyhoeddus ai peidio, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol.**

***Ar-lein***

6.4.21 Ar achlysuron prin, pan fydd yn gwbl gymesur a bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, gall fod yn briodol i'r BBC weithredu gwefan sy'n ymddangos nad oes ganddo ddim cysylltiad â'r BBC.

Er enghraifft, efallai y byddem yn gwneud hyn fel rhan o gêm ar-lein estynedig lle caiff cliwiau eu cuddio ar safleoedd trydydd parti i chwaraewyr o BBC Ar-lein eu canfod. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ni sicrhau bod y rheini nad ydynt yn cymryd rhan ond sy'n dod ar draws safle o'r fath yn gallu canfod ei bwrpas go iawn yn gyflym ac yn rhwydd.

Yng nghyswllt gwefannau sy'n cael eu creu ar gyfer ymchwiliad, rhaid i ni sicrhau nad oes dim niwed sylweddol i'r rheini sy'n canfod y wefan ond nad ydynt yn destun yr ymchwiliad.

**Os oes cynnig i greu gwefan sy'n ymddangos nad oes ganddo ddim cysylltiad â'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol a'r Polisi Golygyddol.**

6.4.22 **Rhaid i unrhyw un sy'n camu i mewn yn weithredol i lywio cwrs trafodaeth ar-lein at un o ddibenion y BBC, heb ddatgelu eu cysylltiad â'r BBC, fod yn gweithredu er budd y cyhoedd[3] a rhaid cyfeirio at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Yn yr achosion mwyaf difrifol, rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

***Gweithio Dramor***

6.4.23 Fel rheol dylem fod yn agored ynghylch ein bwriad pan fyddwn yn mynd i wledydd eraill i weithio.

[3] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

**Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio fisa twrist i osgoi cyfyngiadau fisa wrth weithio i'r BBC yn y wlad honno, neu unrhyw gynnig arall i fynd i mewn i wlad yn anghyfreithlon, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

Pan gymeradwyir defnyddio fisa twrist yn y ffordd hon, neu fynd i mewn i wlad yn anghyfreithlon, dylid hefyd roi gwybod i Casglu Newyddion a Phennaeth y rhanbarth World Service perthnasol. Gallai fod yn ddoeth hefyd cysylltu â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn teithio.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.3.1)

## Brawychu a Sarhau

6.4.24 Rhaid i ni drin ein cyfranwyr a darpar gyfranwyr yn barchus. Rhaid i ni beidio â bod yn rhy frawychus, sarhaus, ymwthiol nac ymosodol tuag at gyfranwyr, nail i gael eu cydsyniad nac wrth iddynt gymryd rhan yn ein hallbwn.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.32 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.20)

## Hawl i Ymateb

6.4.25 Pan fydd ein hallbwn yn gwneud honiadau o ddrwgweithredu, camwedd neu anallu neu os yw'n rhoi beirniadaeth gref a niweidiol o unigolyn neu sefydliad, y rhagdybiaeth yw y dylai'r rheini sy'n cael eu beirniadu gael yr "hawl i ymateb", hynny yw, eu bod yn cael cyfle teg i ymateb i'r honiadau.

Rhaid i ni sicrhau bod gennym gofnod o unrhyw gais am ymateb gan gynnwys dyddiadau, amseroedd, enw'r sawl a holwyd ac elfennau allweddol y drafodaeth. Fel rheol dylem ddisgrifio'r honiadau'n ddigon manwl er mwyn galluogi ymateb gwybodus a gosod dyddiad cau teg a phriodol er mwyn ymateb.

6.4.26 Dylid adlewyrchu unrhyw rannau o'r ymateb sy'n berthnasol i'r honiadau a ddarlledir yn deg ac yn gywir ac fel rheol dylid eu darlledu yn yr un rhaglen, neu eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r honiad.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd hyn yn amhriodol (am resymau cyfreithiol neu foesegol), ac os felly dylid ymgynghori ag uwch swyddog golygyddol, neu olygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Gallai wedyn fod yn briodol ystyried a ddylid rhoi cyfle arall i ymateb ar ddyddiad arall.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Hawl i Ymateb)

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.30 - 7.4.32)

6.4.27 **Mewn amgylchiadau prin iawn os byddwn yn cynnig darlledu honiad difrifol heb roi cyfle i'r rheini dan sylw ymateb, rhaid cyfeirio'r cynnig at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau**

**Golygyddol.** Rhaid i'r honiad fod er budd y cyhoedd[4] a rhaid cael rhesymau cryf dros gredu ei fod yn wir. Gall ein rhesymau dros benderfynu gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus heb wneud cais am ymateb gan yr unigolion neu'r sefydliadau dan sylw, gynnwys ymyrraeth bosibl â thystion neu resymau cyfreithiol eraill.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.13)

## Gwrthod Cymryd Rhan

6.4.28 Mae gan unrhyw un hawl i wrthod cyfrannu at ein hallbwn ac nid yw bob amser yn angenrheidiol crybwyll y ffaith iddynt wrthod. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith bod unigolyn neu sefydliad wedi gwrthod gwneud cyfraniad fod yn feto ar ymddangosiad cyfranwyr eraill sydd â safbwyntiau gwahanol, nac ar yr allbwn ei hun.

Pan fyddai'n rhesymol i'n cynulleidfa ddisgwyl clywed dadleuon i'r gwrthwyneb neu pan na chaiff safbwynt unigolyn neu sefydliad ei gynrychioli, gall fod yn briodol egluro'r absenoldeb, yn enwedig os byddai peidio â gwneud hynny'n annheg i'r cyfrannwr coll. Dylid gwneud hyn dan delerau teg. Dylem ystyried a allwn gynrychioli sylwadau'r cyfrannwr coll ar sail yr hyn rydym eisoes yn ei wybod.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.30 - 7.4.32 ac Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.15 )

## Portreadu Pobl Go Iawn mewn Drama

6.4.29 Pryd bynnag y bydd yn briodol a phan fydd eu rhan yn sylweddol, dylid rhoi gwybod ymlaen llaw i bobl go iawn a fydd yn cael eu portreadu mewn drama neu eu perthnasau sy'n dal yn fyw a, phan fydd yn bosibl, dylid sicrhau eu cydweithrediad. Ceir gofyniad is i sicrhau cydweithrediad wrth ddelio â ffigurau cyhoeddus, yn enwedig os yw'r portread yn un sy'n edrych ar agweddau cyhoeddus eu bywyd yn bennaf.

**Os oes unrhyw gynnig i fwrw ymlaen yn groes i ddymuniadau'r unigolyn dan sylw neu eu perthnasau sy'n dal yn fyw, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i gael cymeradwyaeth cyn ymrwymo i gynhyrchu.**

Oni bai fod y deunydd yn delio â phobl sydd yn llygad y cyhoedd ac agweddau cyhoeddus ar eu bywydau, dim ond os gellir diwallu'r tri maen prawf canlynol y rhoddir cymeradwyaeth:

- Mae'r portread yn deg
- Mae'r portread yn seiliedig ar gorff sylweddol o dystiolaeth a ddaw o ffynonellau da pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol
- Ceir budd amlwg i'r cyhoedd[5].

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 ac Adran 18 Y Gyfraith: 18.4.1 - 18.5.1)

[4] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

[5] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

6.4.30 Pan fydd drama'n portreadu pobl fyw yn realistig mewn sefyllfaoedd modern, yn enwedig digwyddiad dadleuol neu sensitif, dylem sicrhau nad yw'n ystumio gormod ar y ffeithiau hysbys ac felly ei fod yn annheg.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.19 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.7)

## Diogelwch a Lles Cyfranwyr

6.4.31 Ni ddylem ofyn i gyfranwyr amlygu eu hunain i risgiau iechyd a diogelwch sylweddol wrth gymryd rhan yn ein hallbwn oni bai ein bod wedi llenwi ffurflen asesu risg y BBC ac wedi cynnal archwiliadau ffitrwydd a seicolegol manwl fel sy'n briodol.

Rhaid i ni sicrhau bod ein cyfranwyr yn cydnabod ac yn derbyn yr holl risgiau a ganfyddir ar bapur.

6.4.32 Rhaid i ni sicrhau nad ydym yn annog cyfranwyr i roi eu hunain mewn perygl wrth ddefnyddio offer recordio, gan gynnwys camerâu bach a ffonau symudol, i gasglu deunyddiau.

6.4.33 Efallai y bydd arnom angen cymryd camau ymarferol i amddiffyn cyfranwyr neu ffynonellau rhyngwladol rhag ôl-effeithiau yn eu gwledydd eu hunain, a fydd yn deillio o'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan yn ein hallbwn. Gall gwefannau trydydd parti atgynhyrchu ein cynnwys yn fyd-eang heb i ni wybod hynny a heb ein cydsyniad.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12)

6.4.34 Os caiff unrhyw ddeunydd ei gasglu gennym ni neu gan gyfranwyr, drwy beryglu unrhyw un yn fyrbwyll neu yn fwriadol, gall y BBC benderfynu peidio â'i ddarlledu a gall gymryd camau disgyblu. Gall y rheini sy'n gyfrifol hefyd fod yn atebol i gael eu herlyn.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.22)

# ADRAN 7: PREIFATRWYDD

**7.1 Cyflwyniad**
**7.2 Egwyddorion**
**7.3 Cyfeirio Gorfodol**
**7.4 Arferion**
**Preifatrwydd a Chydsyniad**
**Recordio Cudd**
**Gwe-gamerâu**
**Holi dros y Rhiniog**
**Cynffon Cyrchoedd**
**Adrodd am Farwolaeth, Dioddefaint a Thrallod**
**Gwybodaeth Bersonol**

## 7.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn parchu preifatrwydd ac ni fydd yn tresmasu arno heb reswm da, ni waeth lle yn y byd mae'n gweithio. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn diogelu preifatrwydd unigolion a gwybodaeth breifat amdanynt, ond mae'n cydbwyso hynny â hawl darlledwyr i ryddid mynegiant. Mewn rheoliadau, dywed Cod Darlledu Ofcom "*Rhaid gwarantu unrhyw dresmasu ar breifatrwydd mewn rhaglenni, neu yng nghyswllt casglu deunyddiau a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni*."[1]

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.5)

Rhaid ystyried y cydbwysedd rhwng preifatrwydd a'n hawl i ddarlledu gwybodaeth er budd y cyhoedd wrth ddiwallu'r rhwymedigaethau moesegol, rheoliadol a chyfreithiol hyn yn ein hallbwn. Rhaid i ni allu dangos pam mae modd cyfiawnhau tresmasu ar breifatrwydd.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 - Budd y Cyhoedd)

Ystyrir tresmasiad mewn dau gam, sy'n mynnu cyfiawnhad dros *gasglu* a *darlledu* deunyddiau lle mae'n ddilys disgwyl preifatrwydd.

***Disgwyliadau Dilys yng nghyswllt Preifatrwydd***

Mae lleoliad a natur yr wybodaeth a'r ymddygiad, a'r graddau y mae'r wybodaeth eisoes ar gael i'r cyhoedd yn pennu disgwyliad dilys unigolyn o breifatrwydd. Mewn rhai amgylchiadau, mae gan ffigurau cyhoeddus ddisgwyliad dilys is o breifatrwydd.

<u>Lleoliad:</u> Ni all pobl mewn mannau cyhoeddus neu fannau lled gyhoeddus ddisgwyl yr un graddau o breifatrwydd ag y byddent yn eu cartrefi neu mewn lleoliadau sensitif eraill. (Mae rhywle lled gyhoeddus yn golygu rhywle sydd, er ei fod yn eiddo preifat, yn rhoi mynediad i'r cyhoedd, megis maes awyr, gorsaf neu ganolfan siopa.)

Fodd bynnag, rhaid ystyried y lleoliad ar y cyd â'r gweithgarwch. Efallai y bydd amgylchiadau lle byddai'n rhesymol i bobl ddisgwyl preifatrwydd hyd yn oed mewn lle cyhoeddus neu led gyhoeddus, yn enwedig pan fydd y gweithgarwch neu'r wybodaeth a ddatgelir yn gynhenid breifat. Er enghraifft, efallai y byddai'r disgwyliad

---

[1] Rheol 8.1, Cod Darlledu Ofcom

o breifatrwydd yn uwch pan fydd rhywun mewn lle cyhoeddus neu led gyhoeddus ond yn cael triniaeth feddygol.

Efallai y cyfyd adegau pan fydd rhywun mewn lleoliad nad yw fel rheol ar agor i'r cyhoedd yn gwneud gweithgarwch y mae ganddynt ddisgwyliad isel o breifatrwydd ar ei gyfer, er enghraifft, wrth werthu neu wrth roi gwybodaeth gyhoeddus. Serch hynny, fel rheol ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth sy'n datgelu union leoliad cartref neu deulu unigolyn heb eu cydsyniad, oni bai fod modd cyfiawnhau hynny'n olygyddol.

Ymddygiad: Mae llai o hawl i breifatrwydd pan fydd ymddygiad unigolyn yn droseddol neu'n wrthgymdeithasol iawn.

***Budd y Cyhoedd***

Ni ddylai ymddygiad, gwybodaeth, gohebiaeth na sgyrsiau preifat gael eu dwyn i sylw'r cyhoedd oni bai fod budd y cyhoedd yn drech na'r disgwyliad o breifatrwydd. Nid oes un diffiniad penodol o fudd y cyhoedd. Mae'n cynnwys y canlynol ond nid y rhain yn unig:

- datgelu neu ganfod trosedd
- datgelu ymddygiad gwrthgymdeithasol iawn
- datgelu llygredd neu anghyfiawnder
- datgelu anallu neu esgeulustod sylweddol
- amddiffyn iechyd a diogelwch pobl
- rhwystro pobl rhag cael eu camarwain gan ddatganiad neu weithred gan unigolyn neu sefydliad
- datgelu gwybodaeth sy'n helpu pobl i ddeall materion o bwys cyhoeddus yn well neu benderfynu'n well yn eu cylch.

Mae budd i'r cyhoedd yn perthyn i ryddid mynegiant ei hun.

Wrth ystyried yr hyn sy'n fudd i'r cyhoedd, mae arnom hefyd angen ystyried yr wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd neu sydd ar fin bod ar gael i'r cyhoedd.

Wrth ddefnyddio budd y cyhoedd i gyfiawnhau ymyrraeth, dylid hefyd ystyried pa mor gymesur ydyw; po fwyaf yr ymyrraeth, y mwyaf yw'r budd cyhoeddus y mae ei angen i'w gyfiawnhau.

***Diogelu Data***

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn diogelu preifatrwydd unigolion drwy reoleiddio sut caiff gwybodaeth bersonol ei chasglu, ei defnyddio a'i chadw. Caiff rhwymedigaethau'r BBC dan y Ddeddf eu hadlewyrchu, fel sy'n briodol, yn yr adran hon o'r Canllawiau Golygyddol a chanllawiau eraill fel yr hysbysir gan y BBC (gan gynnwys canllawiau diogelwch data perthnasol a'r Llawlyfr Diogelu Data).

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11)

## 7.2 EGWYDDORION

7.2.1 Rhaid i'r BBC gydbwyso budd y cyhoedd mewn rhyddid mynegiant â disgwyliad dilys unigolion o breifatrwydd. Os tresmasir ar ddisgwyliad dilys o breifatrwydd wrth gasglu deunyddiau, gan gynnwys recordio cudd a holi dros y rhiniog, rhaid gallu cyfiawnhau bod hynny'n gymesur i amgylchiadau penodol yr achos.

7.2.2 Rhaid i ni gydbwyso budd y cyhoedd wrth adrodd straeon yn llawn ac yn gywir ynghylch dioddefaint a thrallod pobl â phreifatrwydd unigolion a pharch at eu hurddas.

7.2.3 Rhaid i ni gyfiawnhau ymyrryd ym mywyd preifat unigolyn heb ganiatâd drwy ddangos bod y budd i'r cyhoedd yn drech na'r ymyrraeth.

7.2.4 Fel rheol byddwn ond yn adrodd am ymddygiad cyfreithiol preifat ffigurau cyhoeddus pan godir materion cyhoeddus ehangach naill ai gan yr ymddygiad ei hun neu gan ganlyniadau datgelu hynny'n gyffredinol. Nid yw'r ffaith ei fod yn cael ei gyhoeddi mewn cyfryngau eraill yn rhoi cyfiawnhad i'r BBC adrodd arno.

7.2.5 Wrth gasglu gwybodaeth bersonol gan gyfranwyr, cynulleidfaoedd ac aelodau eraill o'r cyhoedd, rhaid i ni fod yn glir am sut rydym yn bwriadu ei defnyddio. Rhaid delio â'r wybodaeth yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

## 7.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

***Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol***

7.3.1 Os oes unrhyw gynnig i gasglu deunyddiau'n anghyfreithlon y tu allan i'r DU drwy ddiystyru cyfreithiau preifatrwydd neu gyfreithiau tebyg eraill yn y wlad berthnasol, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Gellir ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni hefyd.

(Gweler 7.4.11)

7.3.2 Os defnyddir offer recordio heb oruchwyliaeth ar eiddo preifat heb gydsyniad y perchennog, y preswylydd neu'r asiant, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Rhaid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni hefyd.

(Gweler 7.4.15)

7.3.3 Os bydd unrhyw gynnig i gynnwys pobl mewn darllediadau byw at ddibenion comedi neu adloniant, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, heb iddynt wybod hynny, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 7.4.20)

7.3.4 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo darlledu heb gydsyniad unrhyw recordiad, gan gynnwys galwad ffôn, a wnaed yn wreiddiol at ddibenion cadw nodiadau.

(Gweler 7.4.23)

7.3.5 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i holi unigolyn neu sefydliad dros y rhiniog, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, pan nad ydym wedi ceisio gwneud apwyntiad i drefnu cyfweliad blaenorol ('Holi dros y Rhiniog Heb Gysylltu Ymlaen Llaw'). Nid yw hyn yn berthnasol i gasglu newyddion dyddiol.

(Gweler 7.4.32)

***Cyfeirio at Bolisi Golygyddol***

7.3.6 Os bydd unrhyw gynnig i gynnal gwaith recordio cudd, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol cyn cael cymeradwyaeth yr uwch swyddog golygyddol yn yr adran neu, gan y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 7.4.11)

7.3.7 Os bydd unrhyw gynnig i ddarlledu recordiadau cudd a wnaed gan eraill, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol cyn cael cymeradwyaeth gan uwch swyddog golygyddol neu, gan y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Os nad yw'r BBC o'r farn bod modd cyfiawnhau casglu'r deunyddiau dan amgylchiadau tebyg, bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol hefyd.

(Gweler 7.4.21)

7.3.8 Os cynigir plannu crynodeb gwe-gamera byw gan noddwr digwyddiad ar un o wefannau neu lwyfannau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol ac uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 7.4.28)

7.3.9 Rhaid cyfeirio unrhyw gais am wybodaeth bersonol am gyfrannwr gan yr heddlu at Bolisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn ymateb.

(Gweler 7.4.50)

***Cyfeirio Arall***

7.3.10 Rhaid cyfeirio unrhyw dwyll a ddefnyddir i gael deunyddiau sydd wedi'u recordio'n gudd (tu hwnt i guddio offer recordio) at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 7.4.11)

7.3.11 Rhaid cyfeirio ailddefnyddio deunydd sydd wedi'i recordio'n gudd at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol cyn darlledu. Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad.

(Gweler 7.4.12)

7.3.12 Os oes unrhyw gynnig i roi crynodeb gwe-gamera trydydd parti ar un o safleoedd neu lwyfannau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol hefyd.

(Gweler 7.4.28)

7.3.13 Os oes unrhyw gynnig i holi unigolyn neu sefydliad dros y rhiniog, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, a ninnau wedi ceisio gwneud apwyntiad i drefnu cyfweliad gyda'r unigolyn neu'r sefydliad dan sylw ('Holi Dros y Rhiniog ar ôl Cysylltu Ymlaen Llaw'), rhaid i uwch swyddog golygyddol gymeradwyo hynny, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.

(Gweler 7.4.31)

7.3.14 Os oes unrhyw gynnig i holi dros y rhiniog, yn bersonol neu dros y ffôn, at ddibenion comedi ac adloniant, rhaid i uwch swyddog golygyddol gymeradwyo hynny, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.

(Gweler 7.4.33)

7.3.15 Os bydd unrhyw gynnig i gasglu gwybodaeth bersonol ar un o wefannau'r BBC sy'n cael cyllid cyhoeddus y gellid ei datgelu i drydydd parti, gan gynnwys BBC Worldwide, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad a BBC Masnachu Teg.

(Gweler 7.4.48)

## 7.4 ARFERION

### Preifatrwydd a Chydsyniad

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad)

7.4.1 Pan fydd cyfranwyr yn rhoi cydsyniad gwybodus i gymryd rhan yn ein hallbwn, gellir tybio eu bod wedi ildio eu disgwyliadau o breifatrwydd yng nghyswllt eu cyfraniad, yn amodol ar unrhyw amodau y cytunwyd arnynt a roddwyd ar eu cyfranogiad.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Preifatrwydd ac Adloniant Ffeithiol)

7.4.2 Dylem weithredu yn agored lle bynnag yr ydym oni bai ein bod wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer recordio cudd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan na fydd ein hoffer clywedol yn amlwg iawn fel yn achos camerâu fideo bach, camerâu ffonau symudol neu gwe-gamerâu sefydlog. Efallai y bydd arnom angen defnyddio hysbysiadau i wneud pobl yn ymwybodol ein bod yn recordio a rhoi cyfle iddynt ein hosgoi.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.26)

7.4.3 Wrth ffilmio'n agored mewn mannau cyhoeddus a lled gyhoeddus, fel rheol ni fyddwn yn ceisio cydsyniad penodol gan unigolion a fydd yn cael eu dal ar gamera fel rhan o'r olygfa gyffredinol, oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch lle mae ganddynt ddisgwyliad dilys o breifatrwydd ac nad yw budd y cyhoedd yn drech na hynny.

Fodd bynnag, os bydd unigolyn neu sefydliad yn gofyn i ni roi'r gorau i ffilmio neu recordio (boed hynny'n fyw neu wedi'i recordio) oherwydd pryder ynghylch preifatrwydd, dylem wneud hynny fel rheol, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen.

7.4.4 Mewn mannau a allai fod yn sensitif, er enghraifft, ambiwlans, ysbyty, ysgol a charchar, fel rheol dylem gael dau gydsyniad ar wahân, un ar gyfer casglu'r deunyddiau a'r llall ar gyfer eu darlledu, oni bai fod modd cyfiawnhau peidio â chael cysyniadau o'r fath.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Argyfyngau Meddygol)

7.4.5 Fel rheol byddwn yn cael cydsyniad cyn recordio ar eiddo preifat. Fodd bynnag, mae modd cyfiawnhau recordio heb ganiatâd ymlaen llaw pan fydd mynediad cyffredinol i'r cyhoedd, er enghraifft canolfan siopa, gorsaf reilffordd neu faes awyr, neu lle mae gennym reswm dros gredu y bydd ein recordio yn helpu i ddatgelu ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol. Wrth recordio heb gydsyniad ymlaen llaw ar eiddo preifat neu led gyhoeddus, os bydd y perchennog, y preswylydd cyfreithiol neu'r sawl sy'n gweithredu â'u hawdurdod yn gofyn i ni roi'r gorau iddi, fel rheol dylem wneud hynny, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen.

Fel rheol byddwn yn gadael eiddo preifat pan ofynnir i ni wneud hynny gan y preswylydd cyfreithiol. Dylem fod yn ymwybodol o'r gyfraith ar dresmasu. Gall mynd i eiddo preifat heb gydsyniad fod yn dramgwydd sifil, ond nid yw'n fater i'r heddlu fel rheol. Gofynnwch am gyngor gan Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni os nad ydych chi'n siŵr sut mae bwrw ymlaen.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.37)

### *Plant a Phobl Agored i Niwed*

7.4.6 Dylem roi sylw penodol i ddisgwyliadau pobl dan 16 oed a phobl agored i niwed yng nghyswllt preifatrwydd. Pan fydd plant yn rhan o'n hallbwn mewn ffordd a fyddai'n tresmasu ar ddisgwyliad dilys o breifatrwydd, fel rheol dylem gael eu cydsyniad gwybodus (pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl) a chydsyniad gwybodus rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu unigolyn arall sydd dros 18 oed ac yn

gweithredu in loco parentis. Gall cynnwys pobl agored i niwed hefyd alw am gydsyniad gwybodus unigolyn cyfrifol dros 18 oed.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.12 - 9.4.23)

### *Trydydd Partïon*

7.4.7 Gellir tresmasu ar breifatrwydd unigolyn drwy gynnwys sy'n datgelu gwybodaeth bersonol breifat amdanynt, hyd yn oed os nad ydynt yn cyfrannu at y rhaglen nac yn rhan uniongyrchol ohoni. Pan na fydd gwybodaeth o'r fath eisoes ar gael i'r cyhoedd (neu os cafodd ei datgelu i'r cyhoedd drwy ymyrraeth pobl eraill), fel rheol bydd angen i'r unigolion dan sylw roi cydsyniad gwybodus ar gyfer ei chynnwys yn ein hallbwn oni bai fod y budd i'r cyhoedd yn drech na'u disgwyliadau o breifatrwydd.

Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1 - 6.4.9

### *Deunyddiau gan Gyfryngau Cymdeithasol*

7.4.8 Er bod modd ystyried bod deunyddiau, yn enwedig lluniau a fideos, sydd ar gael ar gyfryngau cymdeithasol trydydd partïon a gwefannau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, eisoes wedi cael eu datgelu i'r cyhoedd, fel rheol os bydd y BBC yn ailddefnyddio'r deunyddiau hynny, cânt eu datgelu i gynulleidfa fwy o lawer. Dylem ystyried effaith ailddefnyddio deunyddiau o'r fath, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â digwyddiadau trasig neu ddigwyddiadau sy'n peri trallod. Ceir ystyriaethau hawlfraint hefyd.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Deunyddiau gan Gyfryngau Cymdeithasol)

## Recordio Cudd

7.4.9 Ystyrir bod y technegau canlynol yn recordio cudd at ddibenion Canllawiau Golygyddol y BBC:

- defnyddio camerâu neu ficroffonau cudd
- defnyddio offer clywedol cyffredinol gan gynnwys lensys hir, camerâu fideo bach, camerâu ffonau symudol, gwe-gamerâu a meicroffonau radio pan nad yw pobl yn gwybod eu bod yn cael eu recordio
- defnyddio offer clywedol yn fwriadol gan gynnwys lensys hir, camerâu fideo bach, camerâu ffonau symudol, gwe-gamerâu a meicroffonau radio, naill ai i gelu'r offer gan yr unigolion sy'n cael eu targedu neu i roi'r argraff o recordio at ddibenion ac eithrio darlledu, er enghraifft, fideo gwyliau
- recordio galwadau ffôn ar gyfer eu darlledu o bosibl, heb ofyn am ganiatâd
- parhau i recordio'n fwriadol pan fydd y parti arall yn credu bod y recordio wedi dod i ben, neu ei ddechrau cyn i'r parti arall feddwl ei fod wedi dechrau.

7.4.10 Fel rheol, dim ond at y dibenion canlynol y bydd y BBC yn defnyddio recordio cudd:

- fel arf archwilio pan:
    - o fydd tystiolaeth prima facie amlwg o ymddygiad y mae ei datgelu o fudd i'r cyhoedd, neu dystiolaeth o fwriad i ymddwyn yn y fath fodd, ac
    - o os yw'r recordio yn angenrheidiol er mwyn profi'r ymddygiad, ac
    - o nad oes dim ffordd ymarferol arall o gasglu'r dystiolaeth sy'n profi'r ymddygiad.
- i gael deunyddiau y tu allan i'r DU pan fydd cyfreithiau'r wlad yn golygu bod casglu deunyddiau yn normal ac yn gyfrifol yn eithriadol o anodd neu'n amhosibl
- fel dull o gynnal ymchwil defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol sydd er budd y cyhoedd, pan na fyddai dim dulliau eraill yn gallu dal yr agweddau neu'r ymddygiad dan sylw
- ar gyfer allbwn comedi ac adloniant pan fydd recordio cudd, ac unrhyw dwyll dan sylw, yn rhan annatod o'r rhaglen.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Recordio Cudd a Ffurflenni Recordio Cudd)

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3 - 8.4.7 ac 8.4.40 - 8.4.47)

### *Cymeradwyo Recordio Cudd*

*(Mae'r canllawiau canlynol ar Gymeradwyo yn berthnasol i unrhyw gynnig i recordio'n gudd, boed hynny at ddibenion newyddion, ffeithiol, comedi neu adloniant).*

**7.4.11 Os bydd unrhyw gynnig i gynnal gwaith recordio cudd, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol cyn cael cymeradwyaeth yr uwch swyddog golygyddol yn yr adran neu, gan y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

Mae casglu a darlledu deunyddiau a recordiwyd yn gudd yn broses dau gam, sy'n galw am gyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth ar bob cam. Felly, mae'r penderfyniad i gasglu bob amser yn benderfyniad ar wahân i'r penderfyniad i ddarlledu.

Rhaid cadw cofnod o'r broses cymeradwyo, hyd yn oed os caiff y cais ei wrthod neu os na chaiff y deunydd a gaglwyd ei ddarlledu. Mae pob adran yn gyfrifol am gadw ei chofnodion recordio cudd ei hun er mwyn galluogi'r BBC i fonitro ac i adolygu ei ddefnydd ar draws pob allbwn.

**Rhaid cyfeirio unrhyw dwyll a ddefnyddir i gael deunyddiau sydd wedi'u recordio'n gudd (tu hwnt i guddio offer recordio), a dylid defnyddio'r lefel isaf bosibl a dylai fod yn gymesur i'r pwnc, at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.40 - 8.4.47)

Wrth gynnig mynd ati i recordio'n gudd y tu allan i'r DU, dylem gofio bod y cyfreithiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn amrywio ar draws y byd. **Os oes unrhyw gynnig i gasglu deunyddiau'n anghyfreithlon y tu allan i'r DU drwy ddiystyru cyfreithiau preifatrwydd neu gyfreithiau tebyg eraill yn y wlad berthnasol, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Gellir ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni hefyd.**

**7.4.12 Rhaid cyfeirio ailddefnyddio deunydd sydd wedi'i recordio'n gudd at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol cyn darlledu. Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad.**

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 - 13.4.12)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Recordio Cudd a Ffurflenni Recordio Cudd)

### *Recordio Cudd ar gyfer Allbwn Newyddion a Ffeithiol*

7.4.13 Rhaid cyfiawnhau bod recordio cudd o fudd amlwg i'r cyhoedd. Mae'n arf gwerthfawr i'r BBC oherwydd ei fod yn golygu bod modd dal tystiolaeth neu ymddygiad na fyddai ein cynulleidfaoedd yn ei weld neu'n ei glywed fel arall. Fodd bynnag, dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio recordio cudd.

Rhaid i'r ymyrraeth sydd ynghlwm wrth gasglu a darlledu recordiad cudd fod yn gymesur i'r budd y mae'n ei roi i'r cyhoedd. Lle ceir disgwyliad dilys uwch o breifatrwydd, mae'r BBC yn mynnu cael prawf budd cyhoeddus uwch cyn recordio'n gudd. Mae sefyllfaoedd o'r fath yn cynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- Recordio cudd mewn lle preifat lle nad oes mynediad i'r cyhoedd
- Recordio triniaethau meddygol yn gudd
- Recordio pobl amlwg yn gudd pan fyddant mewn galar neu dan bwysau eithriadol mewn mannau cyhoeddus a lled gyhoeddus.

7.4.14 Rhaid i ni beidio â "thyrchu", h.y. recordio'n gudd ar eiddo preifat i chwilio am droseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion, neu grŵp amlwg, pan nad oes dim tystiolaeth prima facie amlwg yn eu herbyn o'r ymddygiad hwnnw.

7.4.15 **Rhaid i ni byth ddefnyddio offer recordio heb oruchwyliaeth ar eiddo preifat heb gydsyniad y perchennog, y preswylydd neu asiant oni bai ei fod at ddiben casglu tystiolaeth am drosedd ddifrifol. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hyn at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Rhaid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni hefyd.**

7.4.16 Gellid defnyddio recordio cudd fel dull o gynnal ymchwil defnyddwyr, gwyddonol neu gymdeithasol sydd er budd y cyhoedd, pan na fyddai dim dulliau eraill yn gallu dal yr agweddau neu'r ymddygiad dan sylw yn naturiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, er nad oes tystiolaeth efallai yn erbyn unigolion hysbys, fel rheol dylid cael arwydd prima facie bod yr ymddygiad yr ymchwilir iddo yn bodoli yn gyffredinol. Dylid golygu canlyniadau'r ymchwil er mwyn rhoi darlun teg a chywir o'r ymchwil. Fel rheol dylid ceisio cydsyniad yn ôl-weithredol gan unigolion neu sefydliadau a fydd yn rhan o'n cynnwys, neu dylid celu pwy ydynt yn briodol. Dylid

cyfeirio unrhyw gynnig yn yr amgylchiadau hyn i ddatgelu pwy yw unigolion neu sefydliadau heb eu cydsyniad at Bolisi Golygyddol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Preifatrwydd ac Adloniant Ffeithiol)

***Recordio Cudd ar gyfer Allbwn Comedi ac Adloniant***

7.4.17 Ni ddylai deunyddiau a recordiwyd yn gudd amlygu pobl i watwar niweidiol ac ni ddylid ymelwa arnynt. Os bydd pobl yn sylweddoli eu bod yn cael eu recordio'n gudd ac yn gofyn i ni roi'r gorau iddi, rhaid i ni wneud hynny. Rhaid i ni hefyd ddinistrio unrhyw recordiad ohonynt os gofynnir i ni wneud hynny.

7.4.18 Ar ôl casglu'r recordiadau, rhaid i'r bobl sydd yn amlwg yn y cynnwys roi eu cydsyniad cyn gallu darlledu'r deunyddiau, neu mae'n rhaid celu pwy ydynt yn briodol. Os gallai'r recordiad achosi embaras i unigolion eraill mae modd eu hadnabod sydd wedi cael eu dal ar gamera ond nad ydynt wedi rhoi cydsyniad, rhaid celu pwy ydynt hefyd.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Preifatrwydd ac Adloniant Ffeithiol)

7.4.19 Rhaid i unrhyw un sy'n cael ei recordio'n gudd ar y ffôn at ddibenion comedi neu adloniant roi eu cydsyniad cyn gallu darlledu'r alwad.

**7.4.20 Os bydd unrhyw gynnig i gynnwys pobl mewn darllediad byw heb iddynt wybod hynny, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo hynny.**

***Recordio Cudd o Ffynonellau Allanol***

7.4.21 Pan gynigir recordiadau cudd i ni a wnaed gan bobl eraill, dylem ystyried a fyddai'r BBC wedi ystyried bod modd cyfiawnhau cynnal y recordio dan amgylchiadau tebyg. Os ystyrir na fyddai modd cyfiawnhau casglu'r deunydd, fel rheol ni ddylid ei ddarlledu. **Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio recordiadau cudd a wnaed gan eraill, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol cyn cael cymeradwyaeth uwch swyddog golygyddol neu, gan y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.** Os nad yw'r BBC o'r farn bod modd cyfiawnhau casglu'r deunyddiau dan amgylchiadau tebyg, bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol hefyd. Dim ond os yw budd cyhoeddus ei ddarlledu yn drech na sut y'i cafwyd y rhoddir cymeradwyaeth.

***Cadw Nodiadau Electronig***

7.4.22 Yn aml iawn mae'n fuddiol recordio sgyrsiau at ddibenion cadw nodiadau. Fel rheol, dylem wneud hynny'n agored a chyda chydsyniad y parti arall.

Fodd bynnag, pan na fyddai'n bosibl gwneud hynny mor agored a phan fydd cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, gallwn recordio ein sgyrsiau'n gudd ar ffurf sain a fideo (er enghraifft, drwy ddefnyddio camera bach neu offer recordio ffôn) heb gael cydsyniad na chymeradwyaeth ar gyfer recordio cudd. Rhaid i recordio o'r fath fod ar gyfer cadw nodiadau ac ymchwil, nid ar gyfer darlledu. Mae cyfiawnhad golygyddol yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau cywirdeb yn ein hadroddiadau,

didwylledd wrth i ni wneud rhaglenni, a'n galluogi i amddiffyn y BBC yn erbyn camau cyfreithiol neu gwynion posibl.

Os am recordio sgwrs heb gydsyniad, dylid trafod hyn ymlaen gyda rheolwr llinell pan fydd yn ymarferol gwneud hynny.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.10)

7.4.23 Fel rheol ni fyddwn yn darlledu unrhyw recordiadau, gan gynnwys galwadau ffôn, a wnaed yn wreiddiol at ddibenion cadw nodiadau. **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i ddarlledu recordiad a wnaed yn wreiddiol at ddibenion cadw nodiadau heb gydsyniad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd i ddarlledu deunyddiau a gesglir yn y modd hwn.**

## Gwe-gamerâu

7.4.24 Dim ond am reswm golygyddol clir y dylai'r BBC weithredu gwe-gamera. Dylid ei dynnu ar ôl i'r diben hwnnw gael ei gyflawni. Ni ddylid gosod gwe-gamerâu i ddal delweddau agos o fannau preifat megis tai, gerddi neu swyddfeydd heb ganiatâd ysgrifenedig y perchennog. Os na cheir caniatâd ysgrifenedig, dylid ystyried unrhyw gynllun i osod gwe-gamera o'r fath fel cynnig ar gyfer recordio cudd.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: Recordio Cudd)

Mae Deddf Diogelu Data 1998 a Chod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar deledu cylch cyfyng yn cyfyngu ar ddefnyddio gwe-gamerâu mewn rhai amgylchiadau. Mae rhagor o gyngor ar gael gan yr Adran Polisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Dolenni a Chrynodebau)

### *Gwe-gamerâu mewn Stiwdios*

7.4.25 Pan fydd gwe-gamerâu yn cael eu gosod yn stiwdios y BBC, dylai cynhyrchydd y rhaglen rybuddio gwesteion ymlaen llaw y bydd gwe-gamera'r stiwdio ar waith. Mae hyn yn arbennig o bwysig i westeion radio nad ydynt efallai'n disgwyl cael eu gweld. Os bydd gwestion radio'n gwrthod bod ar grynodeb gwe-gamera, fel rheol dylem barchu eu dymuniadau. Dylai ymwelwyr a staff hefyd fod yn ymwybodol o we-gamerâu sydd ar waith mewn stiwdios.

Dylai'r cynhyrchydd allu torri neu guddio'r crynodeb byw o'r camera i'r wefan ar unwaith. Mae'r un polisi yn berthnasol i grynodebau o stiwdios nad ydynt yn stiwdios y BBC lle rydym yn recordio cyfweliadau. Mae canllawiau manylach ynghylch defnyddio gwe-gamerâu ar eiddo'r BBC ar gael gan Diogelwch Gwybodaeth.

### *Gwe-gamerâu mewn Mannau Cyhoeddus a Lled Gyhoeddus*

7.4.26 Pan fydd y BBC yn gosod gwe-gamera mewn man cyhoeddus neu led gyhoeddus (sy'n hwylus i'r cyhoedd) a'i bod yn debygol y bydd modd adnabod

unigolion, er enghraifft oherwydd bod y gwe-gamera yn trosglwyddo digon o fanylion, dylem gymryd camau rhesymol i rybuddio aelodau o'r cyhoedd bod y gwe-gamera ar waith gan y BBC mewn ardal benodol. Mewn digwyddiad byw, darllediad yn yr awyr agored neu ddigwyddiad tebyg, gellir gwneud hyn drwy osod arwyddion y tu allan i'r lleoliad a llinell o wybodaeth ar bosteri neu docynnau. Os yw'r gwe-gamera mewn man cyhoeddus, megis stryd neu barc, dylid rhoi rhybudd amlwg wrth ymyl y gwe-gamera.

Nid oes angen rhybuddio pobl y gallent fod ar gamera os nad oes modd adnabod yr unigolion o allbwn y gwe-gamera.

## Teledu Cylch Cyfyng, Gwe-gamerâu Trydydd Parti a Deunyddiau Eraill o Ffynonellau Allanol

7.4.27 Gall recordiadau a chrynodebau byw a ddarperir gan eraill godi materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn ogystal â phryderon am gywirdeb, bod yn ddienw, tramgwydd, difenwi, dirmyg llys neu ddiogelu data. Mae cynnwys o'r fath yn cynnwys teledu cylch cyfyng (CCTV), deunyddiau o we-gamerâu a recordiadau a fydd wedi'u darparu gan y gwasanaethau brys (gan gynnwys galwadau 999), Cyllid a Thollau, neu awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau neu unigolion.

Dylem fod yn ofalus wrth ddefnyddio deunyddiau o'r fath os nad ydym wedi sefydlu perthynas â'r ffynhonnell allanol. Ym mhob achos dylem ymchwilio i'w darddiad ac ystyried materion perthnasol sy'n ymwneud â phreifatrwydd (gan gynnwys a ddylid asesu ei fod yn recordiad cudd) cyn i ni benderfynu ei ddarlledu.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.5 – 3.4.6, Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 – 6.4.12 ac Adran 18 Y Gyfraith)

7.4.28 **Os oes unrhyw gynnig i roi crynodeb gwe-gamera trydydd parti ar un o wefannau neu lwyfannau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol hefyd.** Dylem geisio cadw rheolaeth olygyddol dros unrhyw we-gamera sy'n trosglwyddo'n fyw i un o safleoedd y BBC. Bydd hyn yn amddiffyn ein hannibyniaeth golygyddol ac yn lleihau'r risg o ddelweddau ymwthiol, niweidiol, tramgwyddus neu ddelweddau sy'n hyrwyddo gormod rhag ymddangos ar ein safle.

Pan nad yw hyn yn ymarferol, rhaid asesu risg caniatáu i allbwn byw trydydd parti ymddangos ar un o safleoedd y BBC yn ofalus cyn i ni fwrw ymlaen. Dylem ystyried ffynhonnell y gwe-gamera, y llun, y pwnc a'r fformat. Er enghraifft, gall cymryd crynodeb gan gorff dinesig neu lun statig o orwel dinas fod yn dderbyniol, drwy gymryd camau diogelu priodol. **Fodd bynnag, mae'n annhebygol y dylem blannu crynodeb ffrwd fideo byw gan noddwr digwyddiad; rhaid cyfeirio unrhyw gynnig o'r fath at Bolisi Golygyddol.**

7.4.29 Dylai'r BBC gadw'r cyfrifoldeb golygyddol dros fonitro allbwn gwe-gamera neu grynodeb, ni waeth pwy sy'n berchen arno. Dylai lefel y monitro fod yn briodol i gynnwys y camera. Fel rheol dylai cynhyrchydd fod mewn sefyllfa i dorri'r crynodeb o we-gamera byw os bydd hynny'n angenrheidiol. Fodd bynnag, fel rheol mae'n dderbyniol trosglwyddo lluniau o we-gamerâu traffig, hyd yn oed pan na chaiff y

lluniau eu monitro gennym ni, ar yr amod ein bod yn fodlon bod yr heddlu, neu awdurdod cyfrifol arall, yn monitro'r lluniau i safon briodol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Dolenni a Chrynodebau)

## Holi dros y Rhiniog

7.4.30 Mae holi dros y rhiniog yn golygu pan fyddwn yn mynd at rywun ac yn recordio, neu'n ceisio recordio, cyfweliad â nhw ar gyfer ei ddarlledu, neu gyhoeddi bod galwad ffôn yn cael ei recordio ar gyfer ei ddarlledu, pan nad yw'r unigolyn hwnnw neu honno'n disgwyl cael cyfweliad ar gyfer ei ddarlledu oherwydd nad ydym wedi trefnu i wneud hynny â'r unigolyn dan sylw. Mae'n aml yn golygu tresmasu ar breifatrwydd ac fel rheol dylid gwneud hyn pan fetho popeth arall.

Gall holi dros y rhiniog fod wyneb yn wyneb neu dros y ffôn neu intercom ac ati. Gall fod ar eiddo cyhoeddus neu breifat. Gall fod ar gyfer rhaglenni newyddion a ffeithiol yn ogystal â chomedi ac adloniant.

Nid yw holi dros y rhiniog yn cynnwys vox pops. Ar ben hynny, ni fwriedir i'r canllawiau sy'n dilyn ar holi dros y rhiniog rwystro casglu deunyddiau'n gyfreithlon ar gyfer yr agenda newyddion ddyddiol, dibenion ymchwil neu ar gyfer allbwn comedi ac adloniant.

### *Holi dros y Rhiniog ar gyfer Rhaglenni Newyddion a Ffeithiol ar ôl Cysylltu ymlaen llaw*

**7.4.31 Os oes unrhyw gynnig i holi unigolyn neu sefydliad dros y rhiniog, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, a ninnau wedi ceisio gwneud apwyntiad i drefnu cyfweliad gyda'r unigolyn neu'r sefydliad dan sylw, rhaid i uwch swyddog golygyddol gymeradwyo hynny, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.**

Fel rheol dim ond os bydd tystiolaeth o drosedd neu ddrwgweithredu sylweddol y rhoddir cymeradwyaeth ac ar gyfer un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

- mae testun yr holi dros y rhiniog wedi methu ymateb i nifer o geisiadau am gyfweliad yng nghyswllt y drwgweithredu honedig
- mae nifer o geisiadau am gyfweliad wedi cael eu gwrthod heb reswm da ac mae honiadau sylweddol o ddrwgweithredu wedi cael eu hosgoi
- ceir hanes o fethu ymateb i geisiadau am gyfweliadau neu wrthod cyfweliadau.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.27)

Dylai cynigion ar gyfer holi dros y rhiniog fod yn gymesur i unrhyw ddrwgweithredu. Dylid bob amser ystyried diogelwch staff cynhyrchu a'r perygl o dresmasu ar breifatrwydd trydydd partïon nad ydynt yn gyfrifol am unrhyw ddrwgweithredu, megis aelodau teulu neu weithwyr iau.

### *Holi dros y Rhiniog ar gyfer Rhaglenni Ffeithiol heb Gysylltu ymlaen llaw*

7.4.32 **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i holi unigolyn neu sefydliad dros y rhiniog, boed hynny'n bersonol neu dros y ffôn, pan nad ydym wedi ceisio gwneud apwyntiad i drefnu cyfweliad blaenorol. Nid yw hyn yn berthnasol i gasglu newyddion dyddiol.**

Rhoddir cymeradwyaeth fel rheol ddim ond:

- os oes tystiolaeth glir o drosedd neu ddrwgweithredu sylweddol, ac
- os na fu hi'n bosibl gofyn am gyfweliad, neu
- bod rheswm da dros gredu y bydd ymchwiliad yn rhwystredig neu y bydd honiadau'n cael eu hosgoi (er enghraifft, oherwydd efallai na fydd modd cysylltu â'r rheini yr ymchwilir iddynt) os cysylltir ymlaen llaw.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.25 - 6.4.27)

***Holi dros y Rhiniog ar gyfer Rhaglenni Comedi ac Adloniant***

7.4.33 **Os oes unrhyw gynnig i holi dros y rhiniog, yn bersonol neu dros y ffôn, at ddibenion comedi ac adloniant, rhaid i uwch swyddog golygyddol gymeradwyo hynny, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.** Rhaid i bobl sy'n cael eu holi dros y rhiniog roi eu cydsyniad cyn darlledu'r deunydd oni bai fod pwy ydynt yn cael ei gelu.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12 a 6.4.18 - 6.4.20)

***Holi dros y Rhiniog ar gyfer Casglu Newyddion Dyddiol***

7.4.34 Pan fydd ffigurau cyhoeddus a phobl eraill yn y newyddion, gallant ddisgwyl bod yn destun sylw'r cyfryngau. Gallwn ofyn cwestiynau iddynt a recordio eu hatebion i'w darlledu, heb drefnu hynny ymlaen llaw, wrth iddynt fynd i mewn ac allan o adeiladau, meysydd awyr ac yn y blaen.

7.4.35 Fodd bynnag dylem gofio pan fydd cynrychiolwyr o'r cyfryngau'n casglu mewn niferoedd mawr ar gyfer stori newyddion, gall y sgrym a fydd yn deillio o hynny achosi braw a bod yn rhy ymwthiol. Ambell waith, bydd yn briodol llunio trefniadau cronni gyda sefydliadau eraill yn y cyfryngau. Efallai y byddwn o'r farn ei bod yn briodol tynnu'n ôl ar adegau eraill.

***Holi dros y Rhiniog ac Ymchwil***

7.4.36 Ni fwriedir i ganllawiau'r BBC ar holi dros y rhiniog rwystro ymchwilwyr, nad ydynt yn recordio ar gyfer darlledu, rhag galw'n ddirybudd ar bobl, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn (gan gynnwys yn eu cartref pan fydd hynny'n briodol), neu fynd at bobl ar siawns, er enghraifft wrth gynnal vox pops.

## Cynffon Cyrchoedd

7.4.37 Mae cynffon cyrch yn golygu pan fyddwn yn mynd gyda swyddogion yr heddlu, tollau, mewnfudo, iechyd yr amgylchedd neu awdurdodau cyhoeddus eraill ar ddyletswyddau gweithredol. Dylem ond fynd ar gynffon cyrchoedd pan fydd hynny er

budd y cyhoedd ac ar ôl ystyried y materion golygyddol a chyfreithiol yn ofalus gan gynnwys preifatrwydd, cydsyniad a thresmasu.

Pan fyddwn yn mynd ar gynffon cyrch ar eiddo preifat, fel rheol dylem:

- sicrhau bod pobl yn deall ein bod yn recordio i'r BBC
- cael cydsyniad y preswylydd cyfreithiol a rhoi'r gorau i recordio os gofynnir i ni wneud hynny
- gadael ar unwaith os bydd y perchennog, y preswylydd cyfreithiol neu rywun sy'n gweithredu â'u hawdurdod yn gofyn i ni wneud hynny.

Gall eithriadau gynnwys pan fydd gennym reswm dros gredu bod ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol yn cael ei ddatgelu, neu y bydd budd cyhoeddus arall yn cyfiawnhau ein bod yn parhau i recordio neu fod yno.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.5 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.13 - 6.4.16)

## Adrodd am Farwolaeth, Dioddefaint a Thrallod

7.4.38 Rhaid i ni bob amser gydbwyso'r budd cyhoeddus mewn adroddiadau llawn a chywir â'r angen i fod yn drugarog a cheisio osgoi unrhyw dresmasu anghyfiawn ar breifatrwydd pan fyddwn yn adrodd am ddamweiniau, trychinebau, aflonyddwch, trais yn erbyn unigolion neu ryfel.

Bydd arnom bob amser angen ystyried yn ofalus y cyfiawnhad golygyddol dros bortreadu dioddefaint a thrallod pobl yn fanwl. Pan fydd criwiau sy'n cyrraedd golygfa trychineb neu argyfwng byddant dan bwysau sy'n ei gwneud yn anodd barnu a yw recordio yn tresmasu ar breifatrwydd mewn modd na ellir ei gyfiawnhau, byddant yn aml yn recordio cymaint o ddeunydd ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid bod yn fwy gofalus byth wrth asesu unrhyw oblygiadau o ran preifatrwydd cyn darlledu. Ni ddylai'r gofynion ar allbwn byw a chyflymder defnyddio'r lluniau ddiystyru preifatrwydd y rheini sy'n dioddef neu mewn trallod.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1 - 5.4.4 a 5.4.27 - 5.4.31)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Argyfyngau Meddygol)

7.4.39 Prin iawn yw'r amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau darlledu adeg marwolaeth. Mae bob amser yn bwysig parchu preifatrwydd ac urddas pobl sydd wedi marw. Ni ddylem byth eu dangos heb reswm. Dylem hefyd osgoi defnyddio lluniau agos o wynebau ac anafiadau difrifol y rheini sydd wedi marw, yn dioddef neu mewn trallod, heb reswm.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.7)

7.4.40 Yn union wedi digwyddiad a olygodd farwolaeth, dioddefaint neu drallod, fel rheol mae modd cyfiawnhau defnyddio deunyddiau sy'n fwy graffig er mwyn rhoi cyfrif rhesymol o'r erchyllter llawn, er bod sgript sy'n ysgogi'r un mor bwysig i gyfleu realaeth trychineb a rhoi cyd-destun i'r deunydd. Fodd bynnag, wrth i'r stori ddatblygu gall ddod yn anos cyfiawnhau parhau i ddefnyddio deunyddiau graffig o'r fath.

Wedyn, wrth ystyried y stori mewn cyd-destun hanesyddol cyfoes neu, er enghraifft, ar ben blwydd yr achlysur, efallai fod modd cyfiawnhau defnyddio’r deunydd drachefn.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.27 - 5.4.31 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44)

Mae arnom hefyd angen ystyried effaith cronnus defnyddio deunyddiau graffig yn gyson neu’n barhaus ar ein sianeli newyddion di-dor.

7.4.41 Fel rheol dylem ofyn am gyfweliadau gyda phobl sydd wedi’u hanafu neu mewn profedigaeth yn dilyn damwain neu drychineb drwy gysylltu â nhw drwy ffrindiau, perthnasau neu gynghorwyr. Ni ddylem:

- eu rhoi dan bwysau i gymryd rhan mewn cyfweliad
- eu harasio'n ddiddiwedd gyda galwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun na drwy guro ar eu drws
- aros ar eu heiddo os gofynnir i ni adael
- fel rheol eu dilyn os byddant yn symud ymlaen.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.5 - 6.4.8)

7.4.42 Fodd bynnag, mae’n bwysig nad ydym yn sensro ein hadroddiadau drwy amryfusedd. Er enghraifft, mae mynegi galar yn gyhoeddus a’r graddau yr ystyrir bod dangos hyn yn ymyrraeth i fywyd preifat rhywun yn amrywio ar draws y byd. Ceir dwy ystyriaeth wrth bennu beth i’w ddarlledu: y bobl rydym yn eu recordio, a’n cynulleidfa. Mae’n annhebygol y bydd golygfeydd graffig o alar yn achosi tramgwydd neu drallod i’r dioddefwyr a’r perthnasau hynny sydd wedi cydsynio i gael eu recordio gennym, ond gall golygfeydd o’r fath wylltio neu gynhyrfu rhai pobl yn ein cynulleidfaoedd. Wrth gyflwyno golygfeydd o drallod neu ddioddefaint eithafol, gall ychydig o eiriau i egluro amgylchiadau casglu'r golygfeydd helpu i atal camddealltwriaeth a thramgwydd dianghenraid.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1 - 5.4.3)

7.4.43 Fel rheol, dim ond â chydsyniad y teulu y dylem recordio angladdau preifat. Rhaid bod budd cryf i’r cyhoedd os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen yn erbyn ceisiadau am breifatrwydd.

### *Ailedrych ar Ddigwyddiadau o’r Gorffennol*

7.4.44 Rhaid i ni ystyried sut mae lleihau unrhyw drallod posibl i ddioddefwyr a oroesodd a pherthnasau pan fyddwn yn bwriadu archwilio digwyddiadau o’r gorffennol a oedd yn golygu dioddefaint a thrawma. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os oedd y digwyddiadau neu’r deunyddiau a ddefnyddir ar gael i’r cyhoedd unwaith. Bydd y ffordd y byddwn yn cyflawni hyn yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y digwyddiad gwreiddiol, er enghraifft, a’r amser sydd wedi mynd heibio ers hynny. Ond cymaint ag sy’n ymarferol bosibl, fel rheol dylid rhoi gwybod am ein cynlluniau i’r dioddefwyr a oroesodd neu deuluoedd agos y rheini a fu farw ac a fydd yn y rhaglen.

Os yw'r rheini dan sylw yn codi unrhyw wrthwynebiadau rhesymol, dim ond os yw budd y cyhoedd yn drech na'r rheini y dylem fwrw ymlaen yn eu herbyn.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 – 13.4.8 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.40)

## Gwybodaeth Bersonol

7.4.45 Mae pobl yn ymddiried yn y BBC a rhaid i ni fod yn dryloyw â nhw. Dylem egluro wrth bobl sut rydym yn bwriadu defnyddio eu gwybodaeth bersonol, hyd yn oed os yw hynny ond yn gyfeiriad IP, yn gyfeiriad e-bost neu'n rhif ffôn. Caiff gwybodaeth bersonol ei chasglu, er enghraifft, pan fydd pobl yn edrych ar ein gwefannau, yn rhoi cynnig ar gystadlaethau, yn cofrestru â chymuned ryngweithiol neu'n dod yn rhan o gronfa ddata o gyfranwyr. Rhaid i ni ddelio â data personol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11)

### *Manylion Cyfranwyr*

7.4.46 Bydd adrannau cynhyrchu'n aml yn casglu gwybodaeth bersonol am gyfranwyr a darpar gyfranwyr drwy eu gwefannau cyn ei storio mewn cronfeydd data. Fel rheol ni ddylai adrannau eraill y tu allan i'r maes cynhyrchu sydd wedi casglu'r wybodaeth hon allu cael gafael arni. Dylid cyfeirio unrhyw gynnig am eithriad at Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

7.4.47 Fel rheol ni ddylai manylion personol, sylwadau na gwybodaeth bersonol arall cyfranwyr gael eu rhoi i drydydd parti heb gydsyniad y cyfrannwr. Os nad oes modd cael cydsyniad, dylid cyfeirio hyn at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad. Os oes gennym gydsyniad, dylai contract fynnu bod y trydydd parti yn defnyddio'r wybodaeth dim ond at y dibenion y cytunwyd arnynt rhwng y cyfrannwr a'r BBC.

7.4.48 **Os bydd unrhyw gynnig i gasglu gwybodaeth bersonol ar un o wefannau'r BBC sy'n cael cyllid cyhoeddus y gellid ei datgelu i drydydd parti, gan gynnwys BBC Worldwide, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad a BBC Masnachu Teg.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11)

7.4.49 Dylem fod yn ofalus iawn wrth gasglu gwybodaeth bersonol gan blant. Gall hyn alw am 'gydsyniad rhieni' mae modd ei ddilysu[2].

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.4 - 9.4.10)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

[2] Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: Cydsyniad Rhieni

7.4.50 Rhaid cyfeirio unrhyw gais am wybodaeth bersonol am gyfrannwr gan yr heddlu at Bolisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn ymateb.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.24 - 13.4.27)

***Briwsion***

7.4.51 Mae briwsion yn cofnodi gwybodaeth am ddewisiadau defnyddwyr ar eu cyfrifiaduron neu ddyfeisiau eraill. Pan fyddwn yn rhoi briwsion ar ddyfeisiau defnyddwyr, rhaid i ni fod yn dryloyw â nhw am eu dewis i'w derbyn neu eu gwrthod. Mae rhagor o gyngor ar gael gan Polisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

Pan fydd trydydd partïon yn rhoi cod rhaglennu i'r BBC sy'n cynnwys briwsion, rhaid gofyn am gyngor gan Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad cyn cael defnyddio'r cod.

***Anfon Negeseuon E-bost a Marchnata Firaol***

7.4.52 Ni ddylem anfon negeseuon e-bost at bobl oni bai eu bod wedi cytuno i'w derbyn (h.y. ni ddylem anfon 'sbam').

Os defnyddir gwybodaeth bersonol at ddibenion hyrwyddo, marchnata, ymchwil neu unrhyw ddiben eilradd arall, rhaid i'n defnyddwyr "ddewis cymryd rhan". Er enghraifft, ni ddylem anfon negeseuon e-bost hyrwyddo am ein hallbwn pan fydd pobl wedi rhoi eu cyfeiriad e-bost i ni'n wreiddiol er mwyn rhoi cynnig ar gystadleuaeth.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai ein bod yn dymuno cynnig y cyfle i'n cynulleidfaoedd e-bostio cynnwys ar-lein y BBC at ffrind.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11)

7.4.53 Wrth anfon negeseuon e-bost at restr o danysgrifwyr, dylem ofalu ein bod yn sicrhau na all pawb ar y rhestr weld cyfeiriadau e-bost y tanysgrifwyr eraill.

7.4.54 Gall marchnata firaol fod yn ffordd effeithiol o hyrwyddo cynnwys y BBC ar-lein, yn enwedig pan fydd hyn drwy argymhelliad personol. Ond, yn enwedig wrth redeg ymgyrch farchnata, dylem ofalu:

- bod defnyddwyr wedi rhoi eu cydsyniad clir i dderbyn negeseuon marchnata gan y BBC neu ei asiantau
- nad yw marchnatwyr sy'n gweithio neu'n dosbarthu cynnwys y BBC ar fannau rhyngweithiol (megis safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, blogiau neu fyrddau negeseuon) yn cymryd arnynt eu bod yn aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Ni ddylai hyn atal 'cynnwys dirgel' rhag cael ei ddosbarthu, ar yr amod bod 'datgeliad' pan fydd y tarddiad yn glir i'r rheini sydd wedi'i dderbyn
- dylai'r cynnwys fod yn addas ar gyfer triniaeth firaol, gan gofio ein bod yn annhebygol iawn o allu rheoli pwy sy'n ei dderbyn ar ôl iddo gael ei ryddhau.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.1)

***Pobl Coll***

7.4.55 Ambell waith gall y BBC helpu i ddod o hyd i bobl coll drwy ddarlledu manylion a ddarperir gan berthnasau a ffrindiau. Fodd bynnag, dylem ysgwyddo’r cyfrifoldeb golygyddol dros gynnwys y neges a chofio nad oes ar bawb sydd ar goll eisiau cael eu canfod. Gallai fod yn briodol dal gwybodaeth yn ôl am yr unigolyn coll petai’r unigolyn hwnnw neu honno’n ystyried bod yr wybodaeth honno’n breifat, yn achosi embaras neu drallod.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Pobl Coll)

# ADRAN 8: ADRODD AM DROSEDDAU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

**8.1 Cyflwyniad**
**8.2 Egwyddorion**
**8.3 Cyfeirio Gorfodol**
**8.4 Arferion**
**Adrodd am Droseddau**
**Delio â Throseddwyr a Drwgweithredwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
**Delio â Thystion a Dioddefwyr Troseddau**
**Ymchwiliadau i Drosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

## 8.1 CYFLWYNIAD

Mae'r sylw a roddwn i droseddau ac i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan o ddiben cyhoeddus y BBC ac fe'i anelir at roi'r ffeithiau yn eu cyd-destun i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau nad yw pryder y cyhoedd am ein dulliau yn drech na'r budd cyhoeddus[1] yn ein hadroddiadau. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn glynu wrth safonau ymddygiad priodol ein hunain, ein bod yn ystyried canlyniadau ein gweithredoedd ac yn osgoi rhwystro gwaith yr awdurdodau.

Rhaid i'n hadroddiadau beidio ag ychwanegu at ofn pobl o fod yn ddioddefwyr troseddau os yw'r ystadegau'n awgrymu bod hynny'n annhebygol iawn.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trosedd)

## 8.2 EGWYDDORION

8.2.1 Rhaid i ni sicrhau na fydd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell comisiynu trosedd, neu arwain at anhrefn, yn cael ei gynnwys yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn gyfyngu ar ddarlledu unrhyw gynnwys lle gellir dangos budd amlwg i'r cyhoedd.

8.2.2 Byddwn yn sicrhau na chaiff disgrifiadau neu arddangosiadau manwl o dechnegau troseddol a allai alluogi comisiynu gweithredoedd anghyfreithlon eu cynnwys ar ein gwasanaethau oni bai fod cyfiawnhad golygyddol amlwg dros wneud hynny.

8.2.3 Rhaid i ni geisio cydbwyso budd cyhoeddus wrth adrodd am droseddau â pharch at breifatrwydd ac urddas dioddefwyr a'u teuluoedd.

8.2.4 Os ceir ymchwiliadau i droseddau neu i ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys twyll a/neu ymyrraeth, rhaid gallu cyfiawnhau hynny'n glir yn olygyddol a rhaid iddo fod yn gymesur i'r drwgweithredu maent yn ceisio ei ddatgelu.

## 8.3 CYFEIRIO GORFODOL

[1] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

8.3.1 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn gyfyngu ar ddarlledu unrhyw gynnwys lle gellir dangos budd amlwg i'r cyhoedd. Pan fo budd amlwg i'r cyhoedd o ddarlledu'r cynnwys, rhaid cael caniatâd y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol cyn gynted â phosibl.

(Gweler 8.4.1)

8.3.2 Os tystir gweithgarwch troseddol difrifol, neu os recordir trosedd penodol pan allai hynny godi cwestiynau ynghylch ein perthynas â'r troseddwr, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at uwch swyddog golygyddol neu, at y comisiynydd sy'n golygu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.3)

8.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfweld â throseddwr sydd ar waith yn y DU, neu mae awdurdodau'n chwilio amdano neu amdani yn y DU, at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.15)

8.3.4 Os bydd unrhyw gynnig i gysylltu â neu gyfweld â charcharorion sydd wedi dianc neu bobl mae'r heddlu'n chwilio amdanynt, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.18)

8.3.5 Yng nghyswllt taliadau neu daliadau ymarferol i droseddwyr, cyn-droseddwyr, eu teuluoedd neu eu cymdeithion (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar gyfer cyfweliadau neu gyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u troseddau, rhaid cyfeirio materion o'r fath ar y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.20)

8.3.6 Yng nghyswllt taliadau neu daliadau ymarferol i bobl nad ydynt efallai wedi cyflawni trosedd ond mae eu hymddygiad yn amlwg yn wrthgymdeithasol am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u hymddygiad, neu bobl mae eu gweithgareddau wedi ennill y fath amlygrwydd y gallai unrhyw daliad fod yn amhriodol, rhaid cyfeirio materion o'r fath at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.21)

8.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i garchar yn y DU heb ganiatâd at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.22)

8.3.8 Os bydd unrhyw gynnig i enwi pedoffilydd neu droseddwr rhyw arall, pan nad yw eu henw wedi cael ei ddarparu i'r cyhoedd gan yr heddlu, neu ddarlledu lluniau ohonynt, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.27)

8.3.9 Rhaid holi'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ymlaen llaw ynghylch unrhyw gynnig i sicrhau bod modd celu manylion adnabod rhywun sy'n ceisio osgoi cyfraith y DU.

(Gweler 8.4.31)

8.3.10 Os bydd unrhyw gynnig i dalu tyst neu ddarpar dyst mewn treial, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.37)

8.3.11 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi rhywun y gwyddys fod ganddynt gofnod troseddol neu gefndir o weithgarwch anghyfreithlon i weithio ar un o ymchwiliadau'r BBC. Mae hyn yn cynnwys aelodau golygyddol o'r tîm cynhyrchu a chudd-weithredwyr.

(Gweler 8.4.43)

8.3.12 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo ceisiadau am swydd gan gudd-weithredwyr sy'n gweithio ar ymchwiliadau'r BBC.

(Gweler 8.4.44)

***Cyfeirio at Bolisi Golygyddol***

8.3.13 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfweld â thystion am eu tystiolaeth pan fydd yr achos llys ar waith at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

*(Gweler 8.4.34)*

8.3.14 Os bydd unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr ar ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 8.4.41)

***Cyfeirio Arall***

8.3.15 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i recordio trydydd partïon yn niweidio anifeiliaid yn anghyfreithlon at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 8.4.5)

8.3.16 Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o “baratoi” a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu ar gyfer Gwasanaethau Masnachol, at yr arweinydd golygyddol perthnasol) a fydd yn gyfrifol am roi gwybod i’r awdurdodau priodol.

(Gweler 8.4.7)

8.3.17 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i garchar tramor heb ganiatâd at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.23)

8.3.18 Rhaid cyfeirio unrhyw gynigion i wahodd carcharor i gychwyn galwad i’w ddarlledu, darlledu galwad na ofynnwyd amdano gan garcharor nad yw eisoes wedi cael ei gyfeirio, neu ddarlledu galwad byw gan garcharor, at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 8.4.24)

8.3.19 Rhaid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn darlledu deunyddiau sy’n datgelu pwy yw unrhyw un dan 18 oed sy’n ddarpar ddiffynnydd ar ôl i’r achos llys ddechrau.

(Gweler 8.4.32)

8.3.20 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Gall hefyd fod angen ymgynghori â Pholisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 8.4.40)

8.3.21 Rhaid ymgynghori â Thîm Rheoli Risg Uchel Diogelwch y BBC, mewn da bryd, cyn cynnal ymchwiliadau troseddol sy’n cynnwys gwylio neu recordio cudd a/neu wynebu terfysgwyr, grwpiau troseddol, eithafol, treisgar neu wleidyddol difrifol.

(Gweler 8.4.45)

## 8.4 ARFERION

## Adrodd am Droseddau

### *Deunydd sy’n Debygol o Annog neu Gymell Troseddu*

8.4.1 Rhaid peidio â chynnwys deunydd sy’n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn gyfyngu ar ddarlledu unrhyw gynnwys lle gellir dangos budd amlwg i’r cyhoedd[2]. **Rhaid cael caniatâd y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i ddarlledu cynnwys o’r fath cyn gynted â phosibl. Mae achosion o’r fath yn debygol o fod yn brin.**

[2] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

8.4.2 Mewn achosion lle mae anufudd-dod sifil neu dor-cyfraith posibl yn rhan o stori gyfredol yn y newyddion neu ddadl am bolisi cyhoeddus, rhaid i olygyddion ystyried eu cyfrifoldeb i adlewyrchu'r ddadl neu'r digwyddiadau'n llawn ac yn gywir yn ogystal â'u dyletswydd i beidio â darlledu deunydd sy'n debygol o annog neu gymell trosedd. Bydd cyd-destun ac eglurhad yn allweddol.

Ni fydd recordio a darlledu gweithgarwch troseddol fel rheol yn golygu annog neu gymell, oni bai ei fod yn datgelu manylion efelychiadol. Fodd bynnag, dylem ofalu na chaiff gweithredoedd troseddol eu hudoli.

Dylid herio galwadau uniongyrchol neu brocio cynulleidfaoedd i gyflawni gweithgareddau troseddol yn gadarn.

Ni ddylid portreadu gweithgareddau anghyfreithlon megis defnyddio cyffuriau neu rasio ceir wedi'u dwyn fel pethau hudolus a heb broblemau. Gallai fod yn briodol adlewyrchu canlyniadau negyddol gweithgareddau o'r fath, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn anghyfreithlon.

***Tystio a Darlunio Gweithgarwch Anghyfreithlon***

**8.4.3 Wrth ymchwilio i weithgarwch troseddol, ar adegau prin efallai fod arnom eisiau recordio trosedd benodol. Pan allai hynny godi cwestiynau ynghylch ein perthynas â'r troseddwr neu pan fydd yn golygu bod yn dyst i weithgarwch troseddol difrifol, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y comisiynydd sy'n golygu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

Dim ond os yw hynny yn amlwg er budd y cyhoedd[3]. y rhoddir cymeradwyaeth i fod yn bresennol mewn gweithgarwch anghyfreithlon difrifol neu recordio hynny. Hyd yn oed wedyn rhaid i ni osgoi:

- caniatáu, helpu neu annog ymddygiad troseddol
- annog neu brocio ymddygiad na fyddai fel arall wedi digwydd
- cyfarwyddo'r gweithgarwch mewn unrhyw ffordd.

Gellid erlyn unrhyw un sy'n cyfaddef iddynt gyflawni gweithred anghyfreithlon. Drwy orchymyn llys gall yr heddlu ddefnyddio ein nodiadau ymchwil, ein dyddiaduron, ein negeseuon e-bost a'n gwaith papur arall yn ogystal â brysluniau heb eu darlledu. Gellir hefyd datgelu'r deunyddiau hyn fel tystiolaeth gerbron llys, tribiwnlys neu gwest. Dylid bod yn ofalus i sicrhau bod manylion adnabod unrhyw ffynonellau cyfrinachol yn cael eu diogelu ac nad ydynt yn ymddangos yn unrhyw nodiadau a allai fod yn destun gorchymyn llys.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 – 6.4.12, Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.22 – 13.4.27 ac Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.40 - 8.4.47)

[3] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

8.4.4 Fel rheol ni ddylem ddangos na darlunio technegau troseddol, megis sut mae cychwyn car heb yr allwedd, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny. Hyd yn oed wedyn mae'n bwysig osgoi datgelu manylion a fyddai'n galluogi comisiynu gweithgarwch anghyfreithlon neu'r ffyrdd y gellir ei wneud yn fwy effeithiol.

8.4.5 **Efallai y bydd adegau a hynny er budd i'r cyhoedd[4] lle ceir cyfiawnhad dros recordio niweidio anifeiliaid yn anghyfreithlon gan drydydd partïon at ddibenion casglu tystiolaeth neu i ddangos camymarfer ac ymddygiad creulon, gwrthgymdeithasol neu ddadleuol. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.31)

8.4.6 Dylem ochel rhag gweithgarwch troseddol ar ein byrddau negeseuon a mannau rhyngweithiol eraill ar-lein. Dylem allu gweithredu strategaeth codi materion gadarn a chyflym pan fydd hynny'n briodol. Gall hyn amrywio o dynnu cyfrannwr o un o fannau'r BBC dros dro i'w newid yn fan 'darllen yn unig'. Dylid ymgynghori â'r unigolyn sy'n olygyddol gyfrifol am y man pan fydd rhywun yn cyfaddef i drosedd yno neu pan ymddengys y gallai gweithgarwch anghyfreithlon fod yn digwydd neu ei fod yn cael ei gynllunio neu ei drefnu.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.41)

8.4.7 **Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o "baratoi" a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu at yr arweinydd golygyddol perthnasol yng nghyswllt Gwasanaethau Masnachol) a fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r awdurdodau priodol.**

(Gweler Adran 9 Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc: 9.4.4 – 9.4.10)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

### *Effaith ar Gynulleidfaoedd*

8.4.8 Dylem ystyried effaith ein hadroddiadau am droseddau ar ein cynulleidfaoedd.

Nod ein hadroddiadau am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yw rhoi'r ffeithiau yn eu cyd-destun i gynulleidfaoedd. Rhaid iddynt beidio ag ychwanegu at ofnau pobl o fod yn ddioddefwyr troseddau os ydy hynny'n ystadegol annhebygol iawn.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trosedd)

8.4.9 Pan fyddwn yn cyfweld â'r rheini sy'n gyfrifol am drosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol neu yn ail-greu/dramateiddio digwyddiadau o'r gorffennol, gall achosi trallod i ddioddefwyr a/neu eu perthnasau. Cymaint ag y bo modd, dylem wneud ein gorau glas i gysylltu â'r dioddefwyr sy'n dal yn fyw, a/neu berthnasau agos

[4] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

y rheini a fu farw a rhoi gwybod iddynt am ein cynlluniau. Os oes angen defnyddio cyfryngwr megis yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol, rydym yn dal yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y dioddefwyr a/neu berthnasau agos wedi cael gwybod a bod y manylion angenrheidiol ganddynt i gysylltu â ni.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44)

8.4.10 Gall adrodd am y ffeithiau am droseddwyr gynnwys rhoi manylion amgylchiadau eu teulu, ond dylem osgoi achosi trallod dianghenraid i'w teulu. Hefyd, ni ddylem awgrymu euogrwydd drwy gysylltiad heb dystiolaeth.

8.4.11 Pan fyddwn yn adrodd am droseddau hanesyddol, dylid ystyried y posibilrwydd y bydd rhai o'r rheini dan sylw - yn droseddwyr, yn rhai a ddrwgdybir, yn dystion, yn berthnasau neu yn ddioddefwyr - wedi newid eu henwau neu eu cyfeiriadau er mwyn dechrau eu bywydau o'r newydd. Os yw hynny'n wir, dylid meddwl yn ofalus iawn i ba raddau ydym yn datgelu eu manylion adnabod neu eu cyfeiriadau newydd.

### *Deunyddiau Archif*

8.4.12 Mae defnyddio deunyddiau archif sy'n ymwneud â throseddau a dioddefwyr troseddau'n galw am benderfyniadau golygyddol gofalus.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 - 13.4.11)

### *Ail-greu*

8.4.13 Caiff rhaglenni newyddion adrodd am ail-greu troseddau a fydd wedi'u llwyfannu gan yr heddlu er mwyn casglu tystiolaeth. Fel rheol ni ddylent gomisiynu ail-greu troseddau ac eithrio i'w defnyddio ar ddiwedd treial. Nid yw ailymweld â golygfa trosedd a/neu gyfweld â dioddefwr neu dyst ynddo'i hun yn golygu ail-greu.

8.4.14 Dylai rhaglenni ffeithiol gyfyngu ar eu defnydd o ail-greu sefyllfaoedd i gyfleu gwybodaeth ffeithiol. Ni ddylid eu defnyddio dim ond i ddenu neu i ddifyrru cynulleidfaoedd.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.18)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trosedd)

## Delio â Throseddwyr a Drwgweithredwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

### *Cyfweliadau*

8.4.15 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfweld â throseddwr sydd ar waith yn y DU, neu mae awdurdodau'n chwilio amdano neu amdani yn y DU, at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Dylai cyfweliadau ond fwrw ymlaen os ceir cyfiawnhad golygyddol clir dros wneud hynny, er enghraifft drwy ganfod gwybodaeth neu fewnwelediad pwysig.

8.4.16 Wrth gyfweld â throseddwyr, rhaid gofalu ein bod yn lleihau'r trallod posibl y gallai hyn ei achosi i ddioddefwyr y trosedd neu eu perthnasau.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.9 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 - 7.4.40)

8.4.17 Rhaid i gyfweliadau â throseddwyr gweithredol neu a gafwyd yn euog beidio â hudoli drwgweithredu, dathlu diystyru'r broses farnwrol na datgelu manylion a fyddai'n golygu bod modd copïo trosedd.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3 - 8.4.4)

**8.4.18 Mewn rhai amgylchiadau gall cysylltu â charcharorion sydd wedi dianc neu bobl mae'r heddlu'n chwilio amdanynt fod yn drosedd. Os bydd unrhyw gynnig i gysylltu â neu gyfweld â phobl o'r fath, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

8.4.19 Yn rhyngwladol, ceir diffiniadau gwahanol ar gyfer trosedd a throseddol. Mewn rhai gwledydd, er enghraifft, caiff gwrthwynebwyr ac ymgyrchwyr gwleidyddol eu diffinio fel troseddwyr, ond gall cyfweliadau â nhw fod yn bwysig er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, ar gyfer pobl sy'n cael eu cymell gan enillion personol oherwydd eu gweithgareddau troseddol, rhaid i ni ddefnyddio'r un egwyddorion a ddefnyddir yn y DU.

***Taliadau***

8.4.20 Fel rheol ni fydd y BBC yn rhoi taliadau, yn addo rhoi taliadau nac yn rhoi taliadau ymarferol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (megis drwy drefnwyr neu ganolwyr), i droseddwyr, nac i gyn-droseddwyr, sydd ond yn siarad am eu troseddau. At ei gilydd, dylai'r un peth fod yn berthnasol i deuluoedd neu berthnasau troseddwyr neu gyn-droseddwyr. Diben hyn yw amddiffyn ein henw da, a hygrededd y rheini rydym yn cyfweld â nhw a ffynonellau, yn ogystal â pharchu sensitifedd dioddefwyr trosedd.

**Yng nghyswllt unrhyw gynnig i dalu troseddwyr, cyn-droseddwyr, eu teuluoedd neu eu cymdeithion (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) am gyfweliadau neu gyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u troseddau, rhaid cyfeirio materion o'r fath ar y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Dim ond am gyfraniad o bwys aruthrol sydd â budd amlwg i'r cyhoedd[5] ac na fyddid wedi ei gael heb dâl y gellir cymeradwyo talu ffi amdano. Mewn achosion o'r fath, dim ond gwariant neu golli enillion a gafwyd mewn gwirionedd o ganlyniad i wneud y cyfraniad a fydd yn gymwys i gael ad-daliad. Noder nad yw'n fwriad i hyn atal ailsefydlu troseddwyr na rhwystro rhag talu pobl sydd ag euogfarnau troseddol sy'n gwneud cyfraniad nad yw ynghylch eu trosedd.

8.4.21 **Os nad yw pobl wedi cyflawni trosedd ond mae eu hymddygiad yn amlwg yn wrthgymdeithasol, fel rheol rhaid peidio â'u talu am gyfweliadau na chyfraniadau eraill sy'n ymwneud â'u hymddygiad. Fel rheol ni ddylid ychwaith rhoi taliad i bobl mae eu gweithgareddau wedi ennyn y fath enwogrwydd y gallai unrhyw daliad fod yn amhriodol, ni waeth beth yw natur y cyfraniad. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud taliadau o'r fath, gan gynnwys taliadau ymarferol, at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

[5] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

***Cyfweliadau â Charcharorion***

8.4.22 Cyn ymweld â charchar yn y DU a chynnal cyfweliad â charcharor ar gyfer darlledu cynnwys, fel rheol dylai cynhyrchwyr ofyn am ganiatâd gan awdurdodau carchardai'r DU. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i garchar yn y DU heb ganiatâd at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

8.4.23 Cyn ymweld â charchar dramor a chynnal cyfweliad â charcharor ar gyfer ei ddarlledu, fel rheol dylem ofyn am ganiatâd gan yr awdurdodau carchardai. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i garchar tramor heb ganiatâd at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Os ceir cymeradwyaeth, dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Rhanbarth World Service perthnasol a'r Pennaeth Casglu Newyddion.

Mae bob tro'n ddoeth cysylltu â Chyngor Cyfreithiol Rhaglen wrth gynnig cyfweld â charcharorion dramor oherwydd y systemau cyfreithiol gwahanol sy'n berthnasol mewn gwledydd gwahanol.

8.4.24 Efallai fod gan garcharorion fynediad at ffonau cyhoeddus a ffonau symudol, er efallai fod rheolau'r carchar yn cyfyngu ar eu defnydd ohonynt. **Rhaid cyfeirio'r cynigion canlynol ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol:**

- **gwahodd carcharor i ddechrau galwad at ddibenion darlledu o ffôn cyhoeddus neu ffôn symudol mewn carchar**
- **darlledu galwad a recordiwyd ymlaen llaw ac na ofynnwyd amdano gan garcharor na chafodd ei gyfeirio cyn ei recordio**
- **darlledu unrhyw alwad byw gan garcharor.**

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1)

8.4.25 Yng nghyswllt carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, yn enwedig troseddau treisgar, rhaid rhoi ystyriaeth deg i ffyrdd o leihau'r trallod posibl y gallai cyfweliad ei achosi i ddioddefwr neu i deulu dioddefwr.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.9 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 - 7.4.40)

***Pedoffiliaid a Throseddwyr Rhyw Eraill***

8.4.26 Pan fydd pedoffiliaid a throseddwyr rhyw eraill wedi bwrw eu dedfryd ac wedi'u rhyddhau yn ôl i'r gymuned, gall teimladau cryf iawn fodoli yn yr ardal lle maent yn byw. Dylem adrodd am faterion o'r fath pan fydd budd amlwg i'r cyhoedd[6] gan geisio osgoi'r canlyniadau posibl canlynol:

[6] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

- ysgogi neu hwyluso gweithredu gan warcheidwaid
- dod o hyd i'r unigolyn anghywir
- gyrru'r troseddwr dan ddaear oddi wrth oruchwyliaeth lle mae ef neu hi'n fwy tebygol o lawer o aildroseddu
- tresmasu ar breifatrwydd troseddwr heb gyfiawnhad
- effaith negyddol ar y dioddefwyr a'u teuluoedd, neu deulu'r troseddwr.

8.4.27 Fel rheol bydd y BBC ond yn ystyried darlledu enwau neu luniau pedoffiliaid neu droseddwyr rhyw sydd wedi bwrw eu dedfryd ac sydd wedi'u rhyddhau o garchar pan fydd yr heddlu wedi darparu'r manylion hyn i'r cyhoedd. Nid yw cyhoeddi'r manylion hyn mewn cyfryngau eraill yn ddigon o gyfiawnhad ynddo'i hun. **Os bydd unrhyw gynnig i enwi pedoffilydd neu droseddwr rhyw arall, pan nad yw eu henw wedi cael ei ddarparu i'r cyhoedd gan yr heddlu, neu ddarlledu lluniau ohonynt, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

8.4.28 Wrth adrodd am bedoffiliaid a throseddwyr rhyw eraill neu wrth ddatgelu pedoffiliaid neu droseddwyr rhyw posibl, fel rheol mae'n rhesymol enwi'r dref neu'r ddinas lle maent yn byw. Fodd bynnag, at ei gilydd dylem osgoi rhoi gwybodaeth a allai ddatgelu eu hunion leoliad. Dylem hefyd ystyried ymgynghori â'r heddlu perthnasol os ydym yn bwriadu datgelu eu lleoliad neu ddangos llun, er mwyn galluogi'r heddlu i roi sylw i faterion rheoli yng nghyswllt y dioddefwr, teulu'r dioddefwr, y troseddwr a theulu'r troseddwr.

8.4.29 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol amlwg dros gyfweliadau â phedoffiliaid neu droseddwyr rhyw eraill. Dylid gofalu ein bod yn lleihau'r trallod posibl y gallai cyfweliad ei achosi i'w dioddefwyr neu deuluoedd y dioddefwyr. Os oes unrhyw gynnig i gyfweld â phedoffeil neu droseddwr rhyw arall a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, mewn carchar neu ar ôl rhyddhau o garchar, dylid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu'r golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a allai hefyd ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.9 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 - 7.4.40)

### *Cuddio Pwy ydy Rhywun*

8.4.30 Pan fydd rhywun yn ein hallbwn yn amlwg yn ymwneud ag ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol, fel rheol bydd y BBC yn datgelu pwy ydynt. Fodd bynnag, efallai y cyfyd adegau pan fydd hi'n bwysig cuddio pwy ydynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhesymau cyfreithiol, megis dirmyg llys posibl neu ddifenwad
- amddiffyn ffynhonnell neu ffynonellau
- rhesymau diogelwch, naill ai yn y DU neu dramor
- byddai datgelu pwy ydynt yn anghymesur i'r drwgweithredu

- pan fyddwn yn datgelu arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol ond dim ond dangos yr ymddygiad y mae'r unigolion, er enghraifft wrth ffilmio'n gudd at ddibenion ymchwil defnyddwyr neu gymdeithasol

- pan fyddwn yn datgelu arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol ond nid yw'r unigolion dan sylw'n ddigon euog na chyfrifol dros eu gweithredoedd.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 - 6.4.12)

8.4.31 **Rhaid holi'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ynghylch unrhyw gynnig i sicrhau bod modd celu manylion adnabod rhywun sy'n ceisio osgoi cyfraith y DU.**

***Plant a Phobl Ifanc***

8.4.32 **Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros ddarlledu deunydd sy'n datgelu pwy ydy unrhyw un dan 18 oed a allai fod yn ddiffynnydd mewn achos llys cyn i'r achos hwnnw ddechrau. Efallai fod cyfyngiadau cyfreithiol hefyd ar ôl i'r achos ddechrau. Pan fydd achos yn mynd rhagddo, rhaid hefyd ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9)

8.4.33 Wrth ystyried a ddylid datgelu pwy ydy plant a phobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, dylem ystyried eu buddiannau. Dylid ystyried oed y plentyn neu'r unigolyn ifanc, natur neu ddifrifoldeb yr ymddygiad a chanlyniadau posibl datgelu pwy ydynt. Fel rheol ni ddylem ddatgelu pwy ydy plentyn wrth drafod ymddygiad o'r fath i ddangos arfer, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol clir dros wneud hynny. Ceisiwch gyngor gan uwch swyddog golygyddol bob tro os nad ydych yn siŵr sut dylid bwrw ymlaen, neu'r golygydd sy'n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.12 – 9.4.23 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.2)

Mae cyngor ar gael gan Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni ynghylch datgelu pwy ydy plentyn neu unigolyn ifanc sydd â Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) neu sy'n ymwneud ag achos llys.

## Delio â Thystion a Dioddefwyr Troseddau

***Cyfweliadau***

8.4.34 Rhaid i ni fod yn hynod ofalus yng nghyswllt cyfweliadau â thystion, yn y DU a dramor, i sicrhau nad ydym yn ymyrryd â'r broses gyfreithiol. Wrth gynnal cyfweliadau newyddion â phobl sydd newydd fod yn dyst i drosedd, dylem fod yn ymwybodol o bosibilrwydd dirmyg llys os yw achos yn mynd rhagddo.

**Fel rheol ni ddylid cyfweld â thystion am eu tystiolaeth ar ôl i'r achos ddechrau a nes cael rheithfarn. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.** Ambell waith mae tystion yn honni iddynt gael eu hyfforddi gan newyddiadurwr. I amddiffyn ein hunain rhag unrhyw

gyhuddiad annheg, gan roi gwybod i'r sawl sy'n cael ei gyfweld neu ei chyfweld, dylem recordio a chadw'r cyfweliad yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys unrhyw saib, ymyriad, procio, cwestiynau a ailadroddir neu ailgynnig.

### *Taliadau*

8.4.35 Rhaid peidio â thalu tystion nac unrhyw un y byddai'n rhesymol iddynt gael eu galw fel tyst yn ystod achos troseddol, ac ni ddylid addo eu talu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol (megis drwy drefnwyr neu ganolwyr) am eu stori. Ni ddylid awgrymu rhoi unrhyw daliad ychwaith neu ei wneud yn ddibynnol ar ganlyniad y treial. Dim ond gwariant neu golli enillion a gafwyd mewn gwirionedd o ganlyniad i wneud y cyfraniad a fydd yn gymwys i gael ad-daliad.

8.4.36 Ni ddylid talu pobl y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt fod yn dystion pan fydd achos troseddol yn debygol ac ar y gorwel am eu stori oni bai fod budd amlwg i'r cyhoedd[7], megis ymchwiliad i drosedd neu ddrwgweithred ddifrifol, a bod y taliad yn angenrheidiol er mwyn cael yr wybodaeth. Os rhoddir taliad o'r fath, bydd yn briodol datgelu'r taliad i'r amddiffyniad ac i'r erlyniad os bydd y person yn dyst mewn unrhyw dreial a geir wedyn.

8.4.37 **Os bydd unrhyw gynnig i dalu tyst neu ddarpar dyst mewn treial, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

### *Cuddio Pwy ydy Rhywun*

8.4.38 Efallai fod rhesymau cyfreithiol sy'n golygu na cheir adrodd am bwy ydy'r bobl sy'n ymwneud â threial. Os oes angen amddiffyn pwy ydy dioddefwyr a thystion trosedd, mae sicrhau na ddatgelir pwy ydy rhywun fel rheol yn golygu dim enw, dim cyfeiriad, dim ffotograff na dim cliw arall ynghylch pwy ydynt.

Dylem ofalu nad ydym yn datgelu pwy ydy pobl yn anuniongyrchol drwy'r hyn a elwir yn "effaith jig-so". Mae hyn yn digwydd pan fydd adroddiadau gwahanol, a allai fod mewn cyfryngau gwahanol, yn rhoi manylion gwahanol achos a fydd, o'u rhoi at ei gilydd, yn datgelu pwy ydy'r unigolyn dan sylw. Mae'r risg ar ei uchaf wrth adrodd am droseddau rhyw mewn teulu. Dylem ofalu nad ydym yn cyfeirio at losgach pan ellid cyfeirio at y dioddefwr. Mewn achosion o'r fath dylid disgrifio llosgach fel "trosedd rhyw difrifol".

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad 6.4.10 - 6.4.12 ac Adran 18 Y Gyfraith: 18.6 - 18.9)

### *Plant a Phobl Ifanc*

8.4.39 Rhaid i ni fod yn hynod ofalus wrth ddelio ag unrhyw un dan 18 oed sy'n dyst neu'n ddioddefwr, wrth adrodd am ymchwiliad i drosedd honedig yn y DU. Rhaid i ni benderfynu pa mor agored i niwed ydynt cyn datgelu eu henw, cyfeiriad, ysgol neu sefydliad addysgol arall, gweithle, neu unrhyw lun ohonynt, boed yn llun llonydd neu yn symud.

[7] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr)

Os bydd achos cyfreithiol yn dilyn, bydd cyfyngiadau cyfreithiol ar gyhoeddi gwybodaeth sy'n arwain at ddatgelu pwy ydy unrhyw un dan 18 oed sy'n dyst neu'n ddioddefwr. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Ceir ystyriaethau cyfreithiol gwahanol yn yr Alban. Mae cyngor ar gael gan Brif Dwrnai'r Alban.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9)

## Ymchwiliadau i Drosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

8.4.40 Mae ymchwiliadau'n ffordd bwysig o ddatgelu materion sydd o bwys mawr i'ch cyhoedd[8], ond rhaid gallu eu cyfiawnhau'n olygyddol.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol**. Gall hefyd fod angen ymgynghori â Pholisi Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

**8.4.41 Os bydd unrhyw gynnig i anfon rhywun i weithio fel cudd-weithredwr ar ymchwiliad i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.**

8.4.42 Cyn comisiynu ymchwiliad a chyn ceisio cymeradwyaeth golygyddol a chyngor cyfreithiol, mae'n arfer da ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r cyfiawnhad dros ddefnyddio unrhyw dwyll, gwaith cudd neu recordio cudd i gasglu rhagor o dystiolaeth?
- Ai dyma'r unig ffordd o fwrw ymlaen?
- Pa dystiolaeth prima facie sydd eisoes yn bodoli?
- Beth yw cefndir a chymhelliant unrhyw ffynonellau?
- A yw unrhyw un o'r ffynonellau'n gyfrinachol ac a ellir cynnal eu cyfrinachedd?
- Beth yw canlyniadau posibl ein gweithredoedd?

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd 7.1 a 7.4.9 - 7.4.16, ac Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.3 - 8.4.4)

8.4.43 **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i gyflogi rhywun y gwyddys fod ganddynt gofnod troseddol neu gefndir o weithgarwch anghyfreithlon sy'n gweithio ar un o ymchwiliadau'r BBC.** Mae hyn yn cynnwys aelodau golygyddol o'r tîm cynhyrchu a chudd-weithredwyr.

[8] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

8.4.44 **Rhaid i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol hefyd gymeradwyo ceisiadau am swydd gan gudd-weithredwyr sy'n gweithio ar ymchwiliadau'r BBC.** Fel rheol dylid rhoi cyn lleied â phosibl o wybodaeth ffug ar gais am swydd.

8.4.45 **Mae ymchwiliadau troseddol sy'n cynnwys gwylio neu recordio cudd a/neu wynebu terfysgwyr, grwpiau troseddol neu eithafol neu dreisgar neu wleidyddol difrifol yn cael eu hystyried fel 'gweithgareddau risg uchel'. Rhaid ymgynghori â Thîm Risg Uchel Diogelwch y BBC mewn da bryd i gael cyngor ar ddiogelwch.**

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.22)

8.4.46 Yn ystod yr ymchwiliad, rhaid i'r dulliau a ddefnyddir (gan gynnwys unrhyw recordio cudd, gwaith cudd neu dwyll arall) gael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn dal yn gyfiawn ac yn berthnasol.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.9 - 7.4.16)

8.4.47 Os bydd ymchwiliad yn llwyddo, gall rhan y BBC yn hynny barhau y tu hwnt i'r darllediad gwreiddiol. Efallai fod ar yr heddlu neu'r awdurdodau sy'n erlyn eisiau cyfweld ag aelodau'r tîm ymchwilio, gan gynnwys cudd-weithredwyr, ynghylch ein dulliau a'n canfyddiadau. Gellir galw aelodau'r tîm i fod yn dystion mewn erlyniad. Mae'n bwysig sicrhau bod ein diben a'n nod yn gallu gwrthsefyll craffu trwyadl.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.22 - 13.4.27)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Ymchwiliadau)

# ADRAN 9: PLANT A PHOBL IFANC FEL CYFRANWYR

**9.1 Cyflwyniad**
**9.2 Egwyddorion**
**9.3 Cyfeirio Gorfodol**
**9.4 Arferion**
**Diogelu Lles Pobl Ifanc Dan 18 oed**
**Cydsyniad Gwybodus ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**
**Effaith Cyfraniad**

## 9.1 CYFLWYNIAD

Mae plant a phobl ifanc yn bwysig iawn i'r BBC. Maent yn cyfrannu ac yn rhyngweithio â ni mewn nifer o ffyrdd gwahanol – fel cyfranwyr, actorion, cyflwynwyr, drwy ein cynnwys rhyngweithiol a'n cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, ar draws ein holl wasanaethau. Rydym hefyd yn ceisio rhoi cynnwys heriol, addysgiadol a difyr iddynt a'u helpu i wneud synnwyr o'u byd. Caiff sicrhau bod y cynnwys i blant yn briodol ei ystyried drwy gydol y Canllawiau Golygyddol ac yn enwedig yn Adran 5: Niwed a Thramgwydd. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut rydym yn delio â phlant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at ein cynnwys ac yn rhyngweithio â'n cynnwys, boed hwnnw wedi'i anelu at blant ai peidio, neu sydd fel rheol yn eu cynnwys fel cyfranwyr.

Rhaid i ni bob amser ddiogelu lles plant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at ein cynnwys, ni waeth lle yn y byd rydym yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys eu hawl i ddweud eu dweud a chymryd rhan, fel y dynodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Cod Darlledu Ofcom yn mynnu bod darlledwyr yn cymryd *"Gofal teg... dros les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu sy'n rhan o raglenni mewn ffordd arall*[1]*"* Mae'r ddyletswydd hon mewn grym yn annibynnol ar unrhyw gysyniad y gallai rhiant neu oedolyn arall sy'n gweithredu in loco parentis fod wedi'i roi. Mae'r Cod hefyd yn mynnu "*Na cheir achosi trallod na phryder dianghenraid i bobl dan ddeunaw pan fyddant yn ymwneud â rhaglenni neu oherwydd darlledu'r rhaglenni hynny.*"[2] Rydym hefyd yn rhwym wrth y gyfraith sy'n ymwneud â phlant.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9)

At ddibenion y Canllawiau Golygyddol ac oni nodir yn wahanol, mae plentyn yn golygu rhywun dan 15 oed. Pobl 15, 16 ac 17[3] oed yw pobl ifanc. Fel rheol bydd angen 'cydsyniad rhiant' cyn cynnwys unrhyw un dan 16 oed yn ein hallbwn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried pethau ar wahân i oedran.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.14 - 9.4.19)

---

[1] Rheol 1.28, Cod Darlledu Ofcom

[2] Rheol 1.29, Cod Darlledu Ofcom

[3] Mae'r diffiniadau hyn yn adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom (Adran Un: Amddiffyn y rhai dan ddeunaw oed - Ystyr "Plant") sy'n dosbarthu "Plant" fel "pobl dan bymtheg oed".

## 9.2 EGWYDDORION

9.2.1 Rhaid i ni sicrhau bod lles corfforol ac emosiynol ac urddas plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn wrth wneud a darlledu ein cynnwys, yn annibynnol ar unrhyw gydsyniad a roddwyd ganddynt neu gan riant, gwarcheidwad neu unrhyw un arall sy’n gweithredu in loco parentis. Mae eu buddiannau a’u diogelwch yn drech nag unrhyw ofynion golygyddol.

9.2.2 Rhaid i ni sicrhau na achosir unrhyw bryder neu drallod dianghenraid i blant a phobl ifanc oherwydd eu bod yn cymryd rhan yn ein hallbwn. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros eu cyfraniad, dylid cael cydsyniadau, fel sy’n briodol i amgylchiadau’r plentyn/unigolyn ifanc a natur y cyfraniad a’r allbwn, a dylid eu cefnogi pan fydd angen.

## 9.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu’r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o’r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at Bolisi Golygyddol*

9.3.1 Os oes unrhyw gynnig i ddefnyddio unrhyw ffurf ar safoni, ac eithrio safoni ymlaen llaw, mewn mannau ar-lein a ddyluniwyd i apelio at blant a phobl ifanc, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.6)

9.3.2 Os oes unrhyw gynnig i ddefnyddio unrhyw ffurf ar safoni, ac eithrio safoni ymlaen llaw, mewn mannau ar-lein sy’n cyhoeddi lluniau neu fideos gan aelodau’r cyhoedd, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.7)

9.3.3 Os oes unrhyw gynnig i ddarparu man ar-lein preifat i blant a phobl ifanc lle gall dieithriaid gwrdd a chyfnewid gwybodaeth bersonol, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Technoleg a Chyfryngau’r Dyfodol ac at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.10)

### *Cyfeirio Arall*

9.3.4 Yn ystod ein gwaith, os ydym yn amau y gallai plentyn neu unigolyn ifanc fod mewn perygl, neu os byddant yn tynnu ein sylw at fater sy’n ymwneud â lles plentyn (gan gynnwys honiadau yn erbyn staff y BBC) rhaid cyfeirio’r sefyllfa’n ddiymdroi at y rheolwr adrannol sy’n gyfrifol am y Polisi Amddiffyn Plant.

(Gweler 9.4.3)

9.3.5 Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o “baratoi” a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu ar gyfer gwasanaethau masnachol, at yr arweinydd golygyddol perthnasol) a fydd yn gyfrifol am roi gwybod i’r awdurdodau priodol.

(Gweler 9.4.5)

9.3.6 Os oes unrhyw gynnig i ddatgelu gwybodaeth bersonol plentyn neu unigolyn ifanc i drydydd parti heb gydsyniad, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â Pholisi Golygyddol a Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

(Gweler 9.4.11)

9.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fwrw ymlaen â chyfraniad plentyn neu unigolyn ifanc pan wrthodwyd rhoi ‘cydsyniad rhiant’, at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Dylid hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

(Gweler 9.4.17)

## 9.4 ARFERION

## Diogelu Lles Pobl Ifanc Dan 18 oed

***Amddiffyn Plant***

9.4.1 Dylem ddefnyddio egwyddorion Polisi Amddiffyn Plant y BBC wrth i ni ddelio â phlant a phobl ifanc dan 18 oed. Mae eu lles yn bwysicach na dim arall. Mae hyn yn golygu bod eu buddiannau a’u diogelwch yn drech nag unrhyw ofynion golygyddol.

9.4.2 Rhaid i ni ofalu nad yw’r wybodaeth rydym yn ei datgelu am blant a phobl ifanc yn eu rhoi mewn unrhyw berygl. Mae angen ystyried yn ofalus sut y cânt eu hadnabod yn ein cynnwys a bydd hynny’n amrywio yn ôl y cyd-destun. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol. Pennwyd na ddylem ddatgelu lleoliad plentyn nac unigolyn ifanc, dylid bod yn ofalus iawn nad ydym yn gwneud hynny’n anfwriadol drwy ‘effaith jig-so’, h.y. datgelu sawl darn o wybodaeth drwy eiriau neu ddelweddau y mae modd eu rhoi at ei gilydd i ganfod lle gellir dod o hyd i’r plentyn. (Cofiwch efallai y bydd angen ystyried gwybodaeth sydd eisoes ar gael i’r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau er mwyn osgoi’r ‘effaith jig-so’.)

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad 6.4.10 – 6.4.12)

9.4.3 Mae gan bob plentyn ac unigolyn ifanc, ni waeth beth yw ei oed, anabledd, rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cred grefyddol a hunaniaeth rywiol yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed neu gamdriniaeth. **Yn ystod ein gwaith, os ydym yn amau y gallai plentyn neu unigolyn ifanc fod mewn perygl, neu os bydd yn tynnu ein sylw at fater sy’n ymwneud â lles plentyn (gan gynnwys honiadau yn erbyn staff y BBC) rhaid cyfeirio’r sefyllfa’n ddiymdroi at y rheolwr adrannol sy’n gyfrifol am y Polisi Amddiffyn Plant.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc)

***Amddiffyn Ar-lein***

9.4.4 Caiff y cyfrifoldeb dros amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein ei rannu rhwng y BBC, y rhiant/gwarcheidwad a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc. Ein nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar ein technolegau sy'n newid yn deall y peryglon posibl sy'n eu hwynebu a sut mae lleihau'r rheini. Pan fydd hi'n debygol y bydd cynnwys ar-lein yn apelio at gyfran fawr o blant neu bobl ifanc, dylem gynnig dolenni i gyngor perthnasol ar bbc.co.uk, megis cyngor ar syrffio'n ddiogel. Dylai gwybodaeth am ddiogelwch fod yn amlwg, yn hwylus ac yn glir.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.5 **Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o "baratoi" a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu ar gyfer gwasanaethau masnachol, at yr arweinydd golygyddol perthnasol) a fydd yn rhoi gwybod i'r awdurdodau priodol.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.6 **Fel rheol bydd mannau a ddyluniwyd i apelio at blant a phobl ifanc yn cael eu safoni ymlaen llaw. Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio unrhyw fath arall o safoni ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd angen i hwnnw allu dangos ei fod yn amddiffyn plant ar lefel uchel a rhaid ei gyfeirio at Bolisi Golygyddol.**

9.4.7 **Fel rheol caiff mannau sy'n cyhoeddi lluniau neu fideos gan aelodau'r cyhoedd eu safoni ymlaen llaw. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio unrhyw fath arall o safoni at Bolisi Golygyddol.**

9.4.8 Ni ddylem greu dolenni sy'n arwain cynulleidfa o blant neu bobl ifanc at ystafelloedd sgwrsio nad ydynt yn cael eu safoni.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.41 ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.15 - 5.4.17)

9.4.9 Dylai safonwyr safleoedd sydd wedi'u dylunio ar gyfer plant a phobl ifanc, a safleoedd sydd wedi'u hanelu at eu denu neu sy'n debygol o'u denu, gael archwiliadau priodol gan yr heddlu (fel y mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn ei ddatgan) a dylid eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio fel sy'n briodol ar gyfer gweithio ar safleoedd o'r fath. Mae angen i bobl sy'n olygyddol gyfrifol am safonwyr a gwesteiwyr safleoedd asesu'r risg i blant a phobl ifanc ar sail:

- y cyfle am rith gyswllt rhwng safonwyr a gwesteiwyr y safle a'r plant a'r bobl ifanc
- i ba raddau y mae'r safonwyr a'r gwesteiwyr mewn safle o ymddiriedaeth ac awdurdod yng nghyswllt y defnyddwyr
- y mynediad sydd gan y safonwyr a'r gwesteiwyr i wybodaeth bersonol am ddefnyddwyr.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Safoni, Gwesteia, Uwchraddio a Rheoli Defnyddwyr)

9.4.10 **Nes bydd dull dibynadwy ar gael o adnabod pobl yn ddigidol, nid yw'n debygol y bydd mannau ar-lein preifat lle gall dieithriaid gwrdd a chyfnewid gwybodaeth bersonol yn addas i blant a phobl ifanc. Y rheswm am hyn yw oherwydd nad oes modd monitro mannau preifat i ddiogelu defnyddwyr o'r fath. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i'r gwrthwyneb at y Cyfarwyddwr Technoleg a Chyfryngau'r Dyfodol ac at Bolisi Golygyddol.**

***Gwybodaeth Bersonol***

9.4.11 Ni ddylem ofyn am fwy o wybodaeth bersonol gan blant a phobl ifanc nag sy'n angenrheidiol. Rhaid i ni gasglu, storio a gwaredu eu manylion personol yn ddiogel ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Polisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

**Os oes unrhyw gynnig i ddatgelu gwybodaeth bersonol plentyn neu unigolyn ifanc i drydydd parti heb gydsyniad, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â Pholisi Golygyddol a Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.**

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.50)

## Cydsyniad Gwybodus ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

9.4.12 Wrth gynnwys plant a phobl ifanc yn ein hallbwn rhaid i ni gael eu cydsyniad gwybodus, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, a pharchu unrhyw un sy'n gwrthod cymryd rhan (oni bai fod budd i'r cyhoedd[4] sy'n drech na'u disgwyliadau o breifatrwydd).

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1 – 6.4.8 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.1)

Yn ogystal â'r ystyriaethau arferol ar gyfer cael cydsyniad gwybodus gan y plentyn/unigolyn ifanc ac, os oes angen, unrhyw unigolyn arall sy'n rhoi cydsyniad iddynt gymryd rhan, rhaid i ni:

- sicrhau eu bod yn deall natur yr allbwn
- sicrhau yr eglurir unrhyw ganlyniadau y mae'n rhesymol eu rhagweld yn sgil cyfraniad y plentyn, megis posibilrwydd bwlio
- peidio â rhoi dim cymhelliad iddynt er mwyn sicrhau eu cydsyniad (er bod talu treuliau yn dderbyniol ar yr amod eu bod yn rhesymol ac yn ddilys).

9.4.13 Dan y gyfraith, fel rheol dylai'r Awdurdod Addysg Lleol drwyddedu perfformiadau pobl ifanc dan 16 (a rhai pobl ifanc 16 oed sydd mewn addysg amser llawn). Rhaid i riant neu warcheidwad cyfreithiol y plentyn neu warchodwr trwyddedig fod yn gofalu am blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiad drwy gydol y cyfnod hefyd.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc)

[4] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

***Cydsyniad Rhieni***

9.4.14 Mae ‘cydsyniad rhieni’ yn golygu cydsyniad gwybodus rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol, neu unrhyw un arall 18 oed neu hŷn sy’n gweithredu in loco parentis, megis Pennaeth.

Yn ogystal â chydsyniad gwybodus y plentyn neu’r unigolyn ifanc ei hun, fel rheol dylem geisio ‘cydsyniad rhiant’ cyn cyfweld ag unrhyw un dan 16 oed, neu eu cynnwys yn ein hallbwn mewn ffordd arall. Gall eithriad fod pan fyddwn yn recordio vox pops gyda phlant am faterion nad ydynt yn rhai sensitif a phan nad yw’n ddadleuol i blant arddel a mynegi barn ar hynny.

Fodd bynnag, po ieuengaf ac agored i niwed yw’r plentyn, a pho fwyaf sensitif yw’r testun, y mwyaf tebygol ydyw y bydd ‘cydsyniad rhiant’ yn hanfodol. Fel rheol dylid cael ‘cydsyniad rhiant’ os gofynnir i’r plentyn am sylwadau ar faterion sy’n debygol o fod y tu hwnt i’w gallu i’w hateb yn iawn.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1 - 6.4.8)

9.4.15 Wrth benderfynu a all plentyn roi cydsyniad, dylid ystyried cam eu datblygiad a graddfa eu dealltwriaeth yn ogystal â’u hoedran. Os bydd unigolyn ifanc yn 16 neu’n 17 efallai ei fod yn dal yn briodol gofyn am ‘gydsyniad rhiant’ mewn rhai achosion, yn ôl amgylchiadau’r unigolyn ifanc a natur y rhaglen a’r cyfraniad, er enghraifft pan fydd y cynnwys yn arbennig o sensitif neu pan ellir ystyried bod y cyfrannwr yn agored i niwed. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

9.4.16 Pan fydd eisiau ‘cydsyniad rhiant’ a phan fydd rhieni wedi gwahanu neu ysgaru, fel rheol byddwn yn cael cydsyniad y rhiant y rhoddwyd gorchymyn preswylio iddo neu iddi, yn amodol ar amgylchiadau penodol yr achos. Dylem ystyried graddfa ymwneud y rhiant arall â’r plentyn neu’r unigolyn ifanc a, phan nad ydym yn ceisio eu cydsyniad, dylem wrando ar unrhyw wrthwynebiadau rhesymol sydd ganddynt. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

9.4.17 **Os oes unrhyw gynnig i fwrw ymlaen â chyfraniad plentyn neu unigolyn ifanc pan wrthodwyd rhoi ‘cydsyniad rhiant’, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.** Dylid hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol. Fel rheol yr unig adeg y bydd cyfiawnhad golygyddol dros fwrw ymlaen heb ‘gydsyniad rhiant’ yw ar sail budd amlwg i’r cyhoedd[5] neu ryddid y plentyn neu’r unigolyn ifanc i fynegi ei hun gan gynnwys ei hawl i ddweud ei ddweud.

9.4.18 Pan fyddwn yn gofyn i blant am wybodaeth bersonol ar-lein, mae arnom angen ystyried safon y prawf ‘cydsyniad rhiant’ sy’n briodol, gan ystyried sensitifrwydd y pwnc ac oed y plentyn. Dyma rai o’r dewisiadau:

- atgoffa’r plentyn i ofyn am ‘gydsyniad rhiant’
- defnyddio blwch ticio mae modd ei glicio i gadarnhau bod ‘cydsyniad rhiant’ wedi’i gael cyn caniatáu i’r plentyn fwrw ymlaen

[5] Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.1 Budd y Cyhoedd

- mynnu cael ‘cydsyniad rhiant’ mae modd ei ddilysu, megis llythyr wedi’i lofnodi.

Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol ynghylch safon y prawf priodol i’w ddefnyddio.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

9.4.19 Pan fyddwn yn gwahodd plant i ryngweithio â ni drwy ddefnyddio technoleg sy’n costio arian, megis y ffôn neu negeseuon testun, rhaid i ni egluro ar yr awyr neu ar-lein ei bod yn rhaid iddynt gael cydsyniad rhiant neu’r sawl sy’n talu’r bil cyn cysylltu â ni.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.11 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.50)

## Effaith Cyfraniad

9.4.20 Hyd yn oed ar ôl cael ‘cydsyniad rhiant’, rhaid i ni ystyried yn ofalus effaith a chanlyniadau posibl unrhyw ddeunydd sy’n cynnwys plentyn, yn ystod y broses cynhyrchu ac ar ôl i’r deunydd gael ei ddarlledu. Mae hyn yn berthnasol pan fyddwn ni wedi gofyn i’r plentyn gyfrannu a phan fydd y plentyn wedi dod atom ni, gan gynnwys cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.

Bydd plant yn aml yn awyddus i gyfrannu at ein hallbwn ond nid yw nifer ohonynt yn gallu asesu’r effaith tymor hwy y gallai ei gael ar eu bywydau. Wrth gynnwys gweithgarwch gwrthgymdeithasol, niweidiol neu anghyfreithlon ymysg plant, megis defnyddio cyffuriau yn anghyfreithlon, cam-drin, anhwylderau bwyta a bwlio, dylem ystyried ymgynghori ag arbenigwyr ynghylch y ffordd orau o gynnal cyfweliadau a lleihau trallod.

Fel rheol byddwn yn ceisio gweithio gyda phlant ym mhresenoldeb y rheini sy’n gyfrifol am eu goruchwylio, er y gall amgylchiadau amrywio. Serch hynny, pan fydd materion sensitif yn cael eu trafod â phlentyn neu unigolyn ifanc, mae’n aml yn ddoeth cael rhywun wrth law sy’n gyfarwydd iddynt ac sy’n gallu helpu i ddiogelu eu buddiannau, megis perthynas, ffrind i’r teulu neu athro.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc)

9.4.21 Dylem sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais ond rhaid i ni hefyd fod yn effro i’r adegau pan fydd plant yn gorliwio, yn ceisio plesio neu’n ceisio cyfleu sïon neu achlust fel ffeithiau. Rhaid herio ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.15 - 8.4.21)

9.4.22 Wrth ystyried a ddylid datgelu pwy ydy plant a phobl ifanc sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, dylem ystyried eu buddiannau. Dylid ystyried oed y plentyn neu’r unigolyn ifanc, natur neu ddifrifoldeb yr ymddygiad a chanlyniadau posibl datgelu pwy ydynt. Fel rheol ni ddylem ddatgelu pwy ydy plentyn wrth drafod ymddygiad o’r fath i ddangos arfer, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol clir dros wneud hynny. Ceisiwch gyngor gan uwch swyddog golygyddol bob tro os nad ydych yn siŵr sut dylid bwrw ymlaen, neu’r golygydd sy’n comisiynu yn achos cwmnïau annibynnol.

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.32 ac Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.2)

Efallai fod rhesymau cyfreithiol hefyd dros beidio â datgelu pwy yw plentyn neu unigolyn ifanc. Os nad ydych yn siŵr holwch Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni. Mae cyngor ar gael gan Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni ynghylch datgelu pwy yw plentyn neu unigolyn ifanc sydd â Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) neu sy'n ymwneud ag achos llys.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9)

9.4.23 Dim ond os na chaiff lles y plentyn ei niweidio a bod modd cyfiawnhau hynny'n olygyddol y dylid penderfynu cynnwys, dangos neu ddatgelu pwy yw plentyn y mae ei rieni yn ymwneud â gweithgarwch gwrthgymdeithasol neu droseddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan allai plant fod mewn perygl oherwydd, er enghraifft, eu bod yn byw gyda rhiant sy'n alcoholig, neu eu bod yn cael eu gorfodi i weithio drwy gario cyffuriau anghyfreithlon.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.31)

# ADRAN 10: GWLEIDYDDIAETH, POLISI CYHOEDDUS A PHOLAU

**10.1 Cyflwyniad**
**10.2 Egwyddorion**
**10.3 Cyfeirio Gorfodol**
**10.4 Arferion**
**Adrodd am Bleidiau Gwleidyddol y DU**
**Cyfweliadau a Chyfraniadau Gwleidyddol**
**Darlledu Seneddol**
**Darllediadau Gwleidyddol**
**Etholiadau**
**Polau Piniwn, Arolygon a Phleidleisiau**

## 10.1 CYFLWYNIAD

Mae'r egwyddorion sy'n berthnasol i'n hamhleidioldeb gwleidyddol wedi'u gosod allan yn y Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC[1] ac maent yn ganolog i'r sylw a roddwn i wleidyddiaeth a pholisïau cyhoeddus. Dros gyfnod amser priodol, rhaid i ni geisio rhoi sylw ac amlygrwydd teg i holl brif elfennau dadl ac i'r holl brif bleidiau. Er mai llywodraeth y dydd fydd y brif ffynhonnell newyddion yn aml, dylid rhoi sylw i leisiau a safbwyntiau'r pleidiau eraill yn rheolaidd hefyd a'u herio. Dylid darllen y Canllawiau yn yr adran hon ar y cyd ag Adran 4 Amhleidioldeb.

Mae polau piniwn, arolygon, holiaduron, pleidleisiau dros y ffôn ac ar-lein yn ffyrdd defnyddiol a buddiol o wrando ar ein cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, pan fyddwn yn adrodd amdanynt, rhaid i'r gynulleidfa allu ymddiried bod yr ymchwil honno – a'n hadroddiadau amdani – yn gadarn. Er mwyn osgoi camarwain y gynulleidfa, dylem fod yn drwyadl drwy ddefnyddio iaith fanwl gywir ac wrth graffu ar y fethodoleg.

Rhaid i ni hefyd osgoi comisiynu ein hymchwil ein hunain a allai awgrymu safbwynt y BBC ar bolisi neu fater penodol.

Bwriedir i'r adran hon o'r Canllawiau helpu'r rheini sy'n gwneud allbwn ar gyfer y BBC ac sy'n dymuno cynnwys polau, arolygon a holiaduron yn eu cynnwys, i wneud hynny'n briodol, gan ddiwallu gofynion amhleidioldeb a chywirdeb teg.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb ac Adran 4 Amhleidioldeb)

## 10.2 EGWYDDORION

10.2.1 Rhaid i ni drin materion sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth a pholisïau cyhoeddus â chywirdeb teg ac amhleidioldeb yn ein newyddion a'n hallbwn arall.

10.2.2 Rhaid i ni beidio â mynegi barn ar faterion cyfoes na materion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus ac eithrio darlledu neu ddarparu gwasanaethau ar-lein.

[1] Paragraff 44 (1) Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

10.2.3 Rhaid i ni beidio ag ymgyrchu, na chaniatáu i ni'n hunain gael ein defnyddio i ymgyrchu.

10.2.4 Rhaid i bolau piniwn a gomisiynir gan y BBC neu gan y rheini sy'n gwneud cynnwys i'r BBC, drwy weithredu'n annibynnol neu ar y cyd â sefydliadau eraill, beidio â thanseilio amhleidioldeb teg ar y materion dan sylw.

10.2.5 Rhaid i ni adrodd am bolau piniwn, arolygon, pleidleisiau ac ymchwil debyg gyda chywirdeb teg, ni waeth a gynhaliwyd yr ymchwil gan y BBC neu gan eraill.

## 10.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

***Cyfeirio at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol***

10.3.1 Os oes unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i fod yn westai, ar raglen neu ran o gynnwys, pan na wneir hynny'n rheolaidd, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler 10.4.5)

10.3.2 Ac eithrio ar gyfer cyfweliadau newyddion cryno a gesglir ar y diwrnod heb drefnu hynny ymlaen llaw, rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfweld neu i wneud proffil o unrhyw un o arweinwyr prif bleidiau'r DU at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol ymlaen llaw. Yn yr un modd, rhaid cyfeirio unrhyw gynigion am gyfweliadau gan y pleidiau cyn gellir eu derbyn.

(Gweler 10.4.6)

10.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gais am ddarllediad gweinidogol neu ymateb i ddarllediad gweinidogol at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol yn ddiymdroi.

(Gweler 10.4.15)

10.3.4 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn sy'n honni ei fod yn samplo cefnogaeth wleidyddol plaid neu fwriad pleidleisio at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol ymlaen llaw.

(Gweler 10.4.25)

10.3.5 Os oes unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn ar faterion sy'n ymwneud â pholisïau cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar unrhyw 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler 10.4.29)

10.3.6 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gomisiynu pôl ar y rhyngrwyd ar unrhyw bwnc at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

(Gweler 10.4.30)

10.3.7 Os oes unrhyw gynnig i gomisiynu arolwg gan y BBC ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar unrhyw 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall, rhaid cyfeirio hynny at y Pennaeth Ymchwil Wleidyddol a'r Prif Gynghorydd Gwleidyddol, a bydd yn rhaid iddynt roi cymeradwyaeth os yw'r arolwg yn cynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban, Aelodau Cynulliad, Aelodau Cynulliad Deddfwriaethol ac Aelodau o Senedd Ewrop.

(Gweler 10.4.37)

10.3.8 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal pleidlais ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar unrhyw 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol. Yn achos gwefan mewn iaith ac eithrio'r Saesneg, dylid ei chyfeirio at y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Phennaeth Rhanbarth perthnasol y World Service neu'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

(Gweler 10.4.45)

***Cyfeirio Arall***

10.3.9 Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig cynnal pleidlais dros y ffôn, drwy negeseuon testun neu ar-lein gyfeirio hynny at yr Uned Contractau a Chyngor Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a chwblhau'r broses cymeradwyo briodol.

(Gweler 10.4.46)

## 10.4 ARFERION

### Adrodd am Bleidiau Gwleidyddol y DU

10.4.1 Mae gan y DU ddiwylliannau gwleidyddol amrywiol yn y Gwledydd gwahanol ac nid cynrychiolaeth yn San Steffan yw'r unig sail dros asesu nerth gwleidyddol cymharol mewn strwythur datganoledig. Mae cyflawni amhleidioldeb gwleidyddol teg, yn enwedig ar gyfer allbwn rhwydwaith, yn golygu rhoi sylw priodol i holl brif bleidiau gwleidyddol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rheini sy'n sefyll mewn etholiadau ar draws y DU i gyd.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.3)

10.4.2 Dylid cymryd gofal penodol wrth ddefnyddio iaith yn y cyd-destun hwn, er enghraifft osgoi ymadroddion megis *"y ddwy brif blaid"*. Fel rheol mae'n well defnyddio labeli plaid penodol yn hytrach na disgrifiadau cyffredinol o'r "wrthblaid", ac eithrio gydag ymadroddion megis *"yr wrthblaid swyddogol"* neu *"Arweinydd yr Wrthblaid"* sydd ag ystyr ffurfiol a phenodol yn San Steffan. Caiff y disgrifiadau *"Gweinidog yr Wrthblaid"* a *"Chabinet yr Wrthblaid"* eu cadw'n benodol ar gyfer y brif wrthblaid yn San Steffan.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Adrodd am y DU)

### Cyfweliadau a Chyfraniadau Gwleidyddol

10.4.3 Wrth wneud ceisiadau am gyfweliadau gwleidyddol dylem fod yn glir ynghylch natur y rhaglen a'r cyd-destun a fwriedir. Rhaid i'n trefniadau allu gwrthsefyll craffu

cyhoeddus a rhaid peidio ag atal rhaglen rhag gofyn cwestiynau y byddai'n rhesymol i'n cynulleidfaoedd ddisgwyl eu clywed.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1 - 6.4.4)

10.4.4 Wrth wahodd gwleidyddion i gyfrannu at allbwn nad yw'n wleidyddol, rhaid i ni ofalu a yw hyn ar sail eu harbenigedd y tu allan i wleidyddiaeth neu oherwydd eu bod yn enwog. Rhaid i ni beidio â rhoi amlygrwydd o'r fath iddynt er mwyn rhoi mantais annheg dros eu gwrthwynebwyr. Pan fo'u teyrngarwch gwleidyddol yn berthnasol i'w cyfraniad, dylai hynny fod yn glir i'r gynulleidfa.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.11 - 3.4.12 ac Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.25 – 4.4.28 ac Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.16 - 10.4.18)

10.4.5 **Os oes unrhyw gynnig i wahodd gwleidydd i fod yn westai, ar raglen neu ran o gynnwys, pan na wneir hynny'n rheolaidd, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.**

***Cyfweliadau ag Arweinwyr Pleidiau neu Broffiliau Ohonynt***

10.4.6 **Ac eithrio ar gyfer cyfweliadau newyddion cryno a gesglir ar y diwrnod heb drefnu hynny ymlaen llaw, rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfweld neu i wneud proffil o unrhyw un o arweinwyr prif bleidiau'r DU at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol ymlaen llaw. Yn yr un modd, rhaid cyfeirio unrhyw gynigion am gyfweliadau gan y pleidiau cyn gellir eu derbyn.** Ar gyfer BBC Cymru, BBC Scotland neu BBC Northern Ireland, dylid hefyd cyfeirio ymlaen llaw at y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes yn y wlad berthnasol.

Dylid hefyd rhoi gwybod i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddol (a, phan fydd yn briodol, y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes perthnasol) a gaiff y gwahoddiadau eu gwrthod ynteu eu derbyn er mwyn sicrhau:

- bod y BBC drwyddo draw yn gadarn ac yn gyson o ran y ffordd mae'n delio ag arweinwyr pleidiau
- bod ceisiadau'n cael eu rhesymoli yn y BBC yn ystod pob cyfnod o alw uchel am un neu fwy o arweinwyr pleidiau
- bod sylw teg yn cael ei roi i ymddangosiadau pob arweinydd plaid dros amser.

***Talu ASau***

10.4.7 Fel rheol ni ddylem dalu ASau, nac aelodau eraill sy'n amlwg yn cynrychioli pleidiau gwleidyddol am ymddangos neu gyfrannu at unrhyw allbwn gan y BBC lle maent yn siarad fel aelod o'u plaid neu'n mynegi safbwyntiau gwleidyddol. Pan fydd yn briodol, gellir talu ffi tarfu gyfyngedig a realistig a/neu ad-daliad am unrhyw dreuliau go iawn.

10.4.8 Gellir eu talu am gyfrannu at allbwn nad yw'n wleidyddol, pan fyddant yn ymddangos ar sail eu harbenigedd y tu allan i wleidyddiaeth neu oherwydd eu bod yn

enwog, ac nad ydynt yn cymryd rhan fal aelod o'u plaid nac yn mynegi safbwyntiau gwleidyddol.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.4)

Fel rheol ni ddylid talu gwleidyddion gweithredol am ymddangos ar allbwn Newyddion y BBC nac am gyfrannu ato. Gall cyfuniad o ffactorau, er enghraifft math y rhaglen neu gynnwys arall, natur y cyfraniad, gweithgaredd gwleidyddol y cyfrannwr neu ym mha swyddogaeth y maent yn ymddangos ddylanwadau ar i ba raddau yr ystyrir cyfrannwr fel gwleidydd gweithredol. Dylid ceisio cyngor pellach gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.

## Darlledu Seneddol

### *Darlledu o'r Senedd yn San Steffan*

10.4.9 Rhaid i ni lynu wrth y rheolau darlledu a roddir gan y Senedd ar gyfer darlledu'r trafodion yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan gynnwys pwyllgorau yn y naill dy a'r llall. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dim golygu areithiau yn fewnol. Wrth ddefnyddio dwy adran o araith, rhaid rhoi saib amlwg i ddangos nad yw'r ddwy adran yn dilyn ei gilydd yn ddi-dor

- dim addasu'r lluniau na'r sain.

10.4.10 Dim ond mewn cynnwys newyddion a ffeithiol neu at ddibenion addysgol y cawn ddefnyddio deunyddiau seneddol.

Rhaid i ni beidio â defnyddio dim deunyddiau seneddol mewn adloniant ysgafn, cynnwys ffuglen neu ddrama na dychan gwleidyddol.

Dylid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddol cyn defnyddio unrhyw ddeunydd gwleidyddol mewn unrhyw gynnwys genre cymysg, megis ail-greu neu ddyfais ddramatig arall mewn rhaglen ffeithiol.

### *Darlledu Seneddau a Chynulliadau eraill*

10.4.11 Rhaid i ni lynu wrth y rheolau darlledu ar gyfer darlledu trafodion Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Ewrop.

Nid oes dim cyfyngiadau ar ddarlledu o Gynulliad Llundain.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Darlledu Seneddol)

## Darllediadau Gwleidyddol

### *Darllediadau Gwleidyddol, Etholiadol a Refferendwm*

10.4.12 Dan y Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC rhaid i ni ddarparu amser ar gyfer darllediadau ymgyrchoedd pleidiau a refferenda[2]. Mae darllediadau pleidiau yn annibynnol ar ein newyddiaduraeth ein hunain ac nid yw eu darlledu yn awgrymu bod y BBC yn cefnogi eu safbwyntiau. Tybir bod dyrannu cyfres o ddarllediadau i bleidiau gwahanol yn cyflawni'r gofyniad i sicrhau amhleidioldeb teg.

10.4.13 Y pleidiau sy'n berchen ar yr hawlfraint dros y darllediadau ond ceir defnyddio rhannau ohonynt heb ganiatâd y pleidiau gwleidyddol.

10.4.14 Y pleidiau sydd i dalu am y darllediadau a'r pleidiau sy'n gyfrifol am eu cynnwys. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio at ddibenion darlledu a'u bod yn dilyn y rheolau a bennwyd gan y BBC ac Ofcom. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i ddilyn y gyfraith (er enghraifft ar enllib, hawlfraint ac ysgogi casineb hiliol a thrais) a Chanllawiau Golygyddol y BBC ar niwed a thramgwydd. Mae canllawiau ar gyfer y darllediadau ar gael ar wefan Grŵp Cyswllt y Darlledwyr.

### *Darllediadau Gweinidogol*

10.4.15 Mewn amgylchiadau eithriadol, megis penderfyniad i fynd i ryfel, efallai y bydd yn rhaid i'r BBC ddarparu amser ar gyfer darllediad gan y Prif Weinidog neu uwch weinidog perthnasol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae hefyd angen ystyried ceisiadau gan arweinwyr y prif wrthbleidiau i ymateb. Fel darlledwr, y BBC sydd â'r gair olaf ynghylch pa mor dderbyniol yw'r darllediad o ran ei gydymffurfiad â safonau cyfreithiol a safonau priodol eraill.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gais am ddarllediad gweinidogol neu ymateb i ddarllediad gweinidogol yn ddiymdroi at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.**

## Etholiadau

### *Darlledu yn ystod Etholiadau*

10.4.16 Mae ymrwymiad y BBC i amhleidioldeb a thegwch yn destun craffu dwys wrth adrodd am ymgyrchoedd etholiadol. Mae'n debygol y bydd pleidiau gwleidyddol yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau golygyddol.

Dylai gwneuthurwyr rhaglenni a chynhyrchwyr cynnwys arall ystyried pob cwyn o ddifrif a chofio y gellir ystyried bod unrhyw beth a ddywedant yn "bolisi BBC". Dylid egluro wrth y rheini sy'n cwyno ei bod yn rhaid delio â chwynion cyffredinol neu honiadau o ddangos tuedd ar lefel uwch bob amser, ac wedyn dylid cyfeirio'r gŵyn yn unol â hynny.

10.4.17 Dylem wneud a gallu amddiffyn ein penderfyniadau golygyddol ar y sail eu bod yn rhesymol a'u bod wedi cael eu gwneud yn ofalus gydag amhleidioldeb teg. I gyflawni hyn rhaid i ni sicrhau:

---

[2] Paragraff 48, Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Gorffennaf 2006

- bod penderfyniadau yng nghyswllt newyddion yn parhau i fod yn sail i benderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni newyddion
- bod penderfyniadau yng nghyswllt newyddion adeg etholiad yn cael eu gwneud o fewn fframwaith dadl ddemocrataidd sy'n sicrhau y rhoddir sylw teg i wrando sylwadau ac archwilio a herio polisïau pob plaid. Dylai pleidiau llai hefyd gael rhywfaint o sylw ar y rhwydwaith yn ystod yr ymgyrch
- wrth gynhyrchu allbwn ar gyfer y DU i gyd, rydym yn ymwybodol o'r strwythurau gwleidyddol gwahanol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn y sylw a roddir i'r etholiad ym mhob gwlad.

10.4.18 Bydd y ffordd y caiff amhleidioldeb teg ei gyflawni rhwng pleidiau yn amrywio, yn ôl y fformat, yr allbwn a'r llwyfan. Gellir gwneud hynny mewn un eitem, mewn un rhaglen, mewn cyfres o raglenni neu eitemau, neu dros yr ymgyrch yn ei chyfanrwydd. Ond rhaid i wneuthurwyr rhaglenni a chynhyrchwyr cynnwys ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni amhleidioldeb teg yn eu hallbwn eu hunain a pheidio â dibynnu ar gynnwys na gwasanaethau eraill y BBC i gywiro unrhyw anghydbwysedd ar eu rhan.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.25 - 4.4.28)

***Adrodd am Ymgyrchoedd Etholiadau a Refferenda yn y DU***

10.4.19 Mae'r gyfraith yn mynnu bod y BBC yn mabwysiadu cod ymarfer ym mhob etholiad i lywodraethu cyfranogiad ymgeiswyr ym mhob etholaeth neu ardal etholiadol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC *"ystyried unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y Comisiwn Etholiadol".*

Bydd canllawiau ar roi sylw i etholiadau ac i refferenda ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, gan gynnwys byrddau negeseuon, yn cael eu llunio gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddol, bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn cytuno arnynt a chânt eu cyhoeddi cyn pob ymgyrch.

10.4.20 Ar ddiwrnod yr etholiad bydd y BBC, ynghyd â phob darlledwr arall, yn rhoi'r gorau i adrodd am ymgyrchoedd rhwng 06.00 a nes i'r canolfannau pleidleisio gau. Bydd y sylw y ceir ei roi wedi'i gyfyngu i gyfrifon ffeithiol annadleuol, megis ymddangosiad gwleidyddion mewn gorsafoedd pleidleisio neu'r tywydd. Ar ddiwrnod yr etholiad rhaid peidio â rhoi sylw i faterion sydd wedi bod yn destun dadl neu'n rhan o'r ymgyrch, neu faterion dadleuol eraill sy'n ymwneud â'r etholiad, er mwyn sicrhau na ellir ystyried bod dim byd yn allbwn y BBC a fyddai'n gallu dylanwadu ar y bleidlais pan fydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor.

***Adrodd am Etholiadau Tramor***

10.4.21 Dylai'r egwyddorion o degwch ac amhleidioldeb teg sy'n sail i'r sylw a roddwn i etholiadau yn y DU hefyd fod yn sail i'n hadroddiadau am etholiadau mewn gwledydd eraill. Pan fyddwn yn adrodd am etholiadau tramor, efallai y bydd arnom angen ystyried amgylchiadau cynnal yr etholiad penodol, yn enwedig pan godir cwestiynau difrifol ynghylch pa mor agored a theg yw'r broses etholiadol.

Gall materion ychwanegol godi pan fydd cynnwys y BBC wedi'i anelu at gynulleidfa yn y wlad lle cynhelir etholiad. Mae gennym gyfrifoldeb arbennig i gynulleidfaoedd sydd ar fin pleidleisio. Efallai y bydd arnom angen ystyried amser ailddarlledu ar wasanaethau rhyngwladol raglenni a wnaed yn wreiddiol ar gyfer y gynulleidfa yn y DU. Po agosaf yw dyddiad yr etholiad, y mwyaf o ofal y mae ei angen. Os ystyrir y gallai rhaglen gael dylanwad gormodol ac annheg ar yr etholiad, dylem ohirio ei darlledu tan ar ôl yr etholiad.

***Materion Cyfreithiol ac Etholiadau Tramor***

10.4.22 Nid yw cyfraith etholiadol y DU yn berthnasol i etholiadau'r tu allan i'r DU, ond efallai fod gan wledydd eraill gyfreithiau penodol sy'n berthnasol i ddarlledu yn ystod eu hetholiadau. Pan fydd cynnwys y BBC yn cael ei ddarlledu'n benodol i'r wlad honno, efallai y bydd yn rhaid ystyried materion cyfreithiol.

Mewn rhai gwledydd, efallai y bydd gofynion etholiadol cyfreithiol yn gwrthdaro ag egwyddorion golygyddol sylfaenol y BBC, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â thegwch ac amhleidioldeb. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cadw'r egwyddorion golygyddol yn ei allbwn hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod y darlledwr lleol yn gwrthod darlledu cynnwys neu wasanaeth y BBC. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r BBC World Service, BBC World a BBC Ar-lein, sydd i gyd yn cyrraedd cynulleidfaoedd tramor.

## Polau Piniwn, Arolygon a Phleidleisiau

10.4.23 Pan fyddwn yn adrodd am ganlyniadau unrhyw ymchwil, yn enwedig pan fydd gwybodaeth yn cael ei chrynhoi, rhaid i'r gynulleidfa allu ymddiried bod y newyddiaduraeth sydd y tu ôl i'r hyn maent yn ei weld a'i glywed yn gadarn, bod yr ymchwil yn ddibynadwy ac yn ystyrlon a bod yr iaith a ddefnyddir yn gyson ac yn onest. Mae'r cywirdeb, yr eglurder a'r hygrededd hyn yr un mor bwysig pan fyddwn yn adrodd am "bolau" ac "arolygon" ag ydyw yng ngweddill ein newyddiaduraeth.

Pan fyddwn yn comisiynu "polau" neu "arolygon" ein hunain ac yn rhoi awdurdod y BBC iddynt, rhaid i ni gymryd hyd yn oed mwy o ofal i sicrhau ein bod wedi llunio barn dda am eu pwysigrwydd cymharol a bod y gynulleidfa'n gallu ymddiried yn yr hyn rydym yn ei ddweud.

***Comisiynu Polau Piniwn***

10.4.24 Pan fyddwn yn comisiynu polau piniwn ein hunain ac yn dosbarthu ymchwil o'r fath yn enw'r BBC, rhaid i'r fethodoleg a'r data, yn ogystal â chywirdeb yr iaith, allu gwrthsefyll y craffu cyhoeddus mwyaf trwyadl.

10.4.25 Rhaid i ni ofalu ein bod yn sicrhau na chaiff pôl y byddwn yn ei gomisiynu ei ddefnyddio i awgrymu safbwynt y BBC ar bolisi neu fater penodol. Mae'n arbennig o bwysig na chaiff un o bolau'r BBC ei ddefnyddio i awgrymu ymyriad y BBC mewn dadl gyfredol.

Pur anaml y bydd y BBC yn comisiynu polau ar fwriad pleidleisio neu arwyddion eraill o gefnogaeth bleidiol. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn sy'n**

**honni ei fod yn samplo cefnogaeth wleidyddol plaid neu fwriad pleidleisio, at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol ymlaen llaw.**

10.4.26 Fel rheol dylem osgoi cynnal polau ar y cyd â sefydliadau eraill gan eu bod yn aml yn arwain at broblemau penodol sy'n ymwneud ag amhleidioldeb wrth eu cyflwyno.

10.4.27 Dylem fod yn ofalus iawn wrth gomisiynu polau piniwn sy'n holi am safbwyntiau plant a phobl ifanc. Dylid ceisio cyngor gan y Prif Gynghorydd Gwleidyddol bob tro.

10.4.28 Ceir risg benodol i'r canfyddiad o'n hamhleidioldeb os caiff pôl ei gomisiynu a'i gynnal gan y BBC ond na chaiff ei ddefnyddio, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar 'bwnc dadleuol'[3] mewn unrhyw faes arall. Gall arwain at honiadau bod y canlyniadau wedi methu cyfateb i ganfyddiad a oedd gan y BBC neu naratif a fwriadwyd. Dylid ymgynghori â Phrif Gynghorydd Gwleidyddol cyn gwneud penderfyniad o'r fath.

10.4.29 **Os oes unrhyw gynnig i gomisiynu pôl piniwn ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar unrhyw 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.** Mae cyngor technegol, er enghraifft, ar ddylunio'r cwestiynau, ar gael gan yr Uned Ymchwil Wleidyddol.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau ar Antur)

### *Dulliau Cynnal Polau*

10.4.30 At ei gilydd caiff y polau eu cynnal wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Bydd rhai cwmnïau yn cynnal polau dros y rhyngwyd. **Gan fod rhywfaint o ddadl ynghylch dibynadwyedd cynnal polau dros y rhyngrwyd, rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gomisiynu pôl dros y rhyngrwyd at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol.**

### *Adrodd am Bolau Piniwn*

10.4.31 Wrth adrodd am ganfyddiadau polau piniwn (yn enwedig polau ynghylch bwriad pleidleisio yn y Deyrnas Unedig), boed y rheini wedi cael eu comisiynu gan y BBC neu eraill:

- Ni ddylem arwain rhaglen neu fwletin newyddion gyda chanlyniadau pôl piniwn
- Ni ddylai canlyniadau pôl piniwn fod yn bennawd oni bai fod y canlyniadau wedi arwain at stori sy'n haeddu pennawd a bod cyfeirio at ganfyddiadau'r pôl yn angenrheidiol er mwyn gwneud synnwyr ohono
- Fel rheol dylem adrodd am ganfyddiadau polau piniwn yng nghyd-destun y tuedd a rhaid gwneud hynny bob tro wrth adrodd am bolau bwriad pleidleisio. Gall y tuedd gynnwys canlyniadau pob prif bôl dros gyfnod neu gallai fod wedi'i gyfyngu i'r newid yng nghanfyddiadau un poliwr. Dylid bod yn ofalus

iawn wrth drin canlyniadau pôl sy’n mynd yn groes i’r patrymau heb eglurhad argyhoeddiadol

- Ni ddylem ddefnyddio iaith sy’n rhoi mwy o hygrededd i’r polau na’r hyn maent yn ei haeddu. Er enghraifft, gallwn ddweud bod polau yn *“awgrymu”*, ond byth yn *“profi”* nac yn *“dangos”*

- Fel rheol ni ddylem ddibynnu ar y dadansoddiad a roddir i ganlyniadau pôl gan y sefydliad neu’r cyhoeddiad a’i cynhaliodd neu a’i comisiynodd

- Dylem adrodd am y sefydliad a gynhaliodd y pôl a’r sefydliad neu’r cyhoeddiad a’i comisiynodd, yn ogystal â’r cwestiynau, y canlyniadau a maint y sampl. Dylai’r wybodaeth hon gael ei dangos mewn graffeg ar y teledu ac ar-lein bob tro

- Fel rheol dylem adrodd am ddyddiadau’r gwaith maes, a’u cynnwys mewn graffeg ar y teledu ac ar-lein, a thynnu sylw at ddigwyddiadau a allai fod wedi dylanwadu’n sylweddol ar farn y cyhoedd ers ei gynnal

- Fel rheol dylem ddatgan a gynhaliwyd y pôl wyneb yn wyneb, dros y ffôn ynteu dros y rhyngrwyd

- Dylem adrodd am y cyfwng gwallau disgwyliedig mewn polau bwriad pleidleisio os yw’r bwlch rhwng y cystadleuwyr yn y cyfwng. Dylai graffeg ar y teledu ac ar-lein bob amser ddangos y cyfwng gwallau.

10.4.32 Os oes gennym unrhyw amheuon ynghylch y fethodoleg neu bona fide y rheini sy’n cynnal y pôl, er enghraifft cwmnïau newydd neu dramor, dylem naill ai adlewyrchu’r amheuaeth honno’n briodol yn y ffordd rydym yn adrodd am y canlyniadau, neu dylem ystyried a yw’r data’n ddigon credadwy i’w gynnwys yn allbwn y BBC. Os nad ydych yn siŵr, mae cyngor ar gael gan y Pennaeth Ymchwil Wleidyddol.

10.4.33 Hyd yn oed pan fydd pôl piniwn wedi cael ei gomisiynu mewn ffordd briodol, dylem ochel rhag defnyddio elfennau o’r ymchwil yn amhriodol, er enghraifft drwy lunio casgliadau o isadrannau o’r ymatebwyr sy’n rhy fach.

10.4.34 Dylem bob amser gofio y gall hyd yn oed bolau piniwn sydd wedi’u cynnal yn iawn gan gwmnïau cymeradwy fod yn anghywir. Pan fyddwn yn adrodd am ganlyniad pôl, ni waeth pa mor argyhoeddiadol y mae’n ymddangos na beth yw agwedd gweddill y cyfryngau, dylem bob amser ofyn faint o weddill ein stori, a'i amlygrwydd, sy'n dibynnu ar gywirdeb y pôl. Dylem hefyd gofio a fyddai lefel yr amheuaeth a ddefnyddir yn yr iaith a chyfeiriad ein hadroddiadau'n teimlo'n ddigon annibynnol ar yr ymchwil petai ei chywirdeb yn cael ei gwestiynu wedyn.

Pan fydd canlyniadau pôl piniwn yn ymddangos yn wahanol i ddisgwyliadau, neu os ydynt yn awgrymu rhywbeth newydd neu wahanol, dylem fod yn arbennig o ofalus i sicrhau nad yw’n cael gormod o sylw oherwydd diffyg tuedd y gellir dibynnu arno.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau ar Antur)

***Polau Piniwn Adeg Etholiad***

10.4.35 Cyn dechrau pob ymgyrch etholiadol bydd y Prif Gynghorydd Gwleidyddol yn cyhoeddi Canllawiau Etholiad ar gyfer yr ymgyrch a bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn cytuno arnynt, a byddant yn cynnwys canllawiau penodol ar drin polau piniwn yn ystod cyfnod etholiadol.

Ni cheir darlledu pôl piniwn ar ddiwrnod yr etholiad nes i'r pleidleisio ddod i ben neu, yn achos etholiad Ewropeaidd, nes i'r holl bleidleisio ddod i ben ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

***Arolygon***

10.4.36 Yn wahanol i bôl piniwn, fel rheol mae arolwg yn rhoi sylw i grŵp sy'n llai ac yn fwy penodol. Gall hyn fod yn grŵp o unigolion (megis cadeiryddion etholaethau, ASau ac is-gangellorion prifysgolion) neu grŵp o sefydliadau (megis ymddiriedolaethau iechyd, cwmnïau yn y FTSE 100 ac awdurdodau lleol).

Rhaid i ni gynnal arolygon, megis y rheini ar gyfer grwpiau â nifer penodol o aelodau megis ASau neu awdurdodau iechyd, yn ofalus ac ni ddylem byth adrodd amdanynt fel polau.

Os dywedir wrth gynulleidfaoedd bod arolwg wedi cael ei gomisiynu gan y BBC, rhaid iddynt fod yn ffyddiog bod ganddo lefel o hygrededd ystadegol sy'n cyfiawnhau unrhyw honiadau neu dybiaethau ynghylch pa mor gynrychioladol ydyw.

**10.4.37 Os oes unrhyw gynnig i gomisiynu arolwg gan y BBC ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar unrhyw 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall, rhaid cyfeirio hynny at y Pennaeth Ymchwil Wleidyddol a'r Prif Gynghorydd Gwleidyddol, a bydd yn rhaid iddynt roi cymeradwyaeth os yw'r arolwg yn cynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban, Aelodau Cynulliad, Aelodau Cynulliad Deddfwriaethol ac Aelodau o Senedd Ewrop.**

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

Mae'n rhaid i arolwg gael:

- grŵp pendant ac wedi'i ddiffinio y mae ei farn, ei bolisïau neu ei ymddygiad yn cael ei ddadansoddi
- paramedrau rhifiadol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, megis cyfradd ymateb sylfaenol
- methodoleg y cytunwyd arni, gan gynnwys cwestiynau sydd wedi'u geirio'n briodol a'u gofyn mewn modd cyson
- dylid bod yn ofalus gyda'r iaith a ddefnyddir wrth adrodd am y canlyniadau i sicrhau na honnir dim na chaiff ei gefnogi gan y data
- arweiniad clir i adrannau eraill y BBC (gan gynnwys swyddfa'r wasg) a all adrodd am y canlyniad, gan sicrhau nad yw addasu'r iaith ar gyfer

cynulleidfaoedd eraill yn newid yr ystyr nac yn chwyddo honiadau'r ymchwil wreiddiol.

10.4.38 Rhaid i ni beidio â chamarwain ein cynulleidfaoedd ynghylch statws yr wybodaeth sydd mewn arolwg. Wrth adrodd am y canlyniadau, fel rheol dylem ddefnyddio niferoedd go iawn yr ymatebwyr; dim ond gyda gofal y dylid defnyddio canrannau a dim ond os caiff hynny ei roi mewn cyd-destun.

10.4.39 Ceir risg i'r canfyddiad o'n hamhleidioldeb os caiff arolwg ei gomisiynu a'i gynnal gan y BBC ond na chaiff ei ddefnyddio, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw bwnc arall. Gall arwain at honiadau bod y canlyniadau wedi methu cyfateb i ganfyddiad a oedd gan y BBC neu naratif a fwriadwyd. Dylid ymgynghori â Phrif Gynghorydd Gwleidyddol cyn gwneud penderfyniad o'r fath.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

10.4.40 Dylem ddefnyddio amheuaeth briodol wrth adrodd am ganlyniadau arolygon a gomisiynir neu a gynhelir gan sefydliadau eraill a, phan fydd angen, cynnwys disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae angen gofalu, yn enwedig mewn allbwn newyddion, na adroddir ar arolygon o'r fath mewn ffordd sy'n arwain ein cynulleidfa i gredu eu bod yn gadarnach nag ydynt mewn gwirionedd.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau ar Antur)

### *Paneli a Grwpiau Ffocws*

10.4.41 Rhaid i ni beidio ag awgrymu bod safbwyntiau paneli, ni waeth pa mor ofalus y cafodd y paneli eu dewis, yn cynrychioli safbwyntiau'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd, a rhaid peidio â'u defnyddio fel ffordd o geisio bwrw amcan o'r gefnogaeth at blaid ymhlith etholwyr.

Mae modd defnyddio paneli neu grwpiau ffocws a fydd wedi'u dewis yn briodol i archwilio pam mae rhai safbwyntiau'n cael eu coleddu ac nid y graddau y cânt eu coleddu.

Os oes unrhyw gynnig i gomisiynu ymchwil grŵp ffocws ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar 'bwnc dadleuol' mewn unrhyw faes arall, dylid cyfeirio hynny ar gam cynnar at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol a dylid gwirio'r fethodoleg gyda'r Uned Ymchwil Wleidyddol.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

### *Pleidleisio dros y Ffôn, drwy Negeseuon Testun ac Ar-lein a Pholau Eraill ar Antur*

10.4.42 Nid oes dim gwerth ystadegol na rhifiadol yn perthyn i 'bolau ar antur', gan gynnwys pleidleisiau dros y ffôn, drwy negeseuon testun ac ar-lein.

Gallant fod yn ffordd effeithiol o ryngweithio â'r gynulleidfa, gan ddangos dadl, ond dim ond drwy egluro'r glir i gynulleidfaoedd eu bod yn hunan-ddewisol ac nad ydynt yn gynrychioladol nac yn wyddonol y dylid eu defnyddio. Fel rheol ni cheir dweud bod

pleidleisiau o'r fath hyd yn oed yn cynrychioli'r gynulleidfa ar gyfer y rhaglen neu'r wefan, dim ond cynrychioli'r rheini sy'n cymryd rhan a wnânt. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed pan fydd nifer mawr wedi ymateb.

Ni ddylid cyfeirio atynt yn ein hallbwn fel "pôl". Mae'r term "pôl ar antur" (straw poll) yn cael ei gamddeall yn gyffredinol ac fel rheol ni ddylid defnyddio'r term hwn mewn allbwn.

10.4.43 Gellir rhoi'r canlyniadau yng nghyd-destun y rhaglen dan sylw o ran niferoedd go iawn neu ganrannau os yw'n briodol i'r nifer a ymatebodd. Fodd bynnag:

- ni ddylid cynnwys y canlyniadau mewn bwletinau newyddion

- ni ddylem roi cyhoeddusrwydd i'r canlyniadau y tu allan i'r maes cynnwys penodol a ddefnyddiwyd i gynnal y bleidlais. Ceir adrodd am grynodeb pleidlais negeseuon testun neu ar-lein ar raglen radio neu deledu, gwefan neu flog cysylltiedig, ond fel rheol ni ddylid adrodd amdano mewn mannau eraill yn y newyddion na rhaglenni eraill ar y teledu na'r radio, ar wefannau eraill y BBC nac mewn datganiadau i'r wasg

- pan fydd polau ar antur yn cael eu cynnal ar yr un pwnc ond ar adegau gwahanol, rhaid peidio â chyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd a fyddai'n awgrymu tuedd

- ni ddylid byth defnyddio polau ar antur i gasglu gwybodaeth ddifrifol am gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol.

10.4.44 Dylem fod yn arbennig o ofalus wrth ddefnyddio polau ar antur ar y materion dadleuol hynny y gallai grwpiau pwyso trefnus iawn fanteisio arnynt. Mae eu gallu i ddylanwadu ar y canlyniad, hyd yn oed pan fyddwn yn egluro nad yw pleidleisiau o'r fath yn gynrychioladol, yn gallu niweidio'r BBC.

10.4.45 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal pleidlais ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol. Yn achos gwefan mewn iaith ac eithrio'r Saesneg, rhaid cyfeirio'r cynnig at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol a Phennaeth Rhanbarth perthnasol y World Service neu'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.**

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

10.4.46 **Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig cyflawni pleidlais dros y ffôn, drwy negeseuon testun neu ar-lein gyfeirio at yr Uned Contractau a Chyngor Technegol Rhyngweithedd (ITACU) a chwblhau'r broses cymeradwyo briodol.**

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.15)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithedd Cynulleidfa a Pholau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau ar Antur)

***Vox Pops***

10.4.47 Dylem bob tro egluro mai dim ond cynrychioli rhai agweddau ar ddadl a wna vox pops, ac nad ydynt yn arwydd o bwysau nac ehangder barn.

Rhaid golygu vox pops ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadleuon gwleidyddol neu ddiwydiannol, neu 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, yn gywir, i gynrychioli barn y rheini y gofynnwyd amdani, gan gynnwys ystod briodol o safbwyntiau.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.9)

# ADRAN 11: RHYFEL, TERFYSGAETH AC ARGYFYNGAU

**11.1 Cyflwyniad**
**11.2 Egwyddorion**
**11.3 Cyfeirio Gorfodol**
**11.4 Arferion**
**Cywirdeb ac Amhleidioldeb**
**Adnabod Dioddefwyr**
**Gwrthdystiadau, Cythrwfl a Therfysg**
**Digwyddiadau wedi'u Llwyfannu**
**Bygythiadau a Thwyllo**
**Herwgipio, Cipio, Cymryd Gwystlon a Gwarchaeau**
**Diogelwch Cenedlaethol a Gwaith Atal Terfysgaeth**
**Amgylcheddau Gelyniaethus, Gweithgareddau a Digwyddiadau Risg Uchel**

## 11.1 CYFLWYNIAD

Mae gan y BBC gyfrifoldeb arbennig i'w gynulleidfaoedd yn y DU a'i gynulleidfaoedd rhyngwladol wrth adrodd am wrthdaro, gan gynnwys rhyfeloedd, terfysgaeth a therfysgaeth a fwriedir, gwarchaeau ac argyfyngau. Mae nifer mawr o bobl ym mhedwar ban byd yn defnyddio ein gwasanaethau i gael gwybodaeth a newyddion cywir. Maent hefyd yn disgwyl i ni eu helpu i wneud synnwyr o ddigwyddiadau drwy roi cyd-destun a dadansoddiad diduedd a drwy gynnig ystod eang o safbwyntiau a barn.

Ar adegau o'r fath, pan fydd gwybodaeth a safbwyntiau yn gwrthdaro, a hithau'n anodd dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy, mae arnom angen bod yn fanwl gywir wrth ddefnyddio ein hegwyddorion yng nghyswllt cywirdeb ac amhleidioldeb.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.2 ac Adran 4 Amhleidioldeb: 4.2)

Fodd bynnag, rhaid i ni ofalu hefyd na fydd ein newyddiaduraeth yn rhoi unigolion mewn perygl o drallod na niwed diangen. Ochr yn ochr ag ystyriaethau moesegol arferol (ac yn enwedig ar gyfer newyddiadurwyr), mae'r Ddeddf Terfysgaeth yn rhoi dyletswyddau cyfreithiol ar unigolion i ddatgelu gwybodaeth benodol i'r heddlu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae tôn ein hadroddiadau yr un mor bwysig â'u dibynadwyedd. Mae arnom angen bod yn sensitif i emosiynau ac i ofnau ein cynulleidfa pan fyddwn yn adrodd am faterion sy'n ymwneud â risg i fywydau a cholli bywydau, yn ogystal â niwed neu drallod i bobl. Bydd perthnasau neu ffrindiau rhai pobl ynghlwm wrth hyn. Bydd arnom angen delio â straeon poenus yn ofalus dros ben. Dylem osgoi achosi tramgwydd diangen ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn parhau i gyfleu realaeth y digwyddiadau ac nad ydym yn glanhau gormod ar ein hadroddiadau.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 – 7.4.44 ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.11)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Trais yn y Newyddion ac Allbwn Materion Cyfoes)

Bydd arweiniad penodol am adrodd am ryfeloedd ar gael ar y wefan Canllawiau Golygyddol yn ôl y galw.

Ar adegau o ryfel, terfysgaeth neu argyfwng, dylem adolygu ein hallbwn yn gyson, yn enwedig rhaglenni ar yr amserlen (gan gynnwys ffilmiau, drama, comedi a cherddoriaeth) a chlipiau rhagflas, i ddod o hyd i unrhyw beth y gellid ei ystyried yn amhriodol yng ngoleuni'r digwyddiadau.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.53)

## 2. 11.2 EGWYDDORION

11.2.1 Rhaid i'n hadroddiadau am ryfel, terfysgaeth, argyfyngau a digwyddiadau tebyg ddiwallu Egwyddorion y Canllawiau Golygyddol ar Gywirdeb ac Amhleidioldeb.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.2 ac Adran 4 Amhleidioldeb: 4.2)

11.2.2 Byddwn yn parchu urddas pobl heb lanhau realaeth rhyfel, terfysgaeth, argyfyngau a digwyddiadau tebyg. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros ddefnyddio lluniau graffig iawn.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 – 7.4.44 ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd)

11.2.3 Byddwn yn sicrhau, cymaint ag y bo modd, na fydd perthnasau agosaf yn clywed am farwolaeth nac anaf eu perthynas drwy unrhyw ran o'n cynnwys.

## 11.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

11.3.1 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i ddigwyddiad a fydd wedi'i drefnu gan fudiadau neu grwpiau ar herw y gwyddys eu bod yn gyfrifol am derfysgaeth at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 11.4.9)

11.3.2 Os oes unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiad a drefnwyd yn y DU neu dramor, lle gwneir bygythiadau yn erbyn dinasyddion y DU, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 11.4.10)

11.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gysylltiad gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Cynghori Hysbysiad Amddiffyn[1] at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 11.4.20)

11.3.4 Os bydd unrhyw sefyllfa pan allai staff y BBC neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC fod â dyletswyddau dan y Deddfau

[1] Cyfeirir ato drwy ddefnyddio ei hen enw ambell waith – y Pwyllgor Hysbysiad Amddiffyn.

Terfysgaeth, rhaid cyfeirio hynny mewn da bryd at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler 11.4.21)

11.3.5 Os bydd unrhyw gynnig i ofyn i unigolyn neu i fudiad (gan gynnwys aelod unigol o’r mudiad) sy’n gyfrifol am derfysgaeth gymryd rhan yn ein hallbwn, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 11.4.21)

***Cyfeirio Arall***

11.3.6 Os bydd unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd wedi’i recordio mewn digwyddiadau cyfreithlon pan fydd grwpiau parafilwrol neu grwpiau eraill sydd â hanes o drais neu frawychu yn ymddangos, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. Er enghraifft, bydd ymgyrchwyr treisgar dros hawliau anifeiliaid yn perthyn i’r categori hwn.

(Gweler 11.4.11)

11.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddarlledu recordiadau a wnaed gan y rheini sy’n gyfrifol am herwgipio, cipio, cymryd gwystlon neu warchae at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 11.4.17)

11.3.8 Os oes unrhyw gais gan yr heddlu neu eraill i beidio ag adrodd dim byd am straeon sy’n ymwneud â herwgipio, cipio, cymryd gwystlon neu warchaeau, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, a allai ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

(Gweler 11.4.18)

11.4.22 Os bydd unrhyw gynigion i weithio mewn amgylcheddau gelyniaethus, ar weithgareddau risg uchel neu ddigwyddiadau risg uchel, rhaid cyfeirio’r rheini at y Pennaeth Casglu Newyddion a Thîm Risg Uchel Diogelwch y BBC.

(Gweler 11.4.22)

## 11.4 ARFERION

## Cywirdeb ac Amhleidioldeb

11.4.1 Wrth adrodd am ryfel, ac yn ystod camau cynnar adrodd am argyfyngau cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys terfysgaeth, trychinebau a damweiniau mawr), mae’n hynod bwysig rhoi ffynhonnell yr wybodaeth a’r deunyddiau gan drydydd parti, yn enwedig pan geir honiadau croes. Mae’r amcangyfrifon cyntaf ynghylch y niferoedd sydd wedi cael eu hanafu a’u lladd yn aml yn anghywir. Os bydd ffynonellau gwahanol yn rhoi amcangyfrifon gwahanol, dylem naill ai adrodd am yr ystod neu ddewis y ffynhonnell sydd â’r awdurdod mwyaf a phriodoli’r amcangyfrif i’r ffynhonnell honno.

Fel rheol dylem ddweud os caiff ein hadroddiadau eu sensro neu eu monitro neu os ydym yn dal gwybodaeth yn ôl, ac egluro, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, y rheolau yr ydym yn eu dilyn.

11.4.2 Wrth adrodd am wrthdystiadau, cythrwfl a digwyddiadau tebyg, dylem drin amcangyfrifon ag amheuaeth deg, adrodd am wahaniaethau eang ac enwi ffynonellau'r ffigurau. Ein nod yw cynnig gwedd gynhwysfawr ac amhleidiol o ddigwyddiadau. Pan fydd yn anodd i newyddiadurwyr sydd ar un ochr i wrthdaro lunio barn glir a chyffredinol, dylid rhoi eu deunyddiau mewn cyd-destun ehangach ar gyfer eu darlledu.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.1 a 3.4.11 – 3.4.12)

11.4.3 Mewn argyfwng sifil yn y DU, byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth hanfodol er budd diogelwch y cyhoedd ar draws ein holl wasanaethau. Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i adnabod y math o ddigwyddiadau mawr sy'n mynnu ymateb arbennig. Fodd bynnag, rhaid i ni wneud y penderfyniadau golygyddol priodol i sicrhau cywirdeb ac annibyniaeth.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.18)

### *Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr*

11.4.4 Yn ystod gwrthdaro ceir sensitifrwydd arbennig er enghraifft ynghylch diogelwch cynlluniau milwrol gweithredol, osgoi enwi'r rheini sydd wedi anafu a marw nes bod y perthnasau agosaf wedi cael gwybod a delio â sïon di-sail. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr pan fydd defnyddwyr fel rheol yn disgwyl i'w deunydd gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd yn cael ei anfon atom.

Ar adegau o'r fath, gallwn gyhoeddi canllawiau ychwanegol sy'n datgan:

- byddwn yn canolbwyntio sylwadau a dadleuon am y gwrthdaro mewn nifer cyfyngedig o fannau, gyda gwesteia a safoni ychwanegol, er mwyn cynnal dadl lawn
- byddwn yn fodlon newid i safoni ymlaen llaw os oes angen
- gallwn ofyn i honiadau neu ddatganiadau gan drydydd partïon gael eu priodoli er mwyn i'w statws fod yn haws i'n defnyddwyr ei werthuso
- efallai y byddwn yn creu dolenni o ddatganiadau o'r fath i straeon perthnasol a ysgrifennwyd gan safle Newyddion y BBC er mwyn i ddefnyddwyr allu eu cymharu yn haws.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.7 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 - 7.4.44)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cyfraniadau Defnyddwyr mewn Allbwn Newyddion a Safoni, Gwesteia, Uwchraddio a Rheoli Defnyddwyr)

### *Defnyddio Iaith*

11.4.5 Rhaid i ni adrodd am derfysgaeth yn gyflym, yn gywir, yn llawn ac yn gyfrifol. Mae terfysgaeth yn bwnc anodd ac emosiynol sydd ag arlliw gwleidyddol sylweddol a rhaid defnyddio iaith sydd â barn am werthoedd yn ofalus. Byddwn yn ceisio osgoi defnyddio'r term "terfysgwr" heb ei briodoli. Pan fyddwn yn defnyddio'r term, dylem ymdrechu i wneud hynny â chysondeb yn y straeon y byddwn yn eu hadrodd ar draws ein holl wasanaethau ac mewn ffordd nad yw'n tanseilio ein henw da am wrthrychedd a chywirdeb.

Gall y gair "terfysgwr" ei hun fod yn rhwystr yn hytrach na chymorth i ddeall. Dylem gyfleu canlyniadau llawn y weithred i'n cynulleidfa drwy ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd. Dylem ddefnyddio geiriau sy'n disgrifio'r drwgweithredwr yn benodol megis "bomiwr", "ymosodwr", "saethwr", "herwgipiwr", "gwrthryfelwr" a "milwriaethwr". Ni ddylem fabwysiadu iaith pobl eraill fel iaith i ni'n hunain; rydym yn gyfrifol am aros yn wrthrychol ac adrodd mewn ffyrdd sy'n galluogi ein cynulleidfaoedd i wneud eu hasesiadau eu hunain ynghylch pwy sy'n gwneud beth i bwy.

11.4.6 Am resymau tebyg, fel rheol mae hefyd yn amhriodol defnyddio termau megis "rhyddhau", "cwrt-marsial" neu "ddienyddio" os na cheir proses farnwrol glir, heb briodoli hynny.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Iaith wrth Adrodd am Derfysgaeth)

## Adnabod Dioddefwyr

11.4.7 Pan fydd pobl wedi cael eu lladd, eu hanafu neu pan fyddant ar goll, mae'n bwysig na chaiff eu perthnasau agosaf wybod hynny drwy allbwn y BBC, cyn belled a mae hynny'n rhesymol ymarferol. Rydym yn cydnabod, pan na roddir enwau yn ein hadroddiadau, y gall hyn achosi pryder diangen ymysg pobl sydd â pherthnasau agos a allai fod wedi bod ynghlwm wrth y digwyddiad. Ond rydym o'r farn nad yw hyn mor ddrwg â'r trallod a achosir pan fyddant yn cael gwybod drwy'r cyfryngau.

Mae arnom angen lleihau'r maes pryder cyn gynted ag sy'n bosibl heb enwi dioddefwyr unigol, er enghraifft os oes damwain awyren, drwy gynnwys manylion megis y cwmni awyrennau, rhif y daith, lle'r oedd yr awyren yn hedfan ohono a lle'r oedd yn hedfan iddo, er mwyn osgoi dychryn hyd yn oed mwy o bobl.

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.4 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.38 - 7.4.44)

## Gwrthdystiadau, Cythrwfl a Therfysg

11.4.8 Mae rhoi sylw cynhwysfawr i wrthdystiadau, cythrwfl a therfysg yn rhan bwysig o'n hadroddiadau newyddion. Fodd bynnag, yn ogystal â'r canllawiau penodol sy'n ymwneud â chywirdeb ac amhleidioldeb (gweler 11.4.2 uchod), mae'n bwysig:

- ein bod yn asesu'r risg y gallai sôn am ddigwyddiadau tebygol o gythrwfl eu hannog

- ein bod yn tynnu'n ôl ar unwaith os ydym yn amau ein bod yn gwaethygu'r sefyllfa

- mewn adroddiadau byw, rhaid i ni gynnwys oediad, neu dorri i ffwrdd a recordio deunyddiau i'w defnyddio mewn adroddiad wedi'i olygu, os bydd lefel y trais neu'r anhrefn yn mynd yn rhy graffig.

## Digwyddiadau wedi'u Llwyfannu

11.4.9 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i fynd i ddigwyddiad a fydd wedi'i drefnu gan fudiadau neu grwpiau ar herw y gwyddys eu bod yn gyfrifol am derfysgaeth at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

11.4.10 **Os oes unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd a recordiwyd mewn digwyddiad a drefnwyd yn y DU neu dramor, pan wneir bygythiadau yn erbyn dinasyddion y DU, rhaid cyfeirio hynny at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

11.4.11 **Os bydd unrhyw gynnig i ddarlledu deunydd wedi'i recordio mewn digwyddiadau cyfreithlon pan fydd grwpiau parafilwrol neu grwpiau eraill sydd â hanes o drais neu frawychu yn ymddangos, rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.** Er enghraifft, bydd ymgyrchwyr treisgar dros hawliau anifeiliaid yn perthyn i'r categori hwn.

## Bygythiadau a Thwyllo

11.4.12 Os byddwn yn cael bygythiad ynghylch bom neu fygythiad credadwy a phenodol arall, boed hynny dros y ffôn, y ffacs, yr e-bost, drwy neges testun, wedi ei bostio ar fwrdd negeseuon neu os bydd yn cyrraedd ar dâp, y flaenoriaeth gyntaf yw trosglwyddo'r neges honno i'r awdurdodau priodol. Rhaid i ni beidio â datgelu'r geiriau cod arferol a ddefnyddir gan grwpiau sy'n rhoi rhybuddion am fomiau.

11.4.13 Rhaid i ni beidio â datgelu manylion diogelwch na gwybodaeth sensitif arall nad yw ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd ac a allai helpu ymosodiad.

11.4.14 Fel rheol ni fyddwn yn adrodd am fygythiadau yn erbyn unigolion a enwir oni bai eu bod wedi cynhyrchu effaith weladwy, megis canslo ymddangosiad cyhoeddus.

11.4.15 Rhaid i ni ofalu nad ydym yn datgelu unigolion neu sefydliadau, na fyddent fel arall mewn perygl, fel targedau posibl oni bai fod cyfiawnhad golygyddol amlwg. Er enghraifft, gall hyn gynnwys cwmnïau neu weithwyr sy'n ymwneud â phrofion ar anifeiliaid neu sy'n gweithio i sefydliadau milwrol.

11.4.16 Fel rheol ni fyddwn yn adrodd am ddigwyddiadau a fydd yn rhai ffug oni bai fod effaith ddifrifol ac amlwg iddynt, megis amharu'n fawr ac yn amlwg ar drafnidiaeth.

## Herwgipio, Cipio, Cymryd Gwystlon a Gwarchaeau

11.4.17 Mewn achosion o herwgipio, cipio, cymryd gwystlon, gwarchaeau, bomio neu ddigwyddiadau tebyg eraill, rhaid i ni fod yn ymwybodol y gall unrhyw beth rydym yn ei ddarlledu gael ei weld neu ei glywed, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan y drwgweithredwyr yn y DU a dramor.

Mae'n bwysig ein bod yn adrodd am ofynion mewn cyd-destun. Dylem hefyd ystyried yn ofalus y materion moesegol a godir drwy roi llwyfan i herwgipwyr, cipwyr neu'r rheini sy'n cymryd gwystlon, yn enwedig os ydynt yn cysylltu'n uniongyrchol. Rhaid i ni gadw rheolaeth olygyddol dros adrodd am ddigwyddiadau a sicrhau:

- nad ydym yn cyfweld â drwgweithredwr yn fyw ar yr awyr

(Gweler Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.15 - 8.4.19)

- nad ydym yn darlledu unrhyw fideo a/neu sain a ddarperir gan ddrwgweithredwr yn fyw ar yr awyr

- **ein bod yn darlledu recordiadau a wnaed gan ddrwgweithredwyr dim ond ar ôl cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol**

- ein bod yn gosod oediad wrth ddarlledu deunydd byw o straeon sensitif, er enghraifft gwarchae mewn ysgol neu herwgipio awyren. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan na fydd modd rhagweld y canlyniad ac y gallem fod yn dangos deunydd sy'n achosi trallod ac sy'n anaddas i'w ddarlledu'n fyw.

11.4.18 Mewn adroddiadau am straeon sy'n ymwneud â herwgipio, cipio, cymryd gwystlon neu warchaeau rhaid i ni wrando ar gyngor gan yr heddlu ac awdurdodau eraill am unrhyw beth a allai waethygu'r sefyllfa petai'n cael ei ddarlledu. O bryd i'w gilydd byddant yn gofyn i ni ddal gwybodaeth yn ôl neu hyd yn oed gynnwys gwybodaeth. Fel rheol byddwn yn cydymffurfio â chais rhesymol, ond ni fyddwn yn darlledu dim sy'n gelwydd a ninnau'n gwybod hynny.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gais gan yr heddlu neu eraill ar gyfer peidio ag adrodd am rywbeth o gwbl at uwch swyddog golygyddol, a all ymgynghori â Pholisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.3)

## Diogelwch Cenedlaethol a Gwaith Atal Terfysgaeth

### *Deddf Cyfrinachau Swyddogol*

11.4.19 Mae'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol yn dylanwadu ar ein gallu i adrodd am rai materion sy'n ymwneud â diogelwch a chudd-wybodaeth. Dylai cynhyrchwyr cynnwys ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni wrth ddelio â materion a ddaw dan ei delerau neu a allai ddod dan ei delerau.

### *Hysbysiadau Cynghori Amddiffyn*

11.4.20 Mae Hysbysiadau Cynghori Amddiffyn yn rhoi arweiniad am wybodaeth am amddiffyn ac atal terfysgaeth a allai niweidio diogelwch y wlad petai'n cael ei darlledu. Maent yn cynnwys cyhoeddi deunyddiau gan gynnwys codau a seiffrau cyfrinachol iawn, gwybodaeth nad yw ar gael i'r cyhoedd am gyfleusterau a sefydliadau milwrol allweddol a gwybodaeth sy'n ymwneud â Gwasanaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth a Lluoedd Arbennig y DU.

Mae modd darllen yr Hysbysiadau Cynghori Amddiffyn sefydlog ar wefan y System Hysbysiadau Cynghori Amddiffyn.

Mae'r system yn wirfoddol, nid oes ganddi ddim awdurdod cyfreithiol a ni sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid darlledu ai peidio. Dylai cynhyrchwyr cynnwys geisio cyngor cyfreithiol a golygyddol uwch yn gynnar wrth ddelio â deunyddiau a ddaw dan yr Hysbysiadau neu a allai ddod oddi tanynt. **Rhaid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol am unrhyw gysylltiad gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Cynghori Hysbysiad Amddiffyn[2].**

***Deddfau Terfysgaeth***

11.4.21 Ceir dyletswydd gyfreithiol dan y Deddfau Terfysgaeth i ddatgelu i'r heddlu, cyn gynted ag sy'n bosibl, unrhyw wybodaeth y gwyddwn neu y credwn a allai fod o gymorth mawr i:

- atal comisiynu gweithred o derfysgaeth unrhyw le yn y byd
- sicrhau arestio, erlyn neu euogfarn unigolyn yn y DU am drosedd sy'n ymwneud â chomisiynu, paratoi neu annog gweithred o derfysgaeth.

Mae'n drosedd peidio â datgelu gwybodaeth o'r fath. **Os bydd unrhyw sefyllfa pan allai staff y BBC neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC fod â dyletswyddau dan y Deddfau Terfysgaeth, rhaid cyfeirio hynny mewn da bryd at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.**

**Mae'r Deddfau hefyd yn rhoi rhai mudiadau cenedlaethol a rhyngwladol a ddisgrifir fel grwpiau 'terfysgaeth' ar herw, sy'n golygu ei bod yn anghyfreithlon iddynt weithredu yn y DU. Bydd rhestr ddiweddar o fudiadau ar herw yn cael ei chynnal ar wefan y Swyddfa Gartref. Os bydd unrhyw gynnig i ofyn i un o'r mudiadau hyn (gan gynnwys aelod unigol o'r mudiad), neu unrhyw unigolyn neu fudiad arall sy'n gyfrifol am derfysgaeth, gymryd rhan yn ein hallbwn, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## Amgylcheddau Gelyniaethus, Gweithgareddau a Digwyddiadau Risg Uchel

[2] Cyfeirir ato drwy ddefnyddio ei hen enw ambell waith – y Pwyllgor Hysbysiad Amddiffyn.

11.4.22 **Os bydd unrhyw gynigion i weithio mewn amgylcheddau gelyniaethus, ar weithgareddau risg uchel neu ddigwyddiadau risg uchel, rhaid cyfeirio'r rheini at y Pennaeth Casglu Newyddion a Thîm Risg Uchel Diogelwch y BBC.**

Mae 'amgylchedd gelyniaethus' yn golygu gwlad, rhanbarth neu ardal benodol sy'n destun rhyfel, gwrthryfel, aflonyddwch dinesig, terfysgaeth neu lefelau eithafol o droseddu, ysbeilio neu derfysg neu anhrefn gyhoeddus. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd sydd â hinsawdd neu dirwedd eithafol. Mae'r BBC yn cadw rhestr o amgylcheddau gelyniaethus neu beryglus ar Gateway.

Mae 'gweithgareddau risg uchel' yn cynnwys ymchwiliadau troseddol sy'n cynnwys gwylio neu recordio cudd a/neu wynebu terfysgwyr, grwpiau troseddol neu eithafol neu dreisgar neu wleidyddol difrifol.

**Mae 'digwyddiadau risg uchel' yn cynnwys terfysg, aflonyddwch sifil neu anhrefn cyhoeddus eithafol, terfysgaeth neu droseddau ag arfau megis herwgipio neu warchaeau yn ogystal ag unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys sylweddau cemegol, biolegol a radiolegol (CBR), achosion o glefydau difrifol a phandemig, neu ddigwyddiadau eithafol yn yr hinsawdd megis corwyntoedd, llifogydd difrifol, dirgryniadau a ffrwydradau folcanig.**

# ADRAN 12: CREFYDD

**12.1 Cyflwyniad**
**12.2 Egwyddorion**
**12.3 Cyfeirio Gorfodol**
**12.4 Arferion**

## 12.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC yn parchu hawl sylfaenol pobl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Mae hyn yn cynnwys rhyddid unigolyn i addoli, i ddysgu, i ymarfer ac i ddilyn.

Nid yw cabledd nac enllib cableddus yn drosedd mwyach yn unrhyw ran o'r DU, ond mae credoau crefyddol yn ganolog i fywydau nifer o bobl ac maent yn cymell safbwyntiau ac emosiynau cryf. Dylem ochel rhag achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy sicrhau na chaiff ein hallbwn ei ddefnyddio i ddirmygu credoau crefyddol pobl eraill, ar yr un pryd â chadw'r hawl i ryddid mynegiant. Dan God Darlledu Ofcom, "*Rhaid i safbwyntiau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol beidio â chael eu trin yn ddifrïol*"[1]. Mewn cyfraith, mae Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006, sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr, yn gwahardd unigolyn rhag defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol neu arddangos deunyddiau ysgrifenedig sy'n fygythiol *"os yw'n bwriadu ysgogi casineb hiliol drwyddynt"*.

Mae gan y BBC hefyd ddyletswydd i amddiffyn pobl agored i niwed ac osgoi niwed tebygol. Mae Cod Darlledu Ofcom yn mynnu ei bod yn rhaid i allbwn crefyddol *"beidio â cheisio hybu safbwyntiau neu gredoau crefyddol yn llechwraidd"*[2] nac *"ymelwa'n amhriodol ar unrhyw dueddiadau sydd gan y gynulleidfa"*[3].

At ddibenion Canllawiau Golygyddol y BBC, caiff allbwn crefyddol ei ddiffinio fel allbwn sy'n delio â safbwyntiau crefyddol a/neu gredoau crefydd neu enwad crefyddol fel pwnc canolog neu ran sylweddol o'r allbwn.

Mae'r adran hon o'r Canllawiau yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer allbwn crefyddol ac unrhyw allbwn arall sy'n ymwneud â chrefydd. Dylai allbwn o'r fath hefyd ystyried pob adran arall o'r Canllawiau Golygyddol ac, yn enwedig, Adran 4 Amhleidioldeb ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd.

## 12.2 EGWYDDORION

12.2.1 Rhaid i gredoau ac arferion crefyddau ac enwadau gael eu disgrifio â chywirdeb teg[4].

---

[1] Rheol 4.2, Cod Darlledu Ofcom

[2] Rheol 4.4, Cod Darlledu Ofcom

[3] Rheol 4.6, Cod Darlledu Ofcom

12.2.2 Rhaid peidio â chamddehongli na difrïo safbwyntiau a chredoau unigolyn, crefydd nac enwad, fel y bernir yn ôl safonau a dderbynnir yn gyffredinol[5].

12.2.3 Rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r sensitifrwydd crefyddol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio neu gyfeirio at yr enwau, y delweddau, y duwiau, y defodau, yr ysgrythurau a'r iaith sydd wrth galon pob ffydd wahanol a sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol dros eu defnyddio neu gyfeirio atynt ar lafar neu drwy lun, o fewn safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Croeshoeliad, y Cymun Sanctaidd, y Corân, y Sabath Iddewig a thebyg.

12.2.4 Rhaid i ni ystyried y sensitifrwydd crefyddol sydd ynghlwm wrth ddilyn diwrnodau sanctaidd a phrif wyliau prif ffydd y byd er mwyn osgoi achosi tramgwydd diangen drwy ddeunydd a allai fod yn fwy derbyniol ar adegau eraill.

## 12.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

12.3.1 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gynnwys sy'n delio â materion sy'n ymwneud â chrefydd ac sy'n debygol o achosi tramgwydd i'r rheini sydd â safbwyntiau a chredoau crefyddol, yn ôl safonau a dderbynnir yn gyffredinol a rhaid cyfeirio'r cynnwys at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 12.4.5)

## 12.4 ARFERION

12.4.1 Pan fydd crefydd neu enwad yn destun allbwn crefyddol, rhaid egluro beth yw'r grefydd neu'r enwad.

12.4.2 Ni ddylid defnyddio allbwn crefyddol i recriwtio, er enghraifft drwy apelio'n uniongyrchol at gynulleidfaoedd i ymuno â chrefydd benodol. Fel rheol derbynnir cyfeiriadau at effeithiau cadarnhaol perthyn i grefydd benodol.

12.4.3 Dylem ddefnyddio gwrthrychedd teg wrth drin unrhyw honiadau a wneir yn ein hallbwn crefyddol am bwerau neu alluoedd arbennig grŵp neu unigolyn byw. Ni ddylid gwneud honiadau o'r fath pan ddisgwylir y bydd nifer mawr o blant yn gwylio'r teledu neu pan fydd hi'n debygol y bydd plant yn gwrando ar y radio, nac mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o apelio at gyfran fawr o blant.

12.4.4 Ni ddylid caniatáu i gyfranwyr at allbwn crefyddol danseilio na dirmygu credoau crefyddol pobl eraill. Gellir beirniadu crefydd a safbwyntiau crefyddol ond dylem sicrhau bod cyd-destun priodol a bod modd herio safbwyntiau critigol.

12.4.5 **Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gynnwys sy'n delio â materion sy'n ymwneud â chrefydd ac sy'n debygol o achosi tramgwydd i'r rheini sydd â safbwyntiau a chredoau crefyddol, yn ôl safonau a dderbynnir yn gyffredinol a rhaid cyfeirio'r cynnwys at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

12.4.6 Gall drama, comedi a genres eraill gynnwys materion sy'n ymwneud â chrefydd, ond dylem bob amser fod yn ymwybodol o bosibilrwydd achosi tramgwydd. Mae cyngor arbenigol ar gael gan yr adran Crefydd a Moeseg a chan gydweithwyr yn y World Service a chan Bolisi Golygyddol.

12.4.7 Gyda chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr am grefydd, mae angen gofal i gael y cydbwysedd priodol rhwng rhyddid mynegiant ac osgoi achosi tramgwydd diangen. Rydym yn fwy tebygol o gyflawni'r cydbwysedd hwn os:

- caiff y man ei westeia'n weithredol
- ydym yn dewis math addas o safoni
- ar adegau, byddwn yn camu i mewn ar frys – oni bai, er enghraifft, fod y gymuned ar-lein eisoes wedi ymateb yn gadarn ac mewn modd awdurdodol i sylw tramgwyddus.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.37)

(Gweler yr Arweiniad Ar-lein Safoni, Gwesteia, Uwchraddio a Rheoli Defnyddwyr)

# ADRAN 13: AILDDEFNYDDIO AC AILFERSIYNU

**13.1 Cyflwyniad**
**13.2 Egwyddorion**
**13.3 Cyfeirio Gorfodol**
**13.4 Arferion**
**Cyffredinol**
**Materion sy'n ymwneud â Chywirdeb**
**Tegwch, Cydsyniad a Materion Preifatrwydd**
**Materion Niwed a Thramgwydd**
**Syndicetio a Dosbarthu ar Sianeli a Mannau nad ydynt yn perthyn i'r BBC**
**Ceisiadau am Ddeunydd y BBC gan Drydydd Parti**

## 13.1 CYFLWYNIAD

Mae archif y BBC yn adnodd cenedlaethol gwych sy'n hynod werthfawr i'r cyhoedd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y dreftadaeth hon ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Yn yr un modd, cyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd yw'r cymhelliant y tu ôl i syndicetio deunydd er mwyn i'r rheini sy'n defnyddio prin ddim ar gynnwys y BBC allu ei ganfod eu hunain a mwynhau mwy ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

Caiff cynnwys y BBC ei wneud yn ôl y safonau yn y Canllawiau Golygyddol sydd mewn grym adeg y gwaith cynhyrchu gwreiddiol. Gall y safonau hynny newid gyda threigl amser. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau ychwanegol y dylid eu cymryd pan fydd cynnwys yn cael ei ailddefnyddio, ei ddosbarthu neu ei ddarparu mewn modd arall, yn ei gyfanrwydd neu yn rhannol, mewn ffyrdd nad oeddent efallai wedi cael eu hystyried adeg cynhyrchu'r cynnwys.

## 13.2 EGWYDDORION

**13.2.1 Rhaid i ddeunydd o archif y BBC ystyried gofynion y Canllawiau Golygyddol sydd mewn grym adeg ailddefnyddio, ailfersiynu neu ail-ddarparu'r deunydd.**

13.2.2 Dylid rheoli deunydd sydd ar gael ar sianeli ar-alw yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ystyried gofynion y Canllawiau Golygyddol.

13.2.3 Dim ond at ddibenion sy'n cynnal didwylledd y deunydd a'r BBC y bydd y BBC yn cyflenwi copïau o raglenni, cynnwys neu ddeunydd arall a gasglwyd wrth gynhyrchu ein hallbwn i drydydd parti.

## 13.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

***Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol***

Os oes unrhyw geisiadau am ddeunydd na chafodd ei ddarlledu neu ei ddefnyddio, gan gynnwys nodiadau, gan yr heddlu a/neu mewn cysylltiad ag achos llys, achos llys posibl neu weithdrefnau eraill a allai ystyried y deunydd fel tystiolaeth (megis gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoliadol), rhaid cyfeirio'r ceisiadau hynny at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 13.4.27)

***Cyfeirio at Bolisi Golygyddol***

13.3.2 Rhaid i ailddefnyddio, ailfersiynu ac ail-ddarparu deunydd o'r archif ystyried unrhyw achosion o dorri safonau golygyddol a ganfuwyd gan yr Uned Cwynion Golygyddol, Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC neu eu rhagflaenwyr, ac unrhyw achosion o dorri codau a gofnodwyd gan Ofcom neu reoleiddwyr blaenorol. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd o'r fath at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.1)

13.3.3 Os oes unrhyw geisiadau am ddeunydd a ddarlledwyd yng nghyswllt achos llys, neu weithdrefnau eraill a allai ystyried y deunydd fel tystiolaeth (megis gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoliadol), rhaid eu cyfeirio at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

(Gweler 13.4.22)

***Cyfeirio Arall***

13.3.4 Pan allai ein defnydd o'r archif achosi trallod i'r cyfranwyr, i'r dioddefwyr neu eu perthnasau neu eu ffrindiau agos, dylid gofyn am eu safbwyntiau pan fydd hynny'n bosibl. Os ydynt yn gwrthwynebu unrhyw gynnig i wneud hynny, rhaid i uwch swyddog golygyddol, neu olygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, gymeradwyo hynny.

(Gweler 13.4.7)

13.3.5 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd o'r archif sy'n cynnwys pobl yn galaru neu mewn trallod ac mae modd eu hadnabod at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 13.4.7)

13.3.6 Pan na fydd unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd wedi cael ei ystyried yn y ffi wreiddiol a dalwyd i gyfranwyr neu i eraill sy'n ymwneud â chynhyrchu'r cynnwys, rhaid cysylltu â'r Grŵp Negodi Talent a Hawliau fel bo'n briodol er mwyn gallu asesu a chyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol.

(Gweler 13.4.9)

13.3.7 Rhaid cyfeirio ailddefnyddio deunydd o’r archif sydd wedi’i recordio’n gudd at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol cyn darlledu. Rhaid cadw cofnod o’r penderfyniad.

(Gweler 13.4.10)

13.3.8 Os oes unrhyw gynlluniau i ailddefnyddio, i ailfersiynu neu i ail-ddarparu deunydd archif sy’n cynnwys aelodau o’r Teulu Brenhinol neu’r Palasau Brenhinol (ac eithrio ar gyfer deunyddiau newyddion sy’n dangos aelodau’r Teulu Brenhinol sy’n cyflawni dyletswyddau cyhoeddus) rhaid cyfeirio’r rheini at Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC.

(Gweler 13.4.12)

## 13.4 ARFERION

### Cyffredinol

13.4.1 Rhaid i ailddefnyddio, ailfersiynu ac ail-ddarparu deunydd o’r archif ystyried unrhyw achosion o dorri safonau golygyddol a ganfuwyd gan yr Uned Cwynion Golygyddol, Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC neu eu rhagflaenwyr, ac unrhyw achosion o dorri codau a gofnodwyd gan Ofcom neu reoleiddwyr blaenorol. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd o’r fath at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy’n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid hefyd cyfeirio at Bolisi Golygyddol.**

13.4.2 Wrth ailddefnyddio cynnwys teledu neu radio ar-lein neu ar-alw, dylem gofio y gallai fod yn destun llawer mwy o graffu nag ydoedd pan gafodd ei ddarlledu yn wreiddiol. Er enghraifft, efallai y caiff ei ailchwarae droeon ac, os caiff cynnwys ei gyhoeddi gyda meta-ddata mae modd ei chwilio, mae’n rhwydd dod o hyd i gyfraniadau byr iawn hyd yn oed.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Penodau)

Efallai nad yw deunydd a oedd yn briodol i’w ddarlledu yn y DU ddim yn briodol mwyach pan fydd modd cael gafael arno ym mhedwar ban byd. Er enghraifft, gallai delweddau o bobl yn dioddef mewn rhyfel neu drychineb dramor achosi trallod nad oes modd ei gyfiawnhau i oroeswyr yn y wlad honno, neu efallai fod pryderon ynghylch diogelwch cyfranwyr neu newyddiadurwyr.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.7 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44)

### Materion sy’n ymwneud â Chywirdeb

13.4.3 Dylem gofio y gallai deunydd yr ydym yn bwriadu ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu bellach fod yn hen, yn anghywir neu yn amhriodol am resymau eraill. Dylid ei labelu a/neu ei ddyddio er mwyn sicrhau cywirdeb teg pan fydd hynny’n angenrheidiol.

Rhaid bod yn ofalus wrth ryddhau cynnwys sy’n cynnwys gwybodaeth y mae ymchwil newydd yn dangos ei bod yn anghywir, megis gwybodaeth neu gyngor meddygol a allai roi iechyd pobl mewn perygl petai’n cael ei ddilyn. Pan fydd yn briodol, dylid ystyried defnyddio gwybodaeth am y cynnwys a’r cyd-destun (gan gynnwys, er enghraifft, brandio a labeli archif).

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.22 - 3.4.24)

13.4.4 Rhaid i ni wirio rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu gryn amser ar ôl eu darlledu’n wreiddiol er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddigwyddiadau wedi effeithio ar y cynnwys, megis marwolaeth hysbys un o’r cyfranwyr, cyhuddo troseddwr neu newidiadau o bwys i fywyd. Mewn rhai achosion bydd angen rhoi cyhoeddiad ar yr awyr, mewn amgylchiadau eraill gellir addasu neu ddileu rhywfaint o’r deunydd.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.25)

***Rhaglenni Newyddion a Ffeithiol***

13.4.5 Pan ddefnyddir deunydd o’r archif i ddangos mater neu ddigwyddiad cyfoes, rhaid ei labelu’n glir os oes unrhyw berygl o gamarwain y gynulleidfa. Dylem hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw faterion cyfreithiol, er enghraifft, difenwi.

Ni ddylem ddefnyddio deunydd archif am un digwyddiad i ddangos un arall mewn ffordd sy’n awgrymu bod y gynulleidfa yn gweld rhywbeth nad yw’n ei weld.

Dylem sicrhau nad ydym yn rhoi camargraff sylweddol drwy ddangos ein straeon â ffilm hen o’r archif, er enghraifft o leoedd, o bobl neu o brosesau cynhyrchu diwydiannol.

## Tegwch, Cydsyniad a Materion Preifatrwydd

13.4.6 Mae gan y BBC gyfrifoldeb parhaus i barchu preifatrwydd ac i weithredu’n deg tuag at gyfranwyr wrth ailddefnyddio, ailfersiynu ac ail-ddarparu deunyddiau o’r archif. Cymaint ag y bo modd, a phan nad oedd hynny’n ymhlyg adeg rhoi’r cydsyniad gwreiddiol, dylem roi gwybod i’r cyfranwyr ein bod yn bwriadu ailddefnyddio’r deunydd.

Rhaid i ni wirio unrhyw fanylion perthnasol sydd gennym am gydsyniadau cyfranwyr a dilyn unrhyw gyfyngiadau ar ailddefnyddio’r deunydd, oni bai ein bod yn gallu pennu bod amgylchiadau wedi newid ers gosod y cyfyngiadau sy’n golygu nad ydynt yn berthnasol mwyach.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1)

13.4.7 Gall deunyddiau o’r archif sy’n ymwneud â salwch, marwolaeth, trawma emosiynol neu ddatguddiad personol i’r unigolyn, neu unigolion fel plant, pan nad oeddent yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus, fod yn fwy sensitif dros amser. Rhaid i ni ystyried sut mae lleihau’r trallod posibl i gyfranwyr, i

ddioddefwyr ac i berthnasau sydd wedi goroesi pan fyddwn yn ailddefnyddio, yn ailfersiynu neu'n ail-ddarparu cynnwys o'r fath o'r archif.

Pan allai ein defnydd o'r archif achosi trallod i'r cyfranwyr, i'r dioddefwyr neu eu perthnasau neu eu ffrindiau agos, dylid gofyn am eu safbwyntiau pan fydd hynny'n bosibl. Os ydynt yn gwrthwynebu unrhyw gynnig i wneud hynny, rhaid i uwch swyddog golygyddol, neu olygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, gymeradwyo hynny. Dim ond os yw'r budd i'r cyhoedd yn drech na'r gwrthwynebiadau y rhoddir cymeradwyaeth.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd o'r archif sy'n cynnwys pobl yn galaru neu mewn trallod ac mae modd eu hadnabod at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.44)

13.4.8 Ar ben hynny, dim ond pan geir cyfiawnhad golygyddol y dylai dramâu a dramâu dogfen ddefnyddio deunyddiau o'r archif. Rhaid i ni sicrhau na fydd ailddefnyddio deunyddiau yn creu annhegwch, er enghraifft, drwy achosi embaras, syndod, neu dramgwydd na ellir ei gyfiawnhau i bobl mae modd eu hadnabod yn y deunyddiau o'r archif. Dylem fod yn arbennig o ofalus wrth ailddefnyddio deunyddiau o ddigwyddiadau o'r gorffennol sy'n cynnwys dioddefaint neu drawma neu ddeunyddiau dadleuol megis delweddau o derfysg.

13.4.9 Gall cyfranwyr a gafodd dâl neu eraill a oedd yn ymwneud â chynhyrchu'r cynnwys fod â hawliau dan gontract sy'n ymwneud ag ailddefnyddio deunydd o'r archif. **Pan na fydd unrhyw gynnig i ailddefnyddio deunydd wedi cael ei ystyried yn y ffi wreiddiol, rhaid cysylltu â'r Grŵp Negodi Talent a Hawliau fel bo'n briodol ac mewn da bryd er mwyn gallu asesu a chyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol.**

***Deunydd a Recordiwyd yn Gudd***

13.4.10 **Rhaid cyfeirio ailddefnyddio deunydd o'r archif sydd wedi'i recordio'n gudd at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol cyn darlledu. Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad.**

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.11 - 7.4.12)

***Deunydd sy'n Darlunio Gweithgarwch Anghyfreithlon neu Wrthgymdeithasol***

13.4.11 Mae defnyddio deunyddiau archif sy'n ymwneud â throseddau, dioddefwyr troseddau a gweithgarwch gwrthgymdeithasol yn galw am benderfyniadau golygyddol gofalus. Dylem:

- osgoi defnyddio'r un digwyddiad i ddangos thema gyffredinol, er enghraifft efallai y bydd dangos yr un gyrrwr yn cael prawf anadl droeon yn annheg

- peidio â defnyddio deunydd o'r archif am un trosedd amlwg i ddangos un arall

- gofalu wrth ddefnyddio lluniau o'r archif o garcharorion i ddangos trosedd penodol neu fath penodol o drosedd. Ni ddylid gallu adnabod unigolion yn amlwg os nad oeddent yn ymwneud â'r trosedd dan sylw

- ymgynghorwch â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni ynghylch unrhyw gynnig i ddefnyddio deunydd o'r archif am drosedd os oes achos llys yn yr arfaeth neu yn mynd rhagddo.

***Deunydd Brenhinol o'r Archif***

13.4.12 Mae deunyddiau sy'n cynnwys aelodau o'r Teulu Brenhinol neu'r Palasau Brenhinol yn aml yn destun trefniadau contract penodol, yn enwedig pan fydd y BBC wedi cael mynediad breintiedig. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynlluniau i ailddefnyddio, i ailfersiynu neu i ail-ddarparu deunyddiau o'r fath o'r archif at Swyddog Cyswllt Brenhinol y BBC.** Nid yw hyn yn berthnasol i ddeunyddiau newyddion sy'n dangos aelodau o'r Teulu Brenhinol yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus.

## *Materion Niwed a Thramgwydd*

13.4.13 Rhaid i ddeunydd o'r archif sy'n cael ei ail-ddarparu, ei ailddefnyddio neu ei ailfersiynu ystyried gofynion y Canllawiau Golygyddol ar Niwed a Thramgwydd sydd mewn grym adeg ailddefnyddio, ailfersiynu neu ail-ddarparu'r deunydd. Dylid ystyried y canlynol:

- Newidiadau yn agweddau'r cyhoedd at ddeunyddiau a allai achosi tramgwydd, gan gynnwys noethni, iaith, portread, alcohol, defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac ysmygu

- Unrhyw newid, er enghraifft, yn y slot darlledu neu'r sianel, a fyddai'n gallu dylanwadu'n fawr ar ddisgwyliadau'r gynulleidfa

- Yn aml bydd nifer o bobl yn pori'r rhyngrwyd drwy ddilyn dolenni o beiriannau chwilio neu drwy ddod ar draws deunyddiau'r BBC sydd wedi cael eu plannu mewn safleoedd eraill. Mae hyn yn golygu na allwn dybio y bydd defnyddwyr ar-lein bob amser yn barod am y deunyddiau y byddant yn dod o hyd iddynt. Efallai na fyddant yn sylweddoli ar unwaith bod y cynnwys yn dod o'r archif, a allai o bosibl gynyddu'r perygl o achosi tramgwydd.

Pan na fyddai deunyddiau o'r archif yn cael eu darlledu fel rheol gan y BBC heddiw oherwydd bod safonau neu agweddau wedi newid, efallai fod rhesymau dros ei ddarparu nawr oherwydd, er enghraifft, efallai ei fod o ddiddordeb hanesyddol neu ddiwylliannol. Fodd bynnag, dylai'r deunydd fod

wedi'i amserlennu'n briodol a/neu ei gyfeirio a dylai fod yn glir i'r gynulleidfa nad yw'n gyfoes.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.1 Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol a 5.4.2 – 5.4.3)

13.4.14 Ar adegau, gall digwyddiadau ac amgylchiadau cyfredol olygu ei bod yn amhriodol ailddefnyddio, ailfersiynu neu ail-ddarparu deunydd o'r archif ac, o bryd i'w gilydd, gall hyn olygu ei bod yn rhaid tynnu dolenni neu ddeunyddiau ar-alw.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 7.4.22 - 7.4.24)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Tynnu Deunyddiau Ar-lein i Lawr)

13.4.15 Rhaid i ni sicrhau bod gennym gyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio deunydd trawmatig o'r archif, yn enwedig pan fydd yn cynnwys pobl mae modd eu hadnabod. Ni ddylid byth ei ddefnyddio fel "papur wal" nac i ddangos themâu cyffredinol. Rhaid glynu wrth unrhyw gyfyngiadau a roddir ar ailddefnyddio deunyddiau o'r archif.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.6 - 13.4.11)

## Syndicetio a Dosbarthu ar Sianeli a Mannau nad ydynt yn perthyn i'r BBC

13.4.16 Mae syndicetio yn cynnwys y ffyrdd mae'r BBC yn darparu ei gynnwys i gynulleidfaoedd drwy drydydd partïon. Gall fod yn seiliedig ar gontractau ffurfiol neu "hunanwasanaeth" (pan fydd y cynnwys ar gael i drydydd partïon ddewis ohono heb unrhyw ofyniad contract ffurfiol). Mae'n cynnwys unrhyw gynnwys, boed yn glip rhagflas, yn ddarn o raglen neu'n rhaglen lawn, a gall fod ar amrywiaeth o lwyfannau.

Mae syndicetio ar-lein, er enghraifft, yn ein helpu i gynyddu cyrhaeddiad drwy ymgysylltu â defnyddwyr y tu hwnt i BBC Ar-lein.

13.4.17 Dylai'r holl ddeunyddiau sy'n cael eu syndicetio i drydydd partïon gael eu cynnig ar sail deg a rhesymol a heb wahaniaethu. Oni bai fod amgylchiadau penodol yn cyfiawnhau gwahaniaethau, dylai telerau'r contract fod yr un fath yn eu hanfod ar gyfer pob trefniant syndicetio.

13.4.18 Yn amodol ar brawf gwerth am arian, ac fel y mae'r dechnoleg yn caniatáu, dylid rhoi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar sail llwyfan-niwtral. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn dylunio cynnyrch neu becynnau syndicetio gwahanol ar gyfer llwyfannau neu dechnolegau penodol, pan geir cyfiawnhad dros hyn. Gallwn flaenoriaethu cyfleoedd syndicetio penodol ar sail meini prawf gwrthrychol megis cydymffurfiad, maint y gynulleidfa neu ddemograffeg y gynulleidfa. Dylid ystyried yr effaith ar y farchnad ehangach a gwerth am arian gweithgareddau syndicetio.

13.4.19 Rhaid i syndicetio cynnwys gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, hawliau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys Polisi Syndicetio

Ymddiriedolaeth y BBC a Chanllawiau Syndicetio Ar-alw y BBC (megis y rheini mewn perthynas â hysbysebu).

13.4.20 Dylid cael gwahaniaeth clir rhwng cynnwys gwasanaeth cyhoeddus y BBC a chynnwys masnachol y BBC.

13.4.21 Dylid rhoi mesurau priodol ar waith er mwyn amddiffyn enw da y BBC a didwylledd cynnwys y BBC.

## Ceisiadau am Ddeunydd y BBC gan Drydydd Parti[1].

### *Deunyddiau a Ddarlledwyd*

*(Ceisiadau am ddeunyddiau sydd eisoes wedi cael eu darlledu neu eu darparu i'r cyhoedd gan y BBC.)*

13.4.22 **Os oes unrhyw geisiadau am ddeunydd a ddarlledwyd yng nghyswllt achos llys, neu weithdrefnau eraill a allai ystyried y deunydd fel tystiolaeth (megis gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoliadol), rhaid eu cyfeirio at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol**.

13.4.23 Wrth ystyried ceisiadau eraill am ddeunyddiau o'r fath byddwn:

- yn ystyried unrhyw oblygiadau hawlfraint, cyfreithiol, contractaidd a golygyddol yn deg
- fel rheol byddwn yn codi ffi sy'n adlewyrchiad realistig o gost neu anawsterau ymarferol darparu'r deunydd
- fel rheol byddwn yn mynnu cael cytundeb ysgrifenedig y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion sy'n cynnal didwylledd y deunydd a'r BBC.

### *Deunydd nad yw wedi'i Ddarlledu*

13.4.24 Os oes ceisiadau gan drydydd parti i gael gafael ar ddeunydd nad yw wedi cael ei ddefnyddio, megis nodiadau, fideo heb ei olygu ("brysluniau") neu recordiadau sain, fel rheol dylid cyfeirio'r rhain at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu: 13.4.27)

13.4.25 Os oes unrhyw gynnig i roi manylion personol, sylwadau neu wybodaeth bersonol arall cyfrannwr i drydydd parti heb gydsyniad y cyfrannwr, dylid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â Pholisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad a Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.50)

[1] Nid yw'r adran hon o'r Canllawiau Golygyddol, 13.4.22 i 13.4.27, yn berthnasol i ofynion statudol i gynhyrchu deunyddiau, er enghraifft i Ofcom.

13.4.26 Ni fyddwn byth yn caniatáu mynediad at ddeunyddiau nas defnyddiwyd o'n gwirfodd:

- petai gwneud hynny'n rhoi pobl sy'n gweithio i'r BBC mewn perygl
- petai hynny'n ei gwneud yn anos casglu deunyddiau o'r fath yn y dyfodol
- os yw'n ymddangos bod y ceisiadau yn "tyrchu" am dystiolaeth
- os yw'r deunydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu ffynhonnell neu gyfrannwr cyfrinachol
- os yw'n gwrthdaro â'n dyletswyddau dan gontract
- pan fydd ei drosglwyddo yn gallu amharu ar hawliau trydydd partïon.

Gellid hefyd niweidio didwylledd golygyddol y BBC petai sefydliadau ac unigolion eraill yn cael mynediad at ddeunyddiau nad ydynt wedi'u darlledu cyn i'r BBC ei hun eu defnyddio. Er enghraifft, fel rheol ni fyddwn yn rhyddhau deunyddiau heb eu darlledu i sefydliadau at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus, marchnata neu fasnachol.

13.4.27 **Os oes unrhyw geisiadau am ddeunydd na chafodd ei ddarlledu neu ei ddefnyddio, gan gynnwys nodiadau, gan yr heddlu a/neu mewn cysylltiad ag achos llys, achos llys posibl neu weithdrefnau eraill a allai ystyried y deunydd fel tystiolaeth (megis gwrandawiadau disgyblu gan gyrff rheoliadol), rhaid cyfeirio'r ceisiadau hynny at Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol**.

Fel rheol ni fydd y BBC yn trosglwyddo deunydd nad yw wedi cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau o'r fath, gan gynnwys i'r heddlu, heb orchymyn llys. Ambell waith, gall fod yn briodol cytuno i orchymyn o'r fath, ar adegau eraill bydd angen ei herio ac apelio gerbron y llysoedd uwch.

Mae'r heddlu yn gwneud nifer fawr o geisiadau am ddeunyddiau nad ydynt wedi cael eu darlledu. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, byddant yn defnyddio Gorchmynion PACE (dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984) i fynnu rhyddhau deunyddiau i'w defnyddio fel tystiolaeth. Yn yr Alban, caiff y Siryf roi gwarant ar gyfer deunyddiau, neu caiff yr Arglwydd Adfocad geisio adfer deunyddiau o'r fath drwy ddeiseb neu orchymyn.

Nid oes dim dyletswydd cyfreithiol arnom i gadw dogfennau, cofnodion na deunyddiau nad ydynt wedi cael eu defnyddio oni bai a nes iddynt fod yn destun cais gan yr heddlu neu'r llysoedd neu os oes gwir fygythiad o ymgyfreitha.

# ADRAN 14: DIDWYLLEDD AC ANNIBYNIAETH GOLYGYDDOL AR FUDDIANNAU ALLANOL

**14.1 Cyflwyniad**
**14.2 Egwyddorion**
**14.3 Cyfeirio Gorfodol**
**14.4 Arferion**
**Lleoli Cynnyrch**
**Amlygu Cynnyrch**
**Cyfleusterau, Cynnyrch a Gwasanaethau Am Ddim neu Ratach**
**Dolenni Ar-lein i Wefannau Trydydd Parti**
**Logos a Chydnabyddiaeth Ar-lein**
**Sianeli, Gwasanaethau a Chynnyrch Masnachol y BBC**
**Rhaglenni Gemau**
**Hysbysebu a Brand y BBC**
**Gwasanaethau Cefnogi'r BBC**

*(Sylwer: Nid yw'r adran hon yn berthnasol i wasanaethau masnachol y BBC. Mae canllawiau ar wahân ar gyfer gwasanaethau masnachol y BBC ynghylch Didwylledd ac Annibyniaeth Golygyddol ar Fuddiannau Allanol).*

## 14.1 CYFLWYNIAD

Mae enw da’r BBC, yn y DU ac ym mhedwar ban byd, yn seiliedig ar ei ddidwylledd a’i annibyniaeth golygyddol. Rhaid i’n cynulleidfaoedd allu ymddiried yn y BBC a bod yn ffyddiog na ddylanwadir ar ein penderfyniadau golygyddol gan fuddiannau allanol, pwysau gwleidyddol na masnachol nac unrhyw fuddiannau personol.

Mae’r adran hon o’r Canllawiau Golygyddol yn ymwneud â phenderfyniadau golygyddol a chynhyrchu ein hallbwn. Dylid ei darllen ar y cyd ag Adran 15 Gwrthdaro rhwng Buddiannau, sy’n ymwneud â sicrhau nad yw gweithgareddau allanol y rheini sy’n ymwneud â gwneud cynnwys yn rhoi didwylledd golygyddol y BBC yn y fantol.

## 14.2 EGWYDDORION

14.2.1 Rhaid i ni fod yn annibynnol ar fuddiannau a threfniadau allanol a allai danseilio ein didwylledd golygyddol.

14.2.2 Rhaid i ni beidio â chymeradwyo nac ymddangos ein bod yn cymeradwyo unrhyw sefydliad arall, ei gynnyrch, ei weithgareddau, ei wasanaethau, ei safbwyntiau na’i farn.

14.2.3 Rhaid i ni beidio â rhoi gormod o amlygrwydd i gynnyrch neu wasanaethau masnachol.

14.2.4 Rhaid peidio â lleoli cynnyrch mewn rhaglenni.

14.2.5 Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros gydnabyddiaeth ar yr awyr ac ar-lein.

14.2.6 Rhaid i ni beidio byth â chynnwys dolen ar wefan gwasanaeth cyhoeddus neu yng nghynnwys golygyddol safle masnachol, yn gyfnewid am arian, gwasanaethau neu unrhyw ystyriaethau ymarferol eraill.

14.2.7 Rhaid i ni beidio â hyrwyddo gormod ar gynnyrch masnachol y BBC neu gynnyrch a gwasanaethau masnachol cysylltiedig y BBC ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

## 14.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

14.3.1 Rhaid i unrhyw gais, mewn unrhyw amgylchiadau, i gario allbwn sy'n gofyn am arwyddo ar gyfer lleoli cynnyrch ar wasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded, gael ei ystyried ymlaen llaw gan y cyfarwyddwr adrannol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol yn y lle cyntaf, a byddant hwy'n cyfeirio'r cynnig at y Prif Gyfarwyddwr, er cymeradwyaeth.

*(Gweler 14.4.2)*

### *Cyfeirio at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol*

14.3.2 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys cynnyrch masnachol neu glipiau hysbysebu mewn clipiau rhagflas at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 14.4.7)

14.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i berchennog cartref gyfrannu at gost y deunyddiau ar gyfer rhaglen gweddnewid at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 14.4.15)

14.3.4 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i roi clip rhagflas am gynhyrchion masnachol ar raglenni'r BBC neu radio'r BBC at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 14.4.28)

14.3.5 Rhaid i'r Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol gymeradwyo unrhyw gais i dderbyn cyllid gan sefydliad masnachol ar gyfer deunyddiau neu wasanaethau cefnogi oddi ar yr awyr.

(Gweler 14.4.35)

### *Cyfeirio Arall*

14.3.6 Wrth gynllunio i ddangos cynnyrch, brand neu wasanaeth penodol ar nifer o raglenni neu gynnwys arall (ac eithrio allbwn newyddion a materion cyfoes), a ddarlledir dros gyfnod byr (er enghraifft, un diwrnod) rhaid cyfeirio'r mater i sylw'r rheolydd(ion) allbwn perthnasol, a fydd yn ystyried unrhyw effaith gronnus cynnwys

o'r fath ac a oes cyfiawnhad golygyddol iddo yn gyffredinol. Rhaid cyfeirio at Bolisi Golygyddol ar gam cynnar hefyd, a all ymgynghori â Masnachu Teg os yw hynny'n berthnasol.

(Gweler 14.4.5)

14.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i dderbyn cyfleuster cyfryngau neu daith canfod ffeithiau a'r holl gostau wedi'u talu at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 14.4.16)

14.3.8 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gyfeirio yn ein cynnwys at weithredwyr masnachol sy'n cynnig cyfleuster cyfryngau neu daith canfod ffeithiau a'r holl gostau wedi'u talu at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.

(Gweler 14.4.17)

14.3.9 Os oes unrhyw gynnig i ddefnyddio logos masnachol ar BBC Ar-lein, rhaid i uwch swyddog golygyddol, neu'r golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, gymeradwyo hynny ymlaen llaw. Nid yw hyn yn berthnasol pan fydd y logo yn rhan o gydnabyddiaeth cyd-gynhyrchu.

(Gweler 14.4.21)

## 14.4 ARFERION

### Lleoli Cynnyrch

14.4.1 Lleoli cynnyrch yw cynnwys neu gyfeiriad at gynnyrch neu wasanaeth am daliad neu unrhyw gydnabyddiaeth ymarferol. Gwaherddir defnyddio lleoli cynnyrch mewn gwasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded o dan delerau Cytundeb y BBC.

Rhaid i'r BBC beidio â chomisiynu, cynhyrchu na chyd-gynhyrchu allbwn sy'n cynnwys lleoli cynnyrch ar gyfer ei wasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded. Rhaid i'r holl raglenni a wneir gan y BBC neu gynhyrchydd annibynnol i'w ddarlledu ar wasanaethau a gyllidir gan ffi trwydded y BBC beidio â chynnwys lleoli cynnyrch.

14.4.2 Rhaid i unrhyw raglen a ddarlledir a gafwyd gan drydydd parti, fel cyfres ddrama o America, sy'n cynnwys lleoli cynnyrch ond nad oes angen cynnwys arwyddion, fod yn unol ag Arweiniad manwl y BBC ar Leoli Cynnyrch, Cod Darlledu Ofcom a Rheoliadau'r Llywodraeth ar Leoli Cynnyrch.

*Nid yw gwasanaethau a gyllidir gan ffi trwydded y BBC yn darlledu cynnwys sy'n gofyn am roi arwydd am leoli cynnyrch.* **Os ceir unrhyw gynnig, mewn unrhyw amgylchiadau, i gario allbwn sy'n gofyn am roi arwydd am leoli cynnyrch ar wasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded, rhaid i'r cyfarwyddwr rhanbarthol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ei ystyried ymlaen llaw yn y lle cyntaf, a byddant hwy yn cyfeirio'r cynnig at y Prif Gyfarwyddwr er cymeradwyaeth.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Lleoli Cynnyrch)

14.4.3 Mewn rhai amgylchiadau, gall sianeli teledu masnachol y BBC, dderbyn lleoli cynnyrch priodol cyn belled â nad yw'n tanseilio didwylledd golygyddol y rhaglen na'r sianel. Rhaid i unrhyw leoli cynnyrch ar sianeli masnachol y BBC fod yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC ynghylch Didwylledd ac Annibyniaeth Golygyddol ar Fuddiannau Allanol, a phan fo hynny'n berthnasol, Cod Darlledu Ofcom a Rheoliadau'r Llywodraeth ar leoli cynnyrch.

## Amlygu Cynnyrch

14.4.4 Mae arnom angen gallu adlewyrchu'r byd go iawn a bydd hyn yn golygu cyfeirio at gynnyrch, sefydliadau a gwasanaethau masnachol yn ein hallbwn. Fodd bynnag, rhaid i ni osgoi rhoi gormod o amlygrwydd sy'n rhoi'r argraff ein bod yn hyrwyddo neu'n cymeradwyo cynnyrch, sefydliadau neu wasanaethau. Er mwyn gwireddu hyn, rhaid i ni:

- sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol clir dros gyfeirio at enwau masnachu, enwau brandiau a sloganau
- peidio ag oedi ar enwau brand na logos a chyfeirio atynt ar lafar yn anaml oni bai fod rhesymau golygyddol cryf iawn dros gyfeirio at frand droeon
- peidio â derbyn cynnyrch neu wasanaethau rhatach neu am ddim yn gyfnewid am gydnabyddiaeth ar yr awyr neu ar-lein, nac am ddolenni neu farchnata oddi ar yr awyr
- bod yn hynod ofalus i leihau'r cyfeiriadau at gynnyrch a geir mewn allbwn sydd wedi'i ddylunio i apelio at blant
- dim ond pan geir cyfiawnhad golygyddol amlwg y ceir defnyddio deunyddiau gan ymgyrchoedd hysbysebu. At ei gilydd, dim ond defnyddio darn byr a dderbynnir. Efallai y ceir ystyriaethau hawlfraint hefyd.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.19 - 14.4.22)

14.4.5 Hefyd, dylid ystyried yr effaith gronnus bosibl wrth gynllunio i ddangos cynnyrch, brand neu wasanaeth penodol nifer o weithiau yn ein hallbwn dros gyfnod cyfyngedig, i sicrhau nad yw hyn yn arwain at roi gormod o amlygrwydd. Gall y termau "brand" neu "gynnyrch" hefyd gynnwys artist, perfformiwr, neu waith artistig fel ffilm neu record, yn enwedig yn ystod y cyfnod pan ryddheir rhywbeth newydd.

**Wrth gynllunio i ddangos cynnyrch, brand neu wasanaeth penodol ar nifer o raglenni neu gynnwys arall (ac eithrio allbwn newyddion a materion cyfoes), a ddarlledir dros gyfnod byr (er enghraifft, un diwrnod) rhaid cyfeirio'r mater i sylw'r rheolydd(ion) allbwn perthnasol, a fydd yn ystyried unrhyw effaith gronnus cynnwys o'r fath ac a oes cyfiawnhad golygyddol iddo yn gyffredinol.**

**Rhaid cyfeirio at Bolisi Golygyddol yn gynnar yn y broses hefyd, a all ymgynghori â Masnachu Teg os yw hynny'n berthnasol.**

Rhaid i’r holl drefniadau marchnata ar yr awyr ac oddi ar yr awyr fod yn briodol ac wedi’u cyfiawnhau’n olygyddol.

***Amlygu Cynnyrch mewn Clipiau Rhagflas***

14.4.6 Fel rheol dylem osgoi cyfeirio at gynnyrch neu at wasanaethau masnachol mewn clipiau rhagflas ar gyfer rhaglenni neu mewn deunyddiau marchnata ar gyfer rhaglenni’r BBC. Os cyfeirir at gynnyrch neu wasanaeth â brand, rhaid i ni sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol clir dros hynny.

14.4.7 Fel rheol ni ddylem ddefnyddio hysbysebion trydydd parti mewn clipiau rhagflas rhaglenni.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys cynnyrch masnachol neu glipiau hysbysebu mewn clipiau rhagflas rhaglenni at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

***Gormod o Amlygrwydd a Chyfranwyr***

14.4.8 Rhaid i ni osgoi rhoi gormod o amlygrwydd pan fydd cyfranwyr yn ymddangos ar raglenni sgwrsio a rhaglenni eraill pan fyddant yn hyrwyddo cynnyrch, megis ffilm, albwm neu lyfr. Er bod trafodaeth olygyddol iawn yn hollol dderbyniol, fel rheol ni ddylid defnyddio’r cynnyrch dan sylw fel prop oni bai fod cyfiawnhad golygyddol clir fel arall. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros unrhyw gyfeiriadau gweledol, yn enwedig lluniau agos o glawr albwm neu dudalennau llyfr.

***Buddion Personol***

14.4.9 Ni ddylai neb sy’n gweithio i’r BBC gael dim buddion personol gan gyflenwyr, na derbyn nwyddau na gwasanaethau fel cymhelliad dan unrhyw amgylchiadau.

(Gweler Adran 15 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 15.4.30)

***Adolygu Cynnyrch neu Wasanaethau***

14.4.10 Rhaid i ni sicrhau na cheir dim elfen o roi hỳs-bỳs pan fyddwn yn adolygu cynnyrch neu wasanaethau. Dylem adolygu ystod gan gyflenwyr gwahanol. Fel rheol ni ddylem roi manylion ar yr awyr ynghylch sut a ble mae cael gafael ar y cynnyrch neu’r gwasanaethau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid rhoi manylion o’r fath pan fydd cyfiawnhad golygyddol clir a dylem sôn am ystod o fannau.

Yn achos llyfrau, CDs, DVDs a deunyddiau eraill tebyg, fel rheol cawn dderbyn copïau i’w hadolygu. Caiff y rheini sy’n gyfrifol am adolygu neu drafod theatr, cyngherddau neu ddigwyddiadau neu berfformiadau eraill dderbyn tocynnau adolygu. Fodd bynnag, os ydym yn adolygu cynnyrch sydd â gwerth sylweddol, megis peiriant golchi dillad neu gar, rhaid i ni ddychwelyd y cynnyrch i’r gweithgynhyrchwr neu i’r cyflenwr.

***Cyflenwi Propiau mewn Drama, Comedi neu Adloniant***

14.4.11 Rhaid i ni sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol clir dros ddefnyddio neu gyfeirio at gynnyrch, gwasanaethau neu sefydliadau â brand yn ein rhaglenni drama,

comedi ac adloniant a bod amrywiaeth eang yn cael ei defnyddio dros amser er mwyn osgoi rhoi gormod o amlygrwydd.

14.4.12 Fe rheol dylem sicrhau nad oes modd gweld y brand yn glir, a dylid osgoi lluniau agos pan fydd cynnyrch go iawn yn cael ei ddefnyddio ar setiau. Pan fydd brandiau'n cael eu dangos, fel rheol mae'n anodd rhoi cyfiawnhad golygyddol dros gyfeirio atynt ar lafar yn ogystal ag yn weledol.

14.4.13 Fel rheol ni chaiff propiau eu derbyn am ddim. Pan fydd yn bosibl, dylai cynyrchiadau'r BBC ddefnyddio'r safle caffael propiau mewnol a chyflenwyr a ffafrir. Pan dderbynnir propiau am ddim neu'n rhatach dylid cael:

- cofnodion clir o'r holl bropiau a gafwyd am ddim neu'n rhatach
- dim gwarant y bydd unrhyw gynnyrch neu wasanaeth yn cael ei gynnwys mewn rhaglen, ac os caiff ei gynnwys, dim gwarant y caiff ei ddangos mewn modd ffafriol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Propiau)

## Cyfleusterau, Cynnyrch a Gwasanaethau Am Ddim neu Ratach

14.4.14 Fel rheol dylem dalu am deithio, llety a'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau eraill rydym yn eu defnyddio. Dim ond ychydig o feysydd allbwn penodol sy'n cael derbyn cyfleusterau, cynnyrch neu wasanaethau am ddim neu'n llawer rhatach.

O bryd i'w gilydd caiff rhaglenni defnyddwyr a ffyrdd o fyw sy'n adolygu neu'n cynnwys ystod eang o gynnyrch dderbyn cynnyrch neu wasanaethau am ddim neu'n rhatach. Ond mewn achosion o'r fath, mae'n hanfodol ein bod:

- yn cadw cofnodion adrannol cywir o'r hyn sydd wedi cael ei dderbyn
- dim ond derbyn disgownt os ydynt yn unol â'r rheini a gynigir i sefydliadau mawr eraill
- yn peidio â gwarantu y bydd unrhyw gynnyrch neu wasanaeth yn cael ei gynnwys mewn rhaglen, ac os caiff ei gynnwys, y caiff ei ddangos mewn modd ffafriol
- yn rhoi gwybod i gyflenwyr na chânt gyfeirio at ddefnydd y BBC o'u cynnyrch neu eu gwasanaethau mewn unrhyw ddeunyddiau hysbysebu neu hyrwyddo
- dim ond rhoi cydnabyddiaeth ar yr awyr ac ar-lein os oes cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny. Ni ddylai'r BBC byth addo dangos manylion cyflenwr ar-lein yn gyfnewid am gyflenwi cynnyrch neu wasanaethau am ddim neu'n rhatach.

Rhaid i gyflenwyr beidio â chael dim llais golygyddol yn y rhaglen ac ni ddylent gael rhagolwg ohoni.

***Rhaglenni Gweddnewid***

14.4.15 Rhaid i'r BBC bob amser dalu am gostau cynhyrchu llawn rhaglenni gweddnewid a bydd hefyd yn talu am gostau gweddnewid y cartref ei hun pan fydd gweddnewid o'r fath wedi'i ddechrau'n uniongyrchol gan y BBC.

**Fodd bynnag, mewn rhai achosion prin, gall fod yn briodol i'r perchennog gyfrannu at gost y deunyddiau ar gyfer gweddnewid. Rhaid i drefniadau o'r fath gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen a rhaid eu cyfeirio at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol: 16.4.13 - 16.4.15)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhaglenni Gweddnewid)

***Cyfleusterau Cyfryngau a Theithiau Canfod Ffeithiau***

**14.4.16 Fel rheol ni ddylem dderbyn teithiau a'r holl gostau wedi'u talu oni bai mai dyma'r unig ffordd o roi sylw i ddigwyddiad pwysig, megis taith gyntaf awyren, mordaith gyntaf neu weithred filwrol.**

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i dderbyn unrhyw daith o'r fath a'r holl gostau wedi'u talu at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.** Dylem hefyd ystyried a ddylem gyfrannu at y gost.

14.4.17 **Fel rheol ni ddylem gyfeirio yn ein cynnwys at y gweithredwyr masnachol sy'n cynnig y cyfleuster. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hyn at uwch swyddog golygyddol neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol.**

Rhaid i ni sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol clir dros unrhyw gyfeiriad yn ein cynnwys at unrhyw sefydliad sydd wedi hwyluso taith, er enghraifft elusen neu grŵp lobïo.

***Deunyddiau neu Straeon Hyrwyddo a Gyflenwir gan Gyrff Allanol***

14.4.18 Rhaid i ni ddewis a chynnwys straeon am ein rhesymau golygyddol annibynnol ein hunain a rhaid i ni ochel rhag "sbin" gan gyrff allanol a chwmnïau masnachol a allai geisio rhoi straeon ar draws ein gwasanaethau dros gyfnod byr.

Rhaid i ni sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol clir dros enwi cynnyrch, gwasanaeth neu sefydliad mewn adroddiad newyddion neu mewn cynnwys ffeithiol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.4 - 14.4.13 ac
Adran 3 Cywirdeb: 3.4.5 -3.4.6)

## Dolenni Ar-lein i Wefannau Trydydd Parti

14.4.19 Mae gweithredu fel "*canllaw yr ymddiriedir ynddo ar y we*" yn rhan o swyddogaeth y BBC. Pryd bynnag y byddwn yn creu cynnwys ar un o safleoedd y BBC dylem ystyried pa safleoedd allanol y gellir cyfiawnhau creu dolenni iddynt yn olygyddol. Rydym yn cynnig dolenni allanol o safleoedd gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac o dudalennau golygyddol y safleoedd masnachol, er enghraifft i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, deunyddiau ffynhonnell neu sylwadau gwybodus. Fel rheol

dylai safleoedd y BBC sy'n sôn am faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol'[1] arall gynnig dolenni i safleoedd allanol sy'n cynrychioli ystod resymol o safbwyntiau am y pwnc.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.10)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein Dolenni a Chrynodebau)

14.4.20 Rhaid i ni beidio â rhoi'r argraff ein bod yn cymeradwyo cynnyrch neu wasanaeth penodol wrth greu dolen i safle masnachol. Rhaid i ni beidio byth â chynnwys dolen ar wefan gwasanaeth cyhoeddus neu yng nghynnwys golygyddol safle masnachol, yn gyfnewid am arian, gwasanaethau neu unrhyw ystyriaethau ymarferol eraill.

Dylid cael cyfiawnhad golygyddol dros y dolenni y byddwn yn eu creu a dylent arwain i safleoedd sydd:

- yn amlwg yn berthnasol i'r cynnwys ar dudalen y BBC lle rhoddir y ddolen
- yn addas i'r gynulleidfa debygol

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.15 - 5.4.17)

- yn cael eu diweddaru'n rheolaidd os yw hynny'n briodol
- am ddim fel rheol
- yn ffeithiol gywir fel arfer.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.15)

Dylai golygyddion gweithredol rhyngweithiol adolygu addasrwydd cynnal y dolenni hyn fel sy'n briodol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Dolenni a Chrynodebau)

## Logos a Chydnabyddiaeth Ar-lein

14.4.21 Fel rheol ni ddylai cyfeiriadau golygyddol at gwmnïau neu sefydliadau eraill ar BBC Ar-lein gynnwys eu logo o gwbl. Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio unrhyw logos masnachol ar safleoedd y BBC. **Os oes unrhyw gynnig i ddefnyddio logos masnachol ar BBC Ar-lein, rhaid i uwch swyddog golygyddol, neu'r golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, gymeradwyo hynny ymlaen llaw.** Nid oes angen cymeradwyaeth o'r fath pan fydd y logo yn rhan o gydnabyddiaeth cyd-gynhyrchu.

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol: 16.4.4 - 16.4.6)

14.4.22 Mae'r BBC yn ceisio cynnig cydnabyddiaeth deg a phriodol ar BBC Ar-lein. Fel rheol byddwn yn rhoi cydnabyddiaeth cynhyrchu, cydnabyddiaeth am gyflenwi

[1] Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: Pynciau Dadleuol

deunyddiau gan drydydd parti, cydnabyddiaeth ar gyfer rhai digwyddiadau allanol a chydnabyddiaeth ar gyfer rhai darparwyr meddalwedd. Ar adegau, gall fod yn briodol rhoi cydnabyddiaeth am wybodaeth allanol er mwyn bod yn dryloyw.

Caiff unrhyw gydnabyddiaeth ei rhoi ar ddisgresiwn y BBC. Ar ben hynny:

- dylai fod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny
- ni ddylai fod yn rhy amlwg
- rhaid bod yn ofalus gyda logos trydydd parti, a dim ond mewn amgylchiadau penodol y dylid eu defnyddio
- nid yw creu dolenni i safle trydydd parti yn dderbyniol fel math o gydnabyddiaeth.

Ni chawn gytuno ar gydnabyddiaeth ar-lein fel unrhyw rag-amod ar gyfer cynnig cynnyrch neu wasanaethau am ddim neu'n rhatach dan unrhyw amgylchiadau.

(Gweler Adran Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol 14.4.37)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Logos a Chydnabyddiaeth Ar-lein)

## Sianeli, Gwasanaethau a Chynnyrch Masnachol y BBC

### *Cyfeirio at Wasanaethau a Sianeli Masnachol y BBC*

14.4.23 Rhaid i ni beidio â defnyddio ein sianeli na'n gwasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded i hyrwyddo unrhyw un o wasanaethau masnachol y BBC. Ar allbwn a gyllidir gan ffi'r drwydded, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol clir dros bob cyfeiriad at wasanaethau masnachol megis gwefannau, sianeli rhyngwladol neu unrhyw sianel menter ar y cyd yn y DU neu'n rhyngwladol. Ni ddylai gwasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded ddangos clipiau rhagflas o sianeli, gwasanaethau na rhaglenni masnachol.

### *Cyfeirio at Gynnyrch Masnachol sy'n ymwneud â Rhaglenni a Gwasanaethau'r BBC*

14.4.24 Caiff y BBC a chwmnïau annibynnol sy'n gweithio i'r BBC gynhyrchu a thrwyddedu cynnyrch a gwasanaethau masnachol i wella ac i ategu ein hallbwn. Fodd bynnag, ni chawn byth roi'r argraff ein bod yn hyrwyddo unrhyw gynnyrch masnachol ar yr awyr neu ar-lein yn annheg. Rhaid i unrhyw gyfeiriadau at gynnyrch sy'n ymwneud â'r BBC fod am resymau golygyddol clir ac ni ddylid cael dim elfen o roi hŷs-bŷs.

Ceir rhai cyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol sy'n ymwneud â chyfeirio at gynnyrch masnachol, gan gynnwys ymrwymiadau i'r Swyddfa Masnachu Teg.

14.4.25 Yn benodol, rhaid i ni ofalu nad ydym yn hyrwyddo cylchgronau'r BBC a rhaid i ni sicrhau:

- nad oes dim un o raglenni na safleoedd ar-lein y BBC yn sôn am un o gylchgronau'r BBC mewn ffordd y gellid ystyried ei bod yn hyrwyddo neu'n annog pobl i'w prynu
- bod cyfiawnhad golygyddol clir dros unrhyw gyfweliadau â golygyddion neu ysgrifenwyr cylchgronau'r BBC ac na chaiff unigolion o'r fath eu defnyddio'n rhy aml
- na ddywedir ar yr awyr nac ar-lein am unrhyw gefnogaeth oddi ar yr awyr a roddir gan gyhoeddiadau'r BBC. Er enghraifft, os bydd ffurflenni rhoi cynnig ar gystadleuaeth yn ymddangos yng nghylchgronau'r BBC, rhaid i ni beidio â chyfeirio at hyn ar yr awyr nac ar-lein.

***Clipiau Rhagflas ar gyfer Cynnyrch Masnachol sy'n ymwneud â Rhaglenni'r BBC***

14.4.26 Rhaid i ni beidio â sôn mewn ffordd sy'n hyrwyddo am gynnyrch sy'n ymwneud â'r BBC mewn rhaglenni, er bod modd i ni ddarlledu clipiau rhagflas ar gyfer rhai cynnyrch sy'n ymwneud â'r BBC ar ôl y rhaglenni perthnasol.

Rhaid peidio â rhoi rhagflas o gylchgronau'r BBC ar y radio, ar y teledu nac ar-lein. Fodd bynnag, mae llyfrau, recordiadau, DVDs, CDs a CD ROMs sy'n ymwneud â'r BBC yn fathau o gynnyrch mae modd rhoi rhagflas ohonynt pan fydd hynny'n briodol. Ni fyddwn yn cynhyrchu clipiau rhagflas ar gyfer mathau arall o farsiandïaeth.

14.4.27 Rhaid i unrhyw gynnyrch mewn clipiau rhagflas fod dan reolaeth olygyddol y BBC a rhaid iddo fod wedi'i gomisiynu, ei drwyddedu neu ei ddatblygu'n uniongyrchol ar y cyd â'r rhaglen dan sylw. Caiff deunyddiau mewn clipiau rhagflas eu cyhoeddi gan BBC Worldwide neu gan sefydliad allanol. Dylai clipiau rhagflas neu gyhoeddiadau ar ôl rhaglenni roi gwybodaeth ffeithiol heb elfen o froliant. Rhaid i bob clip rhagflas fod yn unol â'r arweiniad manwl.

14.4.28 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i roi clipiau rhagflas o gynhyrchion masnachol sy'n ymwneud â rhaglenni'r BBC neu radio'r BBC at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

***Clipiau Rhagflas ar BBC Ar-lein ar gyfer Cynnyrch Masnachol sy'n ymwneud â Rhaglenni'r BBC***

14.4.29 Er na chawn hyrwyddo cynnyrch masnachol sy'n ymwneud â'r BBC yn ein gwasanaethau ar-lein sy'n derbyn arian cyhoeddus, mewn rhai amgylchiadau cawn gynnig clipiau rhagflas gwybodaeth benodol ar BBC Ar-lein.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw glip rhagflas o'r fath a dim ond ar y tudalennau penodol sy'n cefnogi'r rhaglenni dan sylw y caiff ymddangos. Cânt gynnwys graffigyn bach neu lun llonydd ac, mewn rhai achosion, dolen i dudalen ar safle masnachol lle gellir prynu cynnyrch masnachol sy'n ymwneud â rhaglenni'r BBC.

Rhaid i ni beidio â chynnwys clipiau rhagflas ar gyfer cylchgronau'r BBC ar BBC Ar-lein.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.27)

***Dolenni o BBC Ar-lein i Brynu Cynnyrch Masnachol sy'n ymwneud â Rhaglenni'r BBC***

14.4.30 Er mwyn bod yn 'ganllaw yr ymddiriedir ynddo ar y we' ac er mwyn cyflawni ein dibenion cyhoeddus, o bryd i'w gilydd caiff BBC Ar-lein gynnig cyfle i'w ddefnyddwyr brynu cynnwys rhaglenni penodol sy'n ymwneud â'r BBC gan amrywiaeth o gyflenwyr masnachol ar-lein.

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Caiff tudalennau sy'n cynnwys clipiau rhagflas gynnig dolenni at ddechrau'r daith o BBC Ar-lein i safle adwerthwr a awgrymir os yw hynny'n olygyddol berthnasol
- Ni cheir gwneud dim trafodion ar BBC Ar-lein
- Rhaid iddo fod yn glir i ddefnyddwyr pan fyddant yn gadael safle'r BBC ac yn mynd i safle masnachol
- Rhaid dewis adwerthwyr a awgrymir yn ôl meini prawf cadarn, gwrthrychol a thryloyw
- Chaiff adwerthwyr a awgrymir ddim gwneud dim taliadau i'r BBC am fod wedi'u rhestru ar y gwasanaeth nac am ddolenni o BBC Ar-lein i'w safleoedd masnachol
- Rhaid i brofiad y defnyddiwr, gan gynnwys y ffordd caiff adwerthwyr eu dewis a'u cyflwyno, fod yn deg ac yn anwahaniaethol ar gyfer yr holl adwerthwyr a awgrymir
- Rhaid iddo fod yn glir i ddefnyddwyr mai'r adwerthwr a awgrymir sy'n gyfrifol am y trafodion
- Rhaid ailedrych ar y rhestr o adwerthwyr dan sylw yn rheolaidd er mwyn sicrhau na cham-wahaniaethir.

Fel rheol mae dolenni i dudalennau er mwyn archebu tocynnau i ddigwyddiadau a drefnir gan y BBC, megis Proms y BBC, yn dderbyniol.

## Rhaglenni Gemau

14.4.31 Rhaid i ni gynnal ein rhaglenni gemau yn ddidwyll a rhaid i ni gael ein gweld i fod yn rhydd rhag pwysau masnachol.

Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y cystadleuwyr yn cael eu trin yn deg ac yn barchus, bod gwobrau'n cael eu disgrifio'n gywir a bod rheolau priodol a chlir yn cael eu cyhoeddi.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.13 a 17.4.23 – 17.4.27 ac Atodiad 4: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

## Hysbysebu a Brand y BBC

14.4.32 Dylem sicrhau na chaiff brand y BBC ei ddefnyddio i gymeradwyo cwmnïau na sefydliadau allanol. Gallwn gyflawni hyn drwy sicrhau nad yw hysbysebion masnachol, deunyddiau hyrwyddo na datganiadau i'r wasg gan gwmnïau allanol yn rhoi'r argraff o gymeradwyaeth y BBC, ac nad yw hysbysebion yn "honni bod yn" rhaglenni'r BBC.

(Gweler Adran 16 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 16.4.23)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Partneriaethau)

14.4.33 Fel rheol ni ddylem ganiatáu i hysbysebwyr masnachol ddefnyddio enw, logos, teitlau, enwau sianeli, teitlau rhaglenni, fformatau na chymeriadau'r BBC. Rhaid i unrhyw eithriad fod yn unol â Chanllawiau Masnachu Teg y BBC. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol a Masnachu Teg y BBC.

## Gwasanaethau Cefnogi'r BBC

14.4.34 Yn ôl y galw, byddwn yn ategu ein hallbwn drwy gynnig gwasanaethau cefnogi, megis llinellau cymorth, llinellau gwybodaeth, pecynnau ffeithiau, gwybodaeth ar-lein a drwy ddyfeisiau symudol.

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i wasanaethau cefnogi:

- Dylent fod am ddim neu dylent adfer eu costau, ac felly nid gwneud elw yw eu bwriad. Rhaid i ni beidio â defnyddio rhifau cyfradd premiwm ar gyfer llinellau cymorth
- Rhaid i ni beidio ag ymddangos ein bod yn cymeradwyo ymgyrchoedd trydydd parti pan fyddwn yn cynhyrchu deunyddiau cefnogi ar y cyd â sefydliadau eraill
- Ni ddylem ddosbarthu deunyddiau codi arian trydydd parti oni bai fod hynny ar gyfer apeliadau elusennol sydd wedi'u cymeradwyo gan y BBC
- Cawn roi cydnabyddiaeth i sefydliadau sydd wedi cyfrannu at ein deunyddiau cefnogi ar y deunydd ei hun, ond ni chawn gydnabod noddwyr ar yr awyr
- Rhaid i ni sicrhau y gallwn ymdopi ag unrhyw alw tebygol am ein gwasanaethau cefnogi.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.21)

14.4.35 **Ambell waith cawn dderbyn cyllid allanol ar gyfer deunyddiau neu wasanaethau cefnogi oddi ar yr awyr, er enghraifft, ar ffurf nawdd gan drydydd parti a fyddai fel rheol yn fudiad dielw, megis elusen neu sefydliad addysgol.**

**Mewn rhai amgylchiadau penodol ceir derbyn cyllid gan sefydliadau masnachol gyda chymeradwyaeth y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.** Ni cheir derbyn dim cyllid allanol ar gyfer unrhyw raglen neu gynnwys ar yr awyr ar sianeli'r BBC sy'n derbyn arian cyhoeddus nac ar gyfer unrhyw gynnwys ar-lein ar bbc.co.uk.

Gall arweiniad am wasanaethau cefnogi a chyllid gan sefydliadau masnachol fod yn wahanol ar gyfer Gwasanaethau Masnachol y BBC. Mae cyngor ar gael gan Bennaeth Polisi Masnachol BBC Worldwide.

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol: 16.4.23, 16.4.38 a 16.4.58

### *Mentrau Golygyddol ar y Cyd*

14.4.36 Cawn gynhyrchu gwasanaethau cefnogi gyda phartner priodol, megis corff proffesiynol, elusen neu sefydliad addysgol. Mewn achosion o'r fath gall fod yn olygyddol dderbyniol cydnabod cyfraniad y partner ar yr awyr, a/neu eu cydnabod ar y deunydd cefnogi.

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol: 16.4.39 - 16.4.41)

### *Deunyddiau Cefnogi Ar-lein*

14.4.37 Pan fyddwn yn creu tudalennau gwe sy'n cynnig deunyddiau cefnogi ar gyfer rhaglenni, o bryd i'w gilydd efallai y byddant yn cynnwys dolenni i sefydliadau allanol. Dylid cyfiawnhau unrhyw ddolenni allanol o'r fath drwy berthnasedd a gwerth y cynnwys i gynulleidfa'r rhaglen. Os byddwn yn darparu dolen i asiantaeth cynghori allanol, fel rheol dylem ddarparu dolenni i ystod resymol o asiantaethau eraill hefyd.

Rhaid i'r BBC byth addo dangos manylion cyflenwr ar-lein yn gyfnewid am gyflenwi nwyddau neu wasanaethau am ddim neu'n rhatach.

Ni cheir noddi deunyddiau cefnogi rhaglenni ar ein tudalennau gwe.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.21 - 14.4.22)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Deunyddiau Cefnogi Rhaglenni Ar-lein)

# ADRAN 15: GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

**15.1 Cyflwyniad**
**15.2 Egwyddorion**
**15.3 Cyfeirio Gorfodol**
**15.4 Arferion**
**Newyddion a Materion Cyfoes**
**Meysydd Allbwn Eraill**
**Gweithgareddau Allanol**
**Datgan Budd Personol**
**Buddion Personol**
**Talent ar yr Awyr, Hysbysebu Masnachol, Gweithgarwch Hyrwyddo a Chymeradwyaeth**
**Cwmnïau Cynhyrchu Annibynnol sy'n berchen i Asiant neu Dalent**

## 15.1 CYFLWYNIAD

Gall gwrthdaro godi rhwng buddiannau pan fydd gweithgareddau allanol unrhyw un sy'n ymwneud â gwneud ein cynnwys yn effeithio ar enw da'r BBC am ddidwylledd, annibyniaeth a safonau uchel, neu pan fyddai'n rhesymol tybio eu bod yn gwneud hynny. Rhaid i'n cynulleidfaoedd allu ymddiried yn y BBC a bod yn ffyddiog na ddylanwadir ar ein penderfyniadau golygyddol gan fuddiannau allanol, pwysau gwleidyddol na masnachol nac unrhyw fuddiannau personol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol)

Ceir perygl o wrthdaro rhwng buddiannau ym mhob maes o wneud rhaglenni neu gynnwys. Rhaid i bob adran neu dîm fod yn ymwybodol ym mha feysydd y mae'n agored i niwed. Efallai fod elfennau sensitif ar gyfer talent ar yr awyr.

Mae'r Egwyddorion ar wrthdaro rhwng buddiannau yr un mor berthnasol i bawb sy'n gwneud ein cynnwys. Ni ddylai fod gan gynhyrchwyr annibynnol fuddiannau allanol amhriodol a allai danseilio didwylledd ac amhleidioldeb y rhaglenni a'r cynnwys maent yn ei gynhyrchu i'r BBC.

Gofynnir i holl staff y BBC ddatgan yn ffurfiol unrhyw fudd personol a allai effeithio ar eu gwaith gyda'r BBC. Gofynnir i gyflwynwyr, newyddiadurwyr, cynhyrchwyr ac ymchwilwyr llawrydd a'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd eraill hefyd ddatgan unrhyw fuddiannau personol a allai effeithio ar eu gwaith gyda'r BBC.

Yn ogystal â'r adran hon o'r Canllawiau Golygyddol, ceir Canllawiau ar Wrthdaro rhwng Buddiannau, sydd ar gael ar wefan y Canllawiau Golygyddol. Ar gyfer y rhan fwyaf o staff y BBC ceir gofyniad i gydymffurfio â nhw.

Ceir cyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol penodol hefyd ar y rheini sy'n ymwneud â newyddiaduraeth ariannol neu'r rheini sy'n ymwneud ag allbwn sy'n cynnig cyngor ariannol neu gyngor i ddefnyddwyr. Mae cyngor manwl ar y maes hwn ar gael yng Nghanllawiau Newyddiaduraeth Ariannol y BBC.

Nid yw'n fwriad gan unrhyw beth yn y Canllawiau Golygyddol hyn i atal swyddogion etholedig undebau llafur cydnabyddedig y BBC rhag ymgymryd â gweithgareddau cyfreithlon ar ran eu hundeb.

## 15.2 EGWYDDORION

15.2.1 Rhaid i weithgareddau allanol unigolion sy'n gweithio i'r BBC beidio â thanseilio canfyddiad y cyhoedd o amhleidioldeb, didwylledd, annibyniaeth a gwrthrychedd y BBC. Ni ddylent chwaith roi enw da'r BBC yn y fantol.

15.2.2 Rhaid peidio byth â chael dim awgrym bod buddiannau masnachol, ariannol na buddiannau eraill wedi cael dim dylanwad ar benderfyniadau golygyddol y BBC. Rhaid i'r rheini sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys y BBC beidio â chael dim cysylltiad sylweddol â chynnyrch, busnesau na sefydliadau eraill sy'n rhan o'r cynnwys hwnnw.

15.2.3 Rhaid i'r BBC fod yn fodlon bod yr unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu ei gynnwys yn rhydd rhag unrhyw ymrwymiadau a chysylltiadau allanol amhriodol.

15.2.4 Os bydd talent neu eu hasiant yn berchen ar gwmnïau cynhyrchu annibynnol neu'n uwch reolwyr mewn cwmnïau cynhyrchu sy'n gwneud cynnwys i'r BBC, rhaid i hynny beidio â thaflu dim amheuaeth ynghylch didwylledd, penderfyniadau golygyddol nac amhleidioldeb unrhyw allbwn gan y BBC. Rhaid rhoi mesurau priodol ar waith er mwyn i'r BBC gynnal y rheolaeth olygyddol gyffredinol dros bob agwedd ar y rhaglen neu'r cynnwys.

## 15.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

15.3.1 Os oes unrhyw gynnig i gynhyrchu rhaglen ffeithiol am dalent gan gwmni cynhyrchu annibynnol sy'n berchen i'r dalent hwnnw neu asiant cysylltiedig, rhaid cyfeirio hynny at y cyfarwyddwr adrannol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 15.4.42)

### *Cyfeirio at Bolisi Golygyddol*

15.3.2 Mewn rhai meysydd, megis rhaglenni cerddoriaeth arbenigol, efallai y bydd gan dalent ar yr awyr fudd masnachol a phersonol yn eu maes arbenigedd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r Adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith er mwyn sicrhau nad oes dim gwrthdaro rhwng buddiannau â'u swyddogaeth ar yr awyr. Rhaid cyfeirio gweithdrefnau o'r fath at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.7)

15.3.3 Os oes unrhyw gynnig, mewn amgylchiadau eithriadol, i gyflwynydd newyddion arwain ymgyrch ar ran elusen neu gorff ymgyrchu, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.19)

15.3.4 Rhaid ymgynghori â'r Prif Gynghorydd Gwleidyddol yn gynnar yn y broses os bydd unigolion, gan gynnwys talent ar yr awyr ar gontractau tymor hir, yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol a allai beri risg i amhleidioldeb y BBC.

(Gweler 15.4.20)

15.3.4 Os oes gan aelod o staff y BBC neu unigolyn arall sy'n gysylltiedig â'r BBC unrhyw fwriad i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cenedlaethol neu leol, gan gynnwys ceisio enwebiad fel ymgeisydd plaid, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol cyn ei ddatgan yn gyhoeddus.

(Gweler 15.4.22)

***Cyfeirio Arall***

15.3.6 Rhaid i staff, a gohebwyr a gweithwyr llawrydd Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, a elwir yn bennaf yn newyddiadurwyr neu gyflwynwyr newyddion y BBC, gyfeirio at uwch lefel yn yr adran berthnasol os ydynt am ysgrifennu erthygl am y newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes y byd, economeg, busnes, cyllid, materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau a materion moesol neu foesegol neu grefydd.

(Gweler 15.4.9)

15.3.7 Rhaid i wneuthurwyr rhaglenni, staff golygyddol, newyddiadurwyr a chyflwynwyr sy'n ymwneud yn bennaf â'r BBC glirio unrhyw lythyrau i'r wasg gyda'u pennaeth adran a Swyddfa'r Wasg, os yw'r llythyrau hynny'n delio â phwnc y rhaglenni, yn ymwneud â'r BBC neu ddarlledu, neu'n berthnasol i faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall. Os bydd cyflwynwyr yn cyflwyno rhaglenni i'r BBC o bryd i'w gilydd, fel rheol dylent glirio llythyrau sy'n berthnasol i destun eu rhaglenni os caiff y llythyrau eu cyhoeddi oddeutu'r un adeg â darlledu'r rhaglen.

(Gweler 15.4.13)

15.3.8 Os bydd unrhyw ymddangosiad cyhoeddus gan un o gyflwynwyr rhaglenni'r BBC yn awgrym bod gan y BBC gysylltiad â digwyddiad neu sefydliad trydydd parti neu ei fod yn ei gymeradwyo, rhaid i Bennaeth yr Adran berthnasol gymeradwyo hynny.

(Gweler 15.4.14)

15.3.9 Rhaid i unigolion gael caniatâd eu rheolwr llinell cyn ymrwymo i hyfforddi cyfweleion neu sefydliadau ynghylch sut mae cyflwyno eu hunain yn y cyfryngau.

(Gweler 15.4.16)

15.3.10 Os oes unrhyw gynnig gan unigolion i weithio gydag elusennau a grwpiau ymgyrchu a bod y cysylltiad hwnnw'n hysbys i'r cyhoedd, rhaid cyfeirio hynny at y pennaeth adran, a all ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.18)

15.3.11 Os gofynnir i unrhyw un weithio ar straeon neu gynnwys lle mae ganddynt fudd ariannol, masnachol neu fusnes, nad yw eisoes wedi cael ei ddatgan ac a allai arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, neu y gellid ei weld fel gwrthdaro rhwng buddiannau, rhaid iddynt roi gwybod i'w golygydd neu bennaeth yr adran yn ddiymdroi. Gellir hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

(Gweler 15.4.28)

15.3.12 Ni ddylai unigolion dderbyn buddion personol, na buddion i'w teulu na phobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw, gan sefydliadau neu bobl y gallent fod yn gweithio'n agos â hwy ar ran y BBC. Os bydd unrhyw eithriad i hyn, rhaid ei gyfeirio at eu pennaeth adran, a ddylai fel rheol ymgynghori â Pholisi Golygyddol, i bennu a yw derbyn y cynnig yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau ai peidio.

(Gweler 15.4.30)

15.3.13 Ni ddylai cyflwynwyr cyfredol rhaglenni newyddion y BBC ymddangos fel cyflwynwyr newyddion mewn bwletinau ffugiol, os yw'n bosibl o gwbl y gallai hyn achosi dryswch a phryder. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny, er enghraifft mewn sefyllfa sy'n amlwg yn gomig, yn afrealistig neu'n ffantasi, at eu pennaeth adran.

(Gweler 15.4.40)

## 15.4 ARFERION

### Newyddion a Materion Cyfoes

15.4.1 Gall allbwn newyddion a materion cyfoes ddelio ag unrhyw fater, achos, sefydliad neu unigolyn unrhyw bryd a rhaid sicrhau nad oes dim amheuaeth ynghylch didwylledd a gwrthrychedd timau golygyddol. Oherwydd hyn, ceir cyfyngiadau penodol ar y rheini sy'n gweithio i'r BBC ar allbwn Newyddion, Materion Cyfoes, Newyddion Byd Eang ac allbwn newyddion y Gwledydd. Mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar staff, ar ohebwyr ac ar weithwyr llawrydd a adwaenir yn bennaf fel newyddiadurwyr neu gyflwynwyr newyddion y BBC.

Caiff y prif bwyntiau eu crynhoi isod. Fodd bynnag, rhaid ymgynghori â'r Canllawiau ar Wrthdaro rhwng Buddiannau ar y wefan Polisi Golygyddol i gael rhagor o wybodaeth a chyfeiriadau penodol.

15.4.2 Ni ddylai cyflwynwyr newyddion rheolaidd y BBC wneud dim gwaith hyrwyddo, cymeradwyo na hysbysebu ar gyfer unrhyw gwmni, sefydliad allanol na phlaid wleidyddol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gyda chymeradwyaeth y BBC ymlaen llaw, cânt gyflawni gweithgareddau hyrwyddo ar gyfer llyfrau maent wedi'u hysgrifennu. Rhaid i unrhyw weithgarwch o'r fath beidio â rhoi enw da'r cyflwynydd am wrthrychedd ac amhleidioldeb yn y fantol.

15.4.3 Rhaid i staff, gohebwyr a gweithwyr contract nad ydynt yn staff a gweithwyr llawrydd a adwaenir yn bennaf fel newyddiadurwyr neu gyflwynwyr ar raglenni Newyddion a Materion Cyfoes y BBC beidio â:

- datgan yn gyhoeddus sut maent yn pleidleisio na mynegi cefnogaeth i unrhyw blaid wleidyddol
- mynegi safbwynt o blaid neu yn erbyn unrhyw bolisi sy'n destun dadl wleidyddol plaid ar hyn o bryd
- eiriol dros unrhyw safbwynt penodol ar fater o bolisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6)

- cymell newid mewn polisi cyhoeddus proffil uchel
- siarad nac ysgrifennu'n gyhoeddus am y BBC heb gymeradwyaeth ysgrifenedig penodol ymlaen llaw gan y pennaeth adran perthnasol

Ar ben hynny, fel rheol ni ddylent ysgrifennu colofnau rheolaidd ar gyfer gwefannau nad ydynt yn perthyn i'r BBC neu gyhoeddiadau na chânt eu cyhoeddi gan y BBC.

(Gweler Adran 15 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 15.4.9 - 15.4.24)

***Newyddiaduraeth Ariannol***

15.4.4 Ceir cyfyngiadau ychwanegol ar newyddiadurwyr ariannol. Dylai pobl sy'n gweithio ar raglenni ariannol ar gyfer y BBC gofrestru eu cyfranddaliadau a'u buddiannau neu eu trafodion ariannol eraill. Mae cyngor clir am hyn ar gael yn y Canllawiau Newyddiaduraeth Ariannol.

Ceir hefyd gyfyngiadau cyfreithiol penodol sy'n effeithio ar newyddiadurwyr ariannol. Mae'n anghyfreithlon defnyddio gwybodaeth ariannol a gafwyd ymlaen llaw i fasnachu cyn y marchnadoedd. Mae hefyd yn anghyfreithlon hyrwyddo gwasanaethau ariannol heb awdurdod priodol gan yr awdurdodau rheoliadol perthnasol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Canllawiau Newyddiaduraeth Ariannol)

## Meysydd Allbwn Eraill

15.4.5 Ni ddylai gweithgareddau allanol staff golygyddol, newyddiadurwyr a chyflwynwyr y BBC danseilio canfyddiad y cyhoedd o amhleidioldeb, cywirdeb ac annibyniaeth allbwn y BBC. Ni ddylai gweithgareddau allanol roi enw da'r BBC yn y fantol. Mae hefyd yn bwysig nad yw gweithgareddau oddi ar yr awyr yn tanseilio rôl cyflwynwyr rheolaidd ar yr awyr.

Bydd y graddau y cyfyngir ar weithgareddau allanol yn dibynnu ar natur yr allbwn yn ogystal â rôl yr unigolyn. Rhaid i benaethiaid adrannau bennu beth sy'n briodol.

15.4.6 Mewn allbwn ffeithiol, gan gynnwys chwaraeon, dylid bod yn ofalus gydag unrhyw ymrwymiad i ysgrifennu neu siarad sy'n gysylltiedig â phwnc y rhaglen. Ceir llai o bryder ynghylch mynegi barn yn gyhoeddus ar faes nad yw'n gysylltiedig, er enghraifft unigolyn sy'n gweithio ym maes gwyddoniaeth yn mynegi barn am y celfyddydau. Rhaid i'r rheini sy'n gweithio ar raglenni defnyddwyr fod yn hynod o ofalus i beidio â chefnogi cynnyrch neu wasanaeth a allai gael eu dangos ar y rhaglenni y maent yn gweithio arnynt, ac ni ddylent gael cysylltiadau masnachol a allai ymddangos fel petai'n dylanwadu ar waith y BBC.

15.4.7 Ym mhob maes arall, gan gynnwys adloniant er enghraifft, mae'n hanfodol nad yw gwneuthurwyr y rhaglen, cynhyrchwyr cynnwys eraill na thalent ar yr awyr yn tanseilio eu didwylledd eu hunain, na didwylledd eu cynnwys, drwy gymryd rhan oddi ar yr awyr mewn gweithgareddau amhriodol neu fuddiannau masnachol. Rhaid i'w gweithgareddau oddi ar yr awyr beidio â rhoi enw da'r BBC yn y fantol.

**Mewn rhai meysydd, megis rhaglenni cerddoriaeth arbenigol, efallai y bydd gan dalent ar yr awyr fudd masnachol a phersonol yn eu maes arbenigedd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r adran berthnasol sicrhau bod gweithdrefnau golygyddol priodol ar waith er mwyn sicrhau nad oes dim gwrthdaro rhwng buddiannau â'u swyddogaeth ar yr awyr. Rhaid cyfeirio gweithdrefnau o'r fath at Bolisi Golygyddol.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

## Gweithgareddau Allanol

15.4.8 Ceir nifer o weithgareddau allanol sy'n debygol o godi materion yng nghyswllt gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r rhain yn amrywio o ymrwymiadau ysgrifennu (megis erthyglau, colofnau neu flogaiu rheolaidd), i weithgareddau gwleidyddol, ymddangosiadau cyhoeddus a hyfforddiant cyfryngau, i ymddangos mewn hysbysebion masnachol a rhoi cymeradwyaeth.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

***Ymrwymiadau Ysgrifennu***

Newyddion a Materion Cyfoes, Newyddion Byd-eang, Staff Newyddion yn y Gwledydd

15.4.9 **Fel rheol ni ddylai staff na gohebwyr na gweithwyr llawrydd Newyddion a Materion Cyfoes y BBC a adwaenir yn bennaf fel newyddiadurwyr neu gyflwynwyr newyddion y BBC ysgrifennu colofnau rheolaidd ar gyfer gwefannau nad ydynt yn perthyn i'r BBC na chyhoeddiadau allanol na chânt eu cyhoeddi gan neu ar gyfer y BBC**.

**Yn benodol, ni ddylent ysgrifennu colofn reolaidd sy'n delio â:**

- **newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes y byd**
- **economeg, busnes neu gyllid**
- **materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol**
- **materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau**
- **materion moesol neu foesegol neu grefydd.**

**Rhaid cyfeirio erthyglau untro am unrhyw un o'r meysydd hyn at uwch swyddog yn yr adran berthnasol.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

15.4.10 Rhaid cael caniatâd arbennig ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym meysydd newyddion i gyhoeddi llyfrau. Ni ddylai'r llyfr roi didwylledd nac amhleidioldeb y BBC yn y fantol. Gweler y Canllawiau am Wrthdaro rhwng Buddiannau ar wefan Polisi Golygyddol.

Meysydd Eraill

15.4.11 Efallai y bydd gwneuthurwyr rhaglenni, staff golygyddol, newyddiadurwyr a chyflwynwyr mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud â newyddion i gyd yn dymuno gwneud gwaith newyddiadurol, ysgrifennu erthyglau neu ysgrifennu llyfrau. Ni ddylai gweithgarwch o'r fath roi enw da'r BBC yn y fantol.

15.4.12 Ni chaiff newyddiadurwyr staff y BBC ysgrifennu colofn reolaidd mewn papur newydd neu gylchgrawn sy'n delio â materion cyfoes na materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6)

***Llythyrau i'r Wasg***

15.4.13 **Rhaid i wneuthurwyr rhaglenni, staff golygyddol, newyddiadurwyr a chyflwynwyr sy'n ymwneud yn bennaf â'r BBC glirio**

**unrhyw lythyrau i'r wasg gyda'u pennaeth adran a Swyddfa'r Wasg, os yw'r llythyrau hynny'n delio â phwnc y rhaglenni, yn ymwneud â'r BBC neu ddarlledu, neu'n berthnasol i faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall.**

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6)

Os bydd cyflwynwyr yn cyflwyno rhaglenni i'r BBC o bryd i'w gilydd yn unig, fel rheol dylent glirio llythyrau sy'n berthnasol i destun eu rhaglenni os caiff y llythyrau eu cyhoeddi oddeutu'r un adeg â darlledu'r rhaglen.

***Siarad Cyhoeddus ac Ymddangosiadau Cyhoeddus Eraill***

15.4.14 Mae'n bwysig na welir bod ymrwymiadau siarad cyhoeddus nac ymddangosiadau cyhoeddus eraill yn tanseilio gwrthrychedd na didwylledd y BBC na'i gynnwys, nac yn awgrymu bod y BBC yn cymeradwyo cynnyrch, gwasanaeth neu ymgyrch gan sefydliad trydydd parti.

**Er y gall cyflwynwyr llawrydd rhaglenni'r BBC gael cyfran o'u hincwm na ddaw gan y BBC o ymddangosiadau cyhoeddus oddi ar yr awyr, rhaid iddynt ochel yn erbyn ymddangosiadau sy'n tanseilio eu swyddogaeth ar yr awyr. Ni ddylent ganiatáu defnyddio enw na brandiau'r BBC mewn cysylltiad â hysbysebu ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus. Ni ddylid rhoi dim awgrym o gysylltiad na chymeradwyaeth y BBC o ddigwyddiad na sefydliad trydydd parti, oni bai fod hynny'n briodol yn olygyddol a'i fod wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth adran perthnasol.**

<u>Newyddion a Materion Cyfoes, Newyddion Byd-eang a Staff Newyddion yn y Gwledydd</u>

15.4.15 Rhaid i staff Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, gohebwyr y BBC a gweithwyr contract nad ydynt yn staff a gweithwyr llawrydd a adwaenir yn bennaf fel newyddiadurwyr neu gyflwynwyr ar raglenni newyddion a materion cyfoes y BBC, aros yn ddiduedd wrth siarad yn gyhoeddus neu gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg, megis trafodaeth neu ddadl gyhoeddus. Rhaid iddynt beidio â hyrwyddo unrhyw blaid wleidyddol, mudiad ymgyrchu na grŵp lobïo. Ni ddylent gadeirio cynadleddau sy'n ymarfer hyrwyddo i gwmni masnachol sy'n cefnogi unrhyw bleidiau gwleidyddol neu sy'n unochrog mewn mater sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, neu ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bwnc dadleuol' arall.

***Hyfforddiant yn y Cyfryngau***

15.4.16 Gallai fod yn briodol i gyflwynwyr, uwch swyddogion golygyddol neu wneuthurwyr rhaglenni neu gynnwys arall yn y BBC siarad mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill am faterion sy'n ymwneud â darlledu, newyddiaduraeth neu gynhyrchu cyffredinol.

**Fodd bynnag, ceir peryglon sylweddol yng nghyswllt gwrthdaro rhwng buddiannau a allai arwain at roi didwylledd, annibyniaeth ac amhleidioldeb golygyddol y BBC yn y fantol, os bydd unigolion yn**

**hyfforddi cyfweleion neu sefydliadau ynghylch sut mae cyflwyno eu hunain yn y cyfryngau. Rhaid cael caniatâd gan reolwyr llinell cyn gwneud unrhyw ymrwymiadau o’r fath yn y maes hwn a dylem ofyn i gyflwynwyr llawrydd am eu gwaith yn y maes hwn i sicrhau nad oes dim gwrthdaro rhwng buddiannau.**

Newyddion a Materion Cyfoes, Newyddion Byd-eang a Staff Newyddion yn y Gwledydd

15.4.17 Rhaid i staff a gohebwyr a gweithwyr llawrydd Newyddion a Materion Cyfoes y BBC a adwaenir yn bennaf fel newyddiadurwyr neu gyflwynwyr newyddion y BBC beidio â gwneud dim gwaith hyfforddiant yn y cyfryngau. Ni ddylent gyfweld â neb maent wedi’u hyfforddi yn y gorffennol dan unrhyw amgylchiadau.

***Elusennau a Gwaith Ymgyrchu***

15.4.18 Os gwneir unrhyw waith ar ran neu i gefnogi elusen, elusennau neu achos elusennol, ni ddylai hynny awgrymu bod y BBC yn cymeradwyo un elusen neu achos ar draul y gweddill. Gall elfennau sensitif fod yn berthnasol os bydd yr elusen yn delio â a/neu yn ymgyrchu dros faterion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw ‘bwnc dadleuol’ arall. Rhaid i weithwyr y BBC hefyd ofalu na chaiff eu hamhleidioldeb ei roi yn y fantol drwy gysylltu eu hunain ag elusen sy’n gweithredu yn yr un maes â’r rhaglen y maent yn gweithio arni.

Os oes unrhyw gynnig gan unigolion i weithio i elusennau a grwpiau ymgyrchu a bod y cysylltiad hwnnw’n hysbys i’r cyhoedd, rhaid cyfeirio hynny at y pennaeth adran, a all ymgynghori â Pholisi Golygyddol.

Rhaglenni Newyddion, Materion Cyfoes, Defnyddwyr ac Amserol

15.4.19 Fel rheol ni ddylai cyflwynwyr, newyddiadurwyr na phobl golygyddol mewn rhaglenni newyddion, materion cyfoes ac amserol a rhaglenni defnyddwyr gysylltu eu hunain ag unrhyw fudiad ymgyrchu, yn enwedig os yw’n cefnogi un safbwynt mewn maes polisi dadleuol. Fel rheol ni ddylai cyflwynwyr newyddion arwain ymgyrch ar ran elusen neu gorff ymgyrchu oherwydd y byddai modd i hyn danseilio enw da’r BBC am amhleidioldeb. Rhaid cyfeirio pob achos eithriadol at Bolisi Golygyddol.

***Gweithgareddau Gwleidyddol***

15.4.20 Efallai y bydd rhai unigolion yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol ac mae rhydd hynt iddynt wneud hynny pan fydd yn cyd-fynd â natur eu gwaith i’r BBC a rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Rhaid i weithgarwch gwleidyddol unigolion, gan gynnwys talent ar yr awyr ar gontractau tymor hir, beidio â rhoi amhleidioldeb y BBC yn y fantol na thanseilio hyder y cyhoedd yn y BBC. Bydd penderfyniadau ynghylch beth sy’n dderbyniol yn adlewyrchu amgylchiadau unigol, gan gynnwys math y gweithgaredd a natur rôl yr unigolyn ar y BBC. Mae gweithgaredd gwleidyddol, gwneud safiad cyhoeddus ar fater polisi

cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol, neu unrhyw ‘bwnc dadleuol’ arall yn debygol o fod yn anghydnaws â rhai swyddogaethau yn y BBC, yn enwedig mewn newyddion, materion cyfoes, ac weithiau mewn rhaglenni ffeithiol cyffredinol. Mae’r risg i amhleidioldeb y BBC yn annhebygol o fod yn sylweddol ar gyfer adloniant neu ddrama. Mae’n hanfodol trafod y mater â rheolwyr llinell ymlaen llaw.

**Rhaid ymgynghori â’r Prif Gynghorydd Gwleidyddol ar gam cynnar os oes unrhyw bosibilrwydd o ystyried bod gweithgarwch gwleidyddol yn peri risg i amhleidioldeb y BBC.**

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6)

15.4.21 Mae gan unrhyw un hawl i fod yn aelod anweithredol o blaid wleidyddol neu fudiad arall dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae angen i unigolion mewn rhai swyddogaethau ystyried a fyddai datgelu eu haelodaeth i’r cyhoedd yn tanseilio hyder y cyhoedd yn eu gallu i gyflawni rhai neu holl agweddau ar eu swydd, neu a allai beri risg i’r canfyddiad o amhleidioldeb y BBC.

15.4.22 Gall ymwneud yn weithgar mewn plaid wleidyddol arwain at wrthdaro rhwng buddiannau i staff y BBC ac unigolion eraill sydd â chysylltiad cyhoeddus â’r BBC. Mae hyn yn cynnwys talent ar yr awyr sydd â chontractau tymor hir.

Mae ceisio enwebiad fel ymgeisydd plaid mewn etholiad cenedlaethol neu leol, neu fynegi bwriad i sefyll fel ymgeisydd annibynnol, yn anghydnaws â rhai swyddogaethau yn y BBC, yn enwedig mewn newyddion a materion cyfoes a meysydd allbwn eraill a all ddelio â materion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw ‘bwnc dadleuol’ arall.

Os oes unrhyw un yn bwriadu ceisio enwebiad ar gyfer etholiad ar lefel genedlaethol neu leol, dylent drafod y goblygiadau i’w cyfrifoldebau proffesiynol ac unrhyw risg posibl i amhleidioldeb y BBC â’u rheolwr ar y cyfle cyntaf.

**Os oes gan aelod o staff y BBC neu unigolyn arall sy’n gysylltiedig â’r BBC unrhyw fwriad i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cenedlaethol neu leol, gan gynnwys ceisio enwebiad fel ymgeisydd plaid, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Gwleidyddol cyn ei ddatgan yn gyhoeddus.**

15.4.23 Mae nifer o fudiadau, gan gynnwys grwpiau ymgyrchu a lobïo, elusennau, papurau newydd a gwefannau arbenigol, yn arddel safbwynt cyhoeddus ar faterion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus, dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu ‘bwnc dadleuol’ arall. Cyn dechrau cymryd rhan weithredol mewn mudiad sydd â safiad pleidiol neu ymgyrchu ar faterion o’r fath neu cyn cynnig cefnogaeth gyhoeddus iddynt, dylai unigolion sy’n gweithio i’r BBC roi’r un ystyriaeth i’r risgiau amhleidioldeb fel sy’n ofynnol ar gyfer gweithgarwch pleidiol.

(Gweler Adran 15 Gwrthdaro rhwng Buddiannau: 15.4.22)

15.4.24 Gall rhai swyddogaethau cyhoeddus gwirfoddol nad ydynt yn rhai gwleidyddol, megis llywodraethwr ysgol neu ynad, fod yn dderbyniol hyd yn oed ar gyfer y rheini sy'n ymwneud â phenderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

## Datgan Budd Personol

15.4.25 Mae'r ddyletswydd ar y newyddiadurwr, cynhyrchydd y cynnwys neu'r dalent ar yr awyr i roi gwybod i'r BBC os oes ganddynt unrhyw fuddiannau allanol y gellid eu gweld fel gwrthdaro rhwng buddiannau (neu mewn rhai amgylchiadau, eu teulu neu gysylltiadau personol agos).

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

15.4.26 Gofynnir i holl staff cynhyrchu a golygyddol y BBC ddatgan unrhyw fudd personol a allai effeithio ar eu cyflogaeth gyda'r BBC. Dylid datgan y buddiannau hyn ar ffurflen Datgan Budd Personol.

Gofynnir i'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd hefyd ddatgan unrhyw fuddiannau masnachol a allai ddylanwadu ar eu gwaith gyda'r BBC. Dylai cynhyrchwyr annibynnol wneud datganiad adeg comisiynu.

Dylid datgan cyfranddaliadau sylweddol gan yr holl staff cynhyrchu a golygyddol sy'n gweithio i'r BBC os ydynt mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'r maes maent yn gweithio ynddo neu'r testunau maent yn eu trafod.

15.4.27 Newyddiaduraeth ariannol yw'r maes lle ceir y mwyaf o sensitifrwydd, ac mae canllawiau ychwanegol yn berthnasol i hynny. Ar unrhyw gyfrif ni cheir defnyddio gwybodaeth gynnar a geir yn ystod gwaith ar raglen y BBC i fasnachu cyn y marchnadoedd. Mae'n anghyfreithlon ac yn anfoesol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Canllawiau Newyddiaduraeth Ariannol)

Bydd penaethiaid adrannau'n ymwybodol o elfennau sensitif eraill yn eu meysydd ac yn gofyn am wybodaeth fanwl benodol sy'n ymwneud â rhai buddiannau ariannol neu fasnachol.

15.4.28 **Er y dylid ymdrechu i ddatgan unrhyw fuddiannau ymlaen llaw, mewn rhai achosion gellir gofyn i bobl weithio ar straeon neu gynnwys ar fyr rybudd ac efallai y byddant yn canfod bod ganddynt ryw gysylltiad â'r maes dan sylw. Os oes ganddynt unrhyw fudd ariannol, masnachol neu fusnes a allai olygu gwrthdaro rhwng buddiannau neu gellid ei weld fel gwrthdaro rhwng buddiannau, rhaid iddynt roi gwybod i'w golygydd neu eu pennaeth adran yn ddiymdroi. Os yw'r golygydd neu'r pennaeth adran o'r farn y gellid bod gwrthdaro go iawn rhwng buddiannau neu ganfyddiad o hynny, dylent ddefnyddio unigolyn arall ar gyfer y stori neu'r cynnwys. Gellir hefyd ymgynghori â Pholisi Golygyddol.**

15.4.29 Mewn rhai achosion gallai gweithgareddau neu fuddiannau masnachol cyflwynwyr a thalent ar yr awyr arall arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Er mwyn osgoi hyn, pan fydd contractau'n cael eu negodi, dylid gofyn i'r dalent ddatgelu unrhyw fuddiannau masnachol a allai effeithio ar eu swyddogaeth ar yr awyr neu sy'n gysylltiedig â phwnc y rhaglen maent yn ei chyflwyno.

Mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cyflwynwyr rhaglenni newyddiadurol neu ffeithiol, gellir pennu bod buddiannau masnachol yn anghydnaws â'u swyddogaeth ar yr awyr.

## Buddion Personol

15.4.30 Ni ddylai neb sy'n gweithio i'r BBC gael dim buddion personol gan gyflenwyr na derbyn nwyddau na gwasanaethau fel cymhelliad dan unrhyw amgylchiadau.

Cyn derbyn unrhyw letygarwch gan gwmnïau neu gyrff allanol, rhaid ystyried hynny'n ofalus i sicrhau nad yw'n golygu gwrthdaro rhwng buddiannau nac yn tanseilio didwylledd neu amhleidioldeb y BBC.

**Rhaid i unigolion beidio â derbyn buddion personol, na buddion i'w teulu na phobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw, gan sefydliadau neu bobl y gallent fod yn gweithio'n agos â hwy ar ran y BBC. Mae buddion personol annerbyniol yn cynnwys nwyddau, disgowntiau, gwasanaethau, arian parod, benthyciadau, rhoddion, neu adloniant y tu allan i gwmpas arferol lletygarwch busnes.**

**Os bydd unrhyw eithriad i hyn, rhaid ei gyfeirio at y pennaeth adran perthnasol, a ddylai fel rheol ymgynghori â Pholisi Golygyddol, i bennu a yw derbyn y cynnig yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau ai peidio.**

Hyd yn oed pan nad oes contract masnachol, ac nad yw'r derbynnydd yn delio â'r sefydliad allanol ar ran y BBC, ac nid yw wedi cael ei dalu i hysbysebu na hyrwyddo'r nwyddau na'r gwasanaethau, gallai defnyddio cynnyrch a gafwyd am ddim neu'n rhad iawn yn rhaglenni'r BBC heb gymeradwyaeth y BBC ymlaen llaw ddwyn anfri ar enw da'r BBC a'i raglenni.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.14 - 14.4.18)

## Talent ar yr Awyr, Hysbysebu Masnachol, Gweithgarwch Hyrwyddo a Chymeradwyaeth

15.4.31 Nid yw'r BBC yn rhoi cyfyngiadau diangen ar dalent. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw gweithgareddau hyrwyddo'n tanseilio didwylledd y BBC, y cyflwynydd neu'r rhaglenni maent yn gysylltiedig â nhw.

Wrth ymgysylltu â thalent, dylid ystyried a fydd eu hymrwymiadau hysbysebu neu hyrwyddo cyfredol yn cael gormod o ddylanwad ar agenda olygyddol y rhaglen. Ceir risgiau sylfaenol i ddidwylledd golygyddol rhaglen os gall

gweithgareddau hyrwyddo'r cyflwynydd wyrdroi ei hagenda drwy orfodi hepgor eitemau neu newid yr hyn sydd ynddi.

15.4.32 Rhoddir cyfyngiadau sylweddol ar y gweithgareddau hyrwyddo y caiff unrhyw gyflwynydd sy'n ymddangos ar yr awyr mewn swyddogaeth newyddiadurol eu cyflawni. Bydd llai o gyfyngiadau ar dalent adloniant neu ffordd o fyw ar yr amod na chaiff eu didwylledd nhw na didwylledd y rhaglen maent yn ei chyflwyno eu tanseilio.

Efallai fod llai o gyfyngiadau ar gyflwynydd a welir fel aelod neu arbenigwr allanol annibynnol sy'n cyflwyno dim ond ychydig o raglenni neu un gyfres, ond na chânt, at ei gilydd, eu hystyried yn gyflwynydd BBC.

15.4.33 Os bydd cyflwynwyr yn cymryd rhan mewn hysbysebion neu waith hyrwyddo, ni chânt mewn unrhyw ffordd awgrymu bod y BBC yn rhoi cymeradwyaeth, ni chânt danseilio gwerthoedd y BBC, ni chânt ddwyn anfri ar y BBC, na rhoi dim rheswm i'r cyhoedd amau gwrthrychedd cyflwynwyr y BBC.

Ni ddylai cyflwynydd na newyddiadurwr hysbysebu na hyrwyddo'r cynnyrch na'r dillad a ddefnyddiant ar yr awyr. Ni chaiff cyflwynwyr na newyddiadurwyr y BBC dderbyn dillad am ddim yn gyfnewid am eu gwisgo ar yr awyr. Gellid ystyrid hyn fel math o leoli cynnyrch. Ni ddylent ychwaith ymddangos ar yr awyr yn gwisgo dillad nac yn defnyddio cynnyrch y maent dan gontract i'w hyrwyddo, eu hysbysebu neu eu cymeradwyo neu y mae ganddynt unrhyw fudd ariannol ynddynt.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gwrthdaro rhwng Buddiannau)

15.4.34 Ceir cyfyngiadau eraill mewn meysydd penodol:

- Ni chaiff cyflwynwyr na newyddiadurwyr ar raglenni newyddion, materion cyfoes na rhaglenni busnes gymryd rhan mewn unrhyw waith hyrwyddo, cymeradwyo na hysbysebu ar gyfer trydydd partïon

- Fel rheol ni chaiff cyflwynwyr na newyddiadurwyr sy'n ymddangos mewn rhaglenni ffeithiol difrifol sy'n ystyried materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol, gymryd rhan mewn unrhyw hysbysebion ar gyfer trydydd parti

- Rhaid i gyflwynwyr neu newyddiadurwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymchwilio beidio â gwneud dim gwaith hyrwyddo allanol, oni bai fod eu swyddogaeth ar yr awyr wedi'i neilltuo i un pwnc penodol

- Rhaid i gyflwynwyr a newyddiadurwyr ar raglenni defnyddwyr sy'n trafod ystod eang o bynciau beidio ag ymgymryd â dim gwaith hyrwyddo ar gyfer trydydd parti gan nad oes dim cynnyrch na gwasanaeth sydd y tu hwnt i gylch gwaith y rhaglen

- Caiff cyflwynwyr a newyddiadurwyr ar raglenni defnyddwyr sy’n trafod pwnc penodol ddim ond ymgymryd â gwaith hyrwyddo ar gyfer cynnyrch nad oes ganddynt ddim cysylltiad â phwnc y rhaglen

- Rhaid i gyflwynwyr rhaglenni ffordd o fyw sy’n rhoi cyngor ar brynu neu ddefnyddio cynnyrch wedi’i frandio beidio â gwneud dim gwaith hysbysebu na hyrwyddo ar gyfer cynnyrch nac adwerthwyr sy’n gysylltiedig â phwnc eu rhaglenni. Ni ddylai talent ar yr awyr sy’n rhoi cyngor gwrthrychol clir ynghylch sut mae datrys problemau hysbysebu cynnyrch na gwasanaethau sy’n ceisio datrys y problemau penodol hyn.

15.4.35 Hyd yn oed pan na cheir dim gwrthdaro amlwg rhwng buddiannau gyda swyddogaeth ar yr awyr y cyflwynydd, ceir rhai cynnyrch neu wasanaethau y byddai’n well gan y BBC i’w gyflwynwyr beidio â’u hyrwyddo, oherwydd gallai’r cysylltiad fod yn niweidiol i enw da’r BBC (megis tybaco neu gynnyrch tybaco, asiantaethau esgort a llinellau sgwrsio am ryw).

15.4.36 Rhaid i gyflwynwyr rhaglenni plant beidio â hyrwyddo cynnyrch sydd â chysylltiad uniongyrchol â phwnc y rhaglenni maent yn eu cyflwyno, sydd wedi’u hanelu’n benodol at blant, neu sy’n debygol o fod yn niweidiol i blant (megis alcohol).

***Arddull Hysbysebion***

15.4.37 Ni ddylai hysbysebion efelychu na honni eu bod yn rhaglenni BBC, er enghraifft drwy gopïo elfennau golygyddol rhaglen neu gerddoriaeth neu graffeg sy’n gysylltiedig â’r rhaglen, neu drwy ddefnyddio setiau neu leoliadau allweddol rhaglenni’r BBC neu eu hefelychu’n uniongyrchol.

Ni ddylai hysbysebion efelychu na honni bod yn rôl y mae’r cyflwynydd yn ei chwarae yn y rhaglen. Ni ddylid defnyddio mwy nag un o gyflwynwyr y BBC neu dalent ar yr awyr arall o’r un rhaglen mewn unrhyw hysbyseb ar gyfer cynnyrch nad yw’n gysylltiedig â’r BBC. Mae’n annhebygol hefyd y derbynnir i nifer o gyflwynwyr o raglenni gwahanol y BBC ymddangos yn yr un hysbyseb.

Ni ddylai arddull gyffredinol yr hysbyseb ddwyn anfri ar y BBC.

***Cyfranwyr Rheolaidd at Raglenni***

15.4.38 Mae hefyd angen ystyried gwaith hyrwyddo sy’n cael ei wneud gan gyfranwyr sy’n ymddangos yn rheolaidd mewn rhaglenni, ond nad ydynt yn gyflwynwyr. Nid yw’r BBC mewn sefyllfa i gyfyngu ar weithgareddau hysbysebu’r cyfranwyr allanol hyn, ac ni fyddai’n dymuno cyfyngu ar eu gweithgareddau hysbysebu fel rheol. Fodd bynnag, ni ddylai’r BBC ddefnyddio cyfranwyr sy’n gwneud gwaith hyrwyddo a allai godi amheuon ynghylch eu gwrthrychedd. Yn benodol, ni ddylai cyfranwyr arbenigol sy’n rhoi cyngor penodol am beth i’w brynu gymeradwyo cynnyrch neu wasanaethau yn y meysydd y maent yn darparu cyngor arnynt.

***Actorion ac Artistiaid sy’n Perfformio mewn Rhaglenni***

15.4.39 Ni ddylai actorion ymddangos mewn hysbysebion teledu mewn ffordd sy'n efelychu'n uniongyrchol eu rôl ar yr awyr yn rhaglenni'r BBC. Ni ddylai actorion ac artistiaid o'r un rhaglen BBC ymddangos yn yr un hysbyseb na chyfres o hysbysebion ar gyfer yr un cynnyrch, gwasanaeth neu sefydliad.

***Cyflwynwyr Rhaglenni Ffeithiol yn Ymddangos mewn Drama***

15.4.40 Dylai cyflwynwyr rhaglenni ffeithiol fod yn ymwybodol y gallai efelychu eu rôl mewn rhaglenni ffuglen beri risgiau i'w hygrededd eu hunain a hygrededd y rhaglenni maent yn gysylltiedig â nhw. Rhaid ystyried disgwyliadau ac adweithiau tebygol y gynulleidfa yn ofalus.

**Ni ddylai cyflwynwyr cyfredol rhaglenni newyddion y BBC ymddangos fel cyflwynwyr newyddion mewn bwletin ffugiol os yw'n bosibl o gwbl y gallai hyn achosi dryswch a phryder. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny, er enghraifft mewn sefyllfa sy'n amlwg yn gomig, yn afrealistig neu'n ffantasi, at eu pennaeth adran.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Bwletinau Newyddion Ffug)

## Cwmnïau Cynhyrchu Annibynnol sy'n berchen i Asiant neu Dalent

15.4.41 Os bydd talent neu eu hasiant yn berchen ar gwmnïau cynhyrchu annibynnol neu'n uwch reolwyr mewn cwmnïau cynhyrchu sy'n gwneud cynnwys i'r BBC, rhaid i hynny beidio â thaflu dim amheuaeth ynghylch didwylledd, penderfyniadau golygyddol nac amhleidioldeb unrhyw allbwn gan y BBC.

Mae'n hanfodol y gwelir bod y BBC yn cadw rheolaeth olygyddol lawn a'i fod yn gallu dangos hynny yng nghyswllt pob agwedd ar y rhaglen neu'r cynnwys a'i fod wedi rhoi mesurau priodol ar waith i gynnal rheolaeth olygyddol. Rhaid peidio byth â defnyddio rhaglenni'r BBC fel cyfrwng i hyrwyddo buddiannau masnachol talent neu eu hasiantau.

15.4.42 Ni ddylid comisiynu asiantau neu eu cwmnïau cynhyrchu i gynhyrchu rhaglenni ffeithiol am y dalent maent yn eu cynrychioli. Yn yr un modd, ni ddylai cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n berchen i'r dalent gael eu comisiynu i wneud rhaglenni ffeithiol i'r BBC os mai'r dalent yw testun y rhaglen neu os yw'n rhan sylweddol o'r rhaglen.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Canllawiau Manwl ar Wrthdaro rhwng Buddiannau)

**Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd yn bosibl cynhyrchu rhaglen am dalent benodol oni bai ei bod yn cael ei chynhyrchu gan gwmni cynhyrchu annibynnol sy'n berchen i'r dalent honno neu asiant cysylltiedig. Mewn achosion o'r fath, dim ond os ceir cyfiawnhad golygyddol clir y ceir ystyried cynigion. Rhaid cyfeirio'r mater at y cyfarwyddwr adrannol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

# ADRAN 16: CYSYLLTIADAU A CHYLLID ALLANOL

**16.1 Cyflwyniad**
**16.2 Egwyddorion**
**16.3 Cyfeirio Gorfodol**
**16.4 Arferion**
**Rhan A: Cyllid gan Wasanaethau Masnachol y BBC, y Brifysgol Agored a Chyd-gynhyrchu**
**Rhan B: Cyllid y mae'n rhaid iddo Gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen**
**Cydgyllido**
**Gweithgareddau Eraill: Gwerthu Tocynnau, Gweddnewid, Mentrau Lleoliad a Chynhyrchu, Partneriaethau Gwerth Cyhoeddus, Digwyddiadau'r BBC a Noddir ar yr Awyr, Dyfarniadau a Noddir**
**Digwyddiadau'r BBC Oddi ar yr Awyr**
**Mentrau a Digwyddiadau Golygyddol ar y Cyd**
**Rhan C: Cysylltiadau Allanol Eraill**
**Digwyddiadau Trydydd Parti a Noddir**
**Y Loteri Genedlaethol**
**Elusennau**

*(Sylwer: Mae'r adran hon yn berthnasol i wasanaethau'r BBC a gyllidir gan ffi'r drwydded yn unig. Mae canllawiau pellach ar gyfer gwasanaethau'r BBC nas cyllidir gan ffi'r drwydded a rhaid i wasanaethau a gyllidir yn fasnachol gydymffurfio â Chanllawiau Hysbysebu a Noddi'r BBC ar gyfer Gwasanaethau Masnachol.)*

## 16.1 CYFLWYNIAD

Mae'r BBC wedi ymrwymo i weithio ar y cyd gydag eraill i wella effaith a chwmpas ei raglenni, ymestyn posibiliadau creadigol a chael y gwerth cyhoeddus gorau posibl. Drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill, gallwn gynnig gwerth ychwanegol i'n cynulleidfaoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis cynyrchiadau ar y cyd gyda chynhyrchwyr a darlledwyr eraill, cynnal mentrau ar y cyd gyda chyrff celfyddydol ac addysgol, a darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol i Wledydd y DU.

Mae'n gynsail sylfaenol yn Siarter a Chytundeb y BBC y caiff teledu, radio a gwasanaethau ar-lein gwasanaethau cyhoeddus yn y DU eu cyllido drwy ffi'r drwydded. Ni chaiff unrhyw ddarllediad na gwasanaeth ar-lein a gyllidir drwy ffi'r drwydded gynnwys unrhyw raglenni a noddir na chymryd cyllid o hysbysebion.

Mewn nifer o achosion ni fydd ein hymgysylltiad â chyrff allanol yn golygu rhannu costau na derbyn unrhyw arian. Ond mewn rhai achosion prin iawn, gall y BBC dderbyn arian dan eithriadau a ganiateir gan Siarter a Chytundeb y BBC. Caiff eithriadau o'r fath eu hystyried dan delerau'r Cytundeb fel 'Cyllid Amgen'.

Rhaid i bob trefniant o'r fath gydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb ei hun. Mewn rhai achosion, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r dogfennau rheoliadol hyn:

- Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen y cytunwyd arno rhwng Ymddiriedolaeth y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi am Gyllid Amgen)

- Y Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau y cytunwyd arno gan Ymddiriedolaeth y BBC.

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.10 - 17.4.13)

## 16.2 EGWYDDORION

16.2.1 Wrth lunio perthynas allanol, rhaid i ni sicrhau na fydd gwasanaethau'r BBC yn darlledu rhaglenni a noddir nac yn cynnwys hysbysebion. Rhaid i drefniadau â sefydliadau allanol beidio â rhoi'r argraff bod un o wasanaethau'r BBC yn cael nawdd masnachol.

16.2.2 Ni ddylid rhoi amhleidioldeb a didwylledd golygyddol y BBC yn y fantol oherwydd unrhyw berthynas allanol neu gyllid allanol a rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol dros allbwn y BBC.

16.2.3 Rhaid i'r partneriaid allanol a ddewisir fod yn briodol a rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros hynny a rhaid i hynny beidio â dwyn anfri ar y BBC.

16.2.4 Rhaid i ni beidio â derbyn arian na gwasanaethau eraill yn gyfnewid am ddarlledu na rhoi sylw neu gyhoeddusrwydd ar-lein, na rhoi dolenni neu gydnabyddiaeth ar-lein a rhaid i ni beidio â hyrwyddo nac ymddangos ein bod yn cymeradwyo unrhyw sefydliadau, cynnyrch, gwasanaethau na safbwyntiau eraill. Cawn gydnabod eraill yn deg pan fydd hynny'n briodol yn olygyddol.

16.2.5 Er mwyn sicrhau tryloywder, rhaid i ni ddefnyddio systemau ariannol trwyadl wrth dderbyn unrhyw gyllid gan sefydliad allanol.

16.2.6 Ni cheir defnyddio arian gan sefydliadau neu unigolion allanol i dalu am gostau rhaglenni, ac eithrio ar gyfer cyllid gan wasanaethau masnachol y BBC, y Brifysgol Agored, cynyrchiadau ar y cyd (hy cyllid yn gyfnewid am hawliau), cydgyllido a chymhellion cynhyrchu a lleoliadau.

## 16.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

16.3.1 Os oes unrhyw gynnig i gynhyrchiad materion cyfoes a gomisiynir gan y BBC dderbyn grant gan Gronfa Cyfryngau'r UE, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 16.4.20)

### *Cyfeirio at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol*

16.3.2 Os oes unrhyw gynnig ar gyfer cydgyllido ar unrhyw un o wasanaethau'r BBC yn y DU rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.8)

16.3.3 Rhaid i’r Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol gymeradwyo gwerthu tocynnau i ddigwyddiadau darlledu a gynhelir ar eiddo’r BBC.

(Gweler 16.4.10)

16.3.4 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i berchennog cartref gyfrannu at gost y deunyddiau ar gyfer rhaglen gweddnewid at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.15)

16.3.5 Rhaid i’r Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol gymeradwyo yn ysgrifenedig, unrhyw gynnig sy’n ymwneud â chyllid amgen ar gyfer gweithgarwch nad yw’n disgyn yn union i un o’r categorïau a restrir yn y Canllawiau hyn.

(Gweler 16.4.9)

16.3.6 Os oes unrhyw ymrwymiad dan gontract i roi cydnabyddiaeth i bartner gwerth cyhoeddus ar yr awyr neu ar-lein rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol yn gynnar, ymhell cyn cyhoeddi contractau.

(Gweler 16.4.24)

16.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ymgysylltu â sefydliad masnachol yng nghyswllt partneriaeth gwerth cyhoeddus at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.27)

16.3.8 Rhaid i Brif Gynghorydd Polisi Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i noddi digwyddiad ar yr awyr y BBC mewn da bryd.

(Gweler 16.4.29)

16.3.9 Os bydd y BBC yn rhoi sylw i unrhyw ddigwyddiad trydydd parti a noddir gan un o gyhoeddiadau’r BBC neu os bydd y BBC yn rhoi sylw i ddigwyddiad a fydd wedi’i drefnu gan, neu ar y cyd â, Chylchgronau’r BBC, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol ymlaen llaw.

(Gweler 16.4.47)

16.3.10 Rhaid gofyn am gyngor y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol am fentrau codi arian i elusennau ar draws y BBC megis Plant mewn Angen, Diwrnod y Trwynau Coch (Comic Relief) a Sport Relief.

(Gweler 16.4.55)

***Cyfeirio at Bolisi Golygyddol***

16.3.11 Rhaid cyfeirio addasrwydd partneriaid a threfniadau ar gyfer menter olygyddol ar y cyd at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.40)

16.3.12 Rhaid i unrhyw gyfeiriad a wneir ar yr awyr tuag at fenter olygyddol ar y cyd gyda phapur newydd neu gylchgrawn fod yn olygyddol angenrheidiol a rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.41)

16.3.13 Rhaid i Bolisi Golygyddol gymeradwyo’r dewis o bartneriaid a’r trefniadau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar y cyd ac a ddarlledir.

(Gweler 16.4.43)

16.3.14 Rhaid i Bolisi Golygyddol gymeradwyo unrhyw ddolen o dudalennau gwe'r BBC sy’n sôn am ddigwyddiadau i adran benodol o safle sy’n cael ei redeg gan noddwr digwyddiad trydydd parti.

(Gweler 16.4.45)

16.3.15 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnwys digwyddiad, unrhyw le yn y byd, a noddir gan wneuthurwr tybaco, at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.46)

16.3.16 Rhaid cyfeirio unrhyw gyfeiriadau clir at noddwyr mewn clipiau rhagflas ar gyfer rhaglenni BBC sy’n cynnwys digwyddiad noddedig at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 16.4.46)

16.3.17 Rhaid cyfeirio cydnabyddiaeth ar yr awyr ac ar-lein i noddwyr digwyddiadau trydydd parti nad ydynt yn chwaraeon at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy’n comisiynu ac yn gyfrifol am y cynnwys yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid ymgynghori â Pholisi Golygyddol hefyd.

(Gweler 16.4.45)

***Cyfeirio Arall***

16.3.18 Rhaid cyfeirio darlledu apeliadau ar ran elusen, neu ar ran y Pwyllgor Argyfyngau, at Gynghorydd Apeliadau Elusennau’r BBC.

(Gweler 16.4.53 a 16.4.54)

16.3.19 Rhaid i unrhyw brosiectau a gydgyllidir gael eu cymeradwyo ar bapur gan y cyfarwyddwr perthnasol yn y BBC sy'n gyfrifol am yr allbwn

(Gweler 16.4.8)

## 16.4 ARFERION

## *RHAN A: CYLLID GAN WASANAETHAU MASNACHOL Y BBC, Y BRIFYSGOL AGORED A CHYNYRCHIADAU AR Y CYD*

16.4.1 Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn datgan yn glir y ceir caniatáu derbyn cyllid o elw BBC Worldwide a gwasanaethau masnachol eraill y BBC, cyllid gan y Brifysgol Agored ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau ar-lein priodol a chynyrchiadau ar y cyd. Rhaid cofnodi’r holl arian a geir yn y ffurflen Masnachu Teg chwarterol.

***Gwasanaethau Masnachol y BBC***

16.4.2 Ers blynyddoedd lawer, mae gwasanaethau a gyllidir gan ffi’r drwydded y BBC wedi elwa o’r elw a gynhyrchir gan wasanaethau masnachol y BBC. Rhaid i ddefnyddio’r arian a geir o wasanaethau masnachol fod yn unol â Chanllawiau

Masnachu Teg y BBC ac mae rhagor o gyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd Masnachu Teg.

***Y Brifysgol Agored***

16.4.3 Ceir derbyn arian gan y Brifysgol Agored am allbwn dysgu ac addysgol priodol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y Brifysgol Agored a'r BBC.

***Cynyrchiadau ar y cyd***

16.4.4 Mae cynhyrchiad ar y cyd yn golygu pan mae cyllid yn cael ei gyfnewid am hawliau darlledu, cyhoeddi neu hawliau eraill. Mae partneriaid cyd-gynhyrchu priodol yn cynnwys darlledwyr, dosbarthwyr rhaglenni/ffilmiau, cynhyrchwyr annibynnol, cwmnïau recordiau, cynhyrchwyr clywedol, cynhyrchwyr meddalwedd a gwasanaethau gwe a sefydliadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau ac addysg (megis theatrau a chwmnïau cerddoriaeth).

16.4.5 Rhaid i gydnabyddiaeth ar yr awyr ar gyfer cyd-gynyrchiadau fod yn syml a pheidio â hyrwyddo. Fel rheol caiff ei chynnwys ar ddiwedd rhaglenni.

Ar-lein ceir rhoi un gydnabyddiaeth nad yw'n hyrwyddo fesul safle ar gyfer cyd-gynhyrchydd a chaiff gynnwys logo'r cyd-gynhyrchydd. Os oes cyfiawnhad golygyddol, ceir rhoi dolen i safle'r cyd-gynhyrchydd ond ni cheir rhoi dolen yn uniongyrchol i unrhyw dudalen os hyrwyddo, hysbysebu neu werthu nwyddau neu wasanaethau yw prif ddiben y dudalen honno.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Logos a Chydnabyddiaeth Ar-lein)

16.4.6 Dylem holi am unrhyw gyllid, nawdd neu gytundebau hyrwyddo sydd gan bartneriaid cyd-gynhyrchu neu gwmnïau cynhyrchu annibynnol eraill ag eraill, er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd yn groes i werthoedd a safonau Canllawiau Golygyddol y BBC.

## *RHAN B: CYLLID Y MAE'N RHAID IDDO GYDYMFFURFIO Â'R DATGANIAD POLISI AR GYLLID AMGEN*

Rhaid i'r gweithgareddau canlynol gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen:

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen)

## Cydgyllido

16.4.7 Er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i Wledydd y DU, caiff y BBC dderbyn cyllid ar y cyd gan gyrff anfasnachol, addas er mwyn darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol. Yn yr Alban, mae'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg yn cydgyllido gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein mewn Gaeleg. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r BBC yn derbyn arian gan Gronfa Darlledu'r Wyddeleg ar gyfer rhai rhaglenni teledu yn y Wyddeleg.

Yn achlysurol, caiff y BBC dderbyn cyllid ar y cyd ar gyfer allbwn addysg a dysg wedi'i dargedu at adran benodol o'r gynulleidfa, lle na fyddai modd cyfiawnhau cyllido'r allbwn dim ond drwy ffi'r drwydded. Er enghraifft, mae cyllid ar y cyd wedi

cael ei dderbyn yng Nghymru ar gyfer peth allbwn ar-lein, sydd yn Saesneg ac yn Gymraeg ac wedi'i gyfeirio at gynulleidfa benodol.

Bydd cyd-gyllidwyr addas yn cynnwys cyrff a gyllidir gan arian cyhoeddus, elusennau, ymddiriedolaethau elusennol neu gyrff gwirfoddol.

16.4.8 Rhaid i'r holl drefniadau ar gyfer cydgyllido gydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen Adran 14: Cydgyllido.

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen)

Ar ben hynny, rhaid i'r holl gydgyllido fodloni'r gofynion canlynol:

- Mae'n rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol dros raglen neu wefan a gyllidir ar y cyd ac mae'n hanfodol nad yw'r rhaglen yn hyrwyddo'r cyllidwr
- Ni chaniateir derbyn cyllid ar y cyd ar gyfer rhaglenni newyddion, materion cyfoes neu raglenni cyngor i ddefnyddwyr ar unrhyw un o wasanaethau'r BBC
- Rhaid i'r BBC beidio â derbyn arian oddi wrth unrhyw sefydliad y gallai eu buddiannau neu eu gweithgareddau godi amheuon ynghylch gwrthrychedd rhaglen neu wefan
- **Rhaid i unrhyw brosiectau a gydgyllidir gael eu cymeradwyo ar bapur gan y Cyfarwyddwr perthnasol yn y BBC sy'n gyfrifol am yr allbwn**.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig ar gyfer cydgyllido ar unrhyw wasanaeth yn y DU at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

## Gweithgareddau Eraill y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Datganiad Polisi

16.4.9 Rhaid i werthu tocynnau, rhaglenni gweddnewid, cymhellion lleoliad a chynhyrchu, partneriaethau gwerth cyhoeddus a digwyddiadau ar yr awyr y BBC a noddir, gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol o'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen:

- Ni chaiff gwasanaethau'r BBC ddarlledu rhaglenni noddedig na dangos hysbysebion ac mae'n bwysig nad yw trefniadau gyda sefydliadau allanol yn rhoi unrhyw argraff fod un o wasanaethau'r BBC yn cael ei noddi'n fasnachol
- Ni ddylai amhleidioldeb a didwylledd golygyddol y BBC gael eu peryglu ac mae'n rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol ar allbwn y BBC
- Rhaid i'r partneriaid a ddewisir fod yn briodol ac ni ddylai'r dewis beryglu enw da'r BBC.

**Mewn rhai achosion, gall cynnig am weithgaredd nad yw'n disgyn yn union i un o'r categorïau a restrir yn y Canllawiau hyn fod yn dderbyniol, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol ar gyfer gweithgaredd o'r fath, a fydd yn ymgynghori â Chyfraith Masnachol a Rheoliadol y BBC.**

***Gwerthu Tocynnau***

16.4.10 Mewn rhai achosion gall fod yn dderbyniol codi am docynnau ar gyfer digwyddiadau darlledu'r BBC. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer cyngherddau neu ddigwyddiadau sy'n fwy na dim ond recordio rhaglenni rheolaidd y cawn godi am docynnau.

**Dylem ond godi ffi mynediad ar gyfer digwyddiadau a gynhelir mewn lleoliad allanol, dim digwyddiadau a gynhelir yn stiwdios y BBC. Fodd bynnag, gyda chymeradwyaeth y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol, cawn godi am docynnau i ddigwyddiadau a gynhelir mewn neuadd gyngerdd bwrpasol gan y BBC.**

16.4.11. Dim ond i dalu am gostau'r digwyddiad y ceir defnyddio'r arian a geir drwy werthu tocynnau ac ni ddylid prisio tocynnau er mwyn cynhyrchu rhagor o incwm. Ni cheir defnyddio'r arian a geir o werthu tocynnau ar gyfer costau cynhyrchu.

Rhaid cadw cofnodion clir ar wahân o'r holl refeniw tocynnau sy'n mynd i'r BBC neu drwy'r BBC.

16.4.12 Yn ogystal ag egwyddorion y Datganiad Polisi ar Gyllid amgen, rhaid i'r holl drefniadau tocynnau gydymffurfio ag Arweiniad y BBC ar Docynnau ar gyfer Digwyddiadau a Rhaglenni'r BBC.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Tocynnau ar gyfer Digwyddiadau a Rhaglenni'r BBC)

***Rhaglenni Gweddnewid***

16.4.13 Rhaid i'r BBC bob amser dalu am gostau cynhyrchu llawn rhaglenni gweddnewid a bydd hefyd yn talu am gostau gweddnewid y cartref ei hun pan fydd gweddnewid o'r fath wedi'i ddechrau'n uniongyrchol gan y BBC.

Rhaid i'r BBC beidio â mynnu cyfraniad ariannol gan berchennog cartref fel rhagofyniad ar gyfer cymryd rhan mewn rhaglen gweddnewid dan unrhyw amgylchiadau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion prin, gall fod yn briodol i'r perchennog gyfrannu at rai o'r costau gweddnewid. Dim ond os yw perchennog y cartref wedi dechrau'r gwaith gweddnewid neu'n ystyried gwaith gweddnewid y mae'r cyfraniadau hyn yn bosibl. Mae trefniadau o'r fath yn fath o Gyllid Amgen a rhaid iddynt gydymffurfio â'r Datganiad Polisi.

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen)

16.4.14 Ym mhob achos, dim ond i dalu cyflenwyr deunyddiau, nwyddau a gwasanaethau ac unrhyw bersonél adeiladu nad ydynt yn rhan o'r rhaglen y ceir defnyddio'r cyfraniadau gan y perchnogion. Ni chaiff dim o'r arian gan y perchennog fynd i gyllideb cynhyrchu. Rhaid cadw cyfrifon ar wahân ar gyfer y rhaglen a'r gwaith gweddnewid a rhaid iddo fod yn glir nad yw cyfraniadau cyfrannwr wedi cael eu defnyddio ar gyfer costau'r rhaglen.

16.4.15 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i berchennog cartref gyfrannu at gost y deunyddiau ar gyfer rhaglen gweddnewid at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol**.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.15)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhaglenni Gweddnewid)

***Cymhellion Lleoliad a Chynhyrchu***

16.4.16 Mae nifer o wledydd ym mhedwar ban byd, gan gynnwys y DU, yn cynnig cymhellion i ysgogi gwaith cynhyrchu ffilm, teledu a chyfryngau eraill. Mae'r BBC, ynghyd â darlledwyr, cynhyrchwyr a gwneuthurwyr ffilmiau eraill wedi defnyddio'r cymhellion hyn ers blynyddoedd lawer. Caiff y cynlluniau hyn eu cynnig gan amlaf pan fydd drama, rhaglen ddogfen neu raglen arall yn cael ei ffilmio mewn lleoliad penodol. Caiff y cynlluniau hyn yn aml eu rhedeg gan gynghorau ffilmiau neu sefydliadau llywodraethol neu ranbarthol. Mae grantiau hefyd ar gael gan Gronfa Cyfryngau'r UE.

16.4.17 Os derbynnir cronfeydd o'r fath rhaid i hynny fod yn unol â'r egwyddorion yn y Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen.

16.4.18 Rhaid i unrhyw amodau a wneir gan y cyllidwr beidio â thanseilio didwylledd nac amhleidioldeb y BBC. Dylid cymryd gofal penodol yng nghyswllt cynyrchiadau ffeithiol.

16.4.19 Ni chaiff rhaglenni ffeithiol na dramâu sy'n seiliedig ar ffeithiau sy'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth gyfredol gwlad dderbyn cyllid gan unrhyw gynlluniau sydd ar waith yno.

16.4.20 Ni chaiff rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes dderbyn cyllid o'r fath. Yr unig eithriad i'r gwaharddiad hwn yw y caiff cynhyrchiad materion cyfoes a gomisiynir gan y BBC dderbyn grant gan Gronfa Cyfryngau'r UE. Rhaid cyfeirio unrhyw achos o'r fath at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ymlaen llaw.

16.4.21 Mae'r Arweiniad ar Gymhellion Lleoliad a Chynhyrchu yn rhoi cyngor manwl am hyn, gan gynnwys y gweithdrefnau y mae eu hangen ar gyfer defnyddio'r cynlluniau a'r cyfeiriadau y mae eu hangen ar gyfer eu derbyn.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Cymhellion Lleoliad a Chynhyrchu)

***Partneriaethau Gwerth Cyhoeddus***

16.4.22 Mae'r BBC yn ceisio cynnig y gwerth gorau i'r cyhoedd drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill. Gallwn yn aml ysbrydoli a chymell cynulleidfaoedd yn well o lawer os ydym yn gweithio gydag eraill ac yn darparu gwerth ychwanegol i'n cynulleidfaoedd ac i'n partneriaid.

Mewn nifer o achosion ni fydd y BBC yn derbyn dim arian drwy bartneriaeth gwerth cyhoeddus. Gall y bartneriaeth olygu gweithgareddau am ddim, megis oriel yn trefnu arddangosfa ar yr un thema ag un o raglenni'r BBC. Mewn achosion eraill, caiff y partner a'r BBC gydgyllido gweithgarwch oddi ar yr awyr.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Partneriaethau)

16.4.23 Rhaid i bob partneriaeth gydymffurfio â'r gofynion allweddol canlynol o'r Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen:

- Ni chaiff partneriaethau beryglu ein hannibyniaeth a'n gwerthoedd golygyddol. Nid dim ond y BBC yn rhoi sylw i weithgareddau'r partner neu'n hyrwyddo'i ymgyrchoedd y dylai partneriaeth ei olygu. Mae angen i'r partneriaid fod yn gysylltiedig â gweithgarwch gyda'r BBC sy'n cynnig gwerth cyhoeddus

- Dim ond ar gyfer gweithgareddau oddi ar yr awyr neu ar gyfer deunydd cefnogi y dylid defnyddio arian gan bartneriaid ac ni chaniateir defnyddio arian gan bartner allanol ar gyfer costau rhaglenni.

- Rhaid i bartneriaethau beidio â thanseilio amhleidioldeb y BBC. Rhaid gallu cyfiawnhau'r partneriaid a ddewisir a dylai fod yn amlwg bod y BBC yn newid ei amrywiaeth o bartneriaid dros amser

- Rhaid i unrhyw gredydau ar y BBC ar gyfer partneriaid fod yn briodol ac yn rhai y gellir eu cyfiawnhau'n olygyddol.

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Partneriaethau)

16.4.24 **Rhaid cyfeirio unrhyw ymrwymiad dan gontract i roi cydnabyddiaeth i bartneriaid ar yr awyr neu ar-lein at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol yn gynnar, ymhell cyn cyhoeddi contractau.**

16.4.25 Ni ddylai'r BBC lunio partneriaeth gwerth cyhoeddus â phleidiau gwleidyddol, cwmnïau tybaco na'r rheini sy'n hysbys gan fwyaf am gynnyrch tybaco, sefydliadau sy'n ymwneud â phornograffi, neu wneuthurwyr a chyflenwyr diodydd alcoholig.

Fel arfer, ni ddylai'r BBC sefydlu partneriaeth gyda llywodraeth estron. Dylid bod yn ofalus hefyd yng nghyswllt cysylltiadau gydag adrannau llywodraeth y DU, mudiadau crefyddol, elusennau a mudiadau sy'n lobïo i sicrhau nad yw ein hamhleidioldeb yn cael ei danseilio.

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.20 - 4.4.21)

16.4.26 Mae partneriaid addas yn cynnwys cyrff celfyddydol, addysgol a diwylliannol a mudiadau dielw. Mewn nifer o achosion mae'n ddoeth ymgynghori â Pholisi Golygyddol ynghylch y partneriaid a ddewisir.

16.4.27 **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ymgysylltu â sefydliad masnachol yng nghyswllt partneriaeth gwerth cyhoeddus at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol. Yn ystod oes unrhyw gytundeb partneriaeth, mae'n bwysig nad yw'n edrych fel petai'r BBC yn cymeradwyo sefydliadau masnachol neu eu cynnyrch a'u gwasanaethau.**

***Digwyddiadau'r BBC Ar yr Awyr a Noddir***

16.4.28 Caiff y BBC gynnal digwyddiadau cyhoeddus, megis cyngherddau a seremonïau gwobrwyo, sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau allanol ac a ddarlledir ar yr awyr. Mae'r digwyddiadau hyn yn hollbwysig er mwyn i'r BBC gyflawni'i ddiben cyhoeddus o ymestyn ei arlwy a galluogi'r cyhoedd o bob rhan o'r DU i gael gwell mynediad i wasanaethau'r BBC.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Nawdd ar gyfer Digwyddiadau Ar yr Awyr y BBC)

Mewn rhai achosion, er mwyn lleihau’r costau i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded, gall fod yn dderbyniol cael nawdd gan gorff anfasnachol i helpu gyda chost cynnal digwyddiad cyhoeddus.

16.4.29 **Rhaid i Brif Gynghorydd Polisi Golygyddol gymeradwyo unrhyw gynnig i noddi digwyddiad ar yr awyr y BBC mewn da bryd.**

16.4.30 Rhaid i unrhyw nawdd ar gyfer digwyddiadau ar yr awyr y BBC gydymffurfio â’r canlynol:

- y Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen

(Gweler Atodiad 3 ar-lein: Datganiad Polisi ar Gyllid Amgen)

- yr Arweiniad ar Noddi Digwyddiadau Ar yr Awyr y BBC a ddarlledir ar sianeli a gyllidir gan arian cyhoeddus

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Nawdd ar gyfer Digwyddiadau Ar yr Awyr y BBC)

- Canllawiau Masnachu Teg y BBC ac, yn benodol, yr Egwyddor Effaith Gystadleuol.

16.4.31 Dim ond ar gyfer costau cynnal y digwyddiad y ceir defnyddio arian y noddwr. Ni chaniateir defnyddio arian nawdd ar gyfer unrhyw gostau darlledu. Rhaid i gyfrifon ddangos gwahaniaeth clir rhwng costau’r digwyddiad a’r costau darlledu.

Ni chaiff unrhyw raglen ar wasanaeth y BBC sy’n derbyn arian cyhoeddus gael ei noddi.

16.4.32 Dim ond ar gyfer digwyddiadau ar yr awyr sy'n unigryw ac o werth cyhoeddus amlwg y mae nawdd yn dderbyniol. Mae digwyddiadau sy’n gymwys i dderbyn nawdd yn cynnwys:

- cyngherddau, perfformiadau, digwyddiadau diwylliannol neu artistig gan gynnwys digwyddiadau perfformio cystadleuol sy’n dathlu llwyddiant artistig
- seremonïau gwobrwyo’r BBC
- cynlluniau talent, cymunedol neu ar gyfer ieuenctid gan y BBC sy'n cynnwys digwyddiad ar yr awyr.

16.4.33 Nid oes hawl noddi digwyddiadau Newyddion a Materion Cyfoes ar yr awyr a digwyddiadau sy'n seiliedig ar raglenni i ddefnyddwyr sy'n delio â phynciau amrywiol.

16.4.34 Ar ben hynny:

- dim ond os oes modd cyfiawnhau'n gryf na fyddai’r digwyddiad yn bosibl heb nawdd y dylid cynnal digwyddiadau noddedig
- mae rhagdybiaeth yn erbyn newid teitlau rhaglenni cyfredol yn ddigwyddiadau noddedig

- ni ddylid rhoi'r argraff bod un o raglenni neu wasanaethau'r BBC yn cael ei noddi; dylai cydnabyddiaeth ddangos yn amlwg mai'r digwyddiad ei hun sydd wedi cael ei noddi
- ni ddylai digwyddiadau a ddarlledir gan y BBC ac a gynhelir ar eiddo'r BBC gael eu noddi
- rhaid i ni beidio â dangos y noddwr yn nheitl digwyddiad gan y BBC
- ein bwriad yw bod yn deg wrth roi cydnabyddiaeth am rôl alluogi'r noddwyr a dylai unrhyw gydnabyddiaeth a roddir fod yn deg ond heb fod yn hyrwyddol
- ni ddylem sefydlu trefniant dan gontract sy'n sicrhau cydnabyddiaeth ar yr awyr.

***Noddwyr Addas ar gyfer Digwyddiadau'r BBC Ar yr Awyr***

16.4.35 Mae noddwyr addas yn cynnwys elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau, awdurdodau lleol (megis cynghorau dinas neu ranbarthol), asiantaethau datblygu rhanbarthol, asiantaethau llywodraeth priodol, sefydliadau addysgol sy'n cael arian cyhoeddus a sefydliadau cyhoeddus addas eraill.

Nid yw'r canlynol yn noddwyr priodol ar gyfer digwyddiadau'r BBC: cyrff masnachol, cyrff crefyddol, sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r ocwlt, sefydliadau gwleidyddol, llywodraethau estron, grwpiau pwyso a grwpiau lobïo.

Ni ddylai'r dewis o noddwr beri unrhyw amheuaeth ynghylch gwrthrychedd y digwyddiad.

16.4.36 Rhaid i'r digwyddiad bob amser aros dan reolaeth olygyddol y BBC ac ni chaiff y noddwr ddylanwadu ar ei gynnwys golygyddol, na chynnwys rhaglen y BBC sy'n rhoi sylw i'r digwyddiad. Ni ddylid newid cylch gwaith golygyddol y digwyddiad na'r rhaglen sy'n rhoi sylw i'r digwyddiad oherwydd ei fod yn mynd yn groes i agenda'r noddwr.

Rhaid i'r digwyddiad beidio â dod yn gyfrwng i hyrwyddo'r noddwr neu ei weithgareddau

***Dyfarniadau a Noddir***

16.4.37 Rhaid i unrhyw gynnig i gynnig dyfarniad wedi'i noddi gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau a'r Arweiniad ar Noddi Digwyddiadau ar yr Awyr y BBC a ddarlledir ar sianeli sy'n cael cyllid cyhoeddus.

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau ac Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.6)

## Digwyddiadau'r BBC Oddi ar yr Awyr

16.4.38 O bryd i'w gilydd, caiff y BBC gynnal digwyddiadau oddi ar yr awyr i gefnogi ei raglenni neu weithgareddau maes. Ambell waith gall digwyddiadau o'r fath

gynnwys nawdd cyfyngedig. Rhaid i ddigwyddiadau o'r fath gael eu cynnal yn unol â'r Arweiniad ar Ddigwyddiadau Oddi ar yr Awyr y BBC.

## Mentrau a Digwyddiadau Golygyddol ar y Cyd

### *Mentrau Golygyddol ar y Cyd*

16.4.39 Mae menter olygyddol ar y cyd yn golygu partneriaeth pan fydd y BBC a phartner neu bartneriaid yn rhannu'r cyfrifoldeb golygyddol dros fenter neu brosiect cyffredinol sydd o fudd gwasanaeth cyhoeddus. Caiff y BBC gynnal gweithgareddau maes yng nghyswllt y prosiect yn ogystal â chynhyrchu rhaglenni neu gynnwys arall. Mewn rhai achosion caiff y partner gynnal digwyddiad cysylltiedig neu gyhoeddi erthyglau perthnasol. Mae modd cyd-westeia deunyddiau ar-lein sy'n ymwneud â'r fenter (h.y. rhoi'r deunyddiau ar y naill safle a'r llall).

16.4.40 Wrth gynnal menter olygyddol ar y cyd:

- ni chaiff dim arian gan bartner fynd i gyllidebau rhaglen na chynnwys ar-lein y BBC
- rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol dros holl gynnwys y BBC a fydd yn cael ei ddarlledu, a fydd ar gael ar-lein neu fel arall ac unrhyw elfen o'r prosiect sy'n cyfeirio at y BBC
- ni cheir defnyddio'r fenter i roi hỳs-bỳs i'r corff allanol ar yr awyr nac ar-lein. Ni ddylem greu dolen uniongyrchol i unrhyw dudalen ar safle'r partner os mai hyrwyddo neu werthu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth masnachol yw ei brif ddiben
- **rhaid cyfeirio at Bolisi Golygyddol ynghylch addasrwydd partneriaid a threfniadau ar gyfer menter olygyddol ar y cyd**.

16.4.41 Mewn rhai amgylchiadau, am resymau golygyddol cadarn, gall y fenter fod gyda chylchgrawn neu bapur newydd, sy'n cyhoeddi deunyddiau sy'n berthnasol i'r fenter. **Rhaid i unrhyw gyfeiriad a wneir ar yr awyr tuag at fenter gyda phapur newydd neu gylchgrawn fod yn olygyddol angenrheidiol a rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.** Rhaid i ni sicrhau na fydd unrhyw gyfeiriad yn hyrwyddo'r cyhoeddiad, ac ni fydd yn rhaid i bobl ei brynu na chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â'r fenter ar y cyd.

### *Digwyddiadau ar y Cyd*

16.4.42 Mewn rhai achosion gall y fenter olygu ymuno â phartner i gynnal digwyddiad. Mae'r BBC a'r partner yn gyfrifol am y digwyddiad ar y cyd. Nid yw hwn yn ddigwyddiad a noddir ac mae'r partner yn ymwneud yn olygyddol â'r BBC i gynnal y digwyddiad. Ambell waith gellir darlledu'r digwyddiadau hyn.

16.4.43 Dim ond â phartneriaid sy'n addas fel partneriaid gwerth cyhoeddus y ceir cynnal digwyddiadau ar y cyd o'r math hwn.

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol: 16.4.22 - 16.4.27)

Ni chaiff dim o’r arian gan y partner ar gyfer digwyddiad ar y cyd fynd i gyllideb rhaglen.

**Rhaid i Bolisi Golygyddol gymeradwyo’r dewis o bartneriaid a’r trefniadau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar y cyd ac a ddarlledir.**

## *RHAN C: CYSYLLTIADAU ALLANOL ERAILL*

## Digwyddiadau Trydydd Parti a Noddir

16.4.44 Mae’r BBC yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau trydydd parti, digwyddiadau chwaraeon, sioeau gwobrwyo a digwyddiadau cerddoriaeth a chaiff nifer ohonynt eu noddi.

Mewn unrhyw sylw o’r fath:

- byddwn yn anelu at roi cydnabyddiaeth deg am rôl alluogi noddwyr

(Gweler Adran 14: Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.21 - 14.4.22)

- rhaid i ni beidio â hyrwyddo noddwr yn ein deunyddiau a dylai unrhyw gydnabyddiaeth a roddir fod yn deg heb hyrwyddo gormod
- fel rheol ni ddylem gynnwys noddwr yn nheitl un o raglenni’r BBC
- rhaid i ni beidio â derbyn unrhyw arian gan noddwyr neu drefnwyr tuag at gost unrhyw elfen o’n darllediad o ddigwyddiad. Fodd bynnag, cânt dalu’r holl gostau sydd ynghlwm â’r digwyddiad ei hun
- dylai digwyddiad a noddir gan drydydd parti fod yn gwbl annibynnol ac ni ddylai fod wedi’i greu dim ond i ddenu sylw darlledu.

16.4.45 Rhaid i ni byth beidio â chael trefniant contract sy’n gwarantu i’r noddwr y byddwn yn dangos arwyddion ar yr awyr am nifer penodol o funudau.

**Rhaid cyfeirio cydnabyddiaeth ar yr awyr ac ar-lein i noddwyr digwyddiadau trydydd parti nad ydynt yn chwaraeon at yr uwch swyddog golygyddol perthnasol neu at y golygydd sy’n comisiynu ac yn gyfrifol am y cynnwys yng nghyswllt cwmnïau annibynnol. Rhaid ymgynghori â Pholisi Golygyddol hefyd.**

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir dolenni o dudalennau gwe'r BBC am y digwyddiad i safle ar-lein y noddwr. Ni ddylem byth roi’r argraff ein bod yn anfon traffig i safle sy’n gwerthu nwyddau neu wasanaethau noddwr. Fodd bynnag gall fod yn dderbyniol, am resymau golygyddol cadarn, creu dolen i adran benodol o safle’r noddwr nad yw’n hyrwyddo ac sydd ond yn rhoi gwybodaeth bwysig a pherthnasol bellach am y digwyddiad. Rhaid i Bolisi Golygyddol gymeradwyo dolenni o’r fath.**

16.4.46 **Rhaid cyfeirio at Bolisi Golygyddol pryd bynnag y cynigir:**

- **rhoi sylw i ddigwyddiad, unrhyw le yn y byd, a noddir gan wneuthurwr tybaco**

- **cynnwys cyfeiriadau amlwg at noddwyr mewn clipiau rhagflas ar gyfer un o raglenni'r BBC sy'n rhoi sylw i ddigwyddiad a noddir.**

16.4.47 **Os bydd y BBC yn rhoi sylw i unrhyw ddigwyddiad trydydd parti a noddir gan un o gyhoeddiadau'r BBC neu os bydd y BBC yn rhoi sylw i ddigwyddiad a fydd wedi'i drefnu gan neu ar y cyd â Chylchgronau'r BBC, rhaid cyfeirio hynny at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol ymlaen llaw.**

## Y Loteri Genedlaethol

16.4.48 Mae'r Loteri Genedlaethol yn sefydliad a reoleiddir gan Ddeddf Seneddol. Rydym yn rhoi sylw i dynnu rhifau'r Loteri Genedlaethol fel gwasanaeth i'n cynulleidfa sy'n prynu tocynnau ac yn cael budd o'r grantiau. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau na welir bod ein sylw yn hysbysebu'r loteri na phrynu tocynnau'n uniongyrchol. Er mwyn gwireddu hyn, dylem:

- sicrhau nad yw clipiau rhagflas ar yr awyr sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i sylw'r BBC o dynnu rhifau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni sy'n cynnwys tynnu rhifau'r Loteri Genedlaethol ddim yn hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol ei hun na phrynu tocynnau;

- osgoi defnyddio unrhyw elfennau o ddeunyddiau hysbysebu neu hyrwyddo'r loteri mewn rhaglenni sy'n cynnwys tynnu'r loteri, na chlipiau rhagflas ar gyfer tynnu rhifau'r Loteri Genedlaethol na'r rhaglenni

- sicrhau nad yw prynu tocyn loteri yn rhagofyniad i unrhyw un ymddangos ar ein rhaglenni loteri, na bod yn aelod o'r gynulleidfa, ar gyfer rhaglenni o'r fath.

16.4.49 Rhaid i ni beidio â chynnwys plant dan 16 oed yng nghynulleidfa stiwdio rhaglenni'r loteri ac ni ddylai rhaglenni'r loteri fod wedi'u hanelu'n benodol at blant dan 16 oed.

16.4.50 Rhaid i'r holl raglenni sy'n cynnwys tynnu'r loteri fod yn unol â'r Arweiniad ar Sylw o'r Loteri Genedlaethol.

16.4.51 Efallai fod ar raglenni, ac eithrio'r rheini sy'n cynnwys tynnu'r loteri ei hun, eisiau cynnwys eitemau am y Loteri Genedlaethol. Dylid bod yn ofalus a defnyddio lluniau, sain neu luniau llonydd o dynnu'r loteri, yn hytrach na lluniau o elfennau eraill rhaglenni loteri'r BBC, wrth ddangos straeon am y Loteri Genedlaethol neu weithredwr y loteri.

Os defnyddir deunyddiau archif sy'n cynnwys cyflwynwyr, teitlau, clipiau rhagflas neu gynnwys rhaglenni loteri ac eithrio lluniau neu sain o dynnu'r loteri, dylid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol. Mae hefyd yn ddoeth ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni am y cyfyngiadau cyfreithiol sydd ar ddefnyddio logos loteri a lluniau archif o raglenni loteri.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Y Loteri Genedlaethol)

## Elusennau

### *Apeliadau Darlledu*

16.4.52 Mae'r BBC yn rhedeg apeliadau darlledu ar gyfer elusennau fel rhan o'i gylch gwaith fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Dylai apeliadau darlledu adlewyrchu ystod amrywiol y sector elusennol.

Bydd apeliadau rheolaidd ar gyfer elusennau unigol yn cael eu darlledu yn Apêl wythnosol Radio 4 a'r rhaglen apêl fisol reolaidd Lifeline ar Deledu BBC. Caiff apeliadau ar gyfer elusennau perthnasol eu darlledu yn y Gwledydd ac ar orsafoedd radio lleol yn Rhanbarthau Lloegr. Ceir hefyd Apêl Blue Peter ar gyfer elusen benodol.

Caiff dewis elusennau ei oruchwylio gan Gynghorydd Apeliadau Elusennau'r BBC a Phwyllgor Cynghori Apeliadau'r BBC (sy'n cynnwys arbenigwyr allanol yn y maes elusennau), ac yn y Gwledydd ac yn Rhanbarthau Lloegr gan bwyllgorau tebyg o gynghorwyr allanol.

16.4.53 Rhaid cynnal pob apêl yn unol â'r Arweiniad ar Apeliadau Elusennol a rhaid ei chyfeirio at Gynghorydd Apeliadau Elusennau'r BBC. Mae rhagor o wybodaeth am bolisi'r BBC ar apeliadau elusennau ar gael ar wefan Apeliadau Elusennau'r BBC.

***Apeliadau Argyfyngau***

16.4.54 **Os bydd argyfwng mawr dramor, caiff y BBC ddarlledu apêl ar ran y Pwyllgor Argyfyngau, sefydliad sy'n cynrychioli prif elusennau cymorth dyngarol y DU. Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol a rhaid i'r darllediad gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol.**

**Rhaid i'r broses cymeradwyo a'r trefniadau ar gyfer darlledu apeliadau o'r fath fod yn unol ag Arweiniad y BBC ar gyfer Apeliadau Argyfyngau a rhaid cyfeirio at Gynghorydd Apeliadau Elusennau'r BBC.**

***Mentrau Codi Arian ar Draws y BBC***

16.4.55 **Mae'r BBC yn cynnal mentrau codi arian mawr i elusennau ar draws y BBC megis Plant mewn Angen, Diwrnod y Trwynau Coch (Comic Relief) a Sport Relief. Dylid cynnal y mentrau hyn yn unol â'r Arweiniad ar Fentrau Codi Arian i Elusennau ar Draws y BBC a rhaid gofyn am gyngor gan y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol.**

***Cyfeirio at Elusennau yn Allbwn Arall y BBC***

16.4.56 Ac eithrio Apeliadau'r BBC a mentrau codi arian ar draws y BBC a amlinellir uchod, ni ddylai rhaglenni na chynnwys ar-lein y BBC apelio am arian i elusennau nac annog cynulleidfaoedd i roi arian i unrhyw elusen benodol.

16.4.57 Rhaid i ni gadw ein hamhleidioldeb a'n hannibyniaeth pan fyddwn yn sôn am waith elusennau a rhaid i ni beidio ag ymddangos ein bod yn ffafrio un elusen ar draul un arall.

16.4.58 O bryd i'w gilydd, cawn lunio partneriaeth gwerth cyhoeddus gydag elusennau neu cânt noddi digwyddiadau neu ddeunyddiau cefnogi. Fodd bynnag, rhaid i ni ofalu na fydd trefniadau o'r fath yn rhoi'r argraff bod y BBC yn hyrwyddo'r elusen nac yn ei chymeradwyo ar draul elusennau eraill sy'n gweithio yn yr un maes.

# Adran 16: Cysylltiadau a Chyllid Allanol

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.34 - 14.4.37)

# ADRAN 17: RHYNGWEITHIO Â’N CYNULLEIDFAOEDD

**17.1 Cyflwyniad**
**17.2 Egwyddorion**
**17.3 Cyfeirio Gorfodol**
**17.4 Arferion**
- **Cystadlaethau**
- **Pleidleisio**
- **Dyfarniadau**
- **Rhaglenni wedi’u Recordio Ymlaen Llaw neu eu Hailddarlledu**
- **Gwobrau**
- **Yr Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau**
- **Gwasanaethau Ffôn**
- **Rhaglenni Gemau a Chwisiau**
- **Rhaglenni Talent a Rhaglenni sy’n Cynnig Cyfleoedd i Newid Bywyd**
- **Rhaglenni Galw i Mewn, Cynnwys Ar-lein a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr, Cynnwys Symudol, Gemau a Theledu Rhyngweithiol**

## 17.1 CYFLWYNIAD

Mae rhyngweithedd yn caniatáu i’n cynulleidfaoedd ymgysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd gwahanol; o bleidleisio dros gystadleuydd a allai ennill cyfle i newid ei fywyd, cymryd rhan mewn cystadleuaeth i wylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr ar-lein, codi arian i elusen, neu chwarae gêm ar-lein, i gyfrannu at raglenni galw i mewn ar y radio a hyd yn oed penderfynu pa gêm i’w gwylio yn Wimbledon neu benderfynu ar ddiwedd cyfres neu ddrama boblogaidd.

Mae rhyngweithedd yn rhoi dewis a chyfleoedd i bobl gael dweud eu dweud, cymryd rhan a chreu cynnwys. Ein nod yw ei gynnig i bawb drwy ddefnyddio ein llwyfannau gwahanol mewn amryfal ffyrdd, ond ni fyddwn byth yn eithrio gwylwyr a gwrandawyr sy’n dewis peidio â chymryd rhan.

Ymddiriedaeth yw gwerth pwysicaf y BBC a rhaid i ni beidio â thanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC. Byddwn yn cynnal perthynas onest ac agored gyda’n cynulleidfaoedd ac ni fyddwn yn eu camarwain yn fwriadol. Pan fydd y cyhoedd yn ymgysylltu â ni drwy ryngweithedd, byddant yn cael eu trin â pharch, didwylledd a thegwch.

Rhaid i ni gasglu, storio a gwaredu eu manylion personol yn ddiogel ac yn unol â’r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Polisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.11 ac Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.54)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithedd Cynulleidfa)

## 17.2 EGWYDDORION

17.2.1 Rhaid i holl ryngweithedd cynulleidfa gael ei gynnal mewn modd onest, teg a chyfreithiol. Yn benodol:

- Rhaid i'r enillwyr fod yn enillwyr go iawn bob tro ac ni ddylid byth eu dyfeisio na'u dewis ymlaen llaw

- Rhaid trin cystadlaethau a phleidleisiau rhyngweithiol gyda gofal a didwylledd cadarn bob tro

- Rhaid i gystadlaethau, gornestau a phleidleisiau gael rheolau clir, a rhaid gwneud y rheini'n hysbys fel sy'n briodol

- Rhaid i'r gwobrau gael eu disgrifio'n gywir, a dylent fod yn briodol i'r gynulleidfa darged

- Rhaid rhoi gwybod i'r gynulleidfa os nad yw'r cyfle i ryngweithio ar gael mwyach pan fydd cynnwys sy'n cynnwys elfennau rhyngweithiol yn cael ei ailddarlledu, neu ar gael drwy wasanaeth ar-alw neu pan fydd ei amser wedi'i newid

- Nid yw gwerthoedd cynhyrchu yn drech na'r egwyddorion hyn.

17.2.2 Rhaid i holl gystadlaethau, pleidleisiau a dyfarniadau'r BBC ar ein gwasanaethau sy'n derbyn arian cyhoeddus gydymffurfio â Chod Ymddygiad y BBC ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio.

(Gweler Atodiad 2 ar-lein: Cod Ymddygiad ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio)

17.2.3 Pan fyddwn yn cynnig cyfle i'n cynulleidfaoedd ryngweithio ar ein sianeli sy'n derbyn arian cyhoeddus, rhaid i hynny ychwanegu gwerth cyhoeddus a gwella ein hallbwn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid iddo hefyd fod yn nodedig, bod â diben golygyddol clir a chyfateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa debygol.

17.2.4 Rhaid i ni barchu preifatrwydd pawb sy'n rhyngweithio â ni a dim ond casglu gwybodaeth bersonol gyda'u cydsyniad.

17.2.5 Rhaid i ryngweithedd cynulleidfa ar ein gwasanaethau sy'n derbyn arian cyhoeddus beidio â gweithredu fel gwasanaeth masnachol, bod yn ddrud i'w ddefnyddio, na bod wedi'i ddylunio i wneud elw oni bai ei fod wedi'i sefydlu'n benodol a'i gymeradwyo ymlaen llaw fel dull o godi arian ar gyfer un o fentrau elusennol y BBC.

17.2.6 Ar ein gwasanaethau sy'n derbyn arian cyhoeddus, rhaid i gystadlaethau a drefnwyd ar y cyd, gwobrau a roddwyd ar gyfer cystadleuaeth ar y teledu, ar y radio neu ar-lein, a chyllid allanol ar gyfer gwobr, bwrsariaeth neu ddyfarniad, gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllid Gwobrau a Dyfarniadau.

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

17.2.7 Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol gyffredinol dros ryngweithio wrth weithio mewn partneriaeth gydag eraill.

## 17.3 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.*

*Noder nad yw Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) yn cynghori BBC Worldwide. Pan gyfeirir at ITACU yn y Canllawiau Golygyddol, dylai BBC Worldwide ymgynghori â Pholisi Masnachol BBC Worldwide yn y lle cyntaf.)*

***Cyfeirio at Bolisi Golygyddol***

Mae'r cyfeiriadau isod at y Polisi Golygyddol yn berthnasol i holl sianeli a gwasanaethau'r BBC

17.3.1 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio llinellau cyfradd premiwm ar gyfer gwasanaethau a anelir at blant at Bolisi Golygyddol a'r cyfarwyddwr adrannol perthnasol.

(Gweler 17.4.17)

17.3.2 Os oes unrhyw gynnig i safoni man ar-lein ac eithrio drwy safoni ymlaen llaw, ôl-safoni neu mewn modd adweithiol, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.41)

Mae'r cyfeiriadau isod at y Polisi Golygyddol yn berthnasol i wasanaethau'r BBC sy'n derbyn arian cyhoeddus a BBC Global News yn unig.

17.3.3 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth ar y cyd â thrydydd parti at Bolisi Golygyddol ac ITACU ar gam cynnar.

(Gweler 17.4.2)

17.3.4 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal pleidlais ar y cyd â thrydydd parti at Bolisi Golygyddol a'r Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd (ITACU) ar gam cynnar.

(Gweler 17.4.5)

17.3.5 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gael nawdd ar gyfer dyfarniad gan y BBC at y Prif Gynghorydd, Polisi Golygyddol ymlaen llaw.

(Gweler 17.4.6)

17.3.6 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnig gwobr o werth sylweddol at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.11)

17.3.7 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i dderbyn gwobr a roddir ar gyfer rhaglen gêm at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.13)

17.3.8 Os rhoddir rhodd sylweddol yn wobr ar gyfer un o fentrau elusennol y BBC, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.14)

17.3.9 Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio llinellau cyfradd premiwm i godi arian i elusennau drwy unrhyw fath o ryngweithio gan y gynulleidfa, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at Bolisi Golygyddol ac ITACU. Bydd angen i lefel adrannol uwch gymeradwyo hyn hefyd.

(Gweler 17.4.17)

17.3.10 Rhaid cyfeirio pob cynnig i ddefnyddio teleffoni cyfradd premiwm mewn gwasanaethau a gyllidir gan ffi’r drwydded at ITACU a Pholisi Golygyddol yn gynnar yn y broses.

(Gweler 17.4.17)

17.3.11 Efallai y byddwn yn rhoi clipiau rhagflas o linellau ffôn ar yr awyr a fydd yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau neu berfformiadau sy’n cael sylw yn rhaglenni’r BBC. Fel rheol ni ddylai’r llinellau hyn fod ar gyfradd premiwm nac yn ffordd o brynu tocynnau, ond mae’n bosibl iddynt roi manylion rhifau ffôn i brynu tocynnau. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriad at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.20)

17.3.12 Os oes unrhyw gynnig i dderbyn cyfle sy’n gallu newid gyrfa neu fywyd fel gwobr, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol ar gam cynnar.

(Gweler 17.4.30)

17.3.13 Os oes unrhyw gynnig i redeg gwasanaeth cyhoeddus rhyngweithedd symudol y BBC lle gall defnyddwyr rhai rhwydweithiau symudol gymryd rhan, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.

(Gweler 17.4.44)

***Cyfeirio Arall***

17.3.14 Rhaid cyfeirio unrhyw ddefnydd o deleffoni cyfradd premiwm at yr arweinydd golygyddol perthnasol yn y lle cyntaf.

(Gweler 17.4.17)

17.3.15 Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o “baratoi” a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu at yr arweinydd golygyddol perthnasol yng nghyswllt gwasanaethau masnachol).

(Gweler 17.4.39)

<u>Mae’r cyfeiriadau isod yn berthnasol i wasanaethau’r BBC sy’n derbyn arian cyhoeddus a BBC Global News yn unig.</u>

17.3.16 Os oes unrhyw gynnig i gynnig gwobr ariannol mewn rhaglen gêm gwasanaeth cyhoeddus y BBC, rhaid cyfeirio hynny at y rheolydd allbwn perthnasol a rhaid iddo gymeradwyo hynny. Rhaid i Bolisi Golygyddol hefyd gymeradwyo gwobrau ariannol sylweddol o’r fath.

(Gweler 17.4.11)

17.3.17 Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth, pleidlais neu ddyfarniad drwy ddefnyddio teleffoni at yr Uned Cyngor Technegol

Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) am gyngor technegol, cyfreithiol ac ynghylch contractau ac i sicrhau bod y ffurflenni cymeradwyo perthnasol yn cael eu llenwi a’u logio.

(Gweler 17.4.16)

17.3.18 Rhaid i unrhyw gynnig i wahodd pobl i fod yn rhan o raglen ar wasanaethau cyhoeddus y BBC drwy ffonio llinell i gystadleuwyr gael ei gyfeirio at ITACU.

(Gweler 17.4.19)

## 17.4 ARFERION

### Cystadlaethau

17.4.1 Ceir cynnal cystadlaethau yn ein holl allbwn a gwasanaethau. Yn aml gall y rhain fod yn declyn defnyddiol i’n helpu i hyrwyddo ein cynnwys a’n gwasanaethau, cyrraedd cynulleidfaoedd na chânt eu gwasanaethu cystal a bod yn fwy arloesol a chreadigol. Mewn rhai achosion gall canlyniad cystadleuaeth fod yn gyfle i newid bywyd yr enillydd neu’r mudiad buddugol.

Rhaid i bob cystadleuaeth fod yn onest, yn agored, yn deg ac yn gyfreithiol, gan ddiwallu’r safonau golygyddol, moesegol a thechnegol uchel y mae ein cynulleidfaoedd yn eu disgwyl. Rhaid disgrifio’r gwobrau yn gywir.

Rhaid i gystadlaethau'r BBC lynu at yr egwyddorion ar gyfer cystadlaethau a phleidleisiau rhyngweithiol yng Nghod Ymddygiad y BBC ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio.

(Gweler Atodiad 2 ar-lein: Cod Ymddygiad ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio)

Yn ogystal â’r Canllawiau Golygyddol, ceir arweiniad manwl ar bob cam o sefydlu a chynnal cystadlaethau’r BBC, gan gynnwys proses cymeradwyo orfodol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein Rhyngweithedd Cynulleidfa)

**Yn benodol:**

- Rhaid i ni sicrhau bod diben golygyddol clir i unrhyw gystadleuaeth mewn unrhyw gyfrwng
- Rhaid rhoi adnoddau priodol i gystadlaethau er mwyn sicrhau bod modd eu gweinyddu’n briodol. Rhaid llunio cynlluniau wrth gefn gofalus, yn olygyddol ac yn dechnegol
- Rhaid rhoi gwybod yn glir i’r gynulleidfa pryd y bydd y dyddiad cau, a rhaid rhoi digon o amser rhwng cau’r gystadleuaeth a chyhoeddi’r canlyniad er mwyn sicrhau bod modd dilysu’r canlyniad
- Rhaid i’r holl gynigion cymwys fod â’r un cyfle i ennill a rhaid i’r broses o ddethol yr enillydd fod wedi’i dylunio i gyflawni hynny

- Dylem gynnig prawf go iawn o sgiliau, gwybodaeth neu farn sy'n briodol i'r gynulleidfa. Rhaid cael sgiliau priodol i ennill wrth ddefnyddio llinellau cyfradd premiwm ar gyfer cystadlaethau, fel arall gallai'r gystadleuaeth fod yn anghyfreithlon

- **Rhaid cynnal cystadlaethau'n briodol, yn deg ac yn agored, a dylid cyhoeddi'r rheolau**

- Pan fydd panel yn beirniadu cystadleuaeth, dylid gosod meini prawf clir a dylai'r rheini fod ar gael yn hawdd

- Rhaid i sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC beidio â hyrwyddo unrhyw gystadleuaeth yn uniongyrchol os na chaiff ei threfnu gan y BBC neu ei rhedeg ar y cyd â'r BBC

- Rhaid i ni gadw ein hannibyniaeth olygyddol a rhaid i gystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC beidio â hyrwyddo unrhyw wasanaeth, cynnyrch neu gyhoeddiad

- Rhaid i ni beidio â mynnu bod pobl yn prynu unrhyw beth i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC oni bai ei fod yn gysylltiedig ag un o apeliadau elusennol y BBC

- Rhaid i gwestiynau ac atebion fynnu lefel briodol o sgiliau gan y gynulleidfa debygol a rhaid iddynt fod yn addas o ran tôn a thestun. Rhaid iddynt fod yn ffeithiol gywir. Ni ddylai cystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC gyfeirio at nwyddau na gwasanaethau wedi'u brandio a gynigir fel gwobrau

- Ceir gofynion rheoliadol penodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC sy'n llywodraethu derbyn neu ddefnyddio gwobr a roddir ar gyfer cystadleuaeth i wylwyr, i wrandawyr neu i ddefnyddwyr ar-lein, cyllido gwobr, bwrsariaeth neu ddyfarniad yn allanol, neu gystadleuaeth a drefnir ar y cyd. Rhaid i unrhyw drefniadau o'r fath gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau y cyfeirir ato yn y Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC.

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

### *Cystadlaethau a Gynhelir ar y Cyd*

17.4.2 Cawn gynnal cystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar y cyd gyda sefydliad priodol megis sefydliad academaidd neu artistig. Ond rhaid i ni dalu cyfran sylweddol o'r costau ac ni ddylai dim arian gan y sefydliad allanol fynd i unrhyw gyllideb rhaglen.

Rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol a bod â goruchwyliaeth dechnegol a chymeradwyaeth o'r gystadleuaeth yn gyffredinol.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth ar y cyd â thrydydd parti at Bolisi Golygyddol a’r Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) ar gam cynnar.**

17.4.3 Fel rheol ni ddylem gynnal cystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC gyda sefydliad masnachol. Fodd bynnag, gall fod yn bosibl:

- ymuno â chyhoeddiad neu sefydliad cyfryngau arall i gynnal cystadleuaeth gyda dyfarniad a noddir ar y cyd neu ddyfarniad am sgiliau sy’n ymwneud â darlledu (megis newyddiaduraeth, cerddoriaeth neu ddrama neu fentrau eraill y BBC)

- i orsafoedd radio lleol ymuno â chyhoeddiad rhanbarthol i gyflwyno dyfarniad lleol.

## Pleidleisio

17.4.4 Mae modd defnyddio pleidleisiau i ddarparu adloniant, i godi arian i apeliadau elusennol neu i helpu’r gynulleidfa i gofrestru barn ar bynciau sy’n amrywio o faterion ysgafn i faterion sy’n ymwneud â pholisïau cyhoeddus neu wleidyddiaeth.

Mewn rhai achosion, gall canlyniad y bleidlais fod yn gyfle a all newid bywyd yr enillydd neu’r mudiad buddugol, gallai fod o ddiddordeb i grwpiau lobïo neu gallai fod yn fantais fasnachol bosibl.

Rhaid i holl bleidleisiau’r BBC fod yn onest, yn agored, yn deg ac yn gyfreithiol, gan ddiwallu’r safonau golygyddol, moesegol a thechnegol uchel y mae ein cynulleidfaoedd yn eu disgwyl.

Rhaid i bleidleisiau’r BBC lynu at yr egwyddorion ar gyfer cystadlaethau a phleidleisiau rhyngweithiol yng Nghod Ymddygiad y BBC ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio.

(Gweler Atodiad 2 ar-lein: Cod Ymddygiad ar gyfer Cystadlaethau a Phleidleisio)

Yn ogystal â’r Canllawiau Golygyddol, ceir arweiniad manwl ar bob cam o sefydlu a chynnal pleidleisiau’r BBC, gan gynnwys proses cymeradwyo orfodol.

(Gweler yr Arweiniad: Rhyngweithedd Cynulleidfa)

Yn benodol:

- Rhaid rhoi gwybod i’r gynulleidfa am y canlyniadau’n gywir

- Rhaid i ni fod yn deg ag unrhyw un a fernir gan bleidlais gan y gynulleidfa a rhaid adlewyrchu safbwyntiau’r gynulleidfa sy’n pleidleisio yn deg ac yn gywir

- Dylem gymryd camau priodol i amddiffyn didwylledd y bleidlais a’r canlyniad bob amser

- Rhaid i ni beidio â chamarwain y gynulleidfa ynghylch diben pleidlais
- Ar y cychwyn cyntaf dylid ystyried yn ofalus iawn ai pleidlais gyhoeddus yw'r dull mwyaf priodol yn olygyddol o benderfynu ar ganlyniad
- Dylem sicrhau bod cadernid y mecanwaith bleidleisio yn cyfateb i arwyddocâd golygyddol y bleidlais. Dylid bod yn hynod ofalus yng nghyswllt cadernid a didwylledd pleidleisiau ar gyfer prosiectau cystadleuol. Gall y canlyniadau olygu llawer iawn i'r cystadleuwyr
- Rhaid i ni gyhoeddi'r rheolau wrth gynnal pleidleisiau a rhoi'r rheolau sy'n berthnasol i'w cyfranogiad i'r cystadleuwyr
- Rhaid rhoi gwybod yn glir i'r gynulleidfa pryd y bydd y dyddiad cau ar gyfer pleidleisio, a rhaid rhoi digon o amser rhwng cau'r bleidlais a chyhoeddi'r canlyniad er mwyn sicrhau bod modd dilysu'r canlyniad
- Rhaid cynllunio'n ofalus wrth drefnu pleidlais, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer materion golygyddol a thechnegol
- Dylem ystyried yn ofalus iawn a ddylid cyhoeddi cyfansymiau ar y pryd cyn darlledu'r canlyniad terfynol a fydd wedi'i ddilysu
- Rhaid rhoi gwybodaeth glir ynghylch pryd y bydd pleidleisiau'n agor ac yn cau
- Os gall cystadleuydd ennill gwobr neu gyfle sylweddol o ganlyniad i bleidlais gyhoeddus, rhaid cyfeirio at Bolisi Golygyddol.

Ceir hefyd arweiniad manwl ychwanegol ar gyfer pleidleisiau cynulleidfa ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus neu ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw 'bwnc dadleuol'[1] arall.

(Gweler Adran 10: Gwleidyddiaeth, Polisi Cyhoeddus a Pholau: 10.4.42 - 10.4.46)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau ar Antur)

***Pleidleisiau a Gynhelir ar y Cyd***

17.4.5 Mewn rhai achosion gall fod yn briodol cynnal pleidlais ar y cyd gyda sefydliad allanol addas sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y BBC. Rhaid i'r BBC fod yn fodlon â'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal y bleidlais ac fel rheol dylai gadw rheolaeth uniongyrchol.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal pleidlais ar y cyd â thrydydd parti at Bolisi Golygyddol a'r Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) ar gam cynnar.**

[1] Gweler Adran 4 Amhleidioldeb: 4.4.5 - 4.4.6

Fel rheol ni ddylai'r BBC gynnal pleidleisiau gwasanaeth cyhoeddus y BBC gyda sefydliad masnachol.

## Dyfarniadau

17.4.6 Ambell waith gall y BBC sefydlu ei ddyfarniadau ei hun i gydnabod llwyddiannau a thalent aelodau o'r cyhoedd neu grwpiau penodol megis ysgrifenwyr, cerddorion a sêr chwaraeon. Ambell waith gellir cynnal y dyfarniadau hyn ar y cyd â sefydliadau allanol addas.

Bydd brand y BBC ar ddyfarniadau'r BBC ac felly maent yn rhoi stamp o gymeradwyaeth am lwyddiannau unigolion neu sefydliadau trydydd parti. Dim ond at ddiben difrifol y dylid eu sefydlu. Mae angen trefniadau ac adnoddau gofalus iawn.

Yn ogystal â'r Canllawiau Golygyddol, ceir arweiniad manwl ar bob cam o sefydlu a chynnal dyfarniad BBC, gan gynnwys proses cymeradwyo orfodol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein Rhyngweithedd Cynulleidfa)

Yn benodol:

- Dylai testun dyfarniadau BBC fod yn briodol ac ni ddylent roi ein hannibyniaeth, ein hamhleidioldeb na'n didwylledd yn y fantol

- Ni ddylem sefydlu dyfarniad os nad ydym yn bwriadu i'r sawl sy'n ei dderbyn allu cyfeirio at ei lwyddiannau

- Rhaid cael telerau ac amodau a meini prawf clir ar gyfer y rheini a enwebwyd ac ar gyfer y beirniaid

- Dylid hefyd rhoi ystyriaeth ar lefel uwch i weld a yw sefydlu dyfarniad BBC yn briodol

- Mewn rhai achosion gall fod yn bosibl i ddyfarniad BBC a roddir yn un o ddigwyddiadau'r BBC gael ei gefnogi gan noddwr anfasnachol

- Rhaid i'r holl drefniadau cyllido ar gyfer dyfarniadau gwasanaeth cyhoeddus y BBC gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau a'r Arweiniad ar Noddi Digwyddiadau ar yr Awyr a ddarlledir ar sianeli sy'n derbyn arian cyhoeddus. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gael nawdd ar gyfer dyfarniad gan y BBC at y Prif Gynghorydd Polisi Golygyddol ymlaen llaw.**

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Nawdd ar gyfer Digwyddiadau Ar yr Awyr y BBC)

## Rhaglenni wedi'u Recordio Ymlaen Llaw neu eu Hailddarlledu

17.4.7 Gall y gynulleidfa dybio bod pleidlais neu gystadleuaeth mewn rhaglen yn golygu bod y rhaglen yn fyw. Rhaid i ni gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau na chaiff y gynulleidfa ei chamarwain.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.11)

17.4.8 Os bydd rhaglen wedi cael ei recordio ymlaen llaw a chanfuwyd problem gyda phleidlais neu gystadleuaeth cyn darlledu, sy'n bwrw amheuaeth dros y canlyniad, rhaid peidio â darlledu'r rhaglen heb wneud y newidiadau priodol.

17.4.9 Os caiff rhaglen ei hailddarlledu ar sianel y BBC neu os bydd ei hamser yn newid, er enghraifft ar wasanaeth dal i fyny, rhaid i ni sicrhau ei bod yn glir i'r gynulleidfa os yw'r cyfle i ryngweithio wedi mynd, er enghraifft drwy gelu gwybodaeth ar y sgrin am sut mae cymryd rhan, neu ddileu unrhyw gyfeiriadau at fecanweithiau pleidleisio neu gymryd rhan.

## Gwobrau

17.4.10 Rhaid disgrifio'r gwobrau yn gywir. Dylent ddiwallu disgwyliadau'r gynulleidfa debygol a rhaid iddynt beidio â dwyn anfri ar y BBC.

17.4.11 Fel rheol dylem dalu am y gwobrau rydym yn eu cynnig mewn cystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac anelu at gynnig gwobrau gwreiddiol yn hytrach na rhai drud. **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnig gwobr o werth sylweddol at Bolisi Golygyddol.**

Dylai gwobrau ar gyfer plant fod yn briodol i oed y gynulleidfa darged a'r cystadleuwyr, ac fel rheol dylent fod yn eithaf syml neu ddibynnu ar brofiadau 'na all arian eu prynu'.

Ni ddylem gynnig arian yn wobrau mewn cystadlaethau gwasanaethau cyhoeddus y BBC i wylwyr, i wrandawyr neu i ddefnyddwyr ar-lein. **Os oes unrhyw gynnig i gynnig gwobr ariannol mewn rhaglen gêm gwasanaeth cyhoeddus y BBC, rhaid cyfeirio hynny at y rheolydd allbwn perthnasol a rhaid iddo gymeradwyo hynny. Rhaid i Bolisi Golygyddol hefyd gymeradwyo gwobrau ariannol sylweddol o'r fath.** Rhaid peidio byth â chynnig arian yn wobrau ar gyfer unrhyw gystadleuaeth neu raglen ar gyfer plant.

17.4.12 P'un ai a yw gwobr wedi cael ei rhoi ai peidio, rhaid i ni ochel rhag rhoi gormod o amlygrwydd i'r cynnyrch.

Os oes amrywiaeth o wobrau mewn cystadleuaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC, dylid cael amrywiaeth o frandiau neu gyflenwyr ond fel rheol dylem osgoi cynnig gwobrau o gynnyrch neu wasanaethau wedi'u brandio y cyfeirir atynt yn olygyddol mewn man arall yn y rhaglen neu ar yr un adran o'r wefan. Dylem osgoi defnyddio lluniau o logos brandiau ar yr awyr ac ar-lein. Fel rheol ni ddylem gyfeirio at enwau brandiau na rhoi manylion am weithgynhyrchwr neu gyflenwr gwobr.

Rhaid bod yn hynod ofalus wrth ddefnyddio cynnyrch masnachol y BBC fel gwobrau ar gyfer cystadlaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.4 - 14.4.5)

***Gwobrau a Roddir ar gyfer Cystadlaethau a Rhaglenni Gemau ar y Teledu, ar y Radio ac Ar-lein***

17.4.13 Rhaid i unrhyw wobr a roddir ar gyfer cystadleuaeth neu raglen gêm gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ac a dderbynnir, gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau y cyfeirir ato yn y Cytundeb a ddaw gyda Siarter y BBC.

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

Yn benodol:

- Rhaid i ni beidio â derbyn arian i dalu am wobrau byth
- Fel rheol dylem ond dderbyn rhoddion bach a roddir megis tocynnau theatr, tocynnau pêl-droed, llyfrau, CDs neu DVDs
- Dylem ddefnyddio ystod eang o roddwyr dros amser, i sicrhau nad yw'n ymddangos ein bod yn ffafrio unrhyw sefydliad neu gwmni
- Rhaid i raglenni beidio byth â sicrhau y bydd cydnabyddiaeth ar yr awyr neu ar-lein neu ddolen neu unrhyw gyhoeddusrwydd yn gyfnewid am roi gwobr cystadleuaeth.

**Fel rheol ni fyddwn yn derbyn rhoddion a roddir ar gyfer rhaglenni gemau. Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hyn at Bolisi Golygyddol**.

***Gwobrau ar gyfer Cystadlaethau Elusennol Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC***

17.4.14 Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn bosibl cynnig neu dderbyn rhodd sylweddol ar gyfer un o gystadlaethau elusennol gwasanaeth cyhoeddus y BBC. **Os rhoddir rhodd sylweddol ar gyfer un o fentrau elusennol y BBC, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol.**

## Yr Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU)

17.4.15 Mae'r Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) yn uned arbenigol sy'n rhoi cyngor ar bob agwedd dechnegol ar gynnal cystadleuaeth, pleidlais neu ddyfarniad ar unrhyw lwyfan ac yn enwedig defnyddio llinellau ffôn cyfradd premiwm.

Mae ITACU yn contractio darparwyr gwasanaeth ffôn ac yn dilysu prosesau'r darparwyr hynny. Mae'r uned hefyd yn darparu cyngor cyfreithiol a thelerau ac

amodau ar gyfer cystadlaethau a phleidleisiau. Ni fydd ITACU yn cynnig cyngor golygyddol na chyngor ar bolisi golygyddol ond mae'n gweithio'n agos gyda Pholisi Golygyddol.

Ni fydd ITACU yn cynghori BBC Worldwide. Pan gyfeirir at ITACU yn y Canllawiau Golygyddol, dylai BBC Worldwide ymgynghori â Pholisi Masnachol BBC Worldwide yn y lle cyntaf.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithedd Cynulleidfa)

## Gwasanaethau Ffôn

17.4.16 Caiff gwasanaethau ffôn eu defnyddio'n aml ar gyfer cystadlaethau, cefnogaeth rhaglenni, rhaglenni ffonio a rhoi sylw, pleidleisio, codi arian i elusennau, ac anfon a derbyn cynnwys a gynhyrchir gan y BBC a gan ddefnyddwyr, llinellau cystadleuwyr a rhyngweithio â rhaglenni gemau.

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i gynnal cystadleuaeth, pleidlais neu wobr drwy ddefnyddio teleffoni at yr Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU) am gyngor technegol, cyfreithiol ac ynghylch contractau ac i sicrhau bod y ffurflenni cymeradwyo perthnasol yn cael eu llenwi a'u logio.** Rhaid iddo hefyd ddilyn y broses cymeradwyo orfodol yn yr arweiniad manwl ar ryngweithedd, gan gynnwys y cyfeiriadau a nodir ar Bolisi Golygyddol ac uwch swyddogion golygyddol yn yr adran berthnasol.

### *Teleffoni Cyfradd Premiwm*

17.4.17 **Rhaid cyfeirio pob cynnig i ddefnyddio teleffoni cyfradd premiwm mewn gwasanaethau a gyllidir gan ffi'r drwydded at ITACU a Pholisi Golygyddol yn gynnar yn y broses. Rhaid cyfeirio unrhyw ddefnydd o deleffoni cyfradd premiwm ar wasanaethau masnachol y BBC at yr arweinydd golygyddol perthnasol yn y lle cyntaf.**

Rhaid i ni gydymffurfio â'r cod ymarfer a gyhoeddir gan reoleiddiwr y diwydiant, PhonepayPlus.

Rhaid rhoi gwybod yn glir i'r gynulleidfa faint y bydd yn ei gostio iddynt ryngweithio â rhaglenni a chynnwys y BBC drwy linellau cyfradd premiwm.

<u>Teleffoni Cyfradd Premiwm ar Sianeli Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC</u>

Fel rheol, ar wasanaethau cyhoeddus y BBC, caiff llinellau cyfradd premiwm eu defnyddio os dyma fydd y ffordd fwyaf addas a diogel o ddelio â llawer iawn o alwadau'n effeithiol.

Yn ogystal â'r Canllawiau Golygyddol, ceir proses cymeradwyo orfodol ar gyfer teleffoni cyfradd premiwm, a chyfyngiadau cyfreithiol a rheoliadol ar wahân. Mae cyngor ar gael gan Bolisi Golygyddol.

Yn benodol:

- Rhaid codi'r ffi isaf sy'n ymarferol

- Ni fyddwn yn defnyddio llinellau cyfradd premiwm gyda'r nod o wneud elw ac eithrio pan fydd eu defnyddio wedi cael ei gymeradwyo'n benodol i godi arian ar gyfer un o apeliadau elusennol y BBC

- **Os bydd unrhyw gynnig i ddefnyddio llinellau cyfradd premiwm i godi arian i elusennau drwy unrhyw fath o ryngweithio gan y gynulleidfa, rhaid cyfeirio hynny ymlaen llaw at Bolisi Golygyddol a'r Uned Cyngor Technegol Rhyngweithedd a Chontractau (ITACU). Bydd angen i lefel adrannol uwch gymeradwyo hyn hefyd**

- **Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio llinellau cyfradd premiwm ar gyfer gwasanaethau a anelir at blant at Bolisi Golygyddol a'r Cyfarwyddwr adrannol perthnasol.** Os defnyddir llinellau o'r fath, rhaid i ni atgoffa'r plant i ofyn am ganiatâd y sawl sy'n talu'r bil cyn ffonio

- Rhaid i'r BBC hefyd sicrhau bod systemau technegol yn cael eu defnyddio a fydd yn golygu na chodir ffi ar y rheini sy'n ceisio defnyddio'r system pan na fydd y llinellau ar agor.

***Defnyddio Negeseuon Testun (SMS)***

17.4.18 Mae materion technegol penodol ynghlwm wrth ddefnyddio SMS a gall y rhain arwain at faterion golygyddol. Dylid ymgynghori ag ITACU a Pholisi Golygyddol.

Yn benodol, rhaid ystyried yn ofalus a roddwyd digon o amser ar gyfer derbyn, coladu ac archwilio negeseuon testun gan fod y math hwn o ryngweithio'n gallu bod yn araf.

***Llinellau Cystadleuwyr***

17.4.19 **Mewn rhai achosion gall fod yn briodol gwahodd pobl i wneud cais i fod yn rhan o raglen drwy ffonio llinell cystadleuwyr. Rhaid cyfeirio at ITACU. Dylid ystyried a oes modd gwneud cais ar-lein, drwy'r post neu drwy ddulliau eraill.**

***Llinellau Gwybodaeth am Ddigwyddiadau ar Sianeli Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC***

17.4.20 **Efallai y byddwn yn rhoi clipiau rhagflas o linellau ffôn ar yr awyr a fydd yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau neu berfformiadau sy'n cael sylw yn rhaglenni'r BBC. Fel rheol ni ddylai'r llinellau hyn fod ar gyfradd premiwm nac yn ffordd o brynu tocynnau, ond mae'n bosibl iddynt roi manylion rhifau ffôn i brynu tocynnau. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriad at Bolisi Golygyddol.**

***Llinellau Cymorth a Gwasanaethau Cefnogi Ar-lein***

17.4.21 Pan fyddwn yn darlledu cynnwys sy'n codi materion anodd neu drallodus, dylem ystyried a yw'n briodol darparu llinell gymorth sy'n cynnig

rhagor o wybodaeth neu gefnogaeth a/neu ddarparu gwybodaeth debyg ar-lein. Fel rheol dylid ymgynghori â Llinellau Cynulleidfa’r BBC.

Mae’r amodau canlynol yn berthnasol i wasanaethau cefnogi:

- Rhaid i ni beidio â defnyddio rhifau cyfradd premiwm ar gyfer llinellau cymorth neu linellau gweithredu. Dylent fod am ddim neu dylent adfer eu costau, ac felly nid gwneud elw yw eu bwriad

- Rhaid i ni geisio sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn ddiduedd, yn wrthrychol ac yn gywir. Dylem roi manylion a/neu ddolenni i ystod eang o asiantaethau, elusennau a sefydliadau statudol. Ni ddylid rhoi gormod o sylw i un corff ar draul y gweddill

- Rhaid i ni sicrhau bod unrhyw linell gymorth yn gallu cynnig gwasanaeth cadarn, boed y llinell honno’n cael ei darparu gan y BBC neu asiantaeth allanol

- Fel rheol ni ddylem roi clipiau rhagflas o linellau cymorth neu linellau gweithredu sy’n cael eu rhedeg gan sefydliadau eraill, ac eithrio pan fyddant yn cynnig gwasanaeth arbenigol megis y Samariaid.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.34 - 14.4.37)

### *Gwasanaeth Gwybodaeth Awtomatig*

17.4.22 Rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth ‘deialu a gwrando’ wedi’u recordio yn syml, yn ffeithiol ac yn uniongyrchol berthnasol i’n hallbwn. Dylai’r galwadau fod mor fyr ag sy’n bosibl. Dylid rhoi gwybod i’r gynulleidfa am y gost. Ni ddylid defnyddio’r gwasanaeth i hyrwyddo unrhyw gynnyrch masnachol, adwerthwr neu gyflenwr.

## Rhaglenni Gemau a Chwisiau

### *Dewis Cystadleuwyr*

17.4.23 Ni ddylai dewis y cystadleuwyr ddwyn anfri ar y BBC. Dylid cymryd camau rhesymol i beidio â chynnwys cystadleuwyr sy’n amlwg yn anaddas. Gallai hyn gynnwys y rheini sydd wedi cael euogfarn am droseddau difrifol neu droseddau sy’n amlwg yn anghydnaws â’r wobr a gynigir. Mae cyngor ar gael gan Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

### *Tegwch i Gystadleuwyr*

17.4.24 Dylai aelodau o’r cyhoedd sy’n cymryd rhan gael eu trin yn onest, yn deg a gan barchu eu hurddas. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o’r rheolau, ac fel rheol dylid rhoi gwybodaeth glir iddynt am yr hyn sy’n debygol o ddigwydd iddynt a’r hyn a ddisgwyliwn ganddynt. Os byddant yn ymddangos mewn ffordd ddoniol mae’n bwysig eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o’r jôc yn hytrach na’u bod yn cael eu gwawdio. Mae angen cymryd gofal penodol pan fydd cystadleuwyr wedi cael eu gwirfoddoli gan deulu neu ffrindiau.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad, Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.9 – 7.4.21 ac Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.32 & 5.4.38)

### *Diogelwch*

17.4.25 Ni ddylem roi iechyd a diogelwch cystadleuwyr neu unrhyw gyfranogwyr eraill mewn unrhyw berygl sylweddol. Rhaid peidio â gofyn i gyfranogwyr wneud dim sy'n golygu peryglu bywyd. Pan fydd yn berthnasol, dylid ceisio cyngor arbenigol.

Er mwyn osgoi ymddygiad dynwaredol neu honiadau o fod yn anghyfrifol, gall fod yn ddefnyddiol egluro yn yr allbwn pan fydd rhagofalon diogelwch addas wedi cael eu cymryd.

### *Gosod Cwestiynau*

17.4.26 Dylai cwestiynau a'u hatebion fod yn gywir, yn gyfreithiol, mynnu lefel resymol o sgiliau, a bod yn briodol mewn testun a thôn i'r gynulleidfa darged debygol a'r amser darlledu.

### *Rheolau neu Delerau ac Amodau*

17.4.27 Rhaid cael rheolau clir yn llywodraethu sut y bydd cwis neu raglen gêm yn gweithio, beth a ddisgwylir gan gystadleuwyr a'r telerau y disgwyliwn iddynt eu dilyn wrth gymryd rhan yn ein hallbwn.

Dylid egluro'r rheolau'n glir i'r cystadleuwyr cyn iddynt gymryd rhan a dylent gadarnhau eu bod yn deall ac yn derbyn telerau eu cyfranogiad. Mae cyngor ar gael gan Gyngor Cyfreithiol Rhaglenni a Pholisi Golygyddol.

(Gweler Adran 14 Annibyniaeth a Didwylledd Golygyddol ar Fuddiannau Allanol: 14.4.31 ac Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.13)

## Rhaglenni Talent a Rhaglenni sy'n Cynnig Cyfleoedd i Newid Bywyd

17.4.28 Yn ogystal â'r Canllawiau Golygyddol, ceir hefyd arweiniad manwl ar gyfer y maes hwn a phroses cymeradwyo orfodol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhaglenni Talent)

17.4.29 Caiff y BBC lunio cytundebau sy'n olygyddol briodol â thrydydd parti addas i gynnig cyfle unwaith mewn oes i'r cystadleuwyr buddugol na fyddai'r BBC ar ei ben ei hun yn gallu ei gynnig. Er enghraifft, efallai fod trydydd parti yn gallu cynnig cyfle arbenigol mewn gyrfa, buddsoddiad i gychwyn busnes, neu gyfle sy'n seiliedig ar berfformiad megis cyngerdd neu gontract recordio neu gyfle i ymddangos mewn cynhyrchiad proffesiynol ar lwyfan neu mewn ffilm.

Ym mhob achos o'r fath rhaid i'r BBC gadw rheolaeth olygyddol a gallu dangos ei fod wedi rhoi prosesau addas ar waith i gynnal rheolaeth olygyddol.

Rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros ddewis y partner dan sylw ac ni ddylai'r berthynas roi amhleidioldeb na didwylledd y BBC yn y fantol.

17.4.30 **Os derbynnir cyfleoedd a roddir sy'n newid gyrfa neu fywyd, rhaid cyfeirio hynny at Bolisi Golygyddol yn gynnar, ac ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC, rhaid i hynny gydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau.**

(Gweler Atodiad 4 ar-lein: Fframwaith ar gyfer Cyllido Gwobrau a Dyfarniadau)

Yn ystod y camau cynllunio rhaid cytuno â Pholisi Golygyddol ar gyfres o fesurau i sicrhau na cheir gormod o hyrwyddo.

17.4.31 Ar gyfer sianeli'r BBC sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'n hanfodol na fydd dim arian gan y trydydd parti yn mynd i'r gyllideb cynhyrchu.

(Gweler Adran 16 Perthnasau a Chyllid Allanol)

***Dewis Cystadleuwyr***

17.4.32 Yn aml bydd angen i gystadleuwyr fod â sgiliau arbenigol a gellir eu recriwtio o amrywiaeth o ffynonellau. Yn aml, gall cystadleuwyr o'r fath ymddangos ar yr awyr am nifer o wythnosau a byddant yn cael llawer iawn o sylw.

Dylid gofalu bod cefndir darpar gystadleuwyr yn cael ei wirio'n ofalus cyn dethol, er mwyn sicrhau addasrwydd i ymddangos ar gynnwys y BBC. Mae'n bwysig ystyried ffactorau megis eu gallu i wrthsefyll pwysau fformat cystadleuol a byw weithiau, yn ogystal ag euogfarnau troseddol blaenorol neu faterion eraill a allai ddwyn anfri ar y BBC.

***Gofalu am Gystadleuwyr***

17.4.33 Ar y dechrau, efallai na fydd y cystadleuwyr yn gwerthfawrogi'r effaith y gall ymddangos mewn rhaglenni o'r math hwn ei chael ar eu bywydau. Dylid rhoi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth briodol, eu bod yn cael eu paratoi a'u cefnogi.

Efallai y bydd angen cefnogaeth benodol os yw'r gyfres yn debygol o ddenu llawer o sylw yn y wasg a marchnata.

***Tegwch***

17.4.34 Rhaid trin pob cystadleuydd yn onest ac yn deg drwy'r amser a dylid cymryd camau priodol i sicrhau eu bod yn deall ac yn gwerthfawrogi'r meini prawf a ddefnyddir i'w beirniadu.

Dylai'r cystadleuwyr gael copïau o'r telerau ac amodau perthnasol sy'n llywodraethu eu cyfranogiad. Rhaid amlinellu'r cosbau am dwyllo yn glir. Mae hyn yn bwysicach fyth pan fydd y rhaglen yn cynnwys pleidlais gan y gynulleidfa.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.1- 6.4.9)

***Plant mewn Rhaglenni Talent***

17.4.35 Ceir materion penodol i'w hystyried wrth weithio gyda phlant yng nghyd-destun rhaglen dalent, yn enwedig os caiff yr allbwn ei ddarlledu'n fyw.

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.12 - 9.4.13)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhaglenni Talent a Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc)

## Rhaglenni Galw i Mewn, Cynnwys Ar-lein a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr, Cynnwys Symudol, Gemau a Theledu Rhyngweithiol

***Rhaglenni Galw i Mewn***

17.4.36 Mae rhaglenni galw i mewn yn chwarae rhan bwysig yn allbwn y BBC. Gallant ddefnyddio sylwadau a anfonir drwy negeseuon testun, e-bost a'r botwm coch yn ogystal â siarad yn uniongyrchol â'r rheini sy'n ffonio.

Oherwydd bod rhaglenni galw i mewn yn fyw, dylem fod yn barod i ddelio â chyfraniadau a allai achosi tramgwydd eang neu dorri'r gyfraith. Dylem hefyd ofalu nad ydym yn caniatáu i raglenni galw i mewn fod yn gyfrwng i gyfleu barn y cyflwynydd.

Gall yr arferion canlynol helpu i leihau'r risgiau:

- Fel rheol dylid ffonio cyfranwyr i raglenni galw i mewn yn ôl a rhoi gwybodaeth iddynt os oes angen cyn iddynt fynd ar yr awyr. Dylid cymryd gofal i bennu a ydynt yn briodol i'w rhoi ar yr awyr, a dylid cyfeirio'n briodol os oes amheuaeth

- Dylid ceisio ystod ac amrywiaeth o safbwyntiau a dylid diwallu gofynion amhleidioldeb teg

(Gweler Adran 4 Amhleidioldeb)

- Os nad yw rhaglen wedi denu neb i ffonio, dylai geisio cynnwys amgen. Ni ddylai rhaglenni greu cyfranwyr ffug, nac unrhyw ryngweithio ffug arall megis negeseuon testun ac e-bost dan unrhyw amgylchiadau. Rhaid i ni fod yn onest â'n cynulleidfaoedd bob amser

- Rhaid i gyflwynwyr fod yn ddigon cyfarwydd â'r Canllawiau Golygyddol a'r gyfraith a dylent allu ryddhau'r rhaglen o sefyllfaoedd anodd yn ddiymdroi ac yn gwrtais. Dylid darllen negeseuon testun ac e-bost cyn eu darlledu

- Wrth gynhyrchu rhaglen galw i mewn ar bwnc anodd neu sensitif, dylid rhoi gwybod i'r tîm cynhyrchu sut mae delio'n ofalus â chyfranwyr ac, os yw'n briodol, dylai systemau cefnogi fod ar waith. Dylid bod yn hynod ofalus pan fydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglenni galw i mewn

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc)

- Pan fydd rhywun yn cysylltu â rhaglen yn annisgwyl er mwyn rhannu eu stori anodd neu sensitif, dylem ystyried y goblygiadau a chyfeirio os oes angen.

***Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr Ar-lein***

17.4.37 Byddwn yn manteisio ar yr ystod lawn o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar yr amod ei fod yn bodloni ein dibenion cyhoeddus ac yn cyfateb i'r safonau mae ein defnyddwyr yn eu disgwyl gennym ar y rhyngrwyd. Mae modd gwesteia cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar BBC Ar-lein, ei integreiddio â chynnwys wedi'i greu gan y BBC neu â chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr o safleoedd trydydd parti, neu ar adegau, gellir ei redeg ar fannau â brand y BBC neu safleoedd trydydd parti.

Rhaid cael safonwr ar gyfer pob man ar-lein lle cyhoeddir cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a bydd y safonwr hwnnw neu honno'n gallu dileu cynnwys anghyfreithlon ac amhriodol ac fel rheol dylai gael gwesteiwr i ddarparu presenoldeb amlwg a gweithredol. Rhaid hefyd cael unigolyn a enwir yn yr adran berthnasol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb golygyddol dros y cynnwys, gan sicrhau bod y man yn cadw safonau priodol yn gyffredinol o ran safoni a gwesteia.

(Gweler Adran 17 Rhyngweithio â'n Cynulleidfaoedd: 17.4.41)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Safoni, Gwesteia, Uwchraddio a Rheoli Defnyddwyr)

17.4.38 Rhaid i bob man ar-lein allu gweithredu strategaeth uwchraddio gyflym a chadarn, er enghraifft, os bydd deunydd anghyfreithlon yn cael ei bostio neu os oes amheuaeth o ymddygiad anghyfreithlon. Os bydd angen, dylai fod yn bosibl symud man yn gyflym o un math o safoni i un arall.

17.4.39 **Rhaid cyfeirio unrhyw ddigwyddiad o "baratoi" a amheuir ar-lein yn ddiymdroi at y Tîm Rheoli Gweithredol, CBBC Rhyngweithiol (neu at yr arweinydd golygyddol perthnasol yng nghyswllt gwasanaethau masnachol) a fydd yn rhoi gwybod i'r awdurdodau priodol.**

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

17.4.40 Ar ben hynny:

- Dylem fod yn dryloyw â'n defnyddwyr ynghylch sut cawn ddefnyddio eu cynnwys a pha hawliau sydd ganddynt iddo

- Dylem fod yn dryloyw â'n defnyddwyr am sut cawn ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol, er enghraifft pan fyddwn yn casglu gwybodaeth am ddiddordebau a dewisiadau defnyddwyr drwy ddefnyddio briwsion

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.54)

- Dylai pob man rhyngweithiol gyhoeddi rheolau ymddygiad syml a hwylus

- Dylai pob man rhyngweithiol gynnig ffordd syml a hwylus i ddefnyddwyr roi gwybod i'r BBC os bydd rheolau'r gymuned yn cael eu torri

- Fel rheol dylid dileu cynnwys sy'n torri'r rheolau. Fodd bynnag, weithiau gall fod yn bosibl i'r deunydd aros, er enghraifft os yw'r gymuned ar-lein yn ymateb yn gadarn ac mewn modd awdurdodol i sylw tramgwyddus

- Dylem geisio rhoi lle i'r ystod ehangaf o safbwyntiau yn unol â rheolau'r gymuned a gofynion amhleidioldeb teg

- Dylem fod yn arbennig o ofalus ein bod yn lliniaru risg sy'n ymwneud â chynnwys, cysylltu ac ymddygiad wrth redeg mannau rhyngweithiol ar-lein sydd wedi'u dylunio i apelio at blant

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.4 - 9.4.10)
(Gweler yr Arweiniad ar-lein Rhyngweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Ar-lein)

- Ni ddylid dileu cynnwys sy'n beirniadu'r BBC, er enghraifft talent, rhaglenni neu bolisïau oni bai fod hynny'n torri'r rheolau.

***Safoni***

17.4.41 Mae tair ffordd o wneud hyn:

- *Safoni ymlaen llaw* – pan na fydd modd i ymwelwyr â'r safle weld y deunyddiau nes i safonwr eu gweld a phenderfynu eu bod yn addas i'w postio. Fel rheol bydd mannau a ddyluniwyd i apelio at blant yn cael eu safoni ymlaen llaw

(Gweler Adran 9 Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr: 9.4.4)

- *Ôl-safoni* – pan fydd y safonwr yn gweld y deunyddiau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi ac yn penderfynu a ydynt yn addas i aros yno ai peidio. Mae hyn yn debygol o fod yn addas i safleoedd sy'n denu dadl gadarn am faterion cyfoes

- *Safoni adweithiol* – pan fydd ymwelwyr â'r safle yn rhoi gwybod i'r safonwr am neges amhriodol neu dramgwyddus. Mae hyn yn debygol o fod yn addas i gymuned ar-lein aeddfed lle nad oes ond angen dileu prin ddim cynnwys gan ddefnyddwyr. Nid yw'n addas ar gyfer safle sy'n debygol o ddenu cyfran fawr o blant. Dylid cyfeirio cynigion ar gyfer safoni adweithiol at y weithrediaeth cyfryngau cymdeithasol adrannol perthnasol (neu at yr arweinydd golygyddol perthnasol yng nghyswllt gwasanaethau masnachol).

**Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i roi cynnig ar unrhyw fath arall o safoni at Bolisi Golygyddol.**

Efallai y bydd mesurau ychwanegol yn angenrheidiol yn ystod cyfnodau o sensitifrwydd arbennig, er enghraifft yn ystod gwrthryfel arfog neu etholiadau.

(Gweler Adran 10 Gwleidyddiaeth, Polisïau Cyhoeddus a Pholau: 10.4.19 – 10.4.20 ac Adran 11 Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau: 11.4.4)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein Safoni, Gwesteia, Uwchraddio a Rheoli Defnyddwyr)

***Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr ar Safleoedd a Gwasanaethau Trydydd Parti***

17.4.42 Rhaid i unigolyn a enwir fod yn olygyddol gyfrifol am bob un o fannau swyddogol y BBC neu fannau â brand y BBC sy'n gwesteia cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar y we, boed y presenoldeb yn ffurfiol (hynny yw, ar sail perthynas dan gontract) neu'n anffurfiol.

17.04.43 Ar ben hynny:

- Dylai fod diben golygyddol amlwg i'r man
- Ni ddylai ein dewis o safleoedd trydydd parti beryglu enw da'r BBC
- Byddwn yn sensitif i ddisgwyliadau defnyddwyr, gan gofio na chaiff y safleoedd hyn eu gwesteia na'u gweithredu gan y BBC
- Bydd unrhyw ymyriad yn ysgafn ac yn seiliedig ar ymchwil cynulleidfa. Fodd bynnag, gallwn, er enghraifft, ddileu deunydd sy'n achosi tramgwydd nad oes modd ei gyfiawnhau
- Rhaid i ni beidio ag ymuno â mannau neu safleoedd trydydd parti sy'n peri risgiau annerbyniol i blant neu bobl ifanc neu sydd fel arall yn peryglu enw da'r BBC
- Dylem gynnal gwahaniaeth clir rhwng mannau'r BBC sy'n cael eu rhedeg gan y BBC at ddibenion y BBC a mannau personol sy'n cael eu rhedeg gan staff neu dalent y BBC at eu dibenion personol.

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhwydweithio Cymdeithasol, Microflogiau a Gwefannau Trydydd Parti eraill – Defnydd y BBC)

(Gweler yr Arweiniad ar-lein: Rhwydweithio Cymdeithasol, Microflogiau a Gwefannau Trydydd Parti eraill – Defnydd Personol)

***Gwasanaethau Symudol***

17.4.44 Mae dyfeisiau symudol yn esblygu'n gyson ynghyd â'r posibiliadau creadigol y maent yn eu cynnig.

- **Fel rheol dylai defnyddwyr pob rhwydwaith symudol allu cymryd rhan mewn unrhyw rhyngweithedd symudol gyda gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriadau arfaethedig at Bolisi Golygyddol**
- Dylem gadw'r gost i gynulleidfa rhyngweithedd symudol gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar y lefel isaf bosibl - ac eithrio gyda

chymeradwyaeth arbennig ar gyfer mentrau codi arian elusennol y BBC.

- Dylai cynnwys a ddosberthir drwy ddyfeisiau symudol fod yn addas ar gyfer disgwyliadau’r gynulleidfa debygol a’u diwallu. Dylid bod yn hynod ofalus wrth olygu deunyddiau ar gyfer dyfeisiau symudol i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar addasrwydd nac amhleidioldeb y deunydd gwreiddiol ac nad yw’n cael ei dynnu o’i gyd-destun.

(Gweler Adran 13 Ailddefnyddio ac Ailfersiynu)

- Gyda’r cynnwys symudol dylid rhoi gwybodaeth briodol am gost a, phan fydd yn berthnasol, gwybodaeth am y cynnwys.

***Gemau***

17.4.45 Mae defnyddio gemau ar ddyfeisiau symudol, ar-lein ac ar deledu rhyngweithiol yn gallu bod yn ffordd bwerus o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwella ein hallbwn. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau bod y cyfiawnhad golygyddol dros ddefnyddio gemau gyda chynnwys y BBC wedi’i sefydlu’n glir a bod cost eu defnyddio mor isel â phosibl. Rhaid peidio â dylunio’r gemau i wneud elw ar wasanaethau’r BBC sy’n derbyn arian cyhoeddus.

***Gwasanaethau Teledu Rhyngweithiol***

17.4.46 Ni ddylai gwasanaethau rhyngweithiol a ddarlledir ar deledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC, megis y rhai a alluogir drwy bwyso’r botwm coch, hyrwyddo unrhyw lwyfan penodol.

Rhaid iddynt lynu wrth y trothwy a bod yn briodol i gynulleidfa unrhyw raglen gysylltiedig.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.6 - 5.4.11)

Dylem egluro i’n cynulleidfa pan fydd angen taliad a dangos y cyfanswm pan fydd hynny’n ymarferol. Ni ddylai gwasanaethau teledu rhyngweithiol ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC gael eu dylunio i wneud elw.

# ADRAN 18: Y GYFRAITH

**18.1 Cyflwyniad**
**18.2 Cyfeirio Gorfodol**
**18.3 Cyffredinol**
**18.4 Difenwi**
**18.5 Preifatrwydd**
**18.6 Dirmyg**
**18.7 Dioddefwyr Troseddau Rhyw**
**18.8 Cyfyngiadau Eraill ar Adrodd**
**18.9 Plant a'r Gyfraith**
**18.10 Hawlfraint a Hawliau Eiddo Deallusol Eraill**
**18.11 Y Ddeddf Diogelu Data**

## 18.1 CYFLWYNIAD

Wrth wneud rhaglenni neu gynnwys arall dylai cynhyrchwyr y BBC ofyn am gyngor Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni pryd bynnag y cyfyd neu yr amheuir problemau cyfreithiol.

Bydd Adran Gyfreithiol y BBC yn delio â materion cyfreithiol sy'n effeithio ar y BBC, gydag adrannau gwahanol yn delio â materion gwahanol.

Bydd yr adran Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn rhoi cyngor cyn darlledu am y prif faterion sy'n ymwneud â'r cynnwys gan gynnwys difenwi, preifatrwydd, dirmyg llys, dioddefwyr troseddau rhyw a chyfyngiadau ar adrodd.

Dylid gofyn am gyngor ar faterion eraill gan yr adran berthnasol (gweler isod).

Ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng systemau cyfreithiol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a all arwain at broblemau difrifol os na chânt eu dilyn.

Mae gan Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni gyfreithiwr ar ddyletswydd sydd ar alwad 24 awr y dydd ar gyfer ymholiadau brys ynghylch newyddion. I gael cyngor ar gyfraith cyfryngau'r Alban, holwch Prif Dwrnai'r BBC yn yr Alban.

Ar ben hynny, mae Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni yn cadw rhestr o gyfreithwyr mewn amrywiol wledydd a gall eich helpu gyda chyngor ar gyfraith dramor.

Yn yr adran hon, cyfeirir at blant yn ôl y diffiniad cyfreithiol yn hytrach na'r oedrannau a ddefnyddiwyd yng ngweddill y Canllawiau Golygyddol.

## 18.2 CYFEIRIO GORFODOL

*(Mae Cyfeirio Gorfodol yn rhan o system rheoli golygyddol y BBC. Er na fyddant yn eu hunain yn diwallu'r Egwyddorion yn y Canllawiau Golygyddol, maent yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau cydymffurfiad a rhaid glynu wrthynt.)*

### *Cyfeirio at y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol*

18.2.1 Rhaid cyfeirio unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen er gwaethaf cyngor cyfreithiol at y lefel olygyddol uchaf yn yr adran berthnasol a Chyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 18.3.1)

***Cyfeirio Arall***

18.2.2 Os bydd unrhyw gynnig i dorri'r gyfraith rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni ac, os oes angen, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

(Gweler 18.3.1)

18.2.3 Os oes unrhyw geisiadau ffurfiol am wybodaeth neu hysbysiadau i roi'r gorau i brosesu dan y Ddeddf Diogelu Data, rhaid cyfeirio'r rheini mewn da bryd at Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad (IPC).

(Gweler 18.11.4)

## 18.3 CYFFREDINOL

18.3.1 Efallai y bydd adegau pan fydd darparu sylw cywir, diduedd a theg er budd y cyhoedd yn golygu posibilrwydd gwrthdaro â'r gyfraith. Pan gyfyd achosion o'r fath, rhaid i ni ystyried:

- pa effaith gallai torri'r gyfraith ei chael ar y BBC
- sut gallai hyn effeithio ar y bobl dan sylw
- yn rhyngwladol, yr effaith ar sylw'r BBC o'r rhanbarth yn y dyfodol.

**Os bydd unrhyw gynnig i dorri'r gyfraith rhaid cyfeirio hynny at uwch swyddog golygyddol, neu at y golygydd sy'n comisiynu yng nghyswllt cwmnïau annibynnol, a all ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni ac, os oes angen, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

**Rhaid cyfeirio unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen er gwaethaf cyngor cyfreithiol at y lefel olygyddol uchaf yn yr adran berthnasol a Chyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.**

## 18.4 DIFENWI

18.4.1 Caiff unigolyn siwio am ddifrod i'w enw da a achosir gan ddeunydd a ddarlledir i drydydd parti, gan gynnwys deunydd a gyhoeddir ar-lein.

Difenwi neu enllib yw'r enw ar y maes hwn o'r gyfraith. Dyma'r fagl gyfreithiol fwyaf sy'n berthnasol i allbwn y BBC, gyda chanlyniadau ariannol difrifol os byddwn yn gwneud rhywbeth o'i le.

Caiff unrhyw unigolyn byw neu gwmni siwio ar yr amod bod modd eu hadnabod yn rhesymol o'r hyn a ddywedir a bod y deunydd yn eu difenwi. Mae hyn yn golygu y byddai'n tueddu i'w iselhau ym marn pobl sy'n meddwl yn iawn yn gyffredinol.

Nid oes angen i’r hawlydd (neu’r pleintydd yn yr Alban) ddangos eu bod wedi dioddef unrhyw niwed gwirioneddol, na bod yr hyn a ddywedwyd yn ffug. I’r gwrthwyneb, yn gyffredinol rhaid i’r diffynnydd (neu’r pleintydd yn yr Alban) brofi ei fod yn wir.

Os ydych ynghlwm ag achos o ddifenwi ceir nifer o amddiffyniadau posibl, ond, at ei gilydd, bydd ar ddarlledwyr angen cael tystiolaeth dda i gefnogi’r hyn maent yn ei ddweud.

## 18.5 PREIFATRWYDD

18.5.1 Mae’r Ddeddf Hawliau Dynol, a ddaeth i rym yn 2000, yn cynnwys hawl i breifatrwydd.

Gall unigolion yn awr weithredu i orfodi’r hawl honno. Yn aml, byddant yn gofyn i’r llys roi gwaharddeb (neu "waharddiad” yn yr Alban) i stopio straeon gwir am eu bywydau preifat rhag cael eu datgelu i’r cyhoedd.

Os ceir disgwyliad rhesymol o breifatrwydd, bydd y llys yn ceisio cydbwyso hawl yr unigolyn i breifatrwydd â hawl y cyfryngau i ryddid mynegiant.

Wrth ddarlledu stori sy’n cynnwys gwybodaeth breifat, bydd angen ystyried pob darn o wybodaeth breifat ar wahân. Os caiff gwybodaeth breifat ei chyfleu drwy luniau, craffir yn arbennig ar y rhain.

## 18.6 DIRMYG

18.6.1 Dirmyg llys yw’r corff o gyfraith sy’n amddiffyn unplygrwydd y broses gyfreithiol rhag dylanwadau allanol. Gall dirmyg fod ar sawl ffurf, ond yr un mwyaf difrifol i’r BBC yw cyhoeddi deunyddiau rhagfarnllyd pan ddywedir bod achos cyfreithiol “ar waith”.

Yn y rhan fwyaf o achosion cyfreithiol bydd y cyfnod “ar waith” yn dechrau drwy roi gwarant arestio, arestio rhywun a amheuir, codi gwŷs (cwyn yn yr Alban) neu dditiad. Gall hyn fod cyn cyhuddo’r unigolyn.

Pan fydd achos “ar waith”, mae dirmyg llys yn golygu unrhyw beth sy’n creu risg sylweddol o ragfarnu neu rwystro cwrs cyfiawnder yn yr achos hwnnw’n ddifrifol. Mae hyn yn wir p’un ai a wneir hynny’n fwriadol ai peidio. Gallai rhagfarnu’n ddifrifol gynnwys cyhoeddi euogfarnau blaenorol er enghraifft.

Mae’r rheolau hyn yn berthnasol i bob llys a thribiwnlys sy’n ymarfer awdurdod barnwrol y wladwriaeth. Fodd bynnag, mae’r risg ar ei huchaf pan fydd yr achos ar fin cael ei wrando gan reithgor lleyg (er enghraifft mewn treialon troseddol) a dylid bod yn hynod ofalus wrth roi sylw yn union cyn treial rheithgor. Yn gyffredinol mae adroddiadau am y treial ei hun yn ddiogel ar yr amod eu bod yn deg ac yn gywir ac na osodwyd dim cyfyngiadau ar adrodd.

## 18.7 DIODDEFWYR TROSEDDAU RHYW

18.7.1 Yn awtomatig bydd dioddefwyr trais a throseddau rhyw eraill, gan gynnwys plant, yn cael gwarant o aros yn ddienw am oes o’r adeg y maent yn cyflwyno eu

cwyn eu bod yn ddioddefwr trosedd rhyw. Yn yr Alban mae'r gyfraith yn wahanol ond mae'r arfer o barchu cadw rhywun yn ddienw yr un peth.

Dim ond i ddatgelu'r unigolyn fel dioddefwr trosedd rhyw honedig y mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol. Nid ydynt yn rhwystro datgelu pwy yw'r unigolyn mewn cyd-destun arall.

Ar adegau, caiff barnwyr godi'r cyfyngiadau ar gais yr amddiffyniad. Gallant wneud hyn er mwyn cael tystion i ddod ymlaen ac i sicrhau treial teg, neu er mwyn caniatáu adrodd yn rhesymol ar achos sydd o fudd i'r cyhoedd.

Petai dioddefwr yn cael ei enwi mewn achos troseddol amherthnasol arall, ni fyddai cyfyngiadau ar adrodd am yr achos hwnnw.

Ceir enwi dioddefwyr os ydynt yn cytuno ar hynny. Dylai'r cydsyniad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo beidio â deillio o roi dim pwysau.

Dylem fod yn ymwybodol o'r perygl o adnabod drwy effaith 'jig-so'.

(Gweler Adran 6 Tegwch, Cyfranwyr a Chydsyniad: 6.4.10 – 6.4.12 ac Adran 8 Adrodd am Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 8.4.34 - 8.4.39)

## 18.8 CYFYNGIADAU ERAILL AR ADRODD

18.8.1 Ceir nifer o sefyllfaoedd eraill lle mae cyfyngiadau ar adrodd yn berthnasol yn awtomatig neu gellir eu gorchymyn yn benodol gan lys.

Mae cyfyngiadau awtomatig yn berthnasol i:

- adroddiadau am achosion cychwynnol/traddodi mewn llysoedd ynadon yn Lloegr. Dim ond rhai manylion sylfaenol iawn cawn eu cynnwys yn ein hadroddiadau
- adroddiadau am achosion mewn Llysoedd Ieuenctid (gweler isod)
- achosion dan y Ddeddf Plant. Rhaid i ni beidio â darlledu dim sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unrhyw blentyn sy'n ymwneud ag achosion o'r fath.

Mae modd i lys amrywio neu godi'r cyfyngiadau hyn.

Mae rhai o'r cyfyngiadau mwyaf cyffredin ar adrodd y ceir eu gorchymyn yn cynnwys:

- Gorchmynion Adran 39, sy'n gwahardd datgelu pwy yw pobl ifanc dan 18 oed sy'n ymwneud ag achos gerbron llys oedolion
- Gorchmynion Gohirio, sy'n atal cyhoeddi adroddiadau am achosion tan ddiwedd yr achos dan sylw neu tan fod y llys yn codi neu'n amrywio'r cyfyngiadau
- Gorchmynion Anhysbysrwydd, lle mae'r llys wedi caniatáu dal manylion yr unigolyn yn ôl, er enghraifft mewn achosion blacmel.

Cofiwch y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol yn yr Alban at Brif Dwrnai'r BBC yn yr Alban.

## 18.9 PLANT A'R GYFRAITH

18.9.1 Dylid ymgynghori â Chyngor Cyfreithiol Rhaglenni pan geir ymholiadau ynghylch y gyfraith fel y mae'n effeithio ar blant.

### Plant sy'n Gysylltiedig ag Achosion Troseddol

18.9.2 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel rheol Llysoedd Ieuenctid fydd yn delio â phobl dan 18 oed a gyhuddir o gyflawni troseddau. Yn yr Alban, bydd unigolyn a gyhuddir o ymddygiad troseddol yn cael ei drin fel oedolyn pan fydd yn 16 oed, ac eithrio mewn gwrandawiadau plant.

(Gweler Adran 18 Y Gyfraith: 18.9.4)

Mewn achos Llys Ieuenctid ceir gwaharddiad awtomatig sy'n atal unrhyw beth a allai ddatgelu pwy yw tyst, diffynnydd neu unrhyw un arall dan 18 oed y mae a wnelo achos ag ef.

Mae hyn yn gwahardd rhoi enw, cyfeiriad neu ysgol, yn ogystal â defnyddio lluniau.

Mewn llysoedd eraill, nid oes dim cyfyngiad awtomatig ond gall y llys wneud gorchymyn i atal datgelu pwy yw plentyn sy'n rhan o'r achos.

Mae'r cyfyngiadau ar gyfer Llysoedd Ieuenctid hefyd yn berthnasol i achosion Cyfeirio/Panel Plant.

### Plant sy'n Gysylltiedig ag Achosion Sifil

18.9.3 Gellir gwrando achosion llys eraill sy'n ymwneud â phlant mewn llysoedd ynadon, Llysoedd Sirol neu'r Uchel Lys. Gallant ddelio ag achosion gofal, mabwysiadu neu warcheidwaeth.

### System Gwrandawiadau Plant

18.9.4 Mae'r system Gwrandawiadau Plant yn delio â phlant yn yr Alban. Ni cheir datgelu pwy yw unrhyw blentyn mewn gwrandawiad gerbron y Panel Plant neu wrandawiad cyfeirio cysylltiedig gerbron Siryf. Ni cheir darlledu dim byd yng nghyswllt unrhyw achos y mae Prif Newyddiadurwr yr Alban wedi cael unrhyw wybodaeth amdano neu unrhyw fater sy'n ymwneud â gwrandawiad plant sy'n debygol o ddatgelu unrhyw blentyn sy'n ymwneud â'r achos mewn unrhyw ffordd. Cofiwch y gallai hyn gynnwys mwy na dim ond dioddefwyr a thystion, ond plant sy'n frodyr a chwiorydd ac yn ffrindiau ac ati. Cofiwch hefyd y gall achosion Panel Plant a wrthwynebir fynd i Lys y Siryf. Os gwnânt, mae'r gwaharddiad eang hwn yn dal yn berthnasol iddynt.

At ddibenion gwrandawiadau plant, mae unigolyn yn dal yn blentyn nes y bydd yn 18 oed.

### Llysoedd sy'n Eistedd yn Breifat

18.9.5 Mewn unrhyw lysoedd sy'n eistedd yn breifat, fel rheol mae'n ddirmyg darlledu cyfrifon manwl o wrandawiadau sy'n ymwneud â phlant. Bydd hyn yn cynnwys achosion sy'n ymwneud â gwardiaeth, mabwysiadu a gwarcheidwaeth plentyn.

Mewn achosion gwardiaeth nid yw'n ddirmyg adrodd am orchymyn y llys neu grynodeb cywir ohono, oni bai fod y llys yn gwahardd hyn yn glir.

## Deddf Amddiffyn Plant

18.9.6 Mae'r Ddeddf Amddiffyn Plant (1978) yn berthnasol i achosion o blant yn cael eu ffilmio neu eu dangos at ddibenion pornograffig. Dan y ddeddf mae'n drosedd:

- tynnu ffotograff anweddus o blentyn dan 16 oed
- cynnwys plentyn dan 16 oed mewn ffotograff sydd ei hun yn anweddus hyd yn oed os nad yw rôl y plentyn yn y llun yn anweddus.

## 18.10 HAWLFRAINT A HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL ERAILL

18.10.1 Mae hawliau eiddo deallusol yn cynnwys:

- hawlfraint
- hawliau moesol
- hawliau perfformwyr
- nodau masnach
- patentau a dyluniadau
- hawliau i atal "honiadau" a thorri hyder.

Bydd cyfreithwyr Eiddo Deallusol yn yr Adran Ymgyfreitha ac Eiddo Deallusol yn rhoi cyngor ar amddiffyn ac ymelwa ar hawliau eiddo deallusol y BBC ac ar y risgiau tresmasu i'r BBC drwy ddefnyddio hawliau eiddo deallusol trydydd partïon. Bydd cyfreithwyr ymgyfreitha yn yr adran honno yn rhoi cyngor ar dresmasu ar hawliau eiddo deallusol.

18.10.2 Rhaid gofyn am gyngor gan y Grŵp Negodi Talent a Hawliau mewn Hawliau a Materion Busnes am gomisiynu neu glirio gwaith hawlfraint ar gyfer eu defnyddio yn rhaglenni'r BBC neu gontractio perfformwyr. At ei gilydd bydd y Grŵp Negodi Talent a Hawliau yn rhoi'r gwasanaeth contractio a dylid cysylltu â'r grŵp mewn da bryd.

Efallai y bydd amgylchiadau lle ceir gwaith â hawlfraint, lle nad yw'r hawliau wedi cael eu clirio, ond serch hynny mae modd ei gynnwys mewn rhaglen dan eithriadau delio teg neu hawlfraint arall. Dylai unrhyw un sydd angen cyngor ynglŷn â hyn gan Newyddion a Materion Cyfoes gysylltu â'r cyfreithwyr Eiddo Deallusol yn yr adran Ymgyfreitha ac Eiddo Deallusol. Dylai adrannau eraill gysylltu â'r Grŵp Negodi Talent a Hawliau.

18.10.3 Os bydd archwiliadau negyddol yn bwrw unrhyw amheuaeth ynghylch defnyddio teitl rhaglen benodol neu gynnyrch cysylltiedig, dylid cysylltu â titleclearance@bbc.co.uk.

## 18.11 Y DDEDDF DIOGELU DATA

18.11.1 Mae'r ddeddf hon yn diogelu preifatrwydd unigolion drwy reoleiddio sut caiff gwybodaeth bersonol, a elwir yn 'ddata personol' yn y ddeddf, ei chasglu a'i defnyddio. Mae'r ddeddf yn berthnasol i wybodaeth sy'n cael ei storio mewn systemau electronig neu bapur.

Mae 'data personol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y mae modd ei adnabod:

- drwy'r wybodaeth honno, neu
- drwy'r wybodaeth honno a gwybodaeth arall sydd gennym neu rydym yn debygol o'i chael.

Gall data personol gynnwys:

  - cyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn, a gesglir pan fydd pobl yn rhoi cynnig ar gystadlaethau, yn tanysgrifio i gylchlythyr neu'n dod yn rhan o gronfa ddata o gyfranwyr rhaglen
  - gwybodaeth am bobl a gasglwn ar gyfer ei defnyddio mewn cynnwys, gan gynnwys delweddau a recordiadau sain.

18.11.12 Mae'r ddeddf yn mynnu bod gwybodaeth bersonol yn:

- cael ei chasglu a'i defnyddio yn deg (h.y. ein bod yn egluro i bobl sut rydym yn bwriadu defnyddio eu gwybodaeth ac a fydd yn cael ei rhoi i unrhyw un arall yn y BBC neu'n allanol)
- briodol i'r defnydd y cytunwyd arno
- ddim yn ormodol (h.y. byddwn ond yn casglu ac yn defnyddio'r data sy'n angenrheidiol at ddibenion y BBC)
- cywir
- cael ei storio am y cyfnod byrraf posibl at y diben y cafodd ei chasglu
- cael ei storio a'i defnyddio'n ddiogel, er enghraifft, drwy ddefnyddio cofion bach neu CD ROMs wedi'u hamgryptio ac yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol pellach a gyhoeddir gan y BBC
- ei waredu'n ddiogel ar ôl gorffen ei defnyddio at y diben a bennwyd
- cael ei diogelu gan gontract, os caiff ei rhoi i un o asiantau'r BBC (er enghraifft, i ddosbarthu tocynnau neu i gynnal arolygon) neu i drydydd parti i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio at y diben y cytunodd y BBC arni yn unig. Mae

hefyd angen contract neu drefniadau arbennig eraill os bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon i drydydd parti neu asiant i'r BBC y tu allan i'r UE.

(Gweler Adran 7 Preifatrwydd: 7.4.45 - 7.4.54)

18.11.3 Mae deunyddiau a geir ac a ddefnyddir at ddibenion newyddiadurol, artistig neu lenyddol wedi'u heithrio petai cydymffurfio â'r ddeddf yn rhwystro'r dibenion hynny. Er enghraifft, nid oes arnom angen cydsyniad rhywun sy'n cael ei ffilmio'n cyflawni trosedd. Rhaid i gydymffurfio â'r Ddeddf fod yn anghydnaws â'r diben newyddiadurol, artistig neu lenyddol – nid yw anhwylustod yn ddigon. Cofiwch fod y gofyniad i storio a defnyddio data'n ddiogel yn berthnasol bob amser.

18.11.4 Mae gan bobl hawliau penodol dan y ddeddf yng nghyswllt gwybodaeth sy'n cael ei storio amdanynt a chânt wneud cais i'r BBC i gael copi o'r wybodaeth honno.

**Os oes unrhyw geisiadau ffurfiol am wybodaeth neu hysbysiadau i roi'r gorau i brosesu dan y ddeddf, rhaid cyfeirio'r rheini mewn da bryd at Bolisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad (IPC).**

18.11.5 Gall yr Adran Polisi Gwybodaeth a Chydymffurfiad neu'r Adran Cyfraith Masnachol a Rheoliadol roi cyngor ar ymholiadau ynghylch y ddeddf.

# ADRAN 19: ATEBOLRWYDD

**19.1 Egwyddorion**
**19.2 Ymddiriedolaeth y BBC**
**19.3 Ofcom**
**19.4 Adborth a Chwynion**

## 19.1 EGWYDDORION

19.1.1 Mae'r BBC yn atebol i'w gynulleidfaoedd. Mae eu hymddiriedaeth barhaus yn y BBC yn rhan hanfodol o'n perthynas â nhw. Byddwn yn gweithredu'n ddidwyll drwy ddelio â nhw'n deg ac yn agored.

19.1.2 Rydym yn agored drwy gydnabod camgymeriadau pan gânt eu gwneud a byddwn yn hybu diwylliant o barodrwydd i ddysgu o gamgymeriadau.

(Gweler Adran 3 Cywirdeb: 3.4.26)

19.1.3 Byddwn yn defnyddio presenoldeb y BBC ar-lein i ddarparu adroddiadau priodol i'r cyhoedd am y cwynion rydym wedi'u cael a'r camau rydym wedi'u cymryd.

## 19.2 YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

19.2.1 Ymddiriedolaeth y BBC yw corff sofran y BBC, mae ei hymddiriedolwyr annibynnol yn gweithredu er budd y cyhoedd. Ei nod yw sicrhau bod:

- y BBC yn aros yn annibynnol, gan wrthsefyll pwysau a dylanwad o unrhyw ffynhonnell
- rheolwyr y BBC yn rhoi gwerth i'r cyhoedd drwy ddarparu gwasanaethau nodedig o'r ansawdd uchaf i'r holl bobl ac i'r holl gymunedau ledled y Deyrnas Unedig
- y BBC yn cyfrannu at safle'r Deyrnas Unedig yn y byd, at yr economi ac at ddiwylliant Prydain.

19.2.2 Mae ei thasgau yn cynnwys:

- sicrhau bod y BBC yn diwallu ei genhadaeth i hysbysu, i addysgu ac i ddifyrru gydag uchelgais ac yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus a bennwyd yn ei Siarter Cyhoeddus
- sicrhau bod newyddiaduraeth y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac amhleidioldeb er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd
- sicrhau bod y BBC yn hyrwyddo ei enw da a'i werthoedd ym mhedwar ban byd
- penodi Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC
- sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol, a gweithredu fel y cyflafareddwr terfynol yng nghyswllt cwynion sydd wedi cael eu trin gan yr Uned Cwynion Golygyddol a chyfarwyddwyr adrannol

- comisiynu a chymeradwyo'r Canllawiau Golygyddol sydd, yn ogystal â darparu llawlyfr o'r arfer gorau ar gyfer y rheini sy'n gwneud cynnwys i'r BBC, sydd hefyd yn cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer penderfynu ar gwynion.

19.2.3 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cefnogaeth rhwydwaith eang o gyrff cynghori allanol i roi cyngor ar wasanaethau'r BBC ar gyfer gwahanol rannau o'r DU. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau Cynulleidfa Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarthau Lloegr. Mae'n comisiynu adolygiadau o agweddau ar weithgareddau'r BBC, a chaiff ei chefnogi gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n annibynnol ar reolwyr y BBC.

## 19.3 OFCOM

19.3.1 Mae gan Ofcom rai pwerau i reoleiddio gwasanaethau teledu a radio'r BBC a gyllidir gan ffi'r drwydded ac a anelir at gynulleidfaoedd yn y DU, ond nid y World Service sy'n cael cymorth grant. Mae Cod Darlledu Ofcom yn berthnasol yn y meysydd canlynol:

- Amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed
- Niwed a Thramgwydd
- Osgoi cymell troseddau neu anhrefn
- Delio â chynnwys crefyddol mewn ffordd gyfrifol
- Gwahardd defnyddio delweddau am gyfnodau byr iawn
- Tegwch
- Preifatrwydd.

Mae'r Canllawiau Golygyddol yn adlewyrchu darpariaethau Cod Darlledu Ofcom yn y meysydd hyn.

19.3.2 Ar ben hynny, rhaid i wasanaethau masnachol y BBC (boed hwy'n darlledu i'r DU, neu o'r DU i'n cynulleidfaoedd rhyngwladol) gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom yn ei gyfanrwydd.

(Gweler Atodiad 1: Cod Darlledu Ofcom)

19.3.3 Pan fydd Ofcom yn gweld bod adrannau preifatrwydd neu degwch ei god yn cael eu torri, gall fynnu bod y BBC yn darlledu datganiad o'i ganfyddiadau. Pan fydd Ofcom yn ystyried bod y Cod wedi cael ei dorri "*yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n fyrbwyll*", gall roi sancsiynau, sy'n amrywio o ofyniad i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiad i ddirwy o ddim mwy na £250,000.

## 19.4 ADBORTH A CHWYNION

19.4.1 Mae cynulleidfaoedd yn ganolog i bopeth a wna'r BBC. Mae adborth gan y gynulleidfa yn amhrisiadwy i ni ac yn ein helpu i wella ansawdd rhaglenni.

Ein hymrwymiad i'n cynulleidfaoedd yw sicrhau bod cwynion ac ymholiadau'n cael eu trin yn gyflym, yn gwrtais ac yn barchus.

19.4.2 Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi creu fframwaith cwynion, sy'n pennu'r arferion ar gyfer delio â chwynion:

- Dylid trin achwynwyr yn gwrtais a chyda pharch
- Cyhoeddir camau pob gweithdrefn ar wefan y BBC fel y bydd gwybodaeth am weithdrefnau cwynion yn glir ac ar gael yn rhwydd i'r achwynydd ac y bydd yn cael ei darparu ar gais
- Dylai achwynydd/aelod o'r gynulleidfa sy'n cysylltu â'r BBC yng Ngham 1 gyda sylw neu gŵyn gael gwybod yn yr ateb bod proses gwynion ar gael ac y gallai fod ffordd hefyd o gwyno y tu allan i'r BBC
- Dylai unrhyw ymateb i gŵyn hysbysu'r achwynydd ynghylch cam nesaf y broses ar gyfer mynd â chwyn yn bellach os yw'n berthnasol a sut i fynd ynghylch y gŵyn y tu allan i'r BBC os yw'n berthnasol
- Dylid ymateb i gwynion yn amserol
- Rhaid gwneud darpariaeth resymol i sicrhau bod gweithdrefnau cwynion yn rhwydd i bawb eu defnyddio. Rhoddir cymorth i'r rheini nad ydynt yn gallu gwneud eu cwyn ar y ffurf arferol a rhoddir manylion cysylltu
- Dylid rhagdybio y rhoddir adroddiad ar benderfyniadau gan y Weithrediaeth a'r Ymddiriedolaeth i gadarnhau cwyn. Mae eithriadau i hyn yn cynnwys pan fydd gwybodaeth yn cael ei darparu'n gyfrinachol neu pan fyddai cyhoeddi'n amhriodol, er enghraifft manylion cwyn golygyddol parti cyntaf pan dresmaswyd ar breifatrwydd neu gŵyn sy'n fasnachol sensitif. Bydd gwybodaeth am achwynwyr a chwynion yn ddienw oni chytunir fel arall drwy drafod â'r achwynydd
- Wrth ystyried cwynion ynghylch materion o sylwedd, rhaid i'r BBC ddarparu sail resymegol ddigonol i'w benderfyniad, gan roi'r rhesymu hwn yng nghyd-destun unrhyw ganllawiau perthnasol o eiddo'r BBC.

19.4.3 Yn ymarferol, Gwybodaeth BBC dylai fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwyn, er bod croeso i bobl gysylltu â rheolwyr golygyddol yn uniongyrchol. Rydym wedi ymrwymo i ymateb i gwynion cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheini sy'n cwyno.

19.4.4 Efallai na fyddai'r sawl sy'n cwyno'n fodlon ag ymateb gan Gwybodaeth BBC neu reolwr golygyddol. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â thorri'r safonau golygyddol yn y Canllawiau Golygyddol neu os yw'n ymwneud â darllediad, rhaglen neu gynnwys gwe penodol, gallant apelio i'r Uned Cwynion Golygyddol i ymchwilio i'r mater yn annibynnol.

19.4.5 Mae gan y BBC God Ymarfer ar gyfer delio â chwynion sy'n rhoi'r gweithdrefnau hyn yn fanylach.

## Uned Cwynion Golygyddol

19.4.6 Mae’r Uned Cwynion Golygyddol yn delio â chwynion difrifol am dorri safonau golygyddol y BBC yng nghyswllt rhaglenni neu eitemau cynnwys penodol. Mae’n delio â chwynion am unrhyw un o wasanaethau neu gynhyrchion y BBC pan fydd y BBC yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb golygyddol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau rhyngwladol, cyhoeddus a masnachol a chylchgronau â brand y BBC.

Os nad yw’r rheini sy’n cwyno yn fodlon ar ganfyddiad yr Uned Cwynion Golygyddol, cânt apelio gerbron Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC.

19.4.7 Pan fydd yr Uned Cwynion Golygyddol yn dod o hyd i achos difrifol o dorri safonau’r Canllawiau hyn, fel rheol caiff ei chanfyddiad ei gyhoeddi ar wefan cwynion y BBC. Gall hefyd gyfeirio’r BBC i ddarlledu ymddiheuriad neu gywiriad.

## Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC

19.4.8 Gall y Pwyllgor Safonau Golygyddol ystyried unrhyw fater sy’n codi cwestiynau ynghylch posibilrwydd torri safonau golygyddol y BBC, fel y'u hamlinellwyd yn y Canllawiau hyn, gan gynnwys apeliadau yn erbyn penderfyniadau a gweithredoedd yr Uned Cwynion Golygyddol a chyfarwyddwyr adrannol wrth ddelio â chwynion golygyddol. Fel rheol caiff holl ganfyddiadau’r Pwyllgor Safonau Golygyddol eu cyhoeddi ar wefan cwynion y BBC. Gall gyfeirio’r BBC i ddarlledu ymddiheuriad neu grynodeb o’i ganfyddiad.

## Cadw Cynnwys

19.4.9 Mae’r gyfraith yn mynnu bod y BBC yn cadw recordiadau o bob rhaglen a ddarlledir: teledu (gan gynnwys deunyddiau rhyngweithiol) am 90 diwrnod a radio am 42 diwrnod.

Polisi ar-lein y BBC yw ein bod yn gwneud ein gorau glas i gadw cofnod o’r 90 diwrnod diwethaf o allbwn testun.